

Cofnod y Trafodion

The Record of Proceedings

29/04/2015

Cynnwys Contents

[Datganiad gan y Llywydd](#)
[Statement by the Presiding Officer](#)

[1. Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth](#)
[1. Questions to the Minister for Finance and Government Business](#)

[2. Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus](#)
[2. Questions to the Minister for Public Services](#)

[3. Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar yr Ymchwiliad i Arferion Gorau o ran y Gyllideb Rhan 2—Cynllunio Gweithdrefnau Cyllidebol Newydd a'u Rhoi ar Waith](#)
[3. Debate on the Finance Committee's Report on Best Practice Budget Process Part 2—Planning and Implementing New Budget Procedures](#)

[4. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Cefn Gwlad Cymru](#)
[4. Welsh Conservatives Debate: Rural Wales](#)

[5. Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Twf Swyddi Cymru](#)
[5. Welsh Liberal Democrats Debate: Jobs Growth Wales](#)

[6. Cyfnod Pleidleisio](#)
[6. Voting Time](#)

[7. Dadl Fer](#)
[7. Short Debate](#)

Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.

The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.

13:30	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.	Statement by the Presiding Officer Bywgraffiad Biography Prynhawn da. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn awr yn eistedd.	Senedd.tv Fideo Video
13:31	Datganiad gan y Llywydd Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography Before we go to the agenda, it gives me great pleasure to announce that, in accordance with Standing Order 26.75, the Well-being of Future Generations (Wales) Bill and the Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Bill were today given Royal Assent.	Statement by the Presiding Officer Bywgraffiad Biography Cyn i ni fynd at yr agenda, mae'n rhoi pler mawr i mi gyhoeddi, yn unol â Rheol Sefydlog 26.75, fod Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'r Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) wedi cael Cydsyniad Brenhinol heddiw.	Senedd.tv Fideo Video
13:31	1. Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography We now move to the agenda, and the first item this afternoon is questions to the Minister for Finance and Government Business. Question 1 is Eluned Parrott.	1. Questions to the Minister for Finance and Government Business Bywgraffiad Biography Symudwn yn awr at yr agenda, a'r eitem gyntaf y prynhawn yma yw cwestiynau i Weinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth. Daw cwestiwn 1 gan Eluned Parrott.	Senedd.tv Fideo Video
	Cyllid yr UE	Cyllid yr UE	
13:31	Eluned Parrott Bywgraffiad Biography <i>1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y caiff cyllid yr UE ei ddefnyddio yng Nghymru? OAQ(4)0545(FIN)</i>	1. Questions to the Minister for Finance and Government Business Bywgraffiad Biography <i>1. Will the Minister make a statement regarding the use of EU funding in Wales? OAQ(4)0545(FIN)</i>	Senedd.tv Fideo Video

- 13:31 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business
 We have hit the ground running, with over £170 million of EU funds approved since the programmes were launched at the end of last year. Rydym wedi cael dechrau da, gyda thros £170 miliwn o arian yr UE wedi'u cymeradwyo ers lansio'r rhaglenni ddiwedd y llynedd.
- 13:31 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Thank you, Minister. Given that we've had already announcements about apprenticeships that will use the EU funds and, indeed, a tentative announcement about a future Jobs Growth Wales replacement scheme, when do you anticipate that you'll be in a position to tell us what the overarching strategy and the priorities are going to be for EU structural funds to enable us to reduce the gap between Wales's gross domestic product and the rest of the UK and Europe? Diolch yn fawr, Weinidog. Gan ein bod eisoes wedi cael cyhoeddiadau am brentisiaethau a fydd yn defnyddio cronfeydd yr UE ac yn wir, cyhoeddiad petrus am gynllun newydd yn lle Twf Swyddi Cymru yn y dyfodol, pa bryd y rhagwelwch y byddwch mewn sefyllfa i ddweud wrthym beth fydd y strategaeth drosfwaol a'r blaenoriaethau ar gyfer cronfeydd strwythurol yr UE er mwyn ein galluogi i leihau'r bwlch rhwng cynnyrch domestig gros Cymru a gweddill y DU ac Ewrop?
- 13:32 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 In terms of the structural funds phase that we're now entering, this will bring us a further £2 billion of EU funds, based on the operational plans, which were approved by the European Commission. We were the first nation in the UK to have the funds approved, based on extensive consultation with partners, to ensure that we have a strategic focus to get the outcomes, as you say, in terms of improved economic progress. O ran cyfnod y cronfeydd strwythurol rydym yn mynd iddo yn awr, bydd yn dod â £2 biliwn ychwanegol o gronfeydd yr UE, yn seiliedig ar y cynlluniau gweithredol, wedi'i gymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd. Ni oedd y wlad gyntaf yn y DU i gael yr arian wedi'i gymeradwyo, yn seiliedig ar ymgynghori helaeth â phartneriaid, i sicrhau bod gennym ffocws strategol i sicrhau'r canlyniadau, fel y dywedwch, o ran cynnydd economaidd gwell.
- 13:32 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Weinidog, rydym ni yn y gorllewin wedi elwa o arian Ewrop yn y pum mlynedd diwethaf. Enghreifftiau yw'r adeilad peirianeg a gwyddoniaeth enfawr newydd ym Mhrifysgol Abertawe a thŷ Llanelli. A ydych chi'n cytuno â fi y byddai gweld y Ceidwadwyr a UKIP gyda'i gilydd y flwyddyn nesaf yn her i'n lle ni yn Ewrop ac yn fygythiad i ddatblygiadau tebyg yng Nghymru? Minister, we in the west have benefited from European funding over the past five years. Examples include the huge new building for engineering and science at Swansea University and Llanelli House. Do you agree with me that seeing the Conservatives and UKIP together in power next week would actually put at risk our place in Europe and would be a threat to similar developments in Wales?
- 13:33 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Well, of course, EU membership clearly brings great benefit to the UK and Wales, and that's very strongly endorsed by business and communities such as Llanelli, with the refurbishment of Llanelli House, but also the whole of the town centre, and, indeed, the Swansea second campus building—generating jobs and offering opportunities for European citizens. Of course, these were opportunities that weren't here 20 years ago. Wel, wrth gwrs, mae aelodaeth o'r UE yn amlwg yn dod â budd mawr i'r DU a Chymru, ac mae hynny'n cael cefnogaeth gref iawn gan fusnesau a chymunedau fel Llanelli, gyda gwaith adnewyddu Plas Llanelli, ond hefyd canol y dref i gyd, ac yn wir, adeilad ail gampws Abertawe—gan greu swyddi a chynnig cyfleoedd i ddinasyddion Ewropeaidd. Wrth gwrs, dyma gyfleoedd nad oeddent i'w cael 20 mlynedd yn ôl.
- 13:33 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Minister, Powys has some of the lowest paid workers in the UK but doesn't qualify for Objective 1 European funding. While the EU and Welsh Government investment of £144 million for apprenticeships in west Wales and the Valleys is to be welcomed, Powys misses out in spite of being an area with a high proportion of small and medium-sized enterprises, which would have welcomed support for apprentices under this kind of scheme. I would welcome your view, Minister, on how the Welsh Government can support local economies in areas in Wales outside of the scope of EU Objective 1 funding. Weinidog, ym Mhowys y mae rhai o'r gweithwyr sy'n cael eu talu leiaf yn y DU ond nid yw'r ardal yn gymwys i gael cyllid Ewropeaidd Amcan 1. Er bod buddsoddiad yr UE a Llywodraeth Cymru o £144 miliwn ar gyfer prentisiaethau yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd i'w groesawu, mae Powys ar ei cholled er ei bod yn ardal â chyfran uchel o fusnesau bach a chanolig eu maint a fyddai wedi croesawu cefnogaeth i brentisiaid dan y math hwn o gynllun. Byddwn yn croesawu eich barn, Weinidog, ynglŷn â sut y gall Llywodraeth Cymru gefnogi economïau lleol mewn ardaloedd yng Nghymru y tu allan i gyrraedd cyllid Amcan 1 yr Undeb Ewropeaidd.

13:34 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Of course, Powys will benefit from the east Wales programmes, and we'll shortly be announcing the apprenticeship programmes for east Wales, benefiting, as I announced last week, with £144 million, 52,000 apprenticeships in west Wales and the Valleys. So, you'll soon get that announcement, but, also, Powys will benefit from other parts of the programme that have been approved by the European Commission, including the European social fund, and Jobs Growth Wales and every apprentice—every beneficiary of those programmes—will be backed throughout Wales by the Europeans social fund.

Wrth gwrs, bydd Powys yn elwa ar raglenni dwyrain Cymru, a byddwn yn cyhoeddi'r rhaglenni prentisiaeth ar gyfer dwyrain Cymru cyn bo hir, fel y cyhoeddais yr wythnos diwethaf, gyda £144 miliwn tuag at 52,000 o brentisiaethau yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd. Felly, yn fuan fe gewch y cyhoeddiad hwnnw, ond hefyd, bydd Powys yn elwa o rannau eraill o'r rhaglen sydd wedi cael eu cymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd, gan gynnwys cronfa gymdeithasol Ewrop, a Twf Swyddi Cymru a bydd pob prentis—pawb sy'n cael budd o'r rhaglenni hyn—yn cael cefnogaeth gan gronfa gymdeithasol Ewrop ar hyd a lled Cymru.

13:35 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, will your Government commission a report on the benefits that accrue to Wales from membership of the European Union, not just one that talks about the money we receive, but one that talks as well about the trading opportunities for our businesses within that union, and makes a robust case for Wales remaining a member of the European Union, whatever happens in Westminster after this election? And will you also use the opportunity of this new programme to properly evaluate the programmes that we have here in Wales, because there are some suspicions that we haven't made the best use of European money in the past, and this is an opportunity to really build on good practice?

Weinidog, a wnaiff eich Llywodraeth gomisiynu adroddiad ar y manteision a ddaw i Gymru o fod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd, nid adroddiad sy'n sôn yn unig am yr arian a dderbyniwn, ond un sy'n sôn yn ogystal am y cyfleoedd masnachu ar gyfer ein busnesau o fewn yr undeb, ac sy'n cyflwyno achos cadarn dros i Gymru barhau'n aelod o'r Undeb Ewropeaidd, beth bynnag sy'n digwydd yn San Steffan ar ôl yr etholiad hwn? Ac a wnewch chi hefyd ddefnyddio'r cyfle a ddaw yn sgil y rhaglen newydd i werthuso'r rhaglenni sydd gennym yma yng Nghymru yn iawn, gan fod peth amheuaeth nad ydym wedi gwneud y defnydd gorau o arian Ewropeaidd yn y gorffennol, a dyma gyfle i adeiladu'n sylweddol ar arfer da?

13:35 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Well, I very much welcome that question and contribution, Simon Thomas, because we have to make sure that, in this next phase, the projects are transformative, that they are strategic, and it is important that we show the impact, the outcome, on the economy. And, certainly, that's partly why I have appointed the EU funding ambassadors to help us make that case, and, last week, we had an excellent Forum Wales event, which, of course, was focusing on jobs and growth, and I very much welcome that contribution and that suggestion.

Wel, rwy'n croesawu'r cwestiwn a'r cyfraniad yn fawr, Simon Thomas, oherwydd mae'n rhaid inni wneud yn siŵr, yn y cyfnod nesaf hwn, fod y prosiectau'n drawsffurfiol ac yn strategol, ac mae'n bwysig ein bod yn dangos y canlyniad, yr effaith ar yr economi. Ac yn sicr, dyna'n rhannol pam y penodais lysgenhadon cyllid yr UE i'n helpu i wneud yr achos hwnnw, a'r wythnos diwethaf, cawsom ddigwyddiad Fforwm Cymru rhagorol, a ganolbwyntiai ar swyddi a thwf, wrth gwrs, ac rwy'n croesawu'r cyfraniad a'r awgrym hwnnw'n fawr iawn.

Pwerau Codi Treth Incwm

13:36 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

2. Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i baratoi at feddu ar yr hawl i godi treth incwm? OAQ(4)0551(FIN)

2. What steps is the Minister taking to prepare for obtaining income tax raising powers? OAQ(4)0551(FIN)

13:36 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn glir na ddylai Cymru symud tuag at ddatganoli treth incwm nes bydd ein pryderon am gyllid yn y tymor hir wedi cael eu datrys.

Until our longer term funding concerns have been resolved, the Welsh Government has been clear that Wales should not move towards income tax devolution.

13:36

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog am yr ateb, ac rwy'n deall y pwynt y mae'n ei wneud o ran y Llywodraeth. Serch hynny, rwyf yn meddwl ei bod hi'n briodol bod yna baratoi yn digwydd, drwy ddeddfwriaeth, drwy sefydlu trysorlys, ac ati, fel bod Cymru yn barod i feddu ar yr hawliau hyn. A ydy hi hefyd yn cytuno â mi, gyda'r datblygiadau sydd yn digwydd ar hyn o bryd yn yr Alban, ac sy'n debyg o ddigwydd yn ystod y blynyddoedd nesaf, o ran datganoli, nad oes angen refferendwm pellach i symud tuag am nid jest yr hawl i godi trethi, ond y cyfrifoldeb i fod yn gyfrifol am ran o'r gwariant rydych yn ei wneud fel Llywodraeth?

I'm grateful to the Minister for that response. I understand the point she makes on behalf of Government. However, I do think that it's appropriate that preparation should be made through legislation and through the establishment of a treasury and so on, so that Wales is ready to take on these powers. Does she also agree with me, given developments currently taking place in Scotland and which are likely to happen over the next few years in terms of devolution, that we don't need a further referendum to move towards not just the right to levy taxes, but the responsibility for some of the funding that you use as a Government?

13:37

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Well, of course, as you know, Simon Thomas, the Silk commission made the very important point that the problem of convergence in our block grant had to be resolved before we took on the risks associated with income tax. And, indeed, they also recommended—a cross-party commission, of course—that there should be a referendum, and that it should be a matter of the two Governments agreeing that we had a fairer funding settlement before we progressed with such a referendum to take the view of the people of Wales, in terms of taking this forward, in terms of income tax powers.

Wel, wrth gwrs, fel y gwyddoch, Simon Thomas, gwnaeth comisiwn Silk y pwynt pwysig iawn fod yn rhaid datrys problem cydgyfeirio yn ein grant bloc cyn i ni ysgwyddo'r risgiau sy'n gysylltiedig â threth incwm. Ac yn wir, roeddent hefyd yn argymhell—comisiwn trawsbleidiol wrth gwrs—y dylid cael refferendwm, ac y dylai fod yn fater o'r ddwy Lywodraeth yn cytuno ein bod yn cael setliad ariannu tecach cyn i ni symud ymlaen gyda refferendwm o'r fath i ofyn barn pobl Cymru, o ran bwrw ymlaen â hyn, o ran pwerau treth incwm.

13:37

Paul Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, Gerry Holtham recently submitted evidence to the Finance Committee, saying, and I quote:

Weinidog, yn ddiweddar cyflwynodd Gerry Holtham dystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid yn dweud:

'If income tax is devolved it would reinforce the need to get good terms from HMRC but provided these are obtained, the projected tax take would not justify creating an alternative collecting agency.'

'Pe bai treth incwm yn cael ei datganoli, byddai'n atgyferthu'r angen i gael telerau da gan Gyllid a Thollau EM, ond ar yr amod y ceid y rhain, ni fyddai'r hyn y rhagwelir ei godi drwy drethu yn cyfiawnhau creu asiantaeth gasglu amgen.'

In light of his comments, can you tell us what initial discussions you've had with HMRC on this matter?

Yng ngoleuni ei sylwadau, a allwch ddweud wrthym pa drafodaethau cychwynnol a gawsoch gyda Chyllid a Thollau EM ar y mater hwn?

13:38

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Well, of course, we are preparing, and our focus at the moment, in terms of the Wales Act 2014 and our expectations of that, is to prepare for the devolution of those taxes—stamp duty and land tax, which we are consulting on now, and landfill tax—and, as you know, we have completed the consultation on the tax collection and management operation, which, of course, we will be taking forward. I'm very pleased the Finance Committee is doing an inquiry on that. That, of course, has to be our focus at this stage, in terms of our responsibilities under the very welcome new Wales Act 2014.

Wel, wrth gwrs, rydym yn paratoi, a'n ffocws ar hyn o bryd, o ran Deddf Cymru 2014 a'n disgwyliadau ohoni, yw paratoi ar gyfer datganoli'r trethi hyn—treth stamp a threth dir, rydym yn ymgynghori arnynt yn awr, a threth dirlenwi—ac fel y gwyddoch, rydym wedi cwblhau'r ymgynghoriad ar y gwaith casglu a rheoli trethi, a byddwn yn bwrw ymlaen ar hynny wrth gwrs. Rwy'n falch iawn fod y Pwyllgor Cyllid yn cynnal ymchwiliad i hynny. Rhaid inni ganolbwyntio ar hynny ar hyn o bryd wrth gwrs, o ran ein cyfrifoldebau o dan y Ddeddf Cymru 2014 newydd, sydd i'w chroesawu'n fawr.

Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

Questions Without Notice from Party Spokespeople

- 13:39 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We now move to questions from the party spokespeople, and, first this afternoon is Plaid Cymru spokesperson, Rhodri Glyn Thomas.
- Symudwn yn awr at gwestiynau gan lefarwyr y pleidiau, ac yn gyntaf y prynhawn yma mae llyfarydd Plaid Cymru, Rhodri Glyn Thomas.
- 13:39 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Weinidog, rydym i gyd yn sylweddoli bod yna doriadau sylweddol wedi bod yng nghyllideb Llywodraeth Cymru, yn deillio o'r glymblaid yn San Steffan. Ond, roedd y penderfyniad i dorri yn sylweddol ar gyllideb addysg bellach yng Nghymru yn benderfyniad a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru. A ydy hyn yn golygu bod Llywodraeth Cymru yn ffafrio addysg academiaidd yn hytrach nag addysg alwedigaethol?
- Minister, we all realise that significant cuts have been made to the Welsh Government budget, arising from the coalition in Westminster. However, the decision to cut significantly the further education budget in Wales was a decision taken by Welsh Government. Does this mean that Welsh Government favours academic education rather than vocational education?
- 13:39 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, I'm grateful that you do start your question by recognising the situation we've been in, in terms of the cut by the UK Government—£1.4 billion in real terms since 2010. There have been clear financial challenges as a result of that, difficult decisions that we've had to make, and, of course, we've sought to protect all of our priority areas in making those difficult decisions. I am very encouraged by the response of many further education institutions, which are autonomous bodies, in the way that they are prioritising their provision in line with Welsh Government priorities. We are having close discussions with them, of course, about this. But I would also say that I'm very glad that I was able to respond to a bid for invest-to-save funding of £750,000, which we approved for the Cardiff and Vale College to modernise ways in which they can support their students.
- Wel, rwy'n ddiolchgar eich bod yn dechrau eich cwestiwn drwy gydnabod y sefyllfa rydym wedi bod ynddi, o ran y toriad gan Lywodraeth y DU—£1.4 biliwn mewn termau real ers 2010. Bu heriau ariannol dir o ganlyniad i hynny, penderfyniadau anodd y bu'n rhaid inni eu gwneud, ac wrth gwrs, rydym wedi ceisio diogelu ein holl feysydd blaenoriaeth wrth wneud y penderfyniadau anodd hynny. Cefais fy nghalonogi'n fawr gan ymateb llawer o sefydliadau addysg bellach, sy'n gyrrff annibynnol, o ran y ffordd y maent yn blaenoriaethu eu darpariaeth yn unol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Rydym yn cael trafodaethau manwl gyda hwy am hyn wrth gwrs. Ond hoffwn ddweud hefyd fy mod yn falch iawn o allu ymateb i gynnis am gyllid buddsoddi i arbed o £750,000, a gymeradwywyd gennym ar gyfer Coleg Caerdydd a'r Fro i foderneiddio ffyrdd y gallant gefnogi eu myfyrwyr.
- 13:40 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y cwestiwn sylfaenol oedd eich bod chi wedi dewis gwneud y toriadau yma i gyllideb addysg bellach, sef addysg alwedigaethol, yn hytrach na gwneud toriadau ar draws y bwrdd i addysg, os oedd rhaid gwneud y toriadau hynny. O ran torri ar gyllideb addysg bellach a thorri ar y cyfleoedd sydd gan bobl i gyrsiau o ran addysg alwedigaethol, a ydych chi'n dal i gredu mai dyna oedd y dewis cywir ac na fydd yna effaith andwyol ar yr economi o ganlyniad i hynny?
- The fundamental issue was that you have chosen to make these cuts to the further education budget, which is vocational education, rather than making the cuts across the board for the whole of education, if those cuts had to be made at all. In terms of cutting the further education budget and reducing the opportunities that people have to access vocational courses, do you still believe that that was the right option and that there won't be a detrimental effect on the economy as a result of that?

13:41

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Clearly, we do not choose to make cuts that are imposed on us by the UK coalition Government and that have been imposed on us over the last five years. We do not choose to make these cuts, but then we have to take responsibility. I know that if you were in the position, Rhodri Glyn Thomas, you would have to make decisions, and I know that you have been in that position in terms of ministerial responsibility when you were in the One Wales Government with us. It is clearly an issue where we have to look at what we protect. It is vital that we protect the 16 to 25-year-olds, but also look at ways in which many colleges are protecting the rest of the provision, particularly adult provision. We must also recognise that we're bringing in those European structural funds, which, of course, we've just been talking about, which are going to help FE colleges, particularly that all-important announcement of £144 million last week for apprenticeships, which, of course, will include benefits for FE colleges.

Yn amlwg, nid ydym yn dewis gwneud toriadau sy'n cael eu gorfodi arnom gan Lywodraeth glymblaid y DU ac sydd wedi eu gorfodi arnom dros y pum mlynedd diwethaf. Nid ydym yn dewis gwneud y toriadau hyn, ond mae'n rhaid i ni gymryd cyfrifoldeb. Pe baech yn y sefyllfa honno, Rhodri Glyn Thomas, gwn y byddai'n rhaid i chi wneud penderfyniadau, a gwn eich bod wedi bod yn y sefyllfa honno o ran cyfrifoldeb gweinidogol pan oeddech yn Llywodraeth Cymru'n Un gyda ni. Mae'n amlwg yn fater lle mae'n rhaid i ni edrych ar yr hyn rydym yn ei ddiogelu. Mae'n hanfodol ein bod yn diogelu rhai 16 i 25 mlwydd oed, ond yn edrych hefyd ar ffyrdd y mae llawer o golegau yn diogelu gweddill y ddarpariaeth, yn enwedig darpariaeth i oedolion. Rhaid i ni hefyd gydnabod ein bod yn dod â'r cronfeydd strwythurol Ewropeaidd hynny rydym newydd fod yn sôn amdanynt i mewn, a byddant yn helpu colegau addysg bellach, yn enwedig y cyhoeddiad hollbwysig ynghylch y £144 miliwn yr wythnos diwethaf ar gyfer prentisiaethau, a fydd yn cynnwys buddion i golegau addysg bellach wrth gwrs.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:42

Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwyf wedi derbyn o'r cychwyn, Weinidog, fod yna bwysau ariannol ar gyllideb Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n ffaith, ond, wedi dweud hynny, rydych chi wedi gwneud dewis—hwyrach fod y dewis wedi cael ei orfodi arnoch chi, ond rydych chi wedi gwneud dewis—ac mae'r dewis hwnnw wedi effeithio'n drwm ar gyllideb addysg bellach, hyd yn oed gyda'r ychwanegiadau yr ydych chi sôn amdanynt nhw o ran yr arian sydd ar gael ar gyfer prentisiaethau ac arian o Ewrop. Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith hyn o ran creu sgiliau yn y gweithlu yng Nghymru a'r effaith ar yr economi? A allwch chi rannu gyda ni'r prynhawn yma yr asesiadau hynny a oedd yn gefndir i'r penderfyniad yma a wnaethpwyd gan Lywodraeth Cymru?

I have acknowledged from the outset, Minister, that there is financial pressure on the Welsh Government budget. That much is true, but, having said that, you have made a choice—perhaps the choice was forced upon you, but you have made a choice—and that choice has had a significant impact on the further education budget, even with the additional funding that you have talked about in terms of the money for apprenticeships and European funding. What assessment has the Welsh Government made of the impact in terms of the development of skills within the workforce and the impact on the economy? Can you share with us the assessments that led to the decision made by the Welsh Government?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:43

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Clearly, in terms of our budget-setting process, we have to look at the adverse impact—and our impact assessment process is very robust—particularly, the impact on those people with protected characteristics; for example, in terms of equality, looking at the skills levels in terms of the economy and the workforce, and of course that focus, as I have said, on the 16 to 25-year-olds in terms of progression for our young people, and ensuring that they are going to acquire the skills and competence that we need for our economy and communities is vital.

Yn amlwg, o ran ein proses o osod y gyllideb, mae'n rhaid i ni edrych ar yr effaith niweidiol—ac mae ein proses asesu effaith yn gadarn iawn—yn enwedig yr effaith ar bobl â nodweddion gwarchoddedig; er enghraifft, o ran cydraddoldeb, mae'n hanfodol ein bod yn edrych ar y lefelau sgiliau mewn perthynas â'r economi a'r gweithlu, ac wrth gwrs y ffocws, fel y dywedais, ar rai 16 i 25 oed o ran sicrhau bod ein pobl ifanc yn gallu camu ymlaen, a sicrhau eu bod yn mynd i ennill y sgiliau a'r cymhwysedd sydd eu hangen arnom ar gyfer ein heconomi a'n cymunedau.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:43

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to the Welsh Conservative spokesperson, Nick Ramsay.

Symudwn yn awr at lefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Nick Ramsay.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:43

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch. Minister, the UK Labour Party leader, Ed Miliband, was very reticent yesterday to say that Wales would be saved from future funding cuts or, indeed, to guarantee a Barnett funding floor if there were a change in the UK Government next week. Do you agree with him?

Diolch. Weinidog, roedd arweinydd Plaid Lafur y DU, Ed Miliband, yn gyndyn iawn ddoe i ddweud y byddai Cymru yn cael ei hachub rhag toriadau cyllid yn y dyfodol, neu'n wir, i warantu cyllid gwaelodol Barnett pe bai Llywodraeth y DU yn newid wythnos nesaf. A ydych chi cytuno ag ef?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:44

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm sure that you do spend a lot of time reading manifestos, but I'm very surprised that you haven't looked, Nick Ramsay, at the Labour Party manifesto, which is absolutely clear in terms of the commitment to implementing a funding floor. Of course, that is something that I fully welcome as a result of our discussions at all levels with my colleagues in London.

Rwy'n siŵr eich bod yn treulio llawer o amser yn darllen manifestos, ond rwy'n synnu'n fawr nad ydych wedi edrych ar fanifesto'r Blaid Lafur, Nick Ramsay, sy'n gwbl gllir o ran yr ymrwymiad i weithredu cyllid gwaelodol. Wrth gwrs, mae hynny'n rhywbeth rwy'n ei groesawu'n llwyr o ganlyniad i'n trafodaethau ar bob lefel gyda fy nghydweithwyr yn Llundain.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:44

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As the First Minister pointed out yesterday, it's what leaders say on TV that matters and not what goes in manifestos, if you want to listen to what the First Minister said. I will say to you that I have read the manifestos avidly and I did notice that the leader of the opposition in the UK is offering to protect the health budget, but that was protected in England, in the UK, five years ago, but it wasn't by your Government here, was it? Looking back, was that a mistake?

Fel y dywedodd y Prif Weinidog ddoe, yr hyn y mae arweinwyr yn ei ddweud ar y teledu sy'n bwysig ac nid yr hyn sy'n mynd i mewn i'r manifestos, os ydych am wrando ar yr hyn a ddywedodd y Prif Weinidog. Rwy'n dweud wrthy ch fy mod wedi darllen y manifestos yn fanwl a sylwais fod arweinydd yr wrthblaid yn y DU yn cynnig diogelu'r gyllideb iechyd, ond cafodd honno ei diogelu yn Lloegr, yn y DU, bum mlynedd yn ôl, ond nid gan eich Llywodraeth yma. Wrth edrych yn ôl, a oedd hynny'n gangymeriad?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:45

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think the fact that I've put nearly £300 million more into the health service as a result of the needs of the health service and the fact that, actually, in Wales, health and social care is 5 per cent higher than in England and also meeting people earlier today to compare the impact of the improved funding for social care as well as health, will justify the decisions that we have made. But would you not welcome, as many people in Wales are doing as they go out to vote—and I know they'll be going out to vote when they read those manifestos—that extra £375 million that a Welsh Labour Government would benefit from as a result of a UK Labour Government, which will, I'm sure, come in on May 8?

Rwy'n meddwl y bydd y ffaith fy mod wedi rhoi bron i £300 miliwn yn fwy i mewn i'r gwasanaeth iechyd o ganlyniad i anghenion y gwasanaeth iechyd a'r ffaith fod iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru 5 y cant yn uwch mewn gwirionedd nag yn Lloegr, a chyfarfod hefyd â phobl yn gynharach heddiw i gymharu effaith y cynnydd yn y cyllid i ofal cymdeithasol yn ogystal ag iechyd, yn cyfiawnhau'r penderfyniadau rydym wedi'u gwneud. Ond oni fydddech yn croesawu, fel y mae llawer o bobl yng Nghymru yn ei wneud wrth iddynt fynd allan i bleidleisio—a gwn y byddant yn mynd allan i bleidleisio pan fyddant yn darllen y manifestos—y £375 miliwn ychwanegol y byddai Llywodraeth Lafur Cymru yn elwa ohono o ganlyniad i Lywodraeth Lafur yn y DU, a ddaw, rwy'n siŵr, ar 8 Mai?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:46

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, thank you, Minister. I do take that answer as a 'yes', and I certainly welcome the fact that the UK coalition Government did protect health funding in the UK five years ago. I assume that you regret that it wasn't protected by your Government here. The fact that we don't have a cancer treatment fund in Wales and the fact that we have longer waiting times are a clear indication, are they not, to people in Wales, Minister, that the health budget in Wales should've been protected? Is it not the case that it is the St David's Day agreement that does most to protect the interests of people living in Wales? It is the St David's Day agreement that promises to protect funding to Wales through a Barnett floor, and it is that agreement that people in Wales should look to when they cast their votes in the ballot box next week.

Wel, diolch i chi, Weinidog. Rwy'n cymryd mai ateb cadarnhaol oedd hwnnw, ac rwy'n sicr yn croesawu'r ffaith fod Llywodraeth glymblaid y DU wedi diogelu cyllid iechyd yn y DU bum mlynedd yn ôl. Rwy'n cymryd yn ganiataol eich bod yn gresynu na chafodd ei ddiogelu gan eich Llywodraeth yma. Mae'r ffaith nad oes gennym gronfa triniaeth cancer yng Nghymru a bod gennym amseroedd aros hwy yn arwydd clir, onid yw, i bobl yng Nghymru, Weinidog, y dylai'r gyllideb iechyd yng Nghymru fod wedi cael ei diogelu? Onid yw'n wir mai cytundeb Dydd Gŵyl Dewi sy'n gwneud fwyaf i ddiogelu buddiannau pobl sy'n byw yng Nghymru? Cytundeb Dydd Gŵyl Dewi sy'n addo diogelu cyllid i Gymru drwy gyllid gwaelodol Barnett, a'r cytundeb hwnnw y dylai pobl yng Nghymru ei ystyried pan fyddant yn bwrw eu pleidleisiau yn y blwch pleidleisio yr wythnos nesaf.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:46 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Nick Ramsay is obviously getting a bit desperate, like his leader is getting a bit desperate as well, in terms of the way things are moving in this election. I mean, yesterday, we had confirmation that the economic recovery is the slowest on record. If you look at the gross domestic product, it grew by only 0.3 per cent in the first quarter of 2015, compared with the fourth quarter of 2014—the lowest quarterly rate of growth since late 2012. Can I say, of course, the Welsh Conservatives had their own draft budget back in 2010—a 20 per cent cut to education if we delivered on that budget? [Interruption.]
- Mae'n amlwg fod Nick Ramsay yn anobeithio braidd, fel y mae ei arweinydd yn anobeithio braidd hefyd, ynglŷn â'r ffordd y mae pethau'n symud yn yr etholiad. Hynny yw, ddoe, cawsom gadarnhad mai'r adferiad economaidd yw'r arafaf a gofnodwyd erioed. Os edrychwch ar y cynnyrch domestig gros, ni thyfodd fwy na 0.3 y cant yn unig yn chwarter cyntaf 2015, o'i gymharu â phedwerydd chwarter 2014—y gyfradd twf chwarterol isaf ers diwedd 2012. A gaf fi ddweud, wrth gwrs, fod gan y Ceidwadwyr Cymreig eu cyllideb ddrafft eu hunain yn ôl yn 2010—toriad o 20 y cant i addysg pe bai'r gyllideb honno wedi ei chyflwyno? [Torri ar draws.]
- 13:47 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Can I just remind Members that Plenary is not the place to campaign for the UK general election. While I appreciate it's a great temptation to Members, it should not distract Members from their focus on issues that are the Assembly and the Welsh Government's responsibility. That goes for Members and Ministers. So, please can we try and focus on what's happening here? [Interruption.] I don't need any comments on it; I'm just telling you. I would like you to focus on what's going on here.
- A gaf fi atgoffa'r Aelodau nad Cyfarfod Llawn yw'r lle i ymgyrchu ar gyfer etholiad cyffredinol y DU? Er fy mod yn sylweddoli ei bod yn demtasiwn fawr i'r Aelodau, ni ddylai dynnu sylw Aelodau oddi ar eu ffocws ar faterion sy'n gyfrifoldeb i'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys Aelodau a Gweinidogion. Felly, os gwelwch yn dda, a gawn ni geisio canolbwyntio ar yr hyn sy'n digwydd yma? [Torri ar draws.] Nid wyf angen unrhyw sylwadau ar hynny; rwyf ond yn dweud wrthyich. Hoffwn i chi ganolbwyntio ar yr hyn sy'n digwydd yma.
- We now move to the Welsh Liberal Democrats' spokesperson, Peter Black, who I'm sure will concentrate on Welsh issues.
- Symudwn yn awr at lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black, ac rwy'n siŵr y bydd yn canolbwyntio ar faterion Cymreig.
- 13:48 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I'm sure you can expect nothing less, Presiding Officer. Minister, what assessments has the Welsh Government's procurement board made of the amount of public sector expenditure that has been spent on contracts with Welsh companies?
- Rwy'n siŵr na ddylech ddisgwyl dim llai, Lywydd. Weinidog, pa asesiadau y mae bwrdd caffael Llywodraeth Cymru wedi'u gwneud o swm gwariant y sector cyhoeddus a wariwyd ar gontractau gyda chwmnïau o Gymru?
- 13:48 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, of course, it's important that we look at that assessment, and it has increased up to 55 per cent from 35 per cent when we looked at it two or three years ago.
- Wel, wrth gwrs, mae'n bwysig ein bod yn edrych ar yr asesiad hwnnw, ac mae wedi cynyddu i 55 y cant o 35 y cant pan edrychasom arno ddwy neu dair blynedd yn ôl.
- 13:48 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Right. So, as I understand your answer, Minister, the last assessment you made was two or three years ago. Can I ask you, given the fact you have a very prominent procurement board, what work you're doing to ensure that that percentage increases, and how are you making sure that public sector contracts are being designed so that Welsh companies are able to bid for them and are not being excluded by the fact those contracts are too large?
- Iawn. Felly, os wyf yn deall eich ateb, Weinidog, roedd yr asesiad diwethaf a wnaethoch ddwy neu dair blynedd yn ôl. A gaf fi ofyn i chi, o ystyried bod gennych fwrdd caffael amlwg iawn, pa waith sy'n cael ei wneud gennych i sicrhau bod y ganran yn cynyddu, a sut y byddwch yn gwneud yn siŵr fod contractau sector cyhoeddus yn cael eu cynllunio fel bod modd i gwmnïau Cymru gyflwyno cynnig amdanynt ac nad ydynt yn cael eu heithrio gan y ffaith fod y contractau hynny'n rhy fawr?

13:48	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>I will be announcing a refreshed Wales procurement policy statement very shortly. It does reflect on—and I think you will welcome this, Peter Black—the opportunities that are presented by the new EU procurement directive. So, that will help maximise the impact for business in Wales. We will also look at ways in which we can improve access to contracts from smaller, local contractors. Of course, the SQuID approach—supplier qualification information database—is very important as far as that’s concerned. Also, the work that we’re doing to develop project bank accounts, which we’re developing particularly with the specialist engineering contractors’ group in Wales, also helps in terms of supply chain payment and in helping small and medium-sized enterprises.</p>	<p>Byddaf yn cyhoeddi datganiad polisi caffael newydd ar gyfer Cymru yn fuan iawn. Mae’n rhoi sylw—ac rwy’n meddwl y byddwch yn croesawu hyn, Peter Black—i’r cyfleoedd sy’n cael eu cynnig gan gyfarwydddeb caffael newydd yr UE. Felly, bydd hynny’n helpu i sicrhau’r effaith orau i fusnesau yng Nghymru. Byddwn hefyd yn edrych ar ffyrdd o wella mynediad contractwyr lleol llai o faint at gontractau. Wrth gwrs, mae’r dull SQuID—cronfa ddata gwybodaeth am gymwysterau cyflenwyr—yn bwysig iawn o ran hynny. Hefyd, mae’r gwaith a wnawn i ddatblygu cyfrifon banc prosiectau, sy’n cael eu datblygu’n benodol gennym gyda’r grŵp contractwyr peirianeg arbenigol yng Nghymru, yn helpu o ran taliadau’r gadwyn gyflenwi ac ar gyfer cynorthwyo busnesau bach a chanolig eu maint.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:49	<p>Peter Black Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you for that answer, Minister. I notice that the entire membership of your procurement board is made up of people from the public sector. What engagement does this procurement board have with the private sector to try to understand their needs in terms of procurement, and how the public sector can best ensure that the Welsh pound is spent in Wales?</p>	<p>Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Sylwaf fod holl aelodau eich bwrdd caffael yn bobl o’r sector cyhoeddus. Pa ymgysylltiad sydd gan y bwrdd caffael â’r sector preifat i geisio deall eu hanghenion o ran caffael, a sut y gall y sector cyhoeddus sicrhau bod y bunt Gymreig yn cael ei gwario yng Nghymru?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:49	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>I’ve already mentioned engagement with contractors’ groups like the specialist engineering contractors’ group, and the Construction Industry Training Board whom I recently met as well, who were very engaged in advising us in terms of the impact on the private sector. Not only in terms of the procurement board, which is primarily led by the public sector, but their engagement is very clear in terms of consultation with those organisations representing business such as the Confederation of British Industry and the Federation of Small Businesses.</p>	<p>Rwyf eisoes wedi crybwyll ymgysylltiad â grwpiau contractwyr fel y grŵp contractwyr peirianeg arbenigol, a Bwrdd Hyfforddi’r Diwydiant Adeiladu y cyfarfûm â hwy’n ddiweddar hefyd, a aeth ati’n frwd i’n cynghori ynghylch yr effaith ar y sector preifat. Nid yn unig o ran y bwrdd caffael, sy’n cael ei arwain yn bennaf gan y sector cyhoeddus, ond mae eu hymwneud yn glir iawn o ran ymgynghori â sefydliadau sy’n cynrychioli busnesau megis Cydffederasiwn Diwydiant Prydain a’r Ffederasiwn Busnesau Bach.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:50	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>We now move back to questions on the paper, and question 3 is from Sandy Mewies.</p>	<p>Symudwn yn ôl yn awr at y cwestiynau ar y papur, a daw cwestiwn 3 gan Sandy Mewies.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Ymweliad â Brwsel		Visit to Brussels	
13:50	<p>Sandy Mewies Bywgraffiad Biography</p> <p><i>3. A wnaiff y Gweinidog roi’r wybodaeth ddiweddaraf am y gweithgareddau yr ymgymerodd â hwy yn ystod ei hymweliad â Brwsel fis diwethaf? OAQ(4)0549(FIN)</i></p>	<p><i>3. Will the Minister provide an update on the activities she undertook during her visit to Brussels last month? OAQ(4)0549(FIN)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:50	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>I met with a member of Commissioner Katainen’s cabinet to discuss the Juncker package, DG Walter Deffaa, Director-General for Regional and Urban Policy, chaired a meeting of all partners at Wales House and welcomed around 300 guests to our annual St David’s Day reception.</p>	<p>Cyfarfûm ag aelod o gabinet Comisiynydd Katainen i drafod y pecyn Juncker, DG Walter Deffaa, Cyfarwyddwr Cyffredinol Polisi Trefol Rhanbarthol, cadeirio cyfarfod o’r holl bartneriaid yn Nhŷ Cymru a chroesawu oddeutu 300 o westeion i’n derbynnydd Dydd Gŵyl Dewi blynyddol.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

13:51	<p>Sandy Mewies Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you, Minister. It is a fact that much of our trade and investment comes from the EU. Opportunities for co-operation and research reach across the continent as a result of the single market. Do you, Minister, agree it's clear that Welsh businesses, trainees and communities benefit significantly from the UK's membership of the EU?</p>	<p>Diolch yn fawr, Weinidog. Mae'n wir fod llawer o'n masnach a'n buddsoddiadau yn dod o'r UE. Mae cyfleoedd ar gyfer cydweithredu ac ymchwil yn ymestyn ar draws y cyfandir o ganlyniad i'r farchnad sengl. A ydych chi, Weinidog, yn cytuno ei bod hi'n amlwg fod busnesau Cymru, hyfforddeion a chymunedau yn elwa'n sylweddol o aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:51	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>Yes. I thank Sandy Mewies for that question, and I think one way in which we can illustrate that very clearly is the total value of Welsh exports to the EU last year, which was £5.6 billion with some 150,000 jobs in Wales depending on that trade.</p>	<p>Ydw. Diolch i Sandy Mewies am y cwestiwn, ac rwy'n credu mai un ffordd y gallwn ddangos hynny'n glir iawn yw cyfanswm gwerth allforion o Gymru i'r UE y llynedd, a oedd yn £5.6 miliwn gydag oddeutu 150,000 o swyddi yng Nghymru yn dibynnu ar y fasnach honno.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:51	<p>William Graham Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, you've highlighted over recent months how over £2 billion of EU funds will be given to Wales over the next five years, and that your Government will spend this to support and underpin sustainable growth. How will this be monitored and progress reported?</p>	<p>Weinidog, rydych wedi tynnu sylw dros y misoedd diwethaf at y modd y bydd dros £2 biliwn o gronfeydd yr UE yn cael ei roi i Gymru dros y pum mlynedd nesaf, a bydd eich Llywodraeth yn gwario hwn i gefnogi a chynnal twf cynaliadwy. Sut y caiff ei fonitro ac ym mha fodd yr adroddir ar gynnydd?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:51	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>As I said in answer to earlier questions, the £2 billion for the operational programmes was approved by the European Commission, based on the programmes that we developed in consultation with the public, private and third sectors, with clear expectations of evaluation and monitoring, which are laid down by the European Commission.</p>	<p>Fel y dywedais wrth ateb cwestiynau cynharach, cafodd y £2 biliwn ar gyfer y rhaglenni gweithredol ei gymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd, yn seiliedig ar y rhaglenni a ddatblygwyd gennym drwy ymgynghoriad â'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, gyda disgwyliadau clir ar gyfer gwerthuso a monitro wedi'u gosod gan y Comisiwn Ewropeaidd.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Trethi Datganoledig		Devolved Taxes	
13:52	<p>Julie Morgan Bywgraffiad Biography</p> <p><i>4. Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith unrhyw gyllideb Llywodraeth y DU yn y dyfodol ar weithredu trethi datganoledig? OAQ(4)0553(FIN)</i></p>	<p><i>4. What assessment has the Minister made of the impact of any future UK Government budget on the operation of devolved taxes? OAQ(4)0553(FIN)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:52	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>While it will be important to consider the impact of decisions upon taxes in England that are devolved to Wales, I've been clear that our approach to tax policy will support our priorities to make taxes fair and to support growth and jobs.</p>	<p>Er y bydd yn bwysig ystyried effaith penderfyniadau ar drethi yn Lloegr a ddatganolwyd i Gymru, rwyf wedi bod yn glir y bydd ein hymagwedd tuag at bolisi trethi yn cefnogi ein blaenoriaethau i wneud trethi'n deg ac i gefnogi twf a swyddi.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:52	<p>Julie Morgan Bywgraffiad Biography</p> <p>In the event of the introduction of a mansion tax on mansions worth more than £2 million, what assessment has the Minister made about the impact on the finances of the Welsh Government?</p>	<p>Os cyflwynir treth plastai ar blastai sy'n werth mwy na £2 filiwn, pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r effaith ar gyllid Llywodraeth Cymru?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

- 13:53 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank Julie Morgan for that question. If you look at a new UK tax that raised £1.2 billion, it would provide welcome additional resources, for example for the NHS. The Welsh share of that additional investment would be around £60 million.
- Diolch i Julie Morgan am y cwestiwn. Os edrychwch ar dreth newydd yn y DU a gododd £1.2 biliwn, byddai'n darparu adnoddau ychwanegol i'w croesawu, er enghraifft ar gyfer y GIG. Byddai cyfran Cymru o'r buddsoddiad ychwanegol tua £60 miliwn.
- 13:53 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, regarding the ability to raise taxes and the effect on UK budget decisions, one of the big things that's going to happen in the next couple of years is the discussions around the Severn bridge and how that might be paid for. Do you envisage that the Welsh Government, if it were to take responsibility for the maintenance of the Severn bridge, would have to use some form of special taxation at its disposal to maintain the bridges, given that I think the First Minister last week talked of a potential liability of £100 million being incurred by the Welsh Government if the bridges came over to your responsibility?
- Weinidog, o ran y gallu i godi trethi a'r effaith ar benderfyniadau cyllideb y DU, un o'r pethau mawr sy'n mynd i ddigwydd yn ystod y ddwy flynedd nesaf yw'r trafodaethau ynghylch pont Hafren a sut y gellid talu amdani. A ydych yn rhagweld y byddai'n rhaid i Lywodraeth Cymru, pe bai'n cymryd cyfrifoldeb am gynnal a chadw pont Hafren, ddefnyddio rhyw ffurf ar drethiant arbennig a fo ar gael iddi i gynnal y pontydd, o ystyried bod y Prif Weinidog wedi siarad yr wythnos diwethaf rwy'n credu am rwymedigaeth bosibl o £100 miliwn ar Lywodraeth Cymru os trosglwyddir y pontydd i'ch cyfrifoldeb chi?
- 13:54 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
- I think the important point at the moment is that the Minister for Economy, Science and Transport is working closely with the Department for Transport on the future of the Severn crossings, including trying to establish the maintenance costs of the bridges. The UK Government needs to narrow their estimate, and that is something that you need to be aware of for ongoing maintenance, for us to be in a position in terms of the level we would set, for example, for the tolls if they were devolved to the Welsh Government. So, there is a lot of work to be done, and is being undertaken at this stage, in preparation for that time, when we will then, hopefully, assume responsibility.
- Rwy'n meddwl mai'r pwynt pwysig ar hyn o bryd yw bod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn gweithio'n agos â'r Adran Drafnidiaeth ar ddyfodol pontydd Hafren, gan gynnwys ceisio sefydlu costau cynnal a chadw'r pontydd. Mae angen i Lywodraeth y DU culhau eu hamcangyfrif, ac mae hynny'n rhywbeth y mae angen i chi fod yn ymwybodol ohono ar gyfer gwaith cynnal a chadw parhaus, er mwyn i ni fod mewn sefyllfa o ran y lefel y byddem yn ei osod, er enghraifft, ar gyfer y tollau os cânt eu datganoli i Lywodraeth Cymru. Felly, mae llawer o waith i'w wneud, ac yn cael ei wneud ar hyn o bryd, i baratoi ar gyfer yr adeg pan fyddwn, gobeithio, yn cymryd cyfrifoldeb.
- 13:54 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
- Weinidog, yng nghyd-destun y gallu i fuddsoddi mewn projectau, a fydd y gallu hwnnw'n cael ei gynyddu yn sylweddol gyda'r gallu i godi trethi? A ydy hynny'n rhywbeth yr ydych chi'n edrych arno fe fel cyfle i Lywodraeth Cymru fuddsoddi mwyfwy i mewn i projectau cyfalaf o'r fath?
- Minister, in the context of the ability to invest in projects, will that be significantly enhanced with the ability to levy taxes? Is that something that you are looking at as an opportunity for the Welsh Government to increasingly invest in capital projects of this kind?
- 13:55 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, I think it is important, of course. It was a very key objective of the Silk commission and then leading through to the Wales Act 2014 that we should have the power to borrow. We have secured that power to borrow in order to invest in our infrastructure, and of course we have the devolution of the smaller taxes to enable us to start on that borrowing power. This is a key way forward in terms of financing our Wales infrastructure investment plan.
- Wel, rwy'n meddwl ei fod yn bwysig, wrth gwrs. Un o amcanion allweddol iawn comisiwn Silk, a arweiniodd drwodd wedyn i Ddeddf Cymru 2014 yw y dylem gael pŵer i fenthycu. Rydym wedi sicrhau'r pŵer hwnnw i fenthycu er mwyn buddsoddi yn ein seilwaith, ac wrth gwrs mae gennym ddatganoli trethi llai i'n galluogi i ddechrau ar y pŵer benthyca. Mae hon yn ffordd allweddol ymlaen o ran ariannu'r cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru.
- Rheolau Caffael y Sector Cyhoeddus** **Public Sector Procurement Rules**
- 13:55 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
5. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda busnesau ynghylch rheolau caffael y sector cyhoeddus? OAQ(4)0541(FIN)
5. What discussions has the Minister had with businesses regarding public sector procurement rules? OAQ(4)0541(FIN)

- 13:55 **Jane Hutt** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- I regularly meet with businesses from within and beyond Wales, and this dialogue does provide invaluable feedback, helping to inform development of public procurement policy, and enabling our suppliers to compete for and win our contracts.
- Rwy'n cyfarfod yn rheolaidd â busnesau o Gymru a thu hwnt, ac mae'r ddeialog hon yn darparu adborth gwerthfawr, gan helpu i lywio datblygiad polisi caffael cyhoeddus, a galluogi ein cyflenwyr i gystadlu am ein contractau a'u hennill.
- 13:56 **Peter Black** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Thank you for that answer, Minister. In your answer to me a few minutes ago, you said that the public sector procurement board run by the Welsh Government is primarily led by the public sector. In fact, there are 13 members of that board, all of whom are in the public sector. Have you considered the advantages of actually including the business sector in that board so that we can learn more in terms of how we can best design procurement to advantage Welsh companies?
- Diolch ichi am eich ateb, Weinidog. Yn eich ateb i mi ychydig funudau yn ôl, fe ddywedoch fod bwrdd caffael y sector cyhoeddus sy'n cael ei redeg gan Lywodraeth Cymru yn cael ei arwain yn bennaf gan y sector cyhoeddus. Yn wir, mae 13 aelod o'r bwrdd, a phob un ohonynt yn y sector cyhoeddus. A ydych wedi ystyried manteision cynnwys y sector busnes ar y bwrdd er mwyn inni allu dysgu mwy o ran sut y gallwn lunio proses gaffael sy'n fanteisiol i gwmnïau o Gymru?
- 13:56 **Jane Hutt** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Well, I think that's an interesting proposal, which we can look at, but, of course, there are many ways, as I said in answer to your question earlier on, in which we do engage with the private sector. Only recently, but on a regular basis, I reported to the council for economic renewal, which is chaired by the First Minister with the Minister for Economy, Science and Transport, which of course includes a full representation of the private sector. But I think it's actually working with those groups, like the specialist engineering contractors' group, where we do regularly then move forward in terms of taking on their proposals, such as the project bank account policy.
- Wel, rwy'n credu bod hwnnw'n gynnig diddorol y gallwn edrych arno, ond wrth gwrs, rydym yn mynd ati i ymgysylltu â'r sector preifat mewn llawer o ffyrdd, fel y dywedais wrth ateb eich cwestiwn yn gynharach. Yn ddiweddar, ond ar sail reolaidd, cyflwynais adroddiad i gyngor adnewyddu'r economi, sy'n cael ei gadeirio gan y Prif Weinidog gyda Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, ac sydd wrth gwrs yn cynnwys cynrychiolaeth lawn o'r sector preifat. Ond rwy'n credu ei fod yn gweithio gyda'r grwpiau hynny mewn gwirionedd, megis y grŵp contractwyr peirianeg arbenigol, lle rydym yn gyson yn symud ymlaen o ran mabwysiadu eu cynigion, megis y polisi ar gyfrif banc prosiectau.
- 13:57 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Minister, of course, the Welsh Government does need to break down the barriers preventing our local SMEs from submitting bids for public sector contracts. However, all contracts procured by our public bodies using private contractors must have transparency and accountability around the whole process of securing contracts, and I think you're very well aware of issues I've had to raise with you where that has not been the case. Minister, how do you intend to measure this in order to ensure that taxpayers' money is spent efficiently, wisely and with absolute transparency?
- Weinidog, wrth gwrs, mae angen i Lywodraeth Cymru gael gwared ar y rhwystrau sy'n atal ein busnesau bach a chanolig lleol rhag cyflwyno ceisiadau am contractau'r sector cyhoeddus. Fodd bynnag, rhaid i bob contract sy'n cael ei gaffael gan ein cyrff cyhoeddus gan ddefnyddio contractwyr preifat fod yn dryloyw ac yn atebol o ran y broses gyfan o sicrhau contractau, ac rwy'n meddwl eich bod yn ymwybodol iawn o faterion y bu'n rhaid i mi eu dwyn i'ch sylw lle nad yw hynny wedi bod yn wir. Weinidog, sut y bwriadwch fesur hyn er mwyn sicrhau bod arian trethdalwyr yn cael ei wario'n effeithlon, yn ddoeth a chyda thryloywder llwyr?
- 13:57 **Jane Hutt** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Clearly, the programme of fitness checks, which we've implemented, including not only all local authorities but now health boards, further and higher education and the fire service, is delivering a level of transparency in terms of the implementation of our Wales economic policy statement.
- Yn amlwg, mae'r rhaglen o wiriadau ffitrwydd a roddwyd ar waith gennym, gan gynnwys nid yn unig pob awdurdod lleol ond bellach y byrddau iechyd, addysg bellach ac uwch a'r gwasanaeth tân, yn sicrhau lefel o dryloywder o ran gweithredu ein datganiad polisi economaidd ar gyfer Cymru.

13:58 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Weinidog, rwy'n siŵr eich bod chi, fel nifer ohonom ni, yn ymwybodol o lwyddiant cyngor sir Gwynedd, sydd wedi caffael 100 y cant o ddarpariaeth ciniawau ysgol y sir gan fusnesau naill ai yng Ngwynedd neu mewn siroedd sy'n ffinio â hi. A wneuch chi amlygu, fel Gweinidog, yr enghraifft odidog honno i awdurdodau eraill Cymru, fel esiampl iddyn nhw o lwyddiant yn y maes yma a'r arweiniad ardderchog sy'n dod o gyfeiriad cyngor sir Gwynedd?

Minister, I'm sure that you, like many of us, are aware of the success of Gwynedd county council, which has procured 100 per cent of the county's school lunch provision from businesses based either in Gwynedd or in counties that share a border with Gwynedd. Will you highlight, as Minister, that wonderful example to Wales's other authorities as an exemplar to them of the success in this area and the excellent leadership coming from Gwynedd county council?

13:58 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Well, I certainly do welcome that. It is a success story, and they are an example, and I'm sure that that will be shared as a result of the way in which we spread good practice in Wales in terms of procurement policy.

Wel, rwy'n sicr yn croesawu hynny. Mae'n enghraifft o lwyddiant, ac maent yn esiampl, ac rwy'n siŵr y bydd hynny'n cael ei rannu o ganlyniad i'r ffordd rydym yn lleadaenu arferion da yng Nghymru o ran polisi caffael.

Buddsoddi mewn Prosiectau Cyfalaf

Investment in Capital Projects

13:58 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

6. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch buddsoddi mewn prosiectau cyfalaf? OAQ(4)0555(FIN)

6. What discussions has the Minister had regarding investment in capital projects? OAQ(4)0555(FIN)

13:59 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

I have regular discussions with a range of people regarding investments in capital projects across Wales.

Rwy'n cael trafodaethau rheolaidd gydag amrywiaeth o bobl mewn perthynas â buddsoddi mewn prosiectau cyfalaf ledled Cymru.

13:59 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Wel, a gaf i eich cyfeirio chi, Weinidog, at un project penodol, sef project ynni'r llanw a lagŵn Abertawe? Yng nghyd-destun y project hwnnw, mae angen cyfalaf o sawl cyfeiriad. Fe gawsom ni ddatganiad gan y Canghellor yn ei gyllideb a oedd yn agor y drws i'r project yma ond heb roi unrhyw sicrwydd ariannol nac unrhyw gefnogaeth ariannol, ac wrth gwrs, mae angen cefnogaeth oddi wrth Ewrop a Banc Buddsoddi Ewrop. A ydych chi'n bwriadu cael trafodaethau gyda San Steffan ac Ewrop ynglŷn â'r buddsoddiad hollbwysig yma yng Nghymru?

Well, may I refer you, Minister, to one specific project, namely the tidal energy and lagoon project in Swansea? In the context of that project, capital is required from a number of different directions. We had a statement from the Chancellor in his budget, which opened the door to this project without giving any financial assurances or any financial support, and, of course, there needs to be support from Europe and the European Investment Bank. Do you intend to conduct negotiations with Westminster and with Europe on this crucial investment in Wales?

13:59 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

We are fully engaged in discussions and engaged with the tidal lagoons project. I very much welcome the announcement in the budget, but we had already provided some financial transactions funding towards the Swansea bay tidal lagoon project. We have a cross-departmental officials group, set up by the Permanent Secretary some time ago, in terms of tidal lagoons. But I have to say, also, we put it in as one of the candidates for the Juncker package for European structural investment.

Rydym yn cymryd rhan lawn mewn trafodaethau ac yn ymwneud â'r prosiect morlynnoedd llanw. Rwy'n croesawu'r cyhoeddiad yn y gyllideb yn fawr, ond roeddem eisoes wedi darparu rhywfaint o gyllid trafodiadau ariannol tuag at brosiect morlynnoedd llanw bae Abertawe. Mae gennym grŵp o swyddogion trawsadrannol, a sefydlwyd gan yr Ysgrifennydd Parhaol beth amser yn ôl, o ran y morlynnoedd llanw. Ond rhaid i mi ddweud hefyd ein bod wedi ei roi i mewn fel un o'r ceisiadau pecyn Juncker ar gyfer buddsoddiadau strwythurol Ewropeaidd.

14:00	Christine Chapman Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	Minister, I recently visited the new Abercynon community school, which has been financed partly by Welsh Government infrastructure investment, through the twenty-first century schools programme. Rhondda Cynon Taf council has used this to enhance educational provision in my constituency. Will you continue to work with Welsh councils to make sure that the children of Wales have the best educational outcomes possible?	Weinidog, ymwelais yn ddiweddar ag ysgol gymunedol newydd Abercynon, sydd wedi cael ei hariannu'n rhannol gan fuddsoddiad seilwaith Llywodraeth Cymru drwy raglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain. Mae cyngor Rhondda Cynon Taf wedi defnyddio hwn i wella'r ddarpariaeth addysgol yn fy etholaeth. A fyddwch yn parhau i weithio gyda chynghorau Cymru i wneud yn siŵr fod plant Cymru yn cael y canlyniadau addysgol gorau posibl?
14:00	Jane Hutt Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	Certainly, we'll continue to work in this way. The first phase of the twenty-first century schools programme will see £1.4 billion of investment over the next five years and that will enable similar investments to Abercynon being delivered, not just in Rhondda Cynon Taf but across Wales. Also, last year, we extended the local government borrowing initiative to the twenty-first century schools programme, and that's going to inject around £170 million of investment into the programme to ensure that it's delivered by 2018-19—two years sooner than planned.	Yn sicr, byddwn yn parhau i weithio yn y ffordd hon. Bydd cam cyntaf rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain yn cynnwys £1.4 biliwn o fuddsoddiad dros y pum mlynedd nesaf a bydd hwnnw'n caniatáu buddsoddiadau tebyg i'r un yn Abercynon, nid yn unig yn Rhondda Cynon Taf, ond ledled Cymru. Hefyd, y llynedd, cafodd menter benthyca llywodraeth leol i'r rhaglen ysgolion unfed ganrif ar hugain ei hymestyn gennym, ac mae hynny'n mynd i chwistrellu tua £170 miliwn o fuddsoddiad i'r rhaglen er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei chyflawni erbyn 2018-19—ddwy flynedd yn gynt na'r bwriad.
14:01	Darren Millar Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	Minister, you'll be aware that, obviously, there's been a great deal of anxiety about the capital investment that's required in Glan Clwyd Hospital for the development of the sub-regional neonatal intensive care centre, which the First Minister has committed the Welsh Government to delivering on that particular site. There's a great deal of capital investment already taking place on the Glan Clwyd site, with contractors already there. What work are you doing with the health board to look at whether better value for money could be delivered by working with the existing contractors on the site to expedite the delivery of this very important project for the region?	Weinidog, fe fyddwch yn ymwybodol, yn amlwg, fod llawer iawn o bryder ynghylch y buddsoddiad cyfalaf sydd ei angen yn Ysbyty Glan Clwyd ar gyfer datblygu'r ganolfan isranbarthol ar gyfer gofal dwys i'r newydd-anedig y mae'r Prif Weinidog wedi ymrwymo Llywodraeth Cymru i'w darparu ar y safle hwnnw. Mae llawer iawn o fuddsoddi cyfalaf eisoes yn digwydd ar safle Glan Clwyd, gyda chontractwyr yno eisoes. Pa waith rydych yn ei wneud gyda'r bwrdd iechyd i edrych ar y posibilrwydd o gyflwyno mwy o werth am arian drwy weithio gyda'r contractwyr presennol ar y safle i hwyluso'r broses o gyflwyno'r prosiect pwysig hwn ar gyfer y rhanbarth?
14:02	Jane Hutt Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	Well, I'm glad Darren Millar does recognise the investment we're making into Ysbyty Glan Clwyd: £12.5 million additional capital has been allocated and, as you know, that's continuing the redevelopment and refurbishment of Ysbyty Glan Clwyd. Of course, in terms of outcomes of ongoing discussions, then, this can be looked at in terms of redesign and relocation of a number of departments and services.	Wel, rwy'n falch fod Darren Millar yn cydnabod y buddsoddiad rydym yn ei wneud yn Ysbyty Glan Clwyd: dyrannwyd £12.5 miliwn o gyfalaf ychwanegol ac fel y gwyrddoch, mae hwnnw'n parhau'r gwaith o ailddatblygu ac adnewyddu Ysbyty Glan Clwyd. Wrth gwrs, o ran canlyniadau trafodaethau sy'n mynd rhagddynt, gellid edrych ar hyn yn nhermau ailgynllunio ac ail-leoli nifer o adrannau a gwasanaethau.
14:02	William Powell Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	Minister, Newtown railway station in my region could and should be the base of a community hub—a place for people to meet, a place of refreshment and, indeed, a place that provides more than just somewhere to pass through, especially with the advent of enhanced services on the Cambrian line that are soon to come on stream. Will you consider, please, working collaboratively with your Cabinet colleague the Minister for transport and Arriva Trains Wales, which currently manages the station, to explore the potential benefits of a regeneration project in that location so as to enhance the station and to encourage greater sustainable transport use?	Weinidog, fe allai, ac fe ddylai gorsaf reilffordd y Drenewydd yn fy rhanbarth fod yn ganolfan gymunedol—man i bobl gyfarfod, man i gael lluniaeth ac yn wir, man sy'n cynnig mwy na lle i basio drwodd, yn enwedig gyda dyfodiad gwasanaethau gwell ar reilffordd y Cambrian sydd i'w cyflwyno'n fuan. Os gwelwch yn dda, a wnewch chi ystyried cydweithio gyda'ch cyd-Aelodau yn y Cabinet, y Gweinidog trafnidiaeth a Threnau Arriva Cymru, sy'n rheoli'r orsaf ar hyn o bryd, i archwilio manteision posibl prosiect adfywio yn y fan honno er mwyn gwella'r orsaf ac annog defnydd mwy cynaliadwy ar drafnidiaeth?

14:03	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>Well, of course, I work very closely with my colleague the Minister for economy, transport and science and we look at all projects that are forthcoming in terms of local opportunities and local proposals.</p>	<p>Wel, wrth gwrs, rwy'n gweithio'n agos iawn gyda fy nghyd-Aelod, Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gwyddoniaeth, ac rydym yn edrych ar yr holl brosiectau sydd ar y ffordd o ran cyfleoedd lleol a chynigion lleol.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Prosiectau Cyllid Strwythurol (Castell-nedd)		Structural Funding Projects (Neath)	
14:03	<p>Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography</p> <p><i>7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am brosiectau cyllid strwythurol cymeradwy yng Nghastell-nedd? OAQ(4)0546(FIN)</i></p>	<p><i>7. Will the Minister make a statement on approved structural funding projects in Neath? OAQ(4)0546(FIN)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:03	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>EU projects have helped over 40,000 people in Neath Port Talbot, with over 20,000 people gaining employment, further learning or qualifications. They have transformed Neath Port Talbot through the town centre regeneration, Harbour Way, and upgrading the station.</p>	<p>Mae prosiectau'r UE wedi helpu dros 40,000 o bobl yng Nghastell-nedd Port Talbot, gyda thros 20,000 o bobl yn cael gwaith, addysg bellach neu gymwysterau pellach. Maent wedi trawsnewid Castell-nedd Port Talbot drwy waith adfywio canol y dref, Ffordd yr Harbwr, ac uwchraddio'r orsaf.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:04	<p>Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you for that, Minister. Would you agree with me that the current regeneration of Neath town centre, where funding has been provided from a number of sources, including, for the first phase, £13 million of Welsh Government regeneration funding, is an excellent demonstration of partnership working? Would you further agree with me that projects such as this, including the commercial property grant funding that is available to business owners and tenants, will create an economic and social hub for Neath town centre and will benefit the whole of my constituency?</p>	<p>Diolch i chi, Weinidog. A fydddech yn cytuno bod y gwaith adfywio presennol ar ganol tref Castell-nedd, lle mae'r cyllid wedi cael ei ddarparu o nifer o ffynonellau, gan gynnwys, ar gyfer y cam cyntaf, £13 miliwn o arian adfywio Llywodraeth Cymru, yn arddangosiad ardderchog o waith mewn partneriaeth? A fydddech yn cytuno ymhellach fod prosiectau fel hyn, gan gynnwys yr arian grant ar gyfer eiddo masnachol sydd ar gael i berchnogion busnes a thenantiaid, yn creu canolbwynt economaidd a chymdeithasol i ganol tref Castell-nedd ac y bydd o fudd i fy etholaeth yn ei chyfanrwydd?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:04	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>I think partnership has delivered that positive outcome. The south-west Wales property development fund has received £14 million of EU funds that have benefited the Neath area, and also Neath Port Talbot benefiting from over £72 million of EU funds in terms of major projects. So, since 2007, EU projects have created over 400 businesses and supported 650 businesses across the Neath Port Talbot area.</p>	<p>Rwy'n meddwl mai partneriaeth a arweiniodd at y canlyniad cadarnhaol hwn. Mae cronfa datblygu eiddo de-orllewin Cymru wedi derbyn £14 miliwn o arian yr UE sydd wedi bod o fudd i ardal Castell-nedd, a Chastell-nedd Port Talbot hefyd a elwodd o dros £72 miliwn o arian yr UE ar gyfer prosiectau mawr. Felly, ers 2007, mae prosiectau'r UE wedi creu dros 400 o fusnesau ac wedi cefnogi 650 o fusnesau ar draws ardal Castell-nedd Port Talbot.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:05	<p>Suzy Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, WEFO's economic prioritisation framework identifies seven thematic economic opportunities for projects seeking structural funds support, including tourism, recreation and leisure. As Neath Port Talbot has shut down its own tourism department and divested itself of leisure and arts centres, how can ambitious private and social enterprises and community groups in Neath access the support of structural funds to boost business and leisure visits to the town?</p>	<p>Weinidog, mae fframwaith blaenoriaethu economaidd WEFO yn nodi saith cyfle economaidd thematig ar gyfer prosiectau sy'n ceisio am gymorth o gronfeydd strwythurol, gan gynnwys twristiaeth, adloniant a hamdden. Gan fod Castell-nedd Port Talbot wedi cau ei adran dwristiaeth ei hun ac wedi amddifadu ei hun o ganolfannau hamdden a chanolfannau celfyddydol, sut y gall mentrau preifat a chymdeithasol a grwpiau cymunedol uchelgeisiol yng Nghastell-nedd gael mynediad at gymorth cronfeydd strwythurol i hybu busnes ac ymweliadau hamdden â'r dref?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:05 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Clearly, there are partnerships working at every level—nationally, regionally and locally—to prepare and plan for this new phase of European structural funds. In fact, for example, the Welsh European Funding Office is working very closely with Neath Port Talbot council on projects such as the South West Workways project, which, of course, as you know, was led by the council, to look towards follow-on operations. It's very important that we look at, as you say, Grahame Guilford's economic prioritisation framework to see what are the backbone projects that we have to take forward of strategic importance, as well as the more locally focused ones.

Yn amlwg, mae yna bartneriaethau'n gweithio ar bob lefel—cenedlaethol, rhanbarthol a lleol—i baratoi a chynllunio ar gyfer y cyfnod newydd hwn o gronfeydd strwythurol Ewropeaidd. Yn wir, mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru er enghraifft yn gweithio'n agos iawn gyda chyngor Castell-nedd Port Talbot ar brosiectau megis prosiect Gweithffyrdd y De-orllewin, a gâi ei arwain gan y cyngor, fel y gwyddoch, i edrych ar waith dilynol. Mae'n bwysig iawn ein bod yn edrych ar fframwaith blaenoriaethu economaidd Grahame Guilford, fel y dywedwch, i weld beth yw'r prosiectau asgwrn cefn o bwysigrwydd strategol sy'n rhaid inni eu datblygu, yn ogystal â phrosiectau â mwy o ffocws lleol.

14:06 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Our London marathon runner, Bethan Jenkins. Ein rhedwr marathon Llundain, Bethan Jenkins.

14:06 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Yes, I have a medal. I just wanted to follow on from Gwenda Thomas's point about regeneration in Neath, because I wonder how much engagement you've had with the residents of Neath when these structural projects come to fruition, because I've talked to many people along the streets where the new multistorey car park will be built, and they said that they wanted to move because it's such an ugly structure. How can we make sure that these convergence funding opportunities are not missed and that they can be something that will complement a town, and not something that will put people who live in the town off from using those services?

Ie, mae gen i fedal. Roeddwn am ddilyn ymlaen o bwynt Gwenda Thomas am adfywio yng Nghastell-nedd, oherwydd tybed faint o ymgysylltiad a gawsoch gyda thrigolion Castell-nedd pan oedd y prosiectau strwythurol hyn yn dwyn ffrwyth, oherwydd rwyf wedi siarad â llawer o bobl ar y stryd lle bydd y maes parcio aml-lawr newydd yn cael ei adeiladu, ac roeddent yn dweud eu bod eisiau symud am ei fod yn adeilad mor hyll. Sut y gallwn wneud yn siŵr nad yw'r cyfleoedd arian cydgyfeirio hyn yn cael eu colli ac y gallant fod yn rhywbeth i wella'r dref, ac nid yn rhywbeth a fydd yn gwneud i'r bobl sy'n byw yn y dref beidio â bod eisiau defnyddio'r gwasanaethau hynny?

14:07 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Congratulations on your marathon success, Bethan Jenkins. It is very important that the community is engaged fully, through the community and town councils and county councils, in the discussions leading to the regeneration of any town centre, including Neath, and I'm sure that that is taking place.

Llongyfarchiadau ar eich llwyddiant marathon, Bethan Jenkins. Mae'n bwysig iawn fod y gymuned yn cymryd rhan lawn, drwy'r cynghorau cymuned a chynghorau tref a sir, yn y trafodaethau sy'n arwain at adfywio canol unrhyw dref, gan gynnwys Castell-nedd, ac rwy'n siŵr bod hynny'n digwydd.

Buddsoddi i Arbed

Invest-to-Save

14:07 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar fuddsoddi i arbed? OAQ(4)0539(FIN)

8. Will the Minister make a statement on invest-to-save? OAQ(4)0539(FIN)

14:07 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The invest-to-save fund is an integral part of the Welsh Government's strategy to drive continuous improvement in public services in Wales.

Mae'r gronfa fuddsoddi i arbed yn rhan annatod o strategaeth Llywodraeth Cymru i ysgogi gwelliant parhaus mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

- 14:07 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Can I thank the Minister for that response? As the Minister is aware, I'm a very strong supporter of invest-to-save, which has produced substantial savings and has been one of the most successful schemes. But, as good practice is often a very poor traveller, what has been done to spread good practice following substantial savings through invest-to-save in some areas?
- A gaf fi ddiolch i'r Gweinidog am yr ymateb hwnnw? Fel y mae'r Gweinidog yn gwybod, rwy'n cefnogi buddsoddi i arbed yn fawr iawn. Mae wedi cynhyrchu arbedion sylweddol ac wedi bod yn un o'r cynlluniau mwyaf llwyddiannus. Ond gan fod arfer da yn aml yn deithiwr gwael iawn, beth a wnaed i ledaenu arfer da yn dilyn arbedion sylweddol drwy fuddsoddi i arbed mewn rhai ardaloedd?
- 14:08 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, thank you for that very positive endorsement of invest-to-save, Mike Hedges. I think the adoption of good practice is key to the way forward with this programme, and the annual publication of a directory of projects that are split up by theme, the publication of detailed case studies setting out benefits obtained, lessons learned and geographical analysis of projects by local authority and health board, and also delivery of invest-to-save presentations to staff, for example, in the education sector as well as health and local authorities, are just some examples of how we are ensuring that best practice travels.
- Wel, diolch i chi am y gymeradwyaeth hynod o gadarnhaol i fuddsoddi i arbed, Mike Hedges. Rwy'n meddwl bod mabwysiadu arfer da yn allweddol i'r ffordd ymlaen gyda'r rhaglen hon, a rhai enghreifftiau'n unig o sut y mae sicrhau bod arfer gorau yn teithio yw cyhoeddi cyfeiriadur blynyddol o brosiectau wedi eu rhannu yn ôl thema, cyhoeddi astudiaethau achos manwl yn nodi'r buddion a gafwyd, y gwersi a ddysgwyd a dadansoddiad daearyddol o brosiectau yn ôl awdurdod lleol a bwrdd iechyd, a chyflwyniadau buddsoddi i arbed i staff hefyd, er enghraifft, yn y sector addysg yn ogystal ag awdurdodau iechyd a lleol.
- 14:08 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Can I thank Mike Hedges for his question? I'm not going to intrude too much on this question, Mike, because invest-to-save is your hobby-horse and has been for a while, but can the Minister tell us how, on the ground, there is effective monitoring and evaluation of the invest-to-save schemes? I appreciate that there is going to be some longer term come-back on invest-to-save, but it's very important for this cycle of investing, saving and the money coming back that that money comes back into the Assembly coffers as quickly as possible, so that that money is there for the next round of invest-to-save funding. Are you confident that you are evaluating that properly in the process as it is at the moment?
- A gaf fi ddiolch i Mike Hedges am ei gwestiwn? Nid wyf yn mynd i amharu gormod ar y cwestiwn, Mike, gan mai buddsoddi i arbed yw un o'ch hoff bynciau ac wedi bod ers tro, ond a all y Gweinidog ddweud wrthym sut y mae monitro a gwerthuso effeithiol o'r cynlluniau buddsoddi i arbed yn digwydd ar lawr gwlad? Rwy'n sylweddoli y bydd canlyniadau mwy hirdymor i fuddsoddi i arbed, ond mae'n bwysig iawn ar gyfer y cylch hwn o fuddsoddi, arbed ac arian yn dod yn ôl fod yr arian yn dychwelyd i goffrau'r Cynulliad cyn gynted â phosibl, fel bod yr arian yno ar gyfer y cylch nesaf o gyllid buddsoddi i arbed. A ydych yn hyderus eich bod yn gwerthuso hynny'n iawn yn y broses fel y mae ar hyn o bryd?
- 14:09 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes, I am confident. I have published the evaluation of invest-to-save by independent evaluators and, indeed, the report from the Public Policy Institute for Wales, which, of course, identified ways forward in terms of not only monitoring for best practice, but sharing best practice.
- Ydw, rwy'n hyderus. Rwyf wedi cyhoeddi'r gwerthusiad o fuddsoddi i arbed gan werthuswyr annibynnol ac yn wir, yr adroddiad gan Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru, sydd, wrth gwrs, wedi nodi ffyrdd ymlaen nid yn unig o ran monitro arfer gorau, ond o ran rhannu arfer gorau.
- 14:09 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, how are you assisting smaller improvement and efficiency projects, which may be locked out of invest-to-save because they do not meet the lower funding threshold—a problem highlighted by the Finance Committee last year? Whilst we appreciate that smaller projects are given case-by-case consideration, are you aware of how many smaller bids were rejected in the latest round of funding, please?
- Weinidog, sut rydych yn cynorthwyo prosiectau gwella ac effeithlonrwydd llai o faint, a allai fod wedi'u cau allan o fuddsoddi i arbed am nad ydynt yn cyrraedd y trothwy cyllido is—problem a amlygwyd gan y Pwyllgor Cyllid y llynedd? Er ein bod yn sylweddoli bod prosiectau llai yn cael eu hystyried fesul achos, a ydych yn gwybod faint o geisiadau llai a gafodd eu gwrthod yn y cylch cyllido diweddaraf, os gwelwch yn dda?
- 14:10 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, we are, as you say, Lindsay Whittle, giving consideration on a case-by-case basis to smaller projects. I'm not aware of smaller projects coming forward in the latest round, but I can certainly share that information with you.
- Wel, fel y dywedwch, Lindsay Whittle, rydym yn rhoi ystyriaeth i brosiectau llai fesul achos. Nid wyf yn ymwybodol o brosiectau llai a gafodd eu cyflwyno yn y cylch diweddaraf, ond yn bendant, gallaf rannu'r wybodaeth honno â chi.

Gwerth am Arian

Value for Money

14:10 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
9. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau gwerth am arian o'i grantiau a'i rhaglenni ariannu? OAQ(4)0548FIN)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

9. How does the Welsh Government ensure value for money from its grants and funding programmes? OAQ(4)0548FIN)

14:10 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Value for money is a central consideration when planning and implementing grant programmes. A range of measures are taken into account, including legal, policy and delivery mechanisms, which all help to provide assurance to effective grants management.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Mae gwerth am arian yn ystyriaeth ganolog wrth gynllunio a gweithredu rhaglenni grant. Rhoddir ystyriaeth i amrywiaeth o fesurau, gan gynnwys systemau cyfreithiol, polisi a chyflawni, sydd oll yn helpu i roi sicrwydd ynghylch rheoli grantiau'n effeithiol.

14:10 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Thank you for that very reassuring answer, Minister, because yesterday I received a reply from the economy Minister refusing to disclose even her objectives in funding Ideoba by saying that that information was covered by commercial confidentiality. When a company that receives taxpayers' money goes bust, I think we deserve to know how much money your Government committed, and particularly why. If you continue to refuse to disclose such information, why should the people of Wales believe that you know how to ensure value for money in your spending choices?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Diolch i chi am eich ateb calonogol iawn, Weinidog, oherwydd ddoe cefais ateb gan Weinidog yr economi yn gwrthod datgelu hyd yn oed ei hamcanion wrth ariannu Ideoba drwy ddweud bod y wybodaeth honno'n dod o dan gyfrinachedd masnachol. Pan fydd cwmni sy'n derbyn arian trethdalwyr yn mynd i'r wal, rwy'n meddwl ein bod yn haeddu cael gwybod faint o arian y mae eich Llywodraeth wedi'i ymrwymo, ac yn benodol, pam. Os ydych yn parhau i wrthod datgelu gwybodaeth o'r fath, pam y dylai pobl Cymru gredu eich bod yn gwybod sut i sicrhau gwerth am arian o ran eich dewisiadau gwario?

14:11 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
It is quite clear that commercial confidentiality has to be kept at times.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Mae'n gwbl glir fod yn rhaid cadw cyfrinachedd masnachol o bryd i'w gilydd.

14:11 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Fel rhan o'r astudiaeth o werth am arian, mae angen i swyddogion, boed hynny o fewn Llywodraeth Cymru neu o fewn cynghorau lleol, fod yn ymwybodol o'r hyn y dylid chwilio amdano. Roedd llythyr at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ryw fis yn ôl yn dweud mai dim ond 14 o'r 22 cyngor lleol a fynychodd cyfarfodydd a gafodd eu trefnu ar ran Llywodraeth Cymru gan CIPFA. Beth fyddwch chi, fel Llywodraeth, yn ei wneud i sicrhau bod y cynghorau hynny yn ymateb i arfer da yn y dyfodol?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

As part of the value-for-money study, officials, be they within the Welsh Government or within local councils, need to be aware of what they're looking for. A letter to the Public Accounts Committee sent around a month ago states that only 14 of the 22 local authorities attended meetings organised on behalf of the Welsh Government by CIPFA. What will you, as a Government, do to ensure that those councils do respond to good practice in future?

14:11 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Well, I think it is important that organisations like CIPFA do provide these opportunities to support, encourage and advise local authorities, in particular, which you've mentioned in this question, in terms of grant applicants and recipients. It is also important, of course, that we monitor very carefully, through the way in which we fund organisations, to ensure that we do not only get value for money, but that they are fit for purpose in receipt of those funds.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Wel, rwy'n meddwl ei bod yn bwysig i sefydliadau fel CIPFA ddarparu'r cyfleoedd hyn i gefnogi, annog a chynghori awdurdodau lleol, yn arbennig, a grybwyllwyd gennych yn y cwestiwn hwn, o ran ymgeiswyr am grantiau a'r rhai sy'n eu cael. Mae hefyd yn bwysig, wrth gwrs, ein bod yn monitro'n ofalus iawn, drwy'r ffordd yr awn ati i ariannu sefydliadau, er mwyn sicrhau nid yn unig ein bod yn cael gwerth am arian, ond eu bod yn addas at y diben wrth dderbyn y cronfeydd hynny.

Cyllid ar gyfer Prosiectau Seilwaith (Caerdydd)

Funding for Infrastructure Projects (Cardiff)

- 14:12 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
10. Pa gyllid Ewropeaidd sydd ar gael ar gyfer prosiectau seilwaith yn mhrifddinas-ranbarth Caerdydd? OAQ(4)0542(FIN)
10. What European funding is available for infrastructure projects in the Cardiff capital region? OAQ(4)0542(FIN)
- 14:12 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
As well as key projects such as the metro, infrastructure investments also support the development of research capacity across the entire city region, the completion of ICT networks, and the potential for targeted investment in ultrafast broadband.
Yn ogystal â phrosiectau allweddol megis y metro, mae buddsoddiadau seilwaith hefyd yn cefnogi'r broses o ddatblygu gallu ymchwil ar draws ardal y ddinas-ranbarth, cwblhau rhwydweithiau TGCh, a'r potensial ar gyfer buddsoddiad wedi'i dargedu mewn band eang cyflym iawn.
- 14:12 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Just focusing on the metro project, which is obviously crucial to the competitiveness and connectivity of the Cardiff capital region, the planning committee at Cardiff council is looking at the proposal for the BBC headquarters this afternoon, and there are detailed plans available for the bus station, but, as yet, I'm not aware of any detailed plans for the metro, which obviously ought to be ideally tied in with the bus station. I just wondered if you are aware of any delays because of a failure to submit accurate information or what the delay might be.
Gan ganolbwyntio'n unig ar brosiect y metro, sy'n amlwg yn hanfodol i gystadleurwydd a chysylltedd prifddinas-ranbarth Caerdydd, mae pwyllgor cynllunio cyngor Caerdydd yn edrych ar y cynnig ar gyfer pencadlys y BBC y prynhawn yma, ac mae cynlluniau manwl ar gael ar gyfer yr orsaf fysiau, ond hyd yn hyn, nid wyf yn ymwybodol o unrhyw gynlluniau manwl ar gyfer y metro, a ddylai gael ei gysylltu â'r orsaf fysiau yn ddelfrydol, mae'n amlwg. Tybed a ydych yn ymwybodol o unrhyw oedi oherwydd methiant i gyflwyno gwybodaeth gywir, neu beth a allai fod yn gyfrifol am yr oedi.
- 14:13 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
I think the important thing for my portfolio responsibilities in terms of the metro is that the Welsh European Funding Office is working very closely with officials across the Government in terms of planning structural funds investment in infrastructure. Of course, that does include transport and it forms part of our Wales infrastructure investment plan as well as the national transport plan. Of course, these are important discussions that will lead to the development in terms of the city region and in terms of transport policy, with the metro at the forefront.
Rwy'n credu mai'r peth pwysig o ran fy nghyfrifoldebau portffolio mewn perthynas â'r metro yw bod Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn gweithio'n agos iawn gyda swyddogion ar draws y Llywodraeth ar gynllunio buddsoddiad o'r cronfeydd strwythurol yn y seilwaith. Wrth gwrs, mae hynny'n cynnwys trafnidiaeth, ac mae'n rhan o'n cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru yn ogystal â'r cynllun trafnidiaeth cenedlaethol. Wrth gwrs, mae'r rhain yn drafodaethau pwysig a fydd yn arwain at ddatblygu'r ddinas-ranbarth ac o ran polisi trafnidiaeth, gyda'r metro yn flaenllaw.
- 14:14 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Minister, with the city deal negotiations currently under way, what levels of European funding might be expected to be made available for this city deal if it was to be successful or, indeed, is there to be any European funding allocated to this particular aspect of Government economic policy?
Weinidog, gyda'r trafodaethau ar gynnig dinas ar y gweill ar hyn o bryd, pa lefelau o gyllid Ewropeaidd y gellir disgwyl iddo fod ar gael ar gyfer y cynnig dinas os oedd i fod yn llwyddiannus neu'n wir, a oes unrhyw arian Ewropeaidd wedi'i ddyrannu ar gyfer yr elfen benodol hon o bolisi economaidd y Llywodraeth?
- 14:14 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Well, we're at very early stages in terms of developing the city deal. In fact, I met with the leader of the City of Cardiff Council last week, Councillor Phil Bale. That was probably the second or third meeting that I think that I've had with him, but our officials are working very closely, of course, linked to the Wales infrastructure investment plan, and indeed the Welsh European Funding Office officials. Early stages, but looking at the opportunities, of course, which the city deal could bring to us.
Wel, rydym ar gamau cynnar iawn o ran datblygu cynnig dinas. Yn wir, cefais gyfarfod ag arweinydd Cyngor Dinas Caerdydd, y Cyngorydd Phil Bale, yr wythnos diwethaf. Dyna'r ail neu'r trydydd cyfarfod a gefais gydag ef rwy'n credu, ond mae ein swyddogion yn gweithio'n agos iawn, wrth gwrs, ar y cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru, ac yn wir gyda swyddogion Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Camau cynnar, ond gan edrych ar y cyfleoedd y gallai'r cynnig dinas eu cynnig i ni, wrth gwrs.

Swyddogaeth Trysorlys Cymreig

A Welsh Treasury Function

- 14:15 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
11. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatblygu swyddogaeth trysorlys Cymreig? OAQ(4)0550(FIN) *11. Will the Minister make a statement on developing a Welsh treasury function? OAQ(4)0550(FIN)*
- 14:15 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Diolch. Mae'r gwaith i ddatblygu swyddogaeth trysorlys yn dod yn ei flaen yn dda. Mae ymgynghoriadau ar y trethi newydd ar gyfer trafodiadau tir a gwarediadau tirlenwi ar y gweill ar hyn o bryd. Thank you. Work to develop a treasury function is progressing well. Consultations on the new land transaction tax and landfill disposals tax are currently under way.
- 14:15 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Diolch i chi am eich ateb. Rydych wedi adnabod, wrth gwrs, pedair egwyddor sylfaenol a fyddai'n sail ar gyfer dynesiad Llywodraeth Cymru tuag at bolisi trethiannol, sef i fod yn deg, yn syml, i annog twf a swyddi, a hefyd darparu sefydlogrwydd. Ond onid oes perig, efallai, hefyd eich bod yn methu'r cyfle fan hyn i roi mewn lle seiliau mwy gwyrdd ar gyfer dynesiad Cymreig, a fyddai, wrth gwrs, yn cynnwys datblygu cynaliadwy fel un o'r egwyddorion sylfaenol hynny, ond hefyd cyfiawnder amgylcheddol? Thank you for that response. You've identified four fundamental principles that would be a foundation for the Welsh Government's approach towards taxation policy, namely to be fair, simple, encourage growth and jobs, and provide stability. But isn't there a risk also that you are missing an opportunity here to put in place greener foundations for a Welsh approach, which would include, of course, sustainable development as one of those founding principles, but also environmental justice?
- 14:16 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 I think those are very important points in terms of the developing principles and policies for Welsh taxes. Of course, this has come to the fore in terms of the consultations that we've had in relation to a replacement for the landfill tax and, indeed, of course, that has required us to engage, through consultation, fully in those organisations that are particularly interested in sustainable development and green policies and delivery, and who are already engaged in terms of the benefits of the landfill communities fund, for example. But this is a very key point and, completely, I would endorse it in terms of a principle for Welsh taxes. Rwy'n meddwl bod y rheini'n bwyntiau pwysig iawn o ran yr egwyddorion datblygu a pholisiau trethi yng Nghymru. Wrth gwrs, daeth hyn yn amlwg drwy'r ymgynghoriadau a gawsom mewn perthynas â newid y dreth tirlenwi ac yn wir, wrth gwrs, mae hynny wedi ei gwneud yn ofynnol inni ymgysylltu, drwy ymgynghori, yn llawn â'r sefydliadau sydd â diddordeb arbennig mewn datblygu cynaliadwy a pholisiau gwyrdd a chyflawni'r agenda werdd, sefydliadau yr ymgysylltir â hwy eisoes o ran manteision y gronfa cymunedau tirlenwi, er enghraifft. Ond mae hwn yn bwynt allweddol iawn a byddwn yn ei gymeradwyo'n llwyr o ran egwyddor ar gyfer trethi Cymru.
- 14:16 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Minister, these are clearly uncharted waters for all of us: the Assembly and the Welsh Government haven't had this degree of fiscal autonomy before. Clearly, the Welsh treasury will need fiscal experts, economists, accounting experts and the like. Have you compiled any preliminary costings yet as to what the cost of having this administrative function will be? I know that you've said in the past that this is for decision somewhere in the future, but I think we do need to have some idea about the scale of the cost of this new function. Weinidog, mae hwn yn amlwg yn dir newydd i bob un ohonom: nid yw'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru wedi cael y radd hon o ymreolaeth ariannol o'r blaen. Yn amlwg, bydd trysorlys Cymru angen arbenigwyr ariannol, economegwyr, arbenigwyr cyfrifyddu ac yn y blaen. A ydych chi wedi llunio unrhyw gostau cychwynnol eto o ran beth fydd y gost o gael y swyddogaeth weinyddol hon? Gwn eich bod wedi dweud yn y gorffennol mai mater i'w benderfynu rywbryd yn y dyfodol yw hyn, ond rwy'n meddwl bod angen i ni gael rhyw syniad o faint fydd y swyddogaeth newydd hon yn ei gostio.
- 14:17 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 I think you will be aware, Nick Ramsay, of course, of the ways in which we've been heavily involving experts from a range of relevant professions. That's via my tax advisory group, tax forum and expert groups. Of course, as I said, we have completed our consultation on tax collection and management, introducing a Bill later on this year, setting out how we will arrange our tax collection and management and the establishment of the Welsh revenue authority. But, at this stage, it is about the Welsh Government building on our existing finance capability and developing expertise in a range of key areas. Rwy'n credu eich bod yn gwybod, Nick Ramsay, ein bod wedi bod yn ymwneud yn helaeth ag arbenigwyr o amryw o broffesiynau perthnasol. Mae hynny'n digwydd drwy fy ngrŵp cynghori ar dreth, y fforwm treth a grwpiau arbenigol. Wrth gwrs, fel y dywedais, rydym wedi cwblhau ein hymgynghoriad ar gasglu a rheoli trethi, a chyflwynir Bil yn ddiweddarach eleni yn nodi sut y byddwn yn trefnu ein dull o gasglu a rheoli trethi ac yn sefydlu awdurdod refeniw i Gymru. Ond ar hyn o bryd, mae'n ymwneud â Llywodraeth Cymru yn adeiladu ar ein gallu cyllid presennol a datblygu arbenigedd mewn amryw o feysydd allweddol.

14:18	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you, Minister.</p>	<p>Diolch yn fawr, Weinidog.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:18	<p>2. Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus</p> <p>Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>We now move to item 2, which is questions to the Minister for Public Services. I call on question 1, Rhodri Glyn Thomas.</p>	<p>2. Questions to the Minister for Public Services</p> <p>Symudwn yn awr at eitem 2, sef cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus. Galwaf ar Rhodri Glyn Thomas i ofyn cwestiwn 1.</p>	<p>Y Senedd.tv Fideo Video</p>
	<p>Diogelwch Cymunedau</p>	<p>Community Safety</p>	
14:18	<p>Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography</p> <p><i>1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau o ran diogelwch cymunedau? OAQ(4)0562(PS)</i></p>	<p><i>1. Will the Minister make a statement on community safety priorities? OAQ(4)0562(PS)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:18	<p>Leighton Andrews Bywgraffiad Biography</p> <p><i>Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services</i></p> <p>Rydym yn cyflwyno nifer o flaenoriaethau diogelwch cymunedol, fel sydd wedi'u hamlinellu yn ein rhaglen lywodraethu. Mae'r rhain yn cynnwys ein hymrwymiad ynghylch swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu, gwella cyfiawnder ieuencid yng Nghymru ac atal caethwasiaeth.</p> <p>Today, our Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Act received Royal Assent.</p>	<p>We are delivering a range of community safety priorities, as set out in our programme for government. These include our commitment on police community support officers, improvements in youth justice in Wales and on anti-slavery.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:18	<p>Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography</p> <p>Weinidog, mae'r comisiynydd heddlu a throseddu yn ardal Dyfed-Powys wedi cyhoeddi ei fod yn bwriadu cynnal ymgynghoriad ynglŷn â chael heddlu arfog o fewn y rhanbarth. A ydych chi'n meddwl y byddai'n well i'r comisiynydd ganolbwyntio ar wasanaethau hanfodol, fel diogelu'r gwasanaeth hofrennydd yn Nyfed-Powys, yn hytrach na chynnal ymgynghoriad sydd yn gwbl amherthnasol i anghenion y cymunedau o fewn ei ofal?</p>	<p>Minister, the police and crime commissioner in the Dyfed-Powys area has announced that he intends to hold a consultation on having armed police within that particular region. Do you think it would be better for the commissioner to concentrate on crucial services, such as safeguarding the helicopter service in Dyfed-Powys, rather than having a consultation that is entirely irrelevant to the needs of the communities within his care?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:19	<p>Leighton Andrews Bywgraffiad Biography</p> <p>Well, obviously, it's entirely a matter for the police and crime commissioner in that area whatever consultations he wishes to undertake within the context of his own competence. But I think the Member has made his point very forcefully.</p>	<p>Wel, yn amlwg, mae'n fater i'r comisiynydd heddlu a throseddu yn yr ardal honno pa ymgynghoriadau y mae'n dymuno eu cynnal yng nghyd-destun ei gymhwysedd ei hun. Ond rwy'n credu bod yr Aelod wedi gwneud ei bwynt yn rymus iawn.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:19	<p>Mark Isherwood Bywgraffiad Biography</p> <p>Cardiff University research this month has shown a 10 per cent fall in the number of people admitted to hospital because of violent crimes last year—a 30 per cent fall since 2010—which may, in part, be due to improved police response to mental health, saving police time and reducing detentions. What consideration for Wales have you given to the street triage scheme being piloted in England where mental health practitioners work closely with police officers, which has seen a 44 per cent reduction in detention under section 136 of the Mental Health Act 1983?</p>	<p>Y mis hwn, mae ymchwil gan Brifysgol Caerdydd wedi dangos gostyngiad o 10 y cant y llynedd yn nifer y bobl a gaiff eu derbyn i'r ysbyty oherwydd troseddu treisgar—gostyngiad o 30 y cant ers 2010—a allai, yn rhannol, ddeillio o ymateb gwell ymhlith yr heddlu i iechyd meddwl, gan arbed amser i'r heddlu a lleihau nifer y bobl yn y ddalfa. Pa ystyriaeth a roesoch i'r cynllun brysbennu ar y stryd ar gyfer Cymru, cynllun sy'n cael ei dreialu yn Lloegr lle mae ymarferwyr iechyd meddwl yn gweithio'n agos gyda swyddogion yr heddlu, gan arwain at ostyngiad o 44 y cant yn nifer y bobl a gedwir yn y ddalfa o dan adran 136 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:20	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography Well, mental health issues have featured in discussions between myself and the Minister for Health and Social Services with the police forces in Wales. I'm pleased to say that a number of police forces in Wales are making particularly good use of schemes that allow diagnosis and attention to be given in main city centre areas at night. I'm certain that this is an area that will require further exploration in the future.	Wel, mae materion iechyd meddwl wedi codi mewn trafodaethau rhyngof fi a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r heddluoedd yng Nghymru. Rwy'n falch o ddweud bod nifer o heddluoedd yng Nghymru yn gwneud defnydd arbennig o dda o gynlluniau sy'n caniatáu ar gyfer gwneud diagnosis a rhoi sylw mewn prif ardaloedd canol dinas yn y nos. Rwy'n sicr fod hwn yn faes a fydd yn galw am ei archwilio ymhellach yn y dyfodol.	Senedd.tv Fideo Video
14:20	William Powell Bywgraffiad Biography Minister, the links between problems of fly-tipping and deliberately started fires are indeed well established and were discussed in this Chamber just last week. In recent weeks, we've seen both issues having a devastating impact upon communities and iconic landscapes that we both know well. Given the Royal Assent of the Well-being of Future Generations (Wales) Bill, but the inevitable delay that there will be before the public services boards will be set up to help co-ordinate action, what transitional arrangements are you able to put in place to ensure that there is a co-ordinated approach to dealing with both of these issues, so as to drive down environmental danger but also to promote community safety?	Weinidog, mae'r cysylltiadau rhwng problemau tipio anghyfreithlon a thanau wedi'u cynnau'n fwriadol wedi eu hen sefydlu yn wir a chawsant eu trafod yn y Siambr hon yr wythnos diwethaf. Yn ystod yr wythnosau diwethaf, rydym wedi gweld y ddau fater yn cael effaith ddistriol ar gymunedau a thirweddau eiconig sy'n gyfarwydd iawn i'r ddau ohonom. O ystyried y Cydsyniad Brenhinol i'r Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), ond yr oedi anochel a geir cyn i'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus gael eu sefydlu i helpu i gydlynu camau gweithredu, pa drefniadau trosiannol y gallwch eu rhoi ar waith i sicrhau bod yna ddull cydgyssylltiedig o ddelio â'r ddau fater, er mwyn lleihau perygl amgylcheddol ond hefyd er mwyn gwella diogelwch cymunedol?	Senedd.tv Fideo Video
14:21	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography Obviously, there are existing relationships in place at local authority level involving local authorities and the police, and have been for some time, through community safety partnerships and other arrangements. Certainly, I know that local authorities themselves are very keen to maintain and develop their relationships with the fire and rescue services and with the police. Indeed, only on Monday, I was attending a meeting convened by the leader of Rhondda Cynon Taf County Borough Council with the South Wales Police and the fire and rescue service to discuss the issue of grass fires.	Yn amlwg, mae yna gysylltiadau eisoes ar waith ar lefel yr awdurdodau lleol sy'n cynnwys awdurdodau lleol a'r heddlu, ac maent wedi bod ar waith ers peth amser, drwy bartneriaethau diogelwch cymunedol a threfniadau eraill. Yn sicr, rwy'n gwybod bod yr awdurdodau lleol eu hunain yn awyddus iawn i gynnal a datblygu eu perthynas gyda'r gwasanaethau tân ac achub a gyda'r heddlu. Yn wir, ddydd Llun, mynychais gyfarfod a gynhaliwyd gan arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf gyda Heddlu De Cymru a'r gwasanaeth tân ac achub i drafod mater tanau glaswellt.	Senedd.tv Fideo Video
14:22	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography Question 2, OAQ(4)0561(PS), is withdrawn.	Tynnwyd cwestiwn 2, OAQ (4) 0561 (PS), yn ôl.	Senedd.tv Fideo Video
	Ffitrwydd Diffoddwyr Tân	Firefighter Fitness	
14:22	Ann Jones Bywgraffiad Biography 3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ffitrwydd diffoddwyr tân yng Nghymru? OAQ(4)0549(PS)	3. Will the Minister make a statement on firefighter fitness in Wales? OAQ(4)0549(PS)	Senedd.tv Fideo Video
14:22	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography All firefighters are subject to stringent fitness standards. The same standards apply across the three fire and rescue authorities in Wales.	Mae pob diffoddwr tân yn ddarostyngedig i safonau ffitrwydd llym. Mae'r un safonau'n berthnasol ar draws y tri awdurdod tân ac achub yng Nghymru.	Senedd.tv Fideo Video

14:22

Ann Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that, Minister. Can I say, I fully support the Fire Brigades Union in their assertion that the changes to the firefighters' pension scheme brought about by the Tory Government at Westminster will mean that many of the older firefighters about to reach their pension retirement age may be facing capability procedures now because of the lack of fitness as they have reached past 55? I know what you have done to support firefighters here in Wales. Could you give some consideration as to whether fire and rescue services in Wales should make some time for those firefighters to gain or to retain their fitness, so that there is no chance that they will have to face capability procedures, rather than have their final payment under their pension schemes?

Diolch i chi, Weinidog. A gaf fi ddweud, rwy'n llwyr gefnogi Undeb y Brigadau Tân yn eu honiad y bydd y newidiadau i gynllun pensiwn y diffoddwyr tân a achoswyd gan y Llywodraeth Doriaidd yn San Steffan yn golygu y gallai llawer o'r diffoddwyr tân hyn sydd ar fin cyrraedd eu hoedran pensiwn ymddeol wynebu gweithdrefnau galluogrwydd yn awr oherwydd diffyg ffitrwydd wrth iddynt gyrraedd 55 oed? Rwy'n gwybod beth a wnaethoch i gefnogi diffoddwyr tân yma yng Nghymru. A wnewch chi ystyried a ddylai gwasanaethau tân ac achub Cymru neilltuo rhywfaint o amser i ddiffoddwyr tân wella neu gynnal eu ffitrwydd, fel na fyddant mewn perygl o orfod wynebu gweithdrefnau galluogrwydd, yn hytrach na chael eu taliad terfynol o dan eu cynlluniau pensiwn?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:23

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I thank my colleague, the Member for the Vale of Clwyd, for drawing attention to the more generous way in which we have addressed the issue of firefighters' pensions here in Wales, which of course have been welcomed by the FBU? In respect, specifically, of operational fitness, let me say that all three fire and rescue authorities provide support to firefighters who struggle to maintain operational fitness, as set out in their own capability plans. But I will reinforce the importance of this in our revised national framework for fire and rescue services, which will be published later this year.

Hoffwn ddiolch i fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Ddyffryn Clwyd, am dynnu sylw at y ffordd fwy hael rydym wedi mynd i'r afael â phensiynau diffoddwyr tân yma yng Nghymru, sydd wrth gwrs wedi cael ei chroesawu gan Undeb y Brigadau Tân? O ran ffitrwydd gweithredol yn benodol, gadewch i mi ddweud bod pob un o'r tri awdurdod tân ac achub yn rhoi cymorth i ddiffoddwyr tân sy'n cael trafferth i gynnal ffitrwydd gweithredol, fel y nodir yn eu cynlluniau galluogrwydd eu hunain. Ond byddaf yn atgyfnerthu pwysigrwydd hyn yn ein fframwaith cenedlaethol diwygiedig ar gyfer y gwasanaethau tân ac achub, a gaiff ei gyhoeddi yn nes ymlaen eleni.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:23

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Of course, the normal pension age for firefighters has been 60 since 2006. However, what consideration, in considering your response in Wales for the three fire and rescue authorities here, have you given to the direction that was given in England by the UK Government to fire and rescue authorities that they must ensure that no individual will automatically face dismissal if they fall below the fitness standards required and cannot be deployed operationally, and that, should a firefighter fail a fitness test, consideration should be given to an unreduced pension under the provisions of the pension scheme?

Wrth gwrs, mae'r oedran pensiwn arferol ar gyfer diffoddwyr tân wedi bod yn 60 ers 2006. Fodd bynnag, wrth ystyried eich ymateb yng Nghymru i'r tri awdurdod tân ac achub yma, pa ystyriaeth a roesoch i'r cyfarwyddyd a roddwyd yn Lloegr gan Lywodraeth y DU i awdurdodau tân ac achub fod yn rhaid iddynt sicrhau na fydd unrhyw unigolyn yn wynebu diswyddiad awtomatig os ydynt yn disgyn islaw'r safonau ffitrwydd gofynnol ac na ellir gwneud defnydd gweithredol ohonynt, a phe bai diffoddwr tân yn methu prawf ffitrwydd, y dylid rhoi ystyriaeth i bensiwn heb ei leihau yn unol â darpariaethau'r cynllun pensiwn?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:24

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I'm glad that the Member has given me the opportunity to draw attention yet again to the fact that we have reached a far more generous settlement on the firefighters' pension scheme here in Wales than the Government that he supports has done in England. So, I'm not going to take any lectures at all from him on these issues. Let me say, as I said in response to my colleague the Member for the Vale of Clwyd, that we will reinforce the importance of fitness issues and the way in which firefighters are treated in that in the revised national framework for fire and rescue services to be published later this year.

Wel, rwy'n falch fod yr Aelod wedi rhoi cyfle i mi dynnu sylw unwaith eto at y ffaith ein bod wedi sicrhau setliad llawer mwy hael ar gynllun pensiwn y diffoddwyr tân yma yng Nghymru nag a wnaeth y Llywodraeth y mae'n ei chefnogi yn Lloegr. Felly, nid wyf yn mynd i wrando ar unrhyw bregethau ganddo ef ar y materion hyn. Fel y dywedais mewn ymateb i fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Ddyffryn Clwyd, gadewch i mi ddweud y byddwn yn atgyfnerthu pwysigrwydd materion ffitrwydd a'r ffordd y caiff diffoddwyr tân eu trin o ran hynny yn y fframwaith cenedlaethol diwygiedig ar gyfer y gwasanaethau tân ac achub a gyhoeddir yn ddiweddarach eleni.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

Questions Without Notice from Party Spokespeople

14:25	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>We now move to questions from spokespeople, and first this afternoon is the Welsh Conservatives' spokesperson, Janet Finch-Saunders.</p>	<p>Symudwn yn awr at gwestiynau gan y llefarwyr, ac yn gyntaf y prynhawn yma, mae llefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Janet Finch-Saunders.</p>
14:25	Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Thank you, Presiding Officer. Will the Minister make a statement on when he will be updating this Chamber on the consultation responses received back on the White Paper, 'Reforming Government: Power to Local People'?</p>	<p>Diolch i chi, Lywydd. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynglŷn â pha bryd y bydd yn rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Siambr ynglŷn â'r ymatebion a ddaeth i law i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, 'Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol'?</p>
14:25	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Well, the closing date for the consultation was yesterday. We will review the submissions that have been made in respect of that consultation, and I expect to make a statement following that.</p>	<p>Wel, y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad oedd ddoe. Byddwn yn adolygu'r cyflwyniadau a wnaed mewn perthynas â'r ymgynghoriad, ac rwy'n disgwyl gwneud datganiad yn dilyn hynny.</p>
14:25	Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Thank you, Minister. As part of this consultation, of course, you did spend, of taxpayers' money, £70,000 on bus adverts and local radio stations. Yet many fundamental flaws with your consultation have been raised with me, certainly across my own constituency and, indeed, others. The questions in particular are described as asking the rather obvious, and the responses I've received thus far actually have a common theme running through them. My own authority state that the Welsh Government must place greater trust and autonomy on local authorities, and that some of your proposals will disaggregate local government, create an even more complex structure, limit economies of scale and, potentially, confuse the general public, adding that some will actually dilute or limit local democracy. Are these your intentions?</p>	<p>Diolch yn fawr, Weinidog. Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, wrth gwrs, gwariwyd £70,000 o arian trethdalwyr ar hysbysebion bus a gorsafoedd radio lleol. Eto i gyd tynnwyd fy sylw at lawer o ddiffygion sylfaenol yn eich ymgynghoriad, yn sicr ar draws fy etholaeth fy hun ac yn wir, mewn etholaethau eraill. Mae'r cwestiynau yn arbennig yn cael eu disgrifio fel gofyn yr hyn sy'n amlwg braidd, ac mae'r ymatebion a gefais hyd yn hyn yn cynnwys thema gyffredin yn rhedeg drwyddynt. Mae fy awdurdod fy hun yn datgan bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru ymddiried mwy mewn awdurdodau lleol a rhoi mwy o ymreolaeth iddynt, ac y bydd rhai o'ch cynigion yn dadgyfuno llywodraeth leol, yn creu strwythur hyd yn oed yn fwy cymhleth, yn cyfyngu ar arbedion maint ac o bosibl, yn drysu'r cyhoedd yn gyffredinol, ac mae'n ychwanegu y bydd rhai o'r cynigion yn gwanhau neu'n cyfyngu ar ddemocratiaeth leol mewn gwirionedd. Ai dyna yw eich bwriad?</p>
14:26	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>The proposals we set out in our White Paper will strengthen local democracy. I will respond to all consultation submissions when we have given them due consideration.</p>	<p>Bydd y cynigion a nodwyd gennym yn ein Papur Gwyn yn cryfhau democratiaeth leol. Byddaf yn ymateb i holl gyflwyniadau'r ymgynghoriad pan fyddwn wedi rhoi sylw priodol iddynt.</p>
14:26	Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Thank you, Minister. Denbighshire County Council say the paper is in danger of being too ambitious in terms of its breadth. They suggest potential difficulties as regards a review of community councils by 2022, given that local authorities themselves may still be going through their own transition, and that the requirement for council leaders to produce a detailed set of priorities within a matter of days may result in ill-thought-out manifestos. Minister, what are your responses to these quite sensible concerns? And these come corporately, not just from elected members. They come from staff and officers, too.</p>	<p>Diolch yn fawr, Weinidog. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn dweud bod y papur mewn perygl o fod yn rhy uchelgeisiol o ran ei ehangder. Maent yn awgrymu y gallai fod anawsterau posibl mewn perthynas ag adolygiad o gynghorau cymuned erbyn 2022, o gofio efallai y bydd awdurdodau lleol yn dal i fynd drwy eu newidiadau eu hunain, ac y gallai'r gofyniad i arweinwyr cynghorau gynhyrchu set fanwl o flaenoriaethau mewn mater o ddyddiau arwain at fanifestos heb eu hystyried yn briodol. Weinidog, beth yw eich ymateb i bryderon digon synhwyrol o'r fath? A daw'r rhain gan gorfforaethau, nid gan aelodau etholedig yn unig. Maent yn dod gan staff a swyddogion hefyd.</p>

14:27	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography Well, I think it's in the interests of local communities that leaders of local authorities do set out what their objectives for their authority are for the future, and that's why we put that suggestion into the White Paper. And, as I said, I will respond to submissions made in respect of our White Paper in due course.	Wel, rwy'n credu ei bod o fudd i gymunedau lleol fod arweinwyr awdurdodau lleol yn nodi beth yw eu hamcanion ar gyfer eu hawdurdod yn y dyfodol, a dyna pam y rhesom yr awgrym hwnnw yn y Papur Gwyn. Ac fel y dywedais, byddaf yn ymateb i gyflwyniadau a wnaed mewn perthynas â'n Papur Gwyn yn y man.	Senedd.tv Fideo Video
14:27	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography Welsh Liberal Democrats' spokesperson, Peter Black.	Llefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.	Senedd.tv Fideo Video
14:27	Peter Black Bywgraffiad Biography Thank you, Presiding Officer. I have responded to your White Paper, Minister, but I wanted to focus on one particular assertion in that White Paper, and I'd be grateful if you could tell us what evidence you have for the assertion in the White Paper that term limits for councillors will lead to greater diversity.	Diolch i chi, Lywydd. Rwyf wedi ymateb i'ch Papur Gwyn, Weinidog, ond roeddwn am ganolbwyntio ar un honiad penodol ynddo, a byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddweud wrthym pa dystiolaeth sydd gennych dros yr honiad yn y Papur Gwyn y bydd cyfyngiadau ar hyd cyfnod gwasanaeth cynghorwyr yn arwain at fwy o amrywiaeth.	Senedd.tv Fideo Video
14:27	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography Well, I very much look forward to reading the submission that the Member has made in respect of our consultation.	Wel, edrychaf ymlaen yn fawr at ddarllen y cyflwyniad a wnaeth yr Aelod mewn perthynas â'n hymgynghoriad.	Senedd.tv Fideo Video
14:28	Peter Black Bywgraffiad Biography So, could you outline what the evidence is for saying that term limits for councillors will increase diversity?	Felly, a allech amlinellu beth yw'r dystiolaeth dros ddweud bod cyfyngiadau ar hyd cyfnod gwasanaeth cynghorwyr yn cynyddu amrywiaeth?	Senedd.tv Fideo Video
14:28	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography As I've said, Llywydd, when we have considered all the submissions that have been made, we will be responding in due course to those submissions.	Fel rwyf wedi'i ddweud, Lywydd, pan fyddwn wedi ystyried yr holl gyflwyniadau a wnaed, byddwn yn ymateb i'r cyflwyniadau hynny yn y man.	Senedd.tv Fideo Video
14:28	Peter Black Bywgraffiad Biography Okay, well, thank you for that non-answer, Minister. The reference given in the White Paper actually refers to a study carried out in the United States and, in particular, in Michigan. Are you aware, Minister, of the study carried out by Michael Thrasher? He carried out a survey of local election candidates, conducted between 2010 and 2014, in which he concluded that, in fact, the problem was not term limits for councillors or even making councillors stand down; the problem was actually in terms of diversity amongst candidates themselves. Would you not accept that a better way of achieving a more diverse representation on local authorities would be through capacity building and encouraging more diverse candidates to come forward, rather than actually imposing an artificial bar on the number of terms a councillor can serve, which would lead to no difference at all?	Iawn, wel, diolch i chi am y diffyg ateb hwnnw, Weinidog. Mae'r cyfeiriad a roddir yn y Papur Gwyn yn cyfeirio at astudiaeth a gynhaliwyd yn yr Unol Daleithiau ac yn benodol, yn Michigan. A ydych yn ymwybodol, Weinidog, o'r astudiaeth a gynhaliwyd gan Michael Thrasher? Cynhaliodd arolwg o ymgeiswyr etholiadau lleol rhwng 2010 a 2014, a daeth i'r casgliad nad cyfyngiadau ar hyd cyfnod gwasanaeth cynghorwyr oedd y broblem mewn gwirionedd na hyd yn oed gwneud i gynghorwyr ymddiswyddo; roedd y broblem yn ymwneud ag amrywiaeth ymhlith yr ymgeiswyr eu hunain. Oni fydddech yn derbyn mai ffordd well o sicrhau cynrychiolaeth fwy amrywiol ar awdurdodau lleol fyddai meithrin gallu ac annog ymgeiswyr mwy amrywiol i ddod ymlaen, yn hytrach na gosod rhwystr artiffisial ar nifer y tymhorau y gall cynghorydd wasanaethu, na fyddai'n arwain at unrhyw wahaniaeth o gwbl?	Senedd.tv Fideo Video

- 14:29 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, I'm very clear that we have to do more to promote diversity within local government. That's why we asked Professor Laura McAllister to chair a review for us of diversity in local government. That made a number of recommendations, not least for political parties. It's why I've held subsequent events to promote diversity within local government, and why we have a network of diversity champions across local government in Wales, and I pay tribute to the work that they have done.
- Wel, rwy'n glir iawn fod yn rhaid inni wneud mwy i hyrwyddo amrywiaeth mewn llywodraeth leol. Dyna pam ein bod wedi gofyn i'r Athro Laura McAllister gadeirio adolygiad i ni o amrywiaeth mewn llywodraeth leol. Gwnaeth nifer o argymhellion, yn enwedig ar gyfer y pleidiau gwleidyddol. Dyna pam y cynhaliais ddigwyddiadau dilynol i hyrwyddo amrywiaeth mewn llywodraeth leol, a pham y mae gennym rwydwaith o hyrwyddwyr amrywiaeth ar draws llywodraeth leol yng Nghymru, ac rwy'n talu teyrnged i'r gwaith y maent wedi'i wneud.
- 14:29 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We now move to Plaid Cymru spokesperson, Rhodri Glyn Thomas.
- Symudwn yn awr at lefarydd Plaid Cymru, Rhodri Glyn Thomas.
- 14:29 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Weinidog, fe fuodd rhai ohonom ni'n cymryd rhan, gydag un o'ch cyd-Weinidogion chi, mewn cyfarfod amser cinio dan nawdd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn ymwneud â dyfodol llyfrgelloedd yng Nghymru. Nawr rwy'n derbyn nad yw llyfrgelloedd, fel y cyfryw, yn dod yn uniongyrchol o dan eich cyfrifoldebau chi, ond mae llywodraeth leol, ac wrth gwrs, un o'r gwasanaethau statudol sydd gan lywodraeth leol yw darparu gwasanaethau llyfrgell. Un o'r pwyntiau a godwyd oedd bod angen strategaeth genedlaethol glir er mwyn i bawb weld beth yw'r dyfodol yn nhermau yr hyn a all ddigwydd o fewn pum mlynedd, a'r hyn a all ddigwydd o fewn 10 mlynedd. A ydych yn ymwybodol o'r galwadau hynny o'r sector cyhoeddus yng Nghymru, ac a ydych yn ymateb iddyn nhw?
- Minister, some of us participated, with one of your fellow Ministers, in a lunchtime meeting under the auspices of the Welsh Local Government Association, on the future of libraries in Wales. Now, I accept that libraries, as such, don't fall directly into your portfolio, but local government does, and, of course, one of the statutory services that local government deliver is the library service. One of the points raised was that a clear national strategy is needed so that everybody can see what the future is in terms of what could happen five or 10 years hence. Are you aware of those calls from the public sector in Wales and are you responding to them?
- 14:30 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- In respect of libraries, my colleague, the Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism has made a number of statements in this area. I'm aware also, obviously, of the work undertaken by the Communities, Equality and Local Government Committee in looking at libraries in the last 12 months. So, I think a lot of work has been done in this area. My colleague, the Deputy Minister, has also produced guidance, which I think will be valuable to communities in respect of the future of library services locally.
- O ran llyfrgelloedd, mae fy nghyd-Aelod, y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, wedi gwneud nifer o ddatganiadau yn y maes hwn. Rwy'n amlwg yn ymwybodol hefyd o'r gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn edrych ar lyfrgelloedd dros y 12 mis diwethaf. Felly, rwy'n meddwl bod llawer o waith wedi cael ei wneud yn y maes. Mae fy nghyd-Aelod, y Dirprwy Weinidog, hefyd wedi cynhyrchu canllawiau, a chredaf y byddant yn werthfawr i gymunedau mewn perthynas â dyfodol gwasanaethau llyfrgell yn lleol.
- 14:31 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Roeddwn yn defnyddio llyfrgelloedd fel un enghraifft, Weinidog, o'r ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus. Ac mae'r sector yn ei gyfanrwydd yn dweud wrthyf i, ac wrth Aelodau eraill o'r Cynulliad, yn gyson eu bod nhw'n awyddus iawn i weld strategaeth o ran gwasanaethau cyhoeddus, a lle y gallan nhw geisio cyfeirio'r gwasanaethau sydd dan eu cyfrifoldeb nhw i fewn i strategaeth genedlaethol felly. A ydych yn teimlo bod Llywodraeth Cymru yn cynnig y weledigaeth honno i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, ynteu ai jest sôn am arbedion ydyn ni o flwyddyn i flwyddyn?
- I was using libraries as one example, Minister, of the suite of public services. The sector as a whole tells me, and other Assembly Members, consistently that they are very eager to see a strategy as regards public services, and where they could endeavour to direct the services that they're responsible for into such a national strategy. Do you feel that Welsh Government is offering that vision for public services in Wales, or are we just talking about savings from year to year?

14:31 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Well, no, I think we have very clearly offered a vision in respect of the future of public services, and I refer the Member to the lecture I gave to the Institute of Welsh Affairs at the end of January, where we set out some of our thinking about the future of public services, and to other speeches I've given over the course of the last six months as well. I think the reality is that there are going to be continuing challenges for local government in the delivery of public services, as we are aware. It's important, at a national level, that we have a strategic view of that, but many decisions are going to fall to local government to execute according to the needs of their own communities, and according to what their own budgets can deploy.

Wel, na, rwy'n meddwl ein bod wedi cynnig gweledigaeth glir iawn mewn perthynas â dyfodol gwasanaethau cyhoeddus, a chyfeiriad yr Aelod at y ddarlith a roddais i'r Sefydliad Materion Cymreig ddiwedd mis Ionawr, lle y nodasom rai o'n syniadau ynglŷn â dyfodol gwasanaethau cyhoeddus, ac at areithiau eraill a roddais dros y chwe mis diwethaf hefyd. Rwy'n meddwl mai'r gwir yw y bydd heriau'n parhau i lywodraeth leol o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus, fel y gwyddom. Mae'n bwysig, ar lefel genedlaethol, fod gennym olwg strategol ar hynny, ond mae llywodraeth leol yn mynd i orfod gweithredu ar lawer o benderfyniadau yn ôl anghenion eu cymunedau eu hunain, ac yn ôl yr hyn y gall eu cyllidebau ei gynnis.

14:32 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Wel, Weinidog, yn anffodus, nid oeddwn yn bresennol pan roddoch eich anerchiad, ond mae'n amlwg, mewn cyfres o anerchiadau, eich bod wedi gosod y weledigaeth yma. A allwch rannu gyda ni y prynhawn yma beth yw'r prif flaenoriaethau o ran diogelu a datblygu gwasanaethau cyhoeddus mewn cyd-destun o doriadau ar y gyllideb, sy'n dod yn genedlaethol yma oddi wrth y glymblaid yn San Steffan? Ac nid wyf yn credu—rwy'n siŵr y byddwch yn anghytuno—y gallwn ni ragweld, hyd yn oed petai newid Llywodraeth, y byddai gwahaniaeth mawr o ran y gyllideb sydd ar gael. Beth yw'r prif flaenoriaethau o ran diogelu a datblygu gwasanaethau cyhoeddus o fewn cyd-destun felly?

Well, Minister, unfortunately I wasn't present when you gave your lecture but, obviously, in a series of lectures you've set out this vision. Could you share with us this afternoon the main priorities as regards safeguarding and developing public services in the context of budget cuts that emanate nationally from the coalition in Westminster? I don't believe—I'm sure you'll disagree—that you can anticipate that, even if we had a change of UK Government, there'd be a great change in the budget that's made available. What are the main priorities in the development and safeguarding of public services in such a context?

14:33 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I would have to say to him that, if there was a change in the UK Government, I think the situation with public finances would be very much better. But let me specifically say that, in respect of what we've said on our vision for public services, I would be very happy to send him the lecture I delivered at the end of January and some other relevant materials as well. I would remind him also that in our White Paper on the future of local government—and as I said earlier, the consultation on that came to an end earlier this week—we set out a very clear vision, I think, for public services, particularly in the context of local government.

Byddai'n rhaid i mi ddweud wrtho, pe bai newid yn Llywodraeth y DU, rwy'n meddwl y byddai'r sefyllfa gyda chyllid cyhoeddus yn llawer iawn gwell. Ond gadewch i mi ddweud yn benodol, o ran yr hyn rydym wedi ei ddweud am ein gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, byddwn yn hapus iawn i anfon y ddarlith a draddodais ddiwedd mis Ionawr a rhai deunyddiau perthnasol eraill ato. Byddwn yn ei atgoffa hefyd ein bod wedi nodi gweledigaeth eglur, rwy'n credu, yn ein Papur Gwyn ar ddyfodol llywodraeth leol—ac fel y dywedais yn gynharach, daeth yr ymgynghoriad ar hwnnw i ben yn gynharach yr wythnos hon—ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig yng nghyd-destun llywodraeth leol.

Troseddwr Benywaidd

14:34 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

4. Pa rôl y mae Llywodraeth Cymru yn ei chwarae o ran gwella'r ffordd y caiff troseddwr benywaidd eu rheoli? OAQ(4)0554(PS)

4. What role does the Welsh Government play in improving the management of female offenders? OAQ(4)0554(PS)

14:34 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The Welsh Government works closely with the National Offender Management Service and other partners to ensure there is an integrated and co-ordinated approach to the development and delivery of distinct gender-specific service provision for female offenders across Wales, including early assessment and diversion, and robust pathways out of offending.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwr a phartneriaid eraill i sicrhau bod gennym ddull integredig a chydlynol o ddatblygu a chyflwyno gwasanaethau rhyw benodol ar wahân i droseddwr benywaidd ledled Cymru, gan gynnwys asesu a dargyfeirio cynnar, a llwybrau cadarn allan o droseddu.

- 14:34 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The 2007 Corston report recommended non-custodial sentences for all but the most serious female offenders. And I think that is widely recognised as the best approach across all political parties. Women going to prison generally lead to the household breaking up, because they tend to be the head of the household. Huge disadvantage accrues for children, leading to recidivism amongst women when they do leave prison. Does the Welsh Government support the Corston approach to female offenders, and what work is being done to increase the number of places for institutions or placements other than prison, for female offenders?
- Mae adroddiad Corston 2007 yn argymhell dedfrydau digarchar i bawb ond y troseddwy'r benywaidd mwyaf difrifol. Ac rwy'n meddwl bod hynny'n cael ei gydnabod yn eang fel y dull gorau o weithredu gan bob plaid wleidyddol. Yn gyffredinol, mae dedfrydu menywod i garchar yn arwain at chwalu aelwydydd am mai hwy sy'n tueddu i fod yn ben y teulu. Mae'n arwain at anfantais enfawr i blant, ac at aildroseddu ymhlith menywod pan fyddant yn gadael y carchar. A yw Llywodraeth Cymru yn cefnogi dull Corston o ymddrin â throseddwy'r benywaidd, a pha waith sy'n cael ei wneud i gynyddu nifer y lleoedd ar gyfer sefydliadau neu leoliadau ar wahân i garchar, i droseddwy'r benywaidd?
- 14:35 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The Welsh Government fully supports the findings of the Corston report, and, indeed, this approach is being pursued in Wales, through the integrated offender management Cymru women's pathfinder, which I recently launched in Cardiff. This is an initiative that delivers a whole-system approach for women who come into contact with the criminal justice system.
- Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi canfyddiadau adroddiad Corston yn llawn, ac yn wir, mae'r dull hwn yn cael ei ddilyn yng Nghymru, drwy'r cynllun braenaru i fenywod, rheoli integredig troseddwy'r Cymru, a lansiwyd gennyf yn ddiweddar yng Nghaerdydd. Mae hon yn fenter sy'n darparu dull system gyfan o weithredu ar gyfer menywod sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol.
- 14:35 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, in 2012, I wrote to the Ministry of Justice to request a feasibility study into providing a women's prison for Wales. In January 2013, the First Minister said,
- Weinidog, yn 2012, ysgrifennais at y Weinyddiaeth Gyfiawnder i ofyn am astudiaeth ddichonoldeb ar ddarparu carchar i fenywod yng Nghymru. Ym mis Ionawr 2013, dywedodd y Prif Weinidog,
- 'I think a women's prison, and a new prison in north Wales, are both needed.'
- 'Rwy'n credu bod angen carchar i fenywod, a charchar newydd yng ngogledd Cymru.'
- Will the Minister advise what discussions have been held to progress this issue of a Welsh women's prison?
- A wnaiff y Gweinidog roi gwybod pa drafodaethau a gynhaliwyd i symud ymlaen ar fater carchar i fenywod yng Nghymru?
- 14:36 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, obviously, the management of prisons is not devolved, and is under the control of his party in Government in Westminster. I can say that I've had a series of meetings with the prisons Minister in Westminster, on a number of issues, including the north Wales prison.
- Wel, yn amlwg, nid yw rheoli carchardai yn fater wedi'i ddatganoli, a daw o dan reolaeth ei blaid sydd mewn grym yn San Steffan. Gallaf ddweud fy mod wedi cael cyfres o gyfarfodydd gyda'r Gweinidog carchardai yn San Steffan ar nifer o faterion, gan gynnwys y carchar yng ngogledd Cymru.
- 14:36 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Weinidog, mae'n debyg bod fy mhlaid i, o fewn Llywodraeth Prydain, yn awyddus i ddilyn llwybr Jenny Rathbone, er mwyn cyfeirio merched oddi wrth garchardai. Rwyf wedi darllen adroddiad Soroptimists International a'r Prison Reform Trust, sydd yn cyfeirio at y rhaglen rydych wedi sôn amdani yng Nghaerdydd, a hefyd rwy'n cydnabod y gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud yn y Rhyl hefyd. Ond, mae'r cynllun yna yng Nghaerdydd yn un peilot, efo'r bwriad bod y rhaglen yn cael ei hymestyn ar draws Cymru yn y pen draw. Felly, pryd fydd canlyniadau'r cynllun peilot yna yn hysbys i chi fel Llywodraeth, ac a oes yna unrhyw waith paratoi ar gyfer ariannu cynllun ar draws Cymru yn cymryd lle?
- Minister, my party within the UK Government is eager to follow the path referred to by Jenny Rathbone, in order to refer women away from our prisons. I've read the report of Soroptimist International and the Prison Reform Trust, which refers to the programme that you mentioned in Cardiff and also recognises the work that the Welsh Government is doing in Rhyl. But, that programme in Cardiff is a pilot programme with the intention that it should be rolled out across Wales, ultimately. When will the outcomes of that pilot be available to you as Government, and is any preparatory work for funding a scheme across Wales being done?

14:37

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I met with Soroptimist International and, indeed, the Prison Reform Trust, to discuss their report, 'Transforming Lives, Reducing Women's Imprisonment', along with, I think, the Deputy Minister for Health. That report, I think, reflects well on the emerging picture in Wales. It makes specific reference to the Wales reducing reoffending strategy, and the support that we have offered to the integrated offender management Cymru programme, which is seen as the most ambitious partnership approach across the UK. And they, indeed, said that they saw the women offenders pathway as inspiring.

Wel, cyfarfûm â'r Soroptimyddion Rhyngwladol, a'r Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai, yn wir, i drafod eu hadroddiad, 'Transforming Lives, Reducing Women's Imprisonment', ynghyd â'r Dirprwy Weinidog Iechyd, rwy'n meddwl. Mae'r adroddiad hwnnw, rwy'n credu, yn rhoi sylw da i'r darlun sy'n dod yn amlwg yng Nghymru. Mae'n cyfeirio'n benodol at strategaeth lleihau aildroeddu Cymru, ac at y gefnogaeth rydym wedi'i chynnig i raglen rheoli integredig troseddwy'r Cymru, sy'n cael ei weld fel y dull partneriaeth mwyaf uchelgeisiol ar draws y DU. Ac yn wir, roeddent yn dweud eu bod yn ystyried y llywybr ar gyfer troseddwy'r benywaidd yn un calonogol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cyfleusterau Cymunedol

Community Facilities

14:38

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y canllawiau a ddarperir i awdurdodau lleol ar benderfyniadau sy'n ymwneud â defnyddio cyfleusterau cymunedol? OAQ(4)0552(PS)

5. Will the Minister make a statement on guidelines provided to local authorities on decisions relating to the use of community facilities? OAQ(4)0552(PS)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:38

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yn ddiweddar, cyhoeddwyd 'Trosoglwyddo Asedau Cymunedol yng Nghymru—Canllaw Arfer Gorau', ynghyd â chanllaw penodol i'r sector ar gyfer cyfleusterau chwaraeon, y celfyddydau a diwylliant, i annog gwaith partneriaeth mewn perthynas â throsglwyddo asedau cymunedol, ar sail budd i'r ddwy ochr a rhannu gweledigaeth a nodau.

The recently published 'Community Asset Transfers in Wales—A Best Practice Guide', together with the sector-specific toolkit produced for sports, arts and cultural facilities, encourages a partnership approach to community asset transfers, based on mutual benefit with a shared vision and goal.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:38

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch am yr ateb hwnnw. Yn amlwg, rwy'n cydnabod y ffaith na fyddwch yn gallu ymateb i'r mater yn benodol, gan mai ysgol yw hi, ond, ar hyn o bryd, maen nhw'n penderfynu i gau Ysgol Gynradd Bryn yng Nghastell-nedd Port Talbot, ac mae yna wybodaeth yn lleol i ddisgrifio'r ysgol fel ased addysgiadol cymunedol. Pa gyngor mae'r cyngor yr ydych newydd ei roi i ni yn ei roi, er mwyn sicrhau bod yr adeilad hwnnw, os yw'r ysgol yn cau, yn cael ei adfer mewn rhyw ffordd ar gyfer y gymuned leol honno?

Thank you for that response. Clearly, I acknowledge the fact that you won't be able to refer to this specific issue, as it is a school, but at present they are making decisions to close Bryn Primary School in Neath Port Talbot, and there is information locally available that describes the facility as a community educational facility. What advice is the advice that you have just mentioned giving, in order to ensure that, if the school were to close, the building could be restored in some way for the local community?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:39

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I start by also congratulating the Member on her performance in the marathon on Sunday, on behalf of a very good cause, for which I was pleased to sponsor her?

In respect of the guidance, I think it is fair to say—and I don't know the specific circumstances, obviously, of the situation to which she refers—but schools have been offered to communities for community or charitable use before; indeed, there's been a recent example in my own constituency where that has happened. But I will go back and look at the guidance that we have issued as a Government, to see whether the specific example of schools is covered, because I think she raises an important point.

A gaf fi ddechrau drwy longyfarch yr Aelod am ei pherfformiad hithau hefyd yn y marathon ddydd Sul dros achos da iawn yr oeddwn yn falch o'i noddi ar ei gyfer?

O ran y canllawiau, rwy'n credu ei bod yn deg dweud—ac yn amlwg, nid wyf yn gyfarwydd ag amgylchiadau penodol y sefyllfa y mae hi'n cyfeirio ati—ond mae ysgolion wedi cael eu cynnig i gymunedau at ddefnydd elusennol neu gymunedol o'r blaen; yn wir, cafwyd enghraifft yn ddiweddar yn fy etholaeth lle mae hynny wedi digwydd. Ond byddaf yn mynd yn ôl i edrych ar y canllawiau a gyhoeddwyd gennym fel Llywodraeth, i weld a yw'r enghraifft benodol o ysgolion yn cael ei chynnwys, oherwydd credaf ei bod yn crybwyll pwynt pwysig.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:39 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, Bethan Jenkins alluded to schools, but there are also other community facilities in the Afan valley. We could also mention parks, swimming pools, community centres and, as Rhodri Glyn Thomas also mentioned, libraries. For them to actually be effectively taken over and sustainably run, they need time. Will you look at the guidelines to ensure that local authorities can give sufficient time to organisations and to communities to establish those positions, because, at the moment, budgets control it and budgets mean that they have very few months in which to organise themselves to get those running.

Weinidog, cyfeiriodd Bethan Jenkins at ysgolion, ond mae yna gyfleusterau cymunedol eraill yng Nghwm Afan hefyd. Gallem sôn yn ogystal am barciau, pyllau nofio, canolfannau cymunedol, a llyfrgelloedd hefyd, fel y crybwyllodd Rhodri Glyn Thomas. Er mwyn eu meddiannu'n effeithiol mewn gwirionedd, a'u rhedeg yn gynaliadwy, mae angen amser. A wnech chi edrych ar y canllawiau er mwyn sicrhau y gall awdurdodau lleol roi digon o amser i sefydliadau ac i gymunedau sefydlu'r swyddi hynny, oherwydd ar hyn o bryd, cyllidebau sy'n rheoli hyn ac mae cyllidebau yn golygu mai ychydig iawn o fisoedd sydd ganddynt i drefnu eu hunain er mwyn cael y rhain ar eu traed.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:40 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes. This is an important point that my colleague the Member for Aberavon raises. We have been working through the Wales Co-operative Centre to develop guidance for local authorities on best practice in this area, because I do think that there are issues here about capacity and capability within local authorities and, indeed, within local communities that may wish to take over the management of particular facilities. So, I think he makes that point very well and I will go back and we will pursue that within the context of the work that is under way.

Ie. Mae'r pwynt y mae fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Aberafan, yn ei grybwyll yn un pwysig. Rydym wedi bod yn gweithio drwy Ganolfan Cydweithredol Cymru i ddatblygu canllawiau i awdurdodau lleol ar arfer gorau yn y maes, gan fy mod yn credu bod materion yn codi yma ynghylch capasiti a gallu awdurdodau lleol a chymunedau lleol yn wir, i feddiannu cyfrifoldeb am y gwaith o reoli cyfleusterau penodol. Felly, rwy'n meddwl ei fod yn gwneud y pwynt yn dda iawn a byddaf yn mynd yn ôl a byddwn yn mynd ar drywydd hynny yng nghyd-destun y gwaith sydd ar y gweill.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:40 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, many of the community facilities in my constituency are also important historical and religious buildings that are used for a range of community classes and workshops. Ahead of the introduction of the historic environment Bill next week, what discussions have you had with your colleague the Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism about protecting buildings like this and ensuring their viability as an important community asset for the future?

Weinidog, mae llawer o'r cyfleusterau cymunedol yn fy etholaeth hefyd yn adeiladau hanesyddol a chrefyddol pwysig sy'n cael eu defnyddio ar gyfer amrywiaeth o ddosbarthiadau cymunedol a gweithdai. Cyn cyflwyno'r Bil amgylchedd hanesyddol yr wythnos nesaf, pa drafodaethau a gawsoch gyda'ch cyd-Aelod, y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth ynglŷn â diogelu adeiladau fel hyn a sicrhau eu dichonoldeb fel asedau cymunedol pwysig ar gyfer y dyfodol?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:41 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Indeed. My colleague the Deputy Minister and I have had a number of conversations about community assets and their preservation at the current time and we've looked—. Obviously, he has developed guidance in respect of certain sectors and we are looking to see what further work we can do in terms of the establishment of social enterprises and other activities to support such community developments in the future. The Member raises the issue of historic buildings and, again, that is something obviously that is very relevant. There are many historic buildings where community ownership has developed over time, it's important that we get that right and I think that will be taken into consideration in the work that we're doing.

Yn bendant. Mae fy nghyd-Aelod, y Dirprwy Weinidog, a minnau wedi cael nifer o drafodaethau ynglŷn ag asedau cymunedol a'u cadwraeth ar hyn o bryd ac rydym wedi edrych—. Yn amlwg, mae wedi datblygu canllawiau mewn perthynas â rhai sectorau ac rydym yn edrych i weld pa waith pellach y gallwn ei wneud o ran sefydlu mentrau cymdeithasol a gweithgareddau eraill i gefnogi datblygiadau cymunedol o'r fath yn y dyfodol. Mae'r Aelod yn crybwyll mater adeiladau hanesyddol ac unwaith eto, mae'n amlwg fod hynny'n berthnasol iawn. Mae yna lawer o adeiladau hanesyddol lle mae perchnogaeth gymunedol wedi datblygu dros gyfnod o amser. Mae'n bwysig ein bod yn cael hynny'n iawn ac rwy'n meddwl y caiff hynny ei ystyried yn y gwaith rydym yn ei wneud.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:42

Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

What action is the Minister planning to take to encourage local authorities to be more flexible in the way that they run their services, as a result of the possible cuts to public services in Cardiff North, including libraries and youth services? There are a number of vibrant community groups that don't want to take over buildings, but want to work in partnership, and issues come up like access to buildings, like libraries, for example, when the librarian isn't there and key holding—all these very practical issues that need to be resolved in order for this partnership working to go ahead. Does he have any guidance to offer?

Pa gamau y mae'r Gweinidog yn bwriadu eu cymryd i annog awdurdodau lleol i fod yn fwy hyblyg yn y ffordd y maent yn rhedeg eu gwasanaethau, yn sgil y toriadau posibl i wasanaethau cyhoeddus yng Ngogledd Caerdydd, gan gynnwys llyfrgelloedd a gwasanaethau ieuencid? Mae nifer o grwpiau cymunedol bywiog nad ydynt am feddiannu adeiladau, ond sy'n awyddus i weithio mewn partneriaeth, ac mae materion yn codi megis mynediad i adeiladau, fel llyfrgelloedd, er enghraifft, pan na fydd y llyfrgellydd yno a'r sawl sydd â'r allwedd—yr holl bethau ymarferol hyn y mae angen eu datrys er mwyn i waith partneriaeth o'r fath ddigwydd. A oes ganddo unrhyw ganllawiau i'w cynnig?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:42

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes. This is really within the portfolio of my colleague the Deputy Minister, but let me say that the Welsh Government's community learning libraries capital grant programme does provide support to establish multiservice community hubs, using libraries. It's also part of the Welsh Government's community learning libraries modernisation programme to encourage the co-location of library services with other public services, such as leisure centres and council information services. Clearly, we would want communities to be actively involved in the planning and management of those services.

Oes. Perthyn i bortffolio fy nghyd-Aelod, y Dirprwy Weinidog, y mae hyn mewn gwirionedd ond gadewch i mi ddweud bod rhaglen grant cyfalaf llyfrgelloedd dysgu cymunedol Llywodraeth Cymru yn darparu cefnogaeth i sefydlu canolfannau cymunedol aml-wasanaeth, gan ddefnyddio llyfrgelloedd. Mae hefyd yn rhan o raglen moderneiddio llyfrgelloedd dysgu cymunedol Llywodraeth Cymru i annog cyd-leoli gwasanaethau llyfrgell gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill, megis canolfannau hamdden a gwasanaethau gwybodaeth y cyngor. Yn amlwg, byddem yn dymuno gweld cymunedau yn rhan weithredol o'r gwaith o gynllunio a rheoli'r gwasanaethau hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Gweinyddu Cyfiawnder

The Administration of Justice

14:43

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

6. Beth yw polisi Llywodraeth Cymru ar ddatganoli gweinyddu cyfiawnder? OAQ(4)0555(PS)

6. What is the Welsh Government's policy on the devolution of the administration of justice? OAQ(4)0555(PS)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:43

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Cafodd ein polisi ei amlinellu yn ein cyflwyniad i'r comisiwn Silk.

Our policy was set out in our submission to the Silk commission.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:43

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Weinidog; rwyf wedi gweld hwnnw, wrth gwrs. A yw'r Gweinidog yn cytuno gyda fi ein bod wedi cael llywodraethau yn San Steffan yn rhy hir o lawer sy'n dibynnu ar ddelio gyda chyfiawnder a throeddau ar sail rhagfarn a greddf yn hytrach na thystiolaeth? Rydym eisoes wedi clywed am adroddiad Corston. Nid yw prif argymhelliad yr adroddiad hwnnw, sef delio gyda menywod o fewn y gymuned, wedi cael ei weithredu gan Lywodraeth San Steffan Lafur na chan y Llywodraeth San Steffan bresennol. Mae gan Lywodraeth Cymru agwedd wahanol at bobl ifanc sy'n droseddwy'r hefyd. Onid yw'n bryd felly i Gymru symud ymlaen i fod yn gyfrifol am droseddau a chyfiawnder ei hunan, a gwneud hynny mewn ffordd sy'n llawer mwy seiliedig ar dystiolaeth na rhagfarn wleidyddol?

Thank you, Minister; I have seen that document, of course. Does the Minister agree with me that we've had Governments in Westminster for far too long that rely on dealing with crime and justice on the basis of prejudice and instinct rather than evidence? We've already heard about the Corston report. The main recommendation of that report—namely, dealing with women within the community—hasn't been implemented by a Labour Westminster Government or by the current Westminster Government. The Welsh Government has a different approach to youth offending also. Isn't it time, therefore, for Wales to proceed to take responsibility for crime and justice itself, and to do that in a way that is far more based on evidence rather than political prejudice?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:44	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I think that the approach that we have as a Government to these issues is very clear. We set it out in our response to the Silk commission. He will be aware that, in the proposals that were recently published by the Westminster Government, there was no indication of a desire to transfer responsibility for policing and justice to the Welsh Government. We believe, and it's obviously a matter of discussion in the current election, that the proposals for Wales to have a say over policing should be undertaken, and we have wider objectives in the field of justice, as we've set out in our response to Silk.</p>	<p>Credaf fod y dull o weithredu sydd gennym fel Llywodraeth mewn perthynas â'r materion hyn yn glir iawn. Rydym wedi ei nodi yn ein hymateb i gomisiwn Silk. Yn y cynigion a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth San Steffan, fe fydd yn gwybod nad oedd unrhyw ddynodiad o awydd i drosglwyddo cyfrifoldeb am blismona a chyfiawnder i Lywodraeth Cymru. Rydym yn credu, ac mae'n amlwg yn bwnc trafod yn yr etholiad ar hyn o bryd, y dylid cyflwyno cynigion i Gymru gael llais dros blismona, ac mae gennym amcanion ehangach ym maes cyfiawnder, fel y nodwyd gennym yn ein hymateb i Silk.</p>
14:45	Suzy Davies Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Weinidog, mae yna ryw faint o anesmwythder am lefel y toriadau a chyllideb cyfiawnder yn San Steffan. Pe byddai gweinyddu cyfiawnder yn cael ei ddatganoli, a fydddech chi'n dymuno defnyddio pwerau amrywio treth incwm er mwyn gwella'r gyllideb yng Nghymru?</p>	<p>Minister, there is some disquiet in terms of the cuts to the justice budget in Westminster. If the administration of justice were to be devolved, would you wish to use income tax varying powers in order to improve the budget in Wales?</p>
14:45	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Well, it's quite true that your Government in Westminster has been cutting the budget for the Ministry of Justice year on year since 2010, and that is, I'm afraid, one of the outcomes of the austerity policies that your Government has imposed on this country. Clearly, we would not want justice services or any other services to be devolved to Wales at a discount, and were any further devolution to take place, we would obviously want to see that come with full budgets intact.</p>	<p>Wel, mae'n hollol wir fod eich Llywodraeth yn San Steffan wedi bod yn torri'r gyllideb ar gyfer y Weinyddiaeth Gyfiawnder flwyddyn ar ôl blwyddyn ers 2010, ac yn anffodus, dyna un o ganlyniadau'r polisiau caled y mae eich Llywodraeth wedi eu gorfodi ar y wlad. Yn amlwg, ni fyddem yn dymuno i wasanaethau cyfiawnder nac unrhyw wasanaethau eraill gael eu datganoli i Gymru am bris gostyngol, a phe bai unrhyw ddatganoli pellach yn digwydd, byddem yn amlwg yn awyddus i'w weld yn dod gyda chyllidebau llawn ynghlwm wrtho.</p>
	Cynghorau yn Gweithio gyda'i Gilydd	Councils Working Together
14:46	Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p><i>7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bwysigrwydd cynghorau yn gweithio gyda'i gilydd? OAQ(4)0560(PS)</i></p>	<p><i>7. Will the Minister make a statement on the importance of councils working together? OAQ(4)0560(PS)</i></p>
14:46	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>It is essential that councils do work together, and indeed with other partners, to design and deliver services around the needs of individuals, families and communities.</p>	<p>Mae'n hanfodol fod cynghorau'n gweithio gyda'i gilydd, ac yn wir gyda phartneriaid eraill, i gynllunio a chyflwyno gwasanaethau i ateb anghenion unigolion, teuluoedd a chymunedau.</p>
14:46	Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Thank you for that, Minister. Collaborative work between councils to improve service delivery takes many forms, and I'm sure that you will agree with me that an excellent example is the National Adoption Service for Wales. This service, launched in November 2014, has brought together councils and partners in the voluntary sector to work in five regional clusters. This grouping, achieved in a co-operative way, will in my opinion deliver the best possible service to those children in Wales who need adoptive families. Minister, I'm sure that you will agree with me that this is an example to follow for the improvement of service delivery in Wales.</p>	<p>Diolch i chi, Weinidog. Mae sawl ffurf ar waith cydweithredol rhwng cynghorau i wella'r modd y caiff gwasanaethau eu darparu, ac rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno mai un enghraifft wych yw Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru. Mae'r gwasanaeth hwn, a lansiwyd ym mis Tachwedd 2014, wedi dod â chynghorau a phartneriaid yn y sector gwirfoddol at ei gilydd i weithio mewn pum clwstwr rhanbarthol. Yn fy marn i, bydd y grŵp, a luniwyd mewn ffordd gydweithredol, yn darparu'r gwasanaeth gorau posibl i blant yng Nghymru sydd angen teuluoedd i'w mabwysiadu. Weinidog, rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno bod hon yn enghraifft i'w dilyn ar gyfer gwella'r modd y caiff gwasanaethau eu darparu yng Nghymru.</p>

14:47 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Llywydd, can I thank my colleague the Member for Neath for what she has said in that regard. I pay tribute to the work that she has done in this area over many years. Certainly, the National Adoption Service for Wales is an excellent example of authorities working together to improve public services for the people of Wales, and it does exemplify our vision for future collaborative work and one of the reasons we embarked on our reform agenda in public services.

Lywydd, a gaf fi ddiolch i fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Gastell-nedd am yr hyn a ddywedodd yn y cyswllt hwn. Rwy'n talu teyrnged i'r gwaith y mae wedi'i wneud yn y maes dros nifer o flynyddoedd. Yn sicr, mae Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru yn enghraifft ardderchog o awdurdodau'n gweithio gyda'i gilydd i wella gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer pobl Cymru, ac mae'n enghraifft o'n gweledigaeth ar gyfer cydweithio yn y dyfodol ac yn un o'r rhesymau pam y cyflwynasom ein hagenda i ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus.

14:47 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, obviously Conwy and Denbighshire were very keen to work more collaboratively and actually work towards a merger, something that you asked local authorities to do. When will you actually publish your map of the preferred option that you want to see implemented across Wales in order that local authorities that are progressive, like Conwy and Denbighshire, that want to work together more collaboratively, can actually get up and get on with it?

Weinidog, mae'n amlwg fod Conwy a Sir Ddinbych yn awyddus iawn i weithio'n fwy cydweithredol ac yn gweithio tuag at uno mewn gwirionedd, rhywbeth y gofynnodd i awdurdodau lleol ei wneud. Pa bryd y byddwch yn mynd ati i gyhoeddi eich map o'r opsiwn a ffafriar y dymunwch ei weld yn cael ei weithredu ledled Cymru fel bod awdurdodau lleol blaengar, fel Conwy a Sir Ddinbych, sy'n awyddus i weithio gyda'i gilydd yn fwy cydweithredol, yn gallu bwrw ati mewn gwirionedd?

14:48 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Llywydd, nothing is stopping any local authority from working co-operatively with another. In respect of the map, as we've said—and the First Minister has said—we expect to publish a map before the summer recess.

Lywydd, nid oes dim yn atal unrhyw awdurdod lleol rhag gweithio'n gydweithredol ag awdurdod arall. O ran y map, fel rydym wedi dweud—ac fel mae'r Prif Weinidog wedi dweud—rydym yn disgwyl cyhoeddi map cyn toriad yr haf.

Rôl Cynghorau Bro a Thref

The Role of Community and Town Councils

14:48 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am rôl cynghorau bro a thref yng Nghymru? OAQ(4)0556(PS)

8. Will the Minister make a statement on the role of community and town councils in Wales? OAQ(4)0556(PS)

14:48 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mae ein Papur Gwyn ar ddiwygio llywodraeth leol, 'Grym i Bobl Leol', yn amlinellu sut rydym yn gweithio gyda chynghorau cymuned a thref.

Our White Paper on local government reform, 'Power to Local People', sets out our approach to community and town councils.

14:48 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch i chi am eich ateb. A fydddech chi'n cytuno bod yr amser wedi dod i ddiwygio yr haen yma o lywodraeth leol er mwyn sicrhau bod yna fwy o gysondeb ar draws Cymru o safbwynt pob ardal yn cael ei chynrychioli gan gyngor bro a thref, a hefyd mwy o gysondeb o safbwynt maint, cyllidebau a chyfrifoldebau'r cynghorau hynny?

Thank you for that response. Would you agree that the time has come to reform this tier of local government in order to ensure greater consistency across Wales in terms of all areas being represented by a town and community council, and also greater consistency in terms of the size, budgets and responsibilities of those councils?

14:48 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Wel, rwy'n cytuno gyda fe. Mae'r Papur Gwyn yn esbonio hynny hefyd.

Well, I agree with him. The White Paper also explains that.

14:49 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, more and more services are being transferred to town and community councils, such as the running of public toilets. Can I ask what your view is on direct funding to town and community councils from Welsh Government?

Weinidog, mae mwy a mwy o wasanaethau yn cael eu trosglwyddo i gynghorau tref a chymuned, megis y gwaith o redeg toiledau cyhoeddus. A gaf fi ofyn beth yw eich barn ar gyllid uniongyrchol i gynghorau tref a chymuned gan Lywodraeth Cymru?

14:49	<p>Leighton Andrews Bywgraffiad Biography</p> <p>Well, I think we need to be clear about the role and functioning of town and community councils. It is true that they are taking over a number of facilities in a number of different areas, but the size and capacity of them does vary, as the Plaid Cymru Member for North Wales just said in his contribution. I think that it's important that we look at how these services are delivered across Wales. That's why the White Paper explains the need for a review of town and community councils. Of course, town and community councils also have the facility to raise funds for themselves.</p>	<p>Wel, rwy'n credu bod angen inni fod yn glir ynghylch rôl a swyddogaeth cyngorau tref a chymuned. Mae'n wir eu bod yn meddiannu nifer o gyfleusterau mewn nifer o wahanol ardaloedd, ond mae eu maint a'u gallu yn amrywio, fel y mae Aelod Plaid Cymru dros Ogledd Cymru newydd ei ddweud yn ei gyfraniad. Credaf ei bod yn bwysig inni edrych ar sut y mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu darparu ledled Cymru. Dyna pam y mae'r Papur Gwyn yn egluro'r angen i gynnal adolygiad o gynghorau tref a chymuned. Wrth gwrs, mae gan gynghorau tref a chymuned y cyfleuster i godi arian drostynt eu hunain.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Lefelau Cyfartal o Wasanaethau Cyhoeddus		Equal Levels of Public Services	
14:50	<p>Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography</p> <p>9. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu lefelau cyfartal o wasanaethau cyhoeddus ledled Cymru? OAQ(4)0548(PS)</p>	<p>9. Will the Minister make a statement on providing equal levels of public services across Wales? OAQ(4)0548(PS)</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:50	<p>Leighton Andrews Bywgraffiad Biography</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i weithio gyda phartneriaid i gefnogi a gwella gwasanaethau cyhoeddus yn gyson ledled Cymru gyfan.</p>	<p>The Welsh Government is committed to working with partners to support and improve public services consistently across the whole of Wales.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:50	<p>Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography</p> <p>Diolch am yr ateb hynny. Mae'r cwestiwn yn dod nôl at thema'r cwestiwn blaenorol. Pan fyddaf yn mynd o gwmpas ardal Afan, er enghraifft, mae'n ymddangos i fi bod gwasanaethau'n cael eu torri mewn llefydd lle mae llai o boblogaeth yn byw. Wedyn, maen nhw'n colli'r gallu i drafaelio i wasanaethau, er enghraifft, lawr ym Mhort Talbot. Mae hynny'n effeithio ar gyflwr eu bywyd ac ar gyflwr eu hiechyd. Pa gyngor rydych chi'n ei roi i awdurdodau lleol er mwyn peidio torri cymaint mewn ardaloedd lle mae yna lai o gyfleusterau ta beth?</p>	<p>Thank you for that response. The question returns to the theme of the previous question. When I travel around the Afan area, for example, it appears to me that services are being cut in areas where there is less density of population. People then lose the ability to travel to services, for example, in Port Talbot. This has an impact on their quality of life and on their health. What advice are you giving to local authorities in relation to not cutting so much in areas where there are fewer facilities available in the first place?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:51	<p>Leighton Andrews Bywgraffiad Biography</p> <p>It is important that citizens have access to services on an equitable basis within local authorities. Indeed, one of the advantages of the new Well-being of Future Generations (Wales) Bill is that it sets down very clear goals for all our public services, and there will be a requirement as a result of that for local authorities to give consideration to those wellbeing goals in the way in which they develop plans for their future work.</p>	<p>Mae'n bwysig i ddinasyddion gael mynediad at wasanaethau ar sail gyfartal o fewn yr awdurdodau lleol. In wir, un o fanteision y Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) newydd yw ei fod yn gosod nodau clir iawn ar gyfer pob un o'n gwasanaethau cyhoeddus, ac o ganlyniad i hynny bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol roi sylw i'r nodau lles yn y ffordd y maent yn datblygu cynlluniau ar gyfer eu gwaith yn y dyfodol.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:51	<p>Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography</p> <p>Following on from the Member, it is fair to say that there is a lack of equality and consistency with the delivery of our public services—[Interruption.] Sorry?</p>	<p>Yn dilyn o'r hyn a ddywedodd yr Aelod, mae'n deg dweud bod yna ddiffyg cydraddoldeb a chysondeb yn y modd y darperir ein gwasanaethau cyhoeddus—[Torri ar draws.] Mae'n ddrwg gennyf?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:51	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Can you just carry on, please? Ignore anybody who's sitting down.</p>	<p>A wnewch chi barhau, os gwelwch yn dda? Anwybyddwch unrhyw un sy'n eistedd.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:51	Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>[Continues.]—across Wales: DFGs, the number of empty homes renewed, library provision, even access to meals on wheels. As part of your own deliberations on reform of local government, how do you intend to address this blatant inequality?</p>	<p>[Yn parhau.]—ledled Cymru: grantiau cyfleusterau i'r anabl, nifer y cartrefi gwag a adnewyddir, darpariaeth llyfrgelloedd, hyd yn oed y ddarpariaeth pryd ar glud. Fel rhan o'ch trafodaethau chi ar ddiwygio llywodraeth leol, sut y bwriadwch fynd i'r afael â'r diffyg cydraddoldeb amlwg hwn?</p>
14:51	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Of course, a lot of the inequality is driven by the record £1.5 billion-worth of cuts imposed on Wales by the party that she supports in Westminster, and which has made it very difficult indeed for local authorities within Wales to deliver the full range of services. But, of course, this Welsh Government has protected local authorities in Wales far better than her Government has protected them in England.</p>	<p>Wrth gwrs, mae llawer o'r diffyg cydraddoldeb yn cael ei ysgogi gan yr £1.5 biliwn o doriadau a orfodwyd ar Gymru gan y blaid y mae'n ei chefnogi yn San Steffan, ac sydd wedi ei gwneud yn anodd iawn yn wir i awdurdodau lleol yng Nghymru ddarparu'r ystod lawn o wasanaethau. Ond wrth gwrs, mae'r Llywodraeth hon yng Nghymru wedi diogelu awdurdodau lleol yng Nghymru yn llawer gwell na'r modd y mae ei Llywodraeth hi wedi eu diogelu yn Lloegr.</p>
	Ad-drefnu Llywodraeth Leol	Local Government Reorganisation
14:52	Eluned Parrott Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p><i>10. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch ad-drefnu llywodraeth leol yn ne Cymru?</i> <i>OAQ(4)0550(PS)</i></p>	<p><i>10. Will the Minister provide an update regarding local government reorganisation in south Wales?</i> <i>OAQ(4)0550(PS)</i></p>
14:52	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Our preferred option remains Williams option 1.</p>	<p>Ein hopsiwn a ffafirir o hyd yw opsiwn 1 Williams.</p>
14:52	Eluned Parrott Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Thank you, Minister. I think it's fair to say that the road to reorganisation appears to have hit a few bumps and chicanes along the way with regard to the timetable. I'm wondering if you can confirm whether it's still your intention to deliver these changes in time for 2017 local government elections, or will you extend the already extended councillor terms to six or possibly even seven years to ensure that changes can be delivered before the next elections take place?</p>	<p>Diolch yn fawr, Weiniidog. Rwy'n credu ei bod yn deg dweud bod y daith tuag at ad-drefnu i'w gweld wedi taro ar ambell rwystr ar y ffordd o ran yr amserlen. Tybed a allwch gadarnhau ai eich bwriad o hyd yw cyflawni'r newidiadau hyn mewn pryd ar gyfer etholiadau llywodraeth leol 2017, neu a fyddwch yn ymestyn hyd cyfnod gwasanaeth cynghorwyr, sydd eisoes wedi'i ymestyn, i chwech neu hyd yn oed saith mlynedd er mwyn sicrhau y gellir cyflwyno newidiadau cyn yr etholiadau nesaf?</p>
14:53	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I have no intention of extending councillor terms to six or seven years.</p>	<p>Nid oes gennyf unrhyw fwriad o ymestyn hyd cyfnod gwasanaeth cynghorwyr i chwech neu saith mlynedd.</p>
14:53	Nick Ramsay Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Minister, this process does seem to have got rather confused. You sought voluntary mergers and then you rejected voluntary mergers. This has clearly created a great deal of uncertainty around existing local authorities' programmes and recruitment issues as well. What advice and guidance are you giving to local authorities on how to deal with these issues of uncertainty? Wouldn't it have been better, in hindsight, to simply have backed the current layout of local authorities until you had a workable and costed reorganisation programme that everyone bought into? Wouldn't that have been easier?</p>	<p>Weiniidog, mae'n ymddangos bod y broses hon wedi eich drysu braidd. Roeddech yn gofyn am uno gwirfoddol ac yna rydych wedi gwrthod uno gwirfoddol. Mae hyn yn amlwg wedi creu cryn dipyn o ansicrwydd ynglŷn â rhaglenni presennol awdurdodau lleol a materion recriwtio hefyd. Pa gyngor ac arweiniad a rowch i awdurdodau lleol ar sut i ddelio â'r ansicrwydd hwn? O edrych yn ôl, oni fyddai wedi bod yn well cefnogi cynllun presennol awdurdodau lleol hyd nes y byddai gennych raglen ad-drefnu ymarferol ac wedi'i chostio y gallai pawb ei chefnogi? Oni fyddai hynny wedi bod yn haws?</p>

14:53 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

The 22 local authorities still exist, so I don't know what he means by continuing to back the current system of local authorities. The fact that they exist means that they are being backed.

Mae'r 22 awdurdod lleol yn dal i fodoli, felly nid wyf yn gwybod beth y mae'n ei olygu wrth barhau i gefnogi'r system bresennol o awdurdodau lleol. Mae'r ffaith eu bod yn bodoli yn golygu eu bod yn cael eu cefnogi.

14:53 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, you will know that Neath Port Talbot was proposed to join with Bridgend County Borough Council in the Williams commission, but Bridgend's preference for a merger was clearly with the Vale of Glamorgan. It led Neath Port Talbot to seek joining with Swansea in this 'bay authority'. I wonder whether you've had any more conversations with your colleagues so that you can all be potentially shouting from the same hymn sheet.

Weinidog, fe wyddoch fod argymhelliaid i uno Castell-nedd Port Talbot â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yng nghomisiwn Williams, ond roedd hi'n amlwg ei bod yn well gan Ben-y-bont ar Ogwr uno â Bro Morgannwg. Arweiniodd hyn at Gastell-nedd Port Talbot yn ceisio uno ag Abertawe i greu 'awdurdod y bae'. Tybed a ydych wedi cael rhagor o drafodaethau gyda'ch cyd-Aelodau er mwyn i chi gyd allu gweiddi o'r un llyfr emynau, o bosibl.

14:54 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

I never shout from a hymn sheet. [Laughter.] Although, some people have said that my singing does sound like shouting.

Nid wyf byth yn gweiddi o lyfr emynau. [Chwerthin.] Er, mae rhai pobl wedi dweud bod fy nghanu'n swnio fel gweiddi.

I've had a number of conversations with Members from all parties. I am still seeking to find a single political party in this Chamber that has unanimity within it on the subject of the future of local government.

Rwyf wedi cael nifer o drafodaethau gydag Aelodau o bob plaid. Rwy'n dal i geisio dod o hyd i blaid wleidyddol yn y Siambr hon sydd â barn unfryd ar ddyfodol llywodraeth leol.

Contractau Sero Awr

Zero-hour Contracts

14:54 **Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

11. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddefnyddio contractau sero awr o fewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru? OAQ(4)0557(PS)

11. Will the Minister make a statement on the use of zero hours contracts in public services in Wales? OAQ(4)0557(PS)

14:54 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

We are concerned about the impact of zero-hours contracts and research has been commissioned on their use in devolved public services.

Rydym yn pryderu am effaith contractau dim oriau ac mae ymchwil wedi cael ei gomisiynu ar eu defnydd yn y gwasanaethau cyhoeddus datganoledig.

14:55 **Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

I welcome the fact that you've commissioned some research, Minister, and I look forward to its findings. I expect it will have picked up on the growing concern about the use of those contracts, particularly in social care. That could transform social care, Minister. Studies show, time and time again, how zero-hours contracts undermine the profession and erode standards of care. So, Minister, while local authorities must negotiate their own contracts with local suppliers, of course, what more can the Welsh Government do to encourage those firms that decent pay and conditions is better in the long run than cutting costs and cutting corners?

Croesawaf y ffaith eich bod wedi comisiynu rhywfaint o ymchwil, Weinidog, ac edrychaf ymlaen at ei ganfyddiadau. Rwy'n disgwyl y bydd wedi ymdrin â'r pryder cynyddol ynghylch defnyddio'r contractau hynny, yn enwedig ym maes gofal cymdeithasol. Gallai hynny drawsnewid gofal cymdeithasol, Weinidog. Dengys astudiaethau, dro ar ôl tro, sut y mae contractau dim oriau'n tansilio'r proffesiwn ac yn erydu safonau gofal. Felly, Weinidog, er bod yn rhaid i awdurdodau lleol negodi eu contractau eu hunain gyda chyflenwyr lleol, wrth gwrs, beth arall y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i annog cwmnïau i weld bod cyflogau ac amodau teg yn well yn y tymor hir na thorri costau a thorri corneli?

14:55	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography Well, certainly, we share the concerns regarding the terms and conditions of social care workers and how low wages and uncertain contracts can lead to reductions in the quality of care. My colleague, the Minister for Health and Social Services is giving detailed consideration to ways in which Welsh Government can make progress in these areas.	Wel, yn sicr, rydym yn rhannu'r pryderon ynghylch telerau ac amodau gweithwyr gofal cymdeithasol a sut y gall cyflogau isel a chontractau ansicr arwain at ostwng safon gofal. Mae fy nghydweithiwr, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn rhoi sylw manwl i ffyrdd y gall Llywodraeth Cymru wneud cynnydd yn y meysydd hyn.	Senedd.tv Fideo Video
14:56	Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography There's some hypocrisy going on here, because—	Mae rhywfaint o ragrith ar waith yma, oherwydd—	Senedd.tv Fideo Video
14:56	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography Can you just ask the question?	A wnewch chi ofyn y cwestiwn?	Senedd.tv Fideo Video
14:56	Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography If, as Ed Miliband says, zero-hour contracts are incompatible with building a loyal, skilled and productive workforce, would the Minister mind telling me why do Labour-run local authorities, such as Bridgend and Swansea, run them, and why have 60 Labour MPs employed using them over the past two years?	Os yw contractau dim oriau, fel y dywed Ed Miliband, yn anghydnaws ag adeiladu gweithlu ffyddlon, medrus a chynhyrchiol, a fyddai'r Gweinidog yn gallu dweud wrthyf pam y mae awdurdodau lleol dan arweiniad Llafur, fel Pen-y-bont ar Ogwr ac Abertawe, yn eu defnyddio, a pham y mae 60 o ASau Llafur wedi eu defnyddio dros y ddwy flynedd ddiwethaf?	Senedd.tv Fideo Video
14:56	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography Well, my understanding of what she says about Members of Parliament is that it is completely incorrect, and it is propaganda being put around by her party. I completely support what the leader of the Labour Party has said in the context of zero-hours contracts, and the forthcoming Labour Government will legislate to deal with the problem.	Wel, fy nealltwriaeth i o'r hyn y mae'n ei ddweud am Aelodau Seneddol yw ei fod yn gwbl anghywir, ac mai propaganda yw hyn sy'n cael ei ledaenu gan ei phlaid. Rwy'n llwyr gefnogi'r hyn y mae arweinydd y Blaid Lafur wedi dweud yng nghyd-destun contractau dim oriau, a bydd y Llywodraeth Lafur sydd ar y ffordd yn deddfu i fynd i'r afael â'r broblem.	Senedd.tv Fideo Video
14:57	Simon Thomas Bywgraffiad Biography Mae eich Llywodraeth chi, wrth gwrs, wedi cael dau gyfle i ddeddfu ar gytundebau dim oriau fan hyn, un ym maes gofal cymdeithasol, pan bleidiodd Joyce Watson i gadw cytundebau dim oriau, ac unwaith ym maes amaeth. Felly, a wnewch chi roi'r addewid hwn: beth bynnag sy'n digwydd nesaf yn San Steffan, mae gyda ni nawr y grym yng Nghymru i ddeddfu ar y materion hyn, felly bydd eich Llywodraeth chi, y tro nesaf y mae cyfle i ddeddfu fan hyn, yn deddfu i wahardd y contractau hyn?	Your Government, of course, has had two opportunities to legislate on zero-hours contracts here, once in the area of social care, where Joyce Watson voted to retain zero-hours contracts, and once in the area of agriculture. So, will you give this pledge: whatever happens next in Westminster, we now have the power in Wales to legislate on these issues and therefore your Government, the next time the opportunity arises, will legislate to ban these contracts?	Senedd.tv Fideo Video
14:57	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography I've listened throughout recent weeks to the position of his party on this issue, and I've also seen reports from others that a number of councils run by his party use zero-hours contracts. So, let me just make a point to him: I think he needs to be clear—because we are clear as a Government—that the reasons for which we could not support amendments to previous legislation in respect of zero-hours contracts was that the amendments themselves potentially raised questions over the National Assembly's competence in these areas, and their inclusion might have resulted in the referral of those Bills to the Supreme Court. That is why we opposed those amendments at the time.	Rwyf wedi gwranddo drwy gydol yr wythnosau diwethaf ar safbwynt ei blaid ar y mater, ac rwyf hefyd wedi gweld adroddiadau gan bobl eraill fod nifer o'r cynghorau sy'n cael eu rhedeg gan ei blaid yn defnyddio contractau dim oriau. Felly, gadewch i mi wneud un pwynt syml: rwy'n meddwl bod angen iddo fod yn glir—oherwydd rydym ni'n glir fel Llywodraeth—mai'r rhesymau pam na allem gefnogi gwelliannau i ddeddfwriaeth flaenorol mewn perthynas â chontractau dim oriau oedd bod y gwelliannau eu hunain yn codi cwestiynau posibl ynghylch cymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol yn y meysydd hyn, a gallai eu cynnwys fod wedi arwain at gyfeirio'r Biliau hynny i'r Goruchaf Lys. Dyna pam y gwrthwynebwyd y gwelliannau hynny gennym ar y pryd.	Senedd.tv Fideo Video

Y Dreth Gyngor

Council Tax

14:58 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
12. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am dreth cyngor sy'n daladwy yng Nghymru? OAQ(4)0553(PS)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

12. Will the Minister make statement on council tax payable in Wales? OAQ(4)0553(PS)

14:58 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Under the Local Government Finance Act 1992, council tax is payable by 1.3 million households in Wales. More than 307,000 of these receive financial assistance under our council tax reduction schemes.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

O dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, mae'r dreth gyngor yn daladwy gan 1.3 miliwn o gartrefi yng Nghymru. Mae mwy na 307,000 o'r rhain yn cael cymorth ariannol o dan ein cynlluniau gostyngiadau'r dreth gyngor.

14:58 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Minister, Welsh Conservatives remain consistent in calling for a council tax freeze, bringing us in line with Scotland and England. Following unfair increases of nearly another 5 per cent, our hardworking families and pensioners have now been left £201 out of pocket. Minister, how do you justify Welsh Labour's refusal to pass over this intended funding, putting that money right back into those pockets where it belongs?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Weinidog, mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn parhau i alw'n gyson am rewi'r dreth gyngor, fel sy'n digwydd yn yr Alban a Lloegr. Yn dilyn cynnydd annheg o bron 5 y cant arall, mae ein teuluoedd gweithgar a'n pensiynwyr £201 yn waeth eu byd bellach. Weinidog, sut y gallwch gyfiawnhau'r modd y mae Llafur Cymru yn gwrthod trosglwyddo'r cyllid arfaethedig hwn a'i roi yn ôl ym mhocedi pobl, lle mae i fod?

14:59 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Well, over 40 per cent of councils in England have refused to implement a council tax freeze, including councils run by her party. We are very clear that we will support those who need our support through the council tax reduction scheme. At the end of the day, let me remind her that average council tax in Wales is lower than the average council tax in England.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Wel, mae dros 40 y cant o gynghorau yn Lloegr wedi gwrthod rhewi'r dreth gyngor, gan gynnwys cynghorau dan arweiniad ei phlaid. Rydym yn glir iawn y byddwn yn cefnogi'r rhai sydd angen ein cefnogaeth drwy gynllun gostyngiadau'r dreth gyngor. Yn y pen draw, gadewch i mi ei hatgoffa bod y dreth gyngor gyfartalog yng Nghymru yn is na'r dreth gyngor gyfartalog yn Lloegr.

Y Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)

The Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Bill

14:59 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
13. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithredu'r Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)? OAQ(4)0558(PS)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13. Will the Minister provide an update on the implementation of the Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Bill? OAQ(4)0558(PS)

14:59 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
As I said earlier, the Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Bill received Royal Assent and became an Act earlier today. An implementation plan is being finalised, and I will provide a report to the Assembly in my oral statement in a month or so's time.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Fel y dywedais yn gynharach, mae'r Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) wedi derbyn Cydsyniad Brenhinol a daeth yn Ddeddf yn gynharach heddiw. Mae cynllun gweithredu yn cael ei gwblhau, a byddaf yn darparu adroddiad i'r Cynulliad yn fy natganiad llafar ymhen mis neu ddau.

15:00	Julie Morgan Bywgraffiad Biography	<p>I welcome the new Act and believe it will make a great difference to the lives of women in Wales, but it's obviously a very sad fact that women are still dying at the hands of violent partners and that the funding for legal aid, which has been cut by the current UK Government, is making it harder than ever for women to go to court about domestic violence. Is there anything that Welsh Government can do to help women in bringing such cases to court?</p>	<p>Rwy'n croesawu'r Ddeddf newydd ac yn credu y bydd yn gwneud gwahaniaeth mawr i fywydau menywod yng Nghymru, ond mae'n amlwg yn ffaith drist iawn fod menywod yn dal i gael eu lladd gan bartneriaid treisgar a bod y cyllid ar gyfer cymorth cyfreithiol, sydd wedi cael ei dorri gan Lywodraeth bresennol y DU, yn ei gwneud yn anoddach nag erioed i fenywod fynd i'r llys mewn perthynas â thrais yn y cartref. A oes unrhyw beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i helpu menywod i ddod ag achosion o'r fath i'r llys?</p>	Senedd.tv Fideo Video
15:00	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	<p>Well, I think it is important, obviously, that we, in our discussions with the police service in Wales, are very clear about the priority we as a Government give to these issues. We obviously support many third sector organisations as well, financially, who are in a position to provide advice and support to women who find themselves in that position. I think our Act, which we have now adopted in Wales, and which is a groundbreaking Act, will provide additional support to the sector and will also ensure that we have in place both national and local strategies, which will deliver the services that are needed.</p>	<p>Wel, yn ein trafodaethau â'r gwasanaeth heddlu yng Nghymru, rwy'n meddwl ei bod yn amlwg yn bwysig ein bod yn glir iawn ynglŷn â'r flaenoriaeth rydym ni fel Llywodraeth yn ei rhoi i'r materion hyn. Rydym hefyd, wrth gwrs, yn rhoi cefnogaeth ariannol i lawer o fudiadau trydydd sector sydd mewn sefyllfa i ddarparu cyngor a chefnogaeth i fenywod yn y sefyllfa hon. Rwy'n meddwl y bydd ein Deddf, a fabwysiadwyd gennym bellach yng Nghymru, ac sy'n Ddeddf arloesol, yn darparu cymorth ychwanegol i'r sector, a bydd hefyd yn sicrhau bod gennym strategaethau cenedlaethol a lleol ar waith ar gyfer darparu'r gwasanaethau angenrheidiol.</p>	Senedd.tv Fideo Video
Tanau wedi'u Cynnau yn Fwriadol		Deliberate Fires		
15:01	William Graham Bywgraffiad Biography	<p><i>14. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei drafodaethau gyda'r gwasanaethau brys ynghylch tanau a gaiff eu cynnu yn fwriadol? OAQ(4)0551(PS)</i></p>	<p><i>14. Will the Minister make a statement on his discussions with the emergency services concerning incidents of deliberate fires? OAQ(4)0551(PS)</i></p>	Senedd.tv Fideo Video
15:01	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	<p>Yes. The First Minister and I will be holding a summit on deliberate grass fires later this afternoon. This will include the chief constables, chief fire officers and other key partners.</p>	<p>Gwnaf. Bydd y Prif Weinidog a minnau yn cynnal uwchgynhadledd ar danau glaswellt sy'n cael eu cynnu'n fwriadol yn ddiweddarach y prynhawn yma. Bydd yn cynnwys y prif gwnstablaid, prif swyddogion tân a phartneriaid allweddol eraill.</p>	Senedd.tv Fideo Video
15:01	William Graham Bywgraffiad Biography	<p>I am grateful to the Minister for his reply. Also, I record my thanks on behalf of all Members who were affected by these wicked acts for the initiative that he's taking, and I hope that he'll be able to report to the Assembly as soon as possible.</p>	<p>Diolch i'r Gweinidog am ei ateb. Hefyd, rwy'n cofnodi fy niolch iddo ar ran yr holl Aelodau yr effeithiwyd arnynt gan y gweithredoedd drygionus hyn am ddangos blaengaredd, a gobeithio y gall adrodd yn ôl i'r Cynulliad cyn gynted ag y bo modd.</p>	Senedd.tv Fideo Video
15:01	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	<p>Certainly, that would be my intention. As I say, we will be having those discussions today. I've been in constant contact with the police and fire and rescue services over the last couple of weeks in respect of this issue. I'm pleased that it is getting additional media attention, and I'm also pleased at the very strong message that is coming from the wider community, not least through social media.</p>	<p>Yn sicr, dyna yw fy mwriad. Fel y dywedais, byddwn yn cynnal y trafodaethau hynny heddiw. Rwyf wedi bod mewn cysylltiad cyson â'r heddlu a'r gwasanaethau tân ac achub dros yr ychydig wythnosau diwethaf mewn perthynas â'r mater. Rwy'n falch ei fod yn cael sylw ychwanegol yn y cyfryngau, ac rwy'n falch hefyd o weld y neges gref iawn sy'n dod o'r gymuned ehangach, nid yn lleiaf drwy gyfryngau cymdeithasol.</p>	Senedd.tv Fideo Video
15:02	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	<p>Thank you, Minister.</p>	<p>Diolch yn fawr, Weinidog.</p>	Senedd.tv Fideo Video

15:02

3. Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar yr Ymchwiliad i Arferion Gorau o ran y Gyllideb Rhan 2—Cynllunio Gweithdrefnau Cyllidebol Newydd a'u Rhoi ar Waith

We now move on to the next item, which is the debate on the Finance Committee's report, 'Best Practice Budget Process Part 2—Planning and implementing new budget procedures', and I call on the Chair of the committee, Jocelyn Davies.

Cynnig NDM5748 Jocelyn Davies

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar ei ymchwiliad i Arferion Gorau o ran y Gyllideb Rhan 2—Cynllunio gweithdrefnau cyllidebol newydd a'u rhoi ar waith, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Mawrth 2015.

Cynigiwyd y cynnig.

15:02

Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Presiding Officer. This report is the culmination of the Finance Committee's work on best practice budget processes. This is of significant importance to this National Assembly, to the Welsh Government and to the Welsh public to help them understand how public money is being used to fund the public services they depend on. It is, after all, their money that they entrust to the Government to spend on their behalf. This part 2 report outlines a number of recommendations, of issues that we think should be considered in deciding on new budget procedures here in Wales. I'm grateful to the Minister for her positive response to the committee's report. In introducing this debate this afternoon Members, I think, Presiding Officer, will be pleased that I don't intend to cover every recommendation that we made, but I will focus on some of the key issues.

Now, recommendation 1 suggests a two-stage process for the National Assembly's scrutiny and approval of the budget. As a committee, we didn't want to impose a new detailed budget process on the Assembly or the Government. We hope that officials on both sides will now work together in drawing up the detail of our proposed procedure that will meet the needs of all concerned, including those organisations reliant on Welsh Government funding.

Y [Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

3. Debate on the Finance Committee's Report on Best Practice Budget Process Part 2—Planning and Implementing New Budget Procedures

Llywydd / The Presiding

Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Symudwn ymlaen yn awr at yr eitem nesaf, sef y ddadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyllid, 'Arferion Gorau o ran y Gyllideb Rhan 2—Cynllunio gweithdrefnau cyllidebol newydd a'u rhoi ar waith', a galwaf ar Gadeirydd y pwyllgor, Jocelyn Davies.

Motion NDM5748 Jocelyn Davies

The National Assembly for Wales:

Notes the report of the Finance Committee on its inquiry into Best Practice Budget Process Part 2—Planning and implementing new budget procedures, which was laid in the Table Office on 9 March 2015.

Motion moved.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Diolch i chi, Lywydd. Yr adroddiad hwn yw penllanw gwaith y Pwyllgor Cyllid ar arfer gorau ym mhrosesau'r gyllideb. Mae'n fater pwysig iawn i'r Cynulliad Cenedlaethol, i Lywodraeth Cymru ac i'r cyhoedd yng Nghymru i'w helpu i ddeall sut y caiff arian cyhoeddus ei ddefnyddio i ariannu'r gwasanaethau cyhoeddus y maent yn dibynnu arnynt. Wedi'r cyfan, eu harian hwy y maent yn ei ymddiried i'r Lywodraeth ei wario ar eu rhan. Mae'r adroddiad rhan 2 yn amlinellu nifer o argymhellion ynghylch materion y credwn y dylid eu hystyried wrth benderfynu ar weithdrefnau newydd ar gyfer y gyllideb yma yng Nghymru. Diolch i'r Gweinidog am ei hymateb cadarnhaol i adroddiad y pwyllgor. Wrth gyflwyno'r ddadl hon y prynhawn yma, rwy'n meddwl, Lywydd, y bydd yr Aelodau'n falch nad wyf yn bwriadu ymdrin â phob argymhelliad a wnaethom, ond canolbwyntiaf ar rai o'r materion allweddol.

Nawr, mae argymhelliad 1 yn awgrymu proses ddau gam ar gyfer gwaith craffu a chymeradwyo'r gyllideb gan y Cynulliad Cenedlaethol. Fel pwyllgor, nid oeddem am orfodi proses gyllidebol fanwl newydd ar y Cynulliad neu'r Lywodraeth. Gobeithiwn y bydd swyddogion ar y ddwy ochr yn gweithio gyda'i gilydd yn awr i lunio manylion ein gweithdrefn arfaethedig a fydd yn cwrrdd ag anghenion pawb dan sylw, gan gynnwys y sefydliadau sy'n dibynnu ar gyllid Lywodraeth Cymru.

Our report provides an example of a two-part process that we hope will be a useful starting point for discussions in the new process. The authorisation of the budget is currently centred on the finance Minister and the Finance Committee, and we would like to see a shift in approach. New budgetary procedures should allow more time to enable adequate scrutiny of allocations and spending to each ministerial portfolio. This time is sorely missing in the current budget process. Primarily, we hope the new process will allow for: UK budget announcements; an early indication to other public bodies of their budgets for the following financial year; adequate time for Assembly scrutiny; and futureproofing for any further fiscal devolution. I'm pleased the Minister is considering moving to a two-stage process, and, as a committee, we look forward to considering this further when discussions have taken place between the Assembly and the Government.

Recommendations 2 and 3 of our report refer to the allocations of resource and the linking to outputs, outcomes, and preventative spend. As a committee, we recognise that budget documents have improved considerably over recent years, and we are grateful to the Government for the work in this area. They now include a significant amount of information on performance in support of desired outcomes. Building on that improvement, we recommend that more could be done to link budget allocations to key outputs. I'm pleased that the Minister will take this as an opportunity to clarify the alignment between indicators, outcomes and budget decisions. It is clear that this work will progress alongside the development of a two-stage budget process, and we look forward to considering this further to support her efforts.

In relation to recommendations 4 and 5, regarding the alignment of the budget and Welsh Government accounts with the Treasury's budget boundary, and the production of a whole of Government of Wales account, the Minister has indicated that she is undertaking work with the Auditor General for Wales and the Wales Audit Office regarding these recommendations, and I look forward to the Minister reporting back on these issues.

Our sixth recommendation refers to the availability of Welsh economic data. The committee heard persuasive evidence that Wales lacks reliable economic forecasts, taxation revenue forecasts and borrowing proposals. Whilst Scotland has been collecting data since the late 1970s, this doesn't seem to be happening in Wales. Moving toward greater fiscal devolution and taking on borrowing powers means the need for informative, timely, robust, independent and objective information is all the more important, both in the setting and scrutinising of future budgets. I'm pleased that the Minister has identified areas where work is taking place to address this lack of economic data in Wales; however, I would like to see a strategy produced, as recommended by us.

Mae ein hadroddiad yn rhoi enghraifft o broses ddwy ran y gobeithiwn y bydd yn fan cychwyn defnyddiol ar gyfer trafodaethau yn y broses newydd. Mae awdurdodiad y gyllideb wedi'i ganoli ar hyn o bryd ar y Gweinidog Cyllid a'r Pwyllgor Cyllid, a hoffem weld newid yn y dull o weithredu. Dylai gweithdrefnau newydd ar gyfer y gyllideb ganiatáu mwy o amser i ganiatáu craffu digonol ar ddyraniadau a gwariant pob portffolio gweinidogol. Mae'r amser hwn ar goll o broses y gyllideb fel y mae. Yn bennaf, rydym yn gobeithio y bydd y broses newydd yn caniatáu ar gyfer: cyhoeddiadau cyllideb y DU; rhagamcan cynnar i gyrrff cyhoeddus eraill o beth fydd eu cyllidebau ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol; digon o amser ar gyfer craffu gan y Cynulliad; a diogelu unrhyw ddatganoli cyllidol pellach ar gyfer y dyfodol. Rwy'n falch fod y Gweinidog yn ystyried symud i broses ddau gam, ac fel pwyllgor, edrychwn ymlaen at ystyried hyn ymhellach pan fydd trafodaethau wedi'u cynnal rhwng y Cynulliad a'r Llywodraeth.

Mae argymhellion 2 a 3 ein hadroddiad yn cyfeirio at ddyraniadau adnoddau a chysylltiadau ag allbynnau, canlyniadau, a gwariant ataliol. Fel pwyllgor, rydym yn cydnabod bod dogfennau cyllideb wedi gwella'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, ac rydym yn ddiolchgar i'r Llywodraeth am y gwaith yn y maes. Maent bellach yn cynnwys cryn dipyn o wybodaeth am berfformiad i gefnogi canlyniadau dymunol. Gan adeiladu ar y gwelliant hwnnw, rydym yn argymhell y gellid gwneud mwy i gysylltu dyraniadau cyllidebol ag allbynnau allweddol. Rwy'n falch fod y Gweinidog yn manteisio ar hyn fel cyfle i egluro'r modd y mae dangosyddion, canlyniadau a phenderfyniadau cyllideb yn cyd-fynd â'i gilydd. Mae'n amlwg y bydd y gwaith yn symud ymlaen ochr yn ochr â datblygu proses ddau gam ar gyfer y gyllideb, ac edrychwn ymlaen at ystyried hyn ymhellach er mwyn cefnogi ei hymdrechion.

Mewn perthynas ag argymhellion 4 a 5, ynghylch sicrhau bod y gyllideb a chyfrifon Llywodraeth Cymru yn cyd-fynd â therfyn cyllideb y Trysorlys, a chynhyrchu cyfrif Llywodraeth gyfan Cymru, mae'r Gweinidog wedi dynodi ei bod yn cyflawni gwaith gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch yr argymhellion hyn, ac edrychaf ymlaen at weld y Gweinidog yn adrodd yn ôl ar y materion hyn.

Mae ein chweched argymhelliad yn cyfeirio at argaeledd data economaidd yng Nghymru. Clywodd y pwyllgor dystiolaeth argyhoeddiadol fod Cymru'n brin o ragolygon economaidd dibynadwy, rhagolygon refeniw treth a chynigion benthyca. Er bod yr Alban wedi bod yn casglu data ers diwedd y 1970au, nid yw'n ymddangos bod hyn yn digwydd yng Nghymru. Mae symud tuag at fwy o ddatganoli cyllidol a chael pwerau benthyca yn golygu bod yr angen am wybodaeth ddefnyddiol, amserol, annibynnol, gwrthrychol a chadarn yn bwysicach byth, o ran gosod cyllidebau yn y dyfodol a chraffu arnynt. Rwy'n falch fod y Gweinidog wedi nodi meysydd lle mae gwaith yn cael ei wneud i fynd i'r afael â diffyg data economaidd yng Nghymru; fodd bynnag, hoffwn weld strategaeth yn cael ei chynhyrchu, fel yr argymhellwyd gennym.

Also in relation to economic data, recommendation 7 suggests that the Welsh Government explores the possibility of a Welsh fiscal commission. The committee was impressed with arrangements in Scotland and the Netherlands, and is pleased that the Minister is committed to considering the establishment of a fiscal commission for Wales.

Recommendations 10 and 11 refer to the arrangements for adjustments to the block grant and the banking of interest. We appreciate that these recommendations will need to be raised with the UK Government, but we're pleased to see the Minister's commitment to addressing these issues.

Recommendation 12 refers to the requirement for a financial framework Bill. In bringing forward a Bill of this nature, I understand that there would be other issues to consider in relation to expected changes in the devolution settlement.

That said, the committee heard clear evidence that many legislatures have a framework enactment to govern budget and accountability arrangements for their jurisdictions. We firmly believe that Wales needs to be taking similar steps. I note the Minister's intention that, at this stage, changes to the budgetary process could be done with a non-statutory framework, such as revising Standing Orders and the budget protocol that exists currently between our committee and the Government. While I can see the short-term benefits of this non-statutory framework, it does not provide the benefits we heard financial framework legislation could bring, and we would want to see a Bill of this nature introduced in the next Assembly.

Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 15:08.

Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In addition, if revised budget procedures were to be provided for through Standing Order changes and a protocol, this protocol should be agreed by the Assembly in parallel with changes to Standing Orders. These two documents will go hand in hand, and they warrant approval by the Assembly as a whole.

Finally, one of the key points the committee has stressed throughout this report is the need for co-operation and joint working between the Assembly and the Welsh Government. It is vital that any new procedures developed be mindful of the needs of both, while ensuring democratic accountability for the people of Wales on how their money is raised and spent. I look forward to hearing the views of Members. Thank you.

15:09

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I agree with everything the Chair of the committee just said. As a member of the Finance Committee, I fully endorse the committee's recommendations. I also welcome the Minister's response, which again has been very positive. I also convey my thanks to the Chair for the way she has chaired the inquiry.

Hefyd mewn perthynas â data economaidd, mae argymhellad 7 yn awgrymu bod Llywodraeth Cymru yn archwilio'r posibilrwydd o gomisiwn ariannol i Gymru. Creodd trefniadau yn yr Alban a'r Iseldiroedd argraff ar y pwyllgor, ac mae'n falch fod y Gweinidog wedi ymrwmo i ystyried sefydlu comisiwn ariannol i Gymru.

Mae argymhellion 10 ac 11 yn cyfeirio at y trefniadau ar gyfer addasiadau i'r grant bloc a bancio llog. Rydym yn gwerthfawrogi y bydd angen dod â'r argymhellion i sylw Llywodraeth y DU, ond rydym yn falch o weld ymrwymiad y Gweinidog i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Mae argymhellad 12 yn cyfeirio at y gofyniad am Fil fframwaith ariannol. Rwy'n deall y byddai materion eraill i'w hystyried wrth gyflwyno Bil o'r math hwn, mewn perthynas â newidiadau a ddisgwyllir i'r setliad datganoli.

Wedi dweud hynny, clywodd y pwyllgor dystiolaeth glir fod gan sawl deddfwrfa ddeddfiad fframwaith i lywodraethu trefniadau'r gyllideb ac atebolrwydd ar gyfer eu hawdurdodaethau. Credwn yn gryf fod angen i Gymru roi camau tebyg ar waith. Nodaf fwrriad y Gweinidog, ar hyn o bryd, y gellid gwneud newidiadau i'r broses gyllidebol drwy fframwaith anstatudol, megis diwygio Rheolau Sefydlog a phrotocol y gyllideb sy'n bodoli ar hyn o bryd rhwng ein pwyllgor a'r Llywodraeth. Er y gallaf weld manteision y fframwaith anstatudol yn y tymor byr, nid yw'n darparu'r manteision y clywsom y gallai deddfwriaeth fframwaith ariannol eu creu, a byddem yn awyddus i weld Bil o'r math hwn yn cael ei gyflwyno yn y Cynulliad nesaf.

The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 15:08.

Yn ogystal, pe darperid gweithdrefnau diwygiedig ar gyfer y gyllideb drwy newidiadau i'r Rheol Sefydlog a phrotocol, dylai'r Cynulliad gytuno ar y protocol ochr yn ochr â newidiadau i'r Rheolau Sefydlog. Bydd y ddwy ddogfen yn mynd law yn llaw, ac maent yn galw am gymeradwyaeth gan y Cynulliad cyfan.

Yn olaf, un o'r pwyntiau allweddol y mae'r pwyllgor wedi ei bwysleisio drwy'r adroddiad yw'r angen am gydweithredu a gweithio ar y cyd rhwng y Cynulliad a Llywodraeth Cymru. Mae'n hanfodol fod unrhyw weithdrefnau newydd a ddatblygir yn ymwybodol o anghenion y ddau, gan sicrhau atebolrwydd democrataidd i bobl Cymru o ran y modd y caiff eu harian ei godi a'i wario. Edrychaf ymlaen at glywed barn yr Aelodau. Diolch yn fawr.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Rwy'n cytuno â phopeth y mae Cadeirydd y pwyllgor newydd ei ddweud. Fel aelod o'r Pwyllgor Cyllid, rwy'n llwyr gefnogi argymhellion y pwyllgor. Rwyf hefyd yn croesawu ymateb y Gweinidog, sydd unwaith eto wedi bod yn gadarnhaol iawn. Rwyf hefyd yn cyfleu fy niolch i'r Cadeirydd am y modd y mae hi wedi cadeirio'r ymchwiliad.

From my experience—and I'm sure that of others—it would be difficult to radically change the methodology after it had been implemented the first time. That's why I'm pleased that the Minister accepted the recommendation that Welsh Government and the Assembly should work together to develop a new budget process. The process has to work for both, if only because the Welsh Government manages the budget, but the Assembly approves it. As there is yet to be a single-party majority Government at the Assembly, it is essential that the Assembly as a whole is happy with the new system.

Can I again stress the importance of ensuring other public bodies have an early indication of their budget for the next year? If local government can be told its draft settlement by the end of December, why cannot other public bodies be told theirs? Also, a number of third sector bodies are, in financial terms, almost totally dependent upon Welsh Government grants. These bodies also need an early indication of their proposed budgets.

Turning to recommendation 4, an alignment of the Assembly's budget with the Treasury's budget boundary is important, and I welcome the Minister's commitment to work with the Auditor General for Wales and the Wales Audit Office at the appropriate time after scoping work is completed.

On recommendation 9 regarding clarity of capital funding and capital expenditure and providing information on outstanding capital commitments, including how much is owing in terms of principal interest, that is incredibly important. With borrowing powers added to the current means of providing supported capital expenditure, there's a likelihood of a substantial revenue cost of capital expenditure. The revenue cost will reduce the amount available for health, education and local government and other services within the Assembly's revenue budget. So, control by the Government and scrutiny by the Finance Committee are vital, to ensure that we know how much is going out and to ensure control of it.

Recommendations 10 and 11 deal with the relationship of the Welsh Government with the Treasury. On block grant adjustments, to those of us looking in from the outside, excepting fully devolved areas, decisions appear very arbitrary. The Barnett consequential for Crossrail was provided, but it's my understanding that one for the high-speed rail connectivity in England is not going to be. I don't think anybody can actually give me any good reason why that's the case. It almost seems as though they take a view of 'yes' or 'no' depending on how much it is and whether they think we deserve it or not. That cannot be the right way to give Barnett consequentials of capital expenditure. There needs to be an independent body, such as the Office for Budget Responsibility, with agreed membership between the two Governments, to decide issues such as the above.

Yn fy mhrofiad i—ac eraill rwy'n siŵr—byddai'n anodd mynd ati i newid y fethodoleg yn radical ar ôl ei gweithredu'r tro cyntaf. Dyna pam rwy'n falch fod y Gweinidog wedi derbyn yr argymhelliad y dylai Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad weithio gyda'i gilydd i ddatblygu proses newydd ar gyfer y gyllideb. Rhaid i'r broses weithio i'r ddau, pe na bai ond am mai Llywodraeth Cymru sy'n rheoli'r gyllideb, ond mai'r Cynulliad sy'n ei gymeradwyo. Gan nad oes un blaid fwyafrifol erioed wedi ffurfio Llywodraeth yn y Cynulliad, mae'n hanfodol fod y Cynulliad yn ei gyfanrwydd yn hapus â'r system newydd.

A gaf fi bwysleisio eto pa mor bwysig yw sicrhau bod cyrff cyhoeddus eraill yn cael rhagamcan cynnar o beth fydd eu cyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf? Os gellir rhoi gwybod i lywodraeth leol beth yw ei setliad drafft erbyn diwedd mis Rhagfyr, pam na all cyrff cyhoeddus eraill gael gwybod beth fydd eu cyllideb hwy? Hefyd, mae nifer o gyrff y trydydd sector, mewn termau ariannol, bron yn gwbl ddibynol ar grantiau Llywodraeth Cymru. Mae angen i'r cyrff hyn hefyd gael rhagamcan cynnar o beth fydd eu cyllidebau arfaethedig.

Gan droi at argymhelliad 4, mae sicrhau bod cyllideb y Cynulliad yn cyd-fynd â therfyn cyllideb y Trysorlys yn bwysig, ac rwy'n croesawu ymrwymiad y Gweinidog i weithio gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru ar yr adeg briodol ar ôl cwblhau gwaith cwmpasu.

O ran argymhelliad 9 ynglŷn ag eglurder cyllid cyfalaf a gwariant cyfalaf a darparu gwybodaeth am ymrwymadau cyfalaf sydd heb eu cyflawni, gan gynnwys faint sy'n ddyledus o ran prif log, mae hynny'n hynod o bwysig. Gyda phwerau benthyca yn cael eu hychwanegu at y dull presennol o ddarparu gwariant cyfalaf â chymorth, mae'n debygol y bydd cost refeniw gwariant cyfalaf yn sylweddol. Bydd y gost refeniw yn lleihau'r swm sydd ar gael ar gyfer iechyd, addysg a llywodraeth leol a gwasanaethau eraill yng nghyllideb refeniw'r Cynulliad. Felly, mae rheolaeth gan y Llywodraeth a chraffu gan y Pwyllgor Cyllid yn hanfodol er mwyn sicrhau ein bod yn gwybod faint sy'n mynd allan ac i sicrhau ei fod yn cael ei reoli.

Mae argymhellion 10 a 11 yn ymdrin â pherthynas Llywodraeth Cymru â'r Trysorlys. O ran addasiadau i'r grant bloc, i'r rhai ohonom sy'n edrych i mewn o'r tu allan, ac eithrio meysydd sydd wedi'u datganoli'n llawn, mae'r penderfyniadau'n ymddangos yn fympwyol iawn. Darparwyd swm canlyniadol Barnett ar gyfer Crossrail, ond yn ôl yr hyn a ddeallaf, ni wneir hynny ar gyfer y cysylltedd rheiffordd cyflym iawn yn Lloegr. Nid wyf yn credu y gall neb roi unrhyw reswm da am hynny. Bron nad yw'n ymddangos fel pe baent yn barnu 'ie' neu 'na' yn dibynnu ar faint yw'r gost ac a ydynt yn credu ein bod yn ei haeddu ai peidio. Ni all hynny fod yn ffordd iawn o roi symiau canlyniadol Barnett o wariant cyfalaf. Bydd angen corff annibynnol, megis y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, gyda'r ddwy Lywodraeth i gytuno ar ei aelodaeth, i benderfynu ar faterion fel yr uchod.

Finally, and this is a matter of general fairness, if interest is charged on borrowing to support a revenue shortfall, then it should be provided on an underspend carried forward. That is only fair and, as the underspends are reducing Government borrowing, the rate should be exactly the same. If we get underspends, we should be able to carry them forward and get interest on them or no interest on them, but if we don't get the interest on any savings we make, we don't pay any interest on any borrowing we make. If we do get interest on savings, we pay exactly the same for borrowing. That to me just seems generally fair.

The Minister's willingness to work with the committee, I believe, is an exemplar of good practice within this body, and I thank the Minister for it.

15:12

Nick Ramsay [Bywgraffiad Biography](#)

Well, if the Chair of the committee didn't cover all the recommendations, Mike Hedges certainly has made a very good effort there of covering as many as possible. I'm pleased to contribute to this debate today, Deputy Presiding Officer. I actually joined the Finance Committee just in time for part 2 of this report, actually. I missed part 1. I must admit, not having been involved in part 1, I didn't quite know what to expect, but it did prove to be a very interesting report to be involved in, and one which I soon realised went to the very heart of everything we do here, because, as the Chair said in opening this debate, this isn't our money—this is the people of Wales's money, and it's our responsibility to spend it as efficiently as possible and to account for that.

Now, of course, the budget processes should adhere to the best practice possible. Look. What this is basically about is having a new budget process. Things have moved on a great deal since the advent of devolution 15 years ago, and we clearly do need to have a budget process that responds to change, which is accelerating every day. Things have moved a lot. The new process should take account of UK budget announcements. It should allow for proper scrutiny by the scrutiny committees, with a proper timescale—not the rushing through the budget process that often happens, certainly later in the year, as November approaches—and it should incorporate an early indication, as the Chair of the committee said, of allocation to public bodies. That doesn't mean a fully and totally costed allocation to public bodies that doesn't change as more facts become evident, but it should be at least what it says: an indication of what those bodies can expect, so they can have some degree of certainty in their forward planning.

Yn olaf, ac mae hwn yn fater sy'n ymwneud â thegwch cyffredinol, os codir llog ar fenthyciadau i gefnogi diffyg yn y refeniw, yna dylid ei ddarparu ar danwariant a ddygir ymlaen. Nid yw hynny ond yn deg a chan fod y tanwariant yn lleihau benthyca gan y Llywodraeth, dylai'r gyfradd fod yn union yr un fath. Os cawn danwariant, dylem allu eu dwyn ymlaen a chael llog arnynt neu beidio â chael llog arnynt, ond os na chawn y llog ar unrhyw arbedion a wnawn, nid ydym yn talu llog ar unrhyw fenthycia a wnawn. Os cawn llog ar arbedion, talwn yn union yr un fath ar gyfer benthyca. I mi, nid yw hynny ond i'w weld yn deg at ei gilydd.

Mae parodrwydd y Gweinidog i weithio gyda'r pwyllgor, rwy'n credu, yn enghraifft o arfer da yn y corff hwn, ac rwy'n diolch i'r Gweinidog am hynny.

Wel, os na chyfeiriodd Cadeirydd y pwyllgor at yr holl argymhellion, mae Mike Hedges yn sicr wedi gwneud ymdrech dda iawn i gynnwys cynifer ag y bo modd. Rwy'n falch o gyfrannu at y ddadl hon heddiw, Ddirprwy Lywydd. Ymunais â'r Pwyllgor Cyllid mewn pryd ar gyfer rhan 2 yr adroddiad hwn, mewn gwirionedd. Methais ran 1. Rhaid i mi gyfaddef, gan na fûm yn ymwneud â rhan 1, nid oeddwn yn hollol siŵr beth i'w ddisgwyl, ond roedd yn adroddiad diddorol iawn i fod yn rhan ohono, ac yn un y sylweddolais yn fuan ei fod yn mynd i wraid popeth a wnawn yma, oherwydd, fel y dywedodd y Cadeirydd wrth agor y ddadl, nid ein harian ni yw hwn—arian pobl Cymru ydyw, a'n cyfrifoldeb ni yw ei wario mor effeithlon ag y bo modd ac i roi cyfrif am hynny.

Nawr, wrth gwrs, dylai prosesau'r gyllideb llynu at yr arfer gorau posibl. Edrychwch. Ymwneud â chael proses newydd ar gyfer y gyllideb y mae hyn yn y bôn. Mae pethau wedi symud ymlaen gryn dipyn ers datganoli 15 mlynedd yn ôl, ac mae'n amlwg fod angen i ni gael proses ar gyfer y gyllideb sy'n ymateb i newid sy'n cyflymu bob dydd. Mae pethau wedi symud llawer. Dylai'r broses newydd roi sylw i gyhoeddiadau cyllideb y DU. Dylai ganiatáu ar gyfer gwaith craffu priodol gan y pwyllgorau craffu, gydag amserlen briodol—nid rhuthro drwy broses y gyllideb fel sy'n aml yn digwydd, yn sicr yn ddiweddarach yn y flwyddyn, wrth i fis Tachwedd nesu—a dylai ymgorffori rhagamcan cynnar, fel y dywedodd Cadeirydd y pwyllgor, o'r dyraniad i gyrff cyhoeddus. Nid yw hynny'n golygu dyraniad wedi'i gostio'n llawn ac yn fanwl i gyrff cyhoeddus nad yw'n newid wrth i fwy o ffeithiau ddod yn amlwg, ond dylai fod o leiaf yr hyn y mae'n ei ddweud: rhagamcan o'r hyn y gall y cyrff ei ddisgwyl, fel y gallant gael rhywfaint o sicrwydd ar gyfer blaengynllunio.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Recommendation 2 is a bit of mouthful—well-being indicators and budget headings should align. In other words, the money being spent in one year should lead to an outcome, particularly in the short term. That's not to say that there shouldn't be long-term outcomes and that some money will not end up in a long-term outcome. Of course it will, but you would expect to see at least some evidence of that money that's been spent in the short term actually achieving a short-term outcome. That hasn't always happened in the past. For instance, you should be able to see a link between a grant and the outcomes from that grant, or in terms of health spending. If you're spending a certain amount on health, then you should be able to see a health outcome or at least a degree of a health outcome at least in the short to medium term.

If I can just turn to the thorny issue of a wider whole-of-Government-of-Wales account—something that I think probably struck fear into the Minister—I do appreciate the Minister's concerns about the complexity of achieving a wider whole-of-Government-of-Wales account. Nonetheless, the committee believes—rightly, I believe—that it is something that should be seen as a long-term goal. Yes, it may be difficult to achieve, but as the Auditor General for Scotland said while giving evidence to the committee, it would be desirable, particularly with further fiscal devolution and it would certainly aid that transparency that we want to see.

I agree with Mike Hedges that the Welsh Government should be able to bank any surplus revenues with the Treasury for future use. The chance would be a fine thing at the moment. I know the Welsh Government dreams of surpluses at the moment, but at some point in the future, when surpluses do arise, it is clearly sensible that there should be a mechanism for banking those surpluses in a way that the Welsh Government knows that they can access in future. The issue of interest was an interesting one as well—not something that the committee had initially thought about, but came to us through evidence that we took.

Yes, we do have the usual and ongoing problems of data. Chair, this has arisen, I think, in every committee report I've been involved in over the last eight years. There is now an imperative need for better data, and as 2018 and 2019 approaches and with the devolution of stamp duty and some of the other taxes, it's going to become more imperative that we get that important data. If we don't have access to the data, then we're effectively in the dark in terms of advising the Government. Indeed, the Welsh Government is going to be in the dark in the decisions it makes and that is, potentially, a recipe for disaster with the devolution of greater fiscal autonomy.

Finally, Deputy Presiding Officer, block grant adjustments. Yes, it is vital that any block grant adjustments are based on solid data—I come back to the data point—and that they do correspond with the amount of tax revenues we get. It's not rocket science: we have to make sure that the tax revenues coming in and the predictions of those tax revenues do lead to an appropriate adjustment in the block grant, so that the Welsh Government and the Welsh Assembly are not short-changed in the future.

Mae argymhelliad 2 yn dipyn o lond ceg—dylid sicrhau bod dangosyddion llesiant a phenawdau'r gyllideb yn cyd-fynd â'i gilydd. Mewn geiriau eraill, dylai'r arian sy'n cael ei wario mewn un flwyddyn arwain at ganlyniad, yn enwedig yn y tymor byr. Nid yw hyn yn golygu na ddylid cael canlyniadau hirdymor ac na fydd rhywfaint o arian yn mynd tuag at ganlyniad hirdymor yn y pen draw. Wrth gwrs y bydd, ond byddech yn disgwyl gweld o leiaf rhywfaint o dystiolaeth fod yr arian yn cael ei wario yn y tymor byr gan sicrhau canlyniad tymor byr mewn gwirionedd. Nid yw hynny wedi digwydd bob amser yn y gorffennol. Er enghraifft, dylech allu gweld cysylltiad rhwng grant a chanlyniadau'r grant, neu o ran gwariant ar iechyd. Os ydych yn gwario swm penodol ar iechyd, yna dylech allu gweld canlyniad iechyd neu o leiaf rywfaint o ganlyniad iechyd yn y tymor byr i'r tymor canolig.

Os caf droi at fater dyrys cyfrif Llywodraeth gyfan Cymru ehangach—rhywbeth a barodd ddychryn i'r Gweinidog mae'n siŵr—rwy'n derbyn pryderon y Gweinidog ynglŷn â chymhlethdod cyflawni cyfrif Llywodraeth gyfan Cymru ehangach. Serch hynny, mae'r pwyllgor yn credu—yn gywir ddigon, yn fy marn i—ei fod yn rhywbeth y dylid ei weld fel nod hirdymor. Yn sicr, gall fod yn anodd ei gyflawni, ond fel y dywedodd Archwilydd Cyffredinol yr Alban wrth roi tystiolaeth i'r pwyllgor, byddai'n ddymunol, yn enwedig gyda datganoli cyllidol pellach a byddai'n sicr yn gymorth i sicrhau'r tryloywder rydym am ei weld.

Rwy'n cytuno â Mike Hedges y dylai Llywodraeth Cymru allu bancio unrhyw refeniw dros ben gyda'r Trysorlys ar gyfer ei ddefnyddio yn y dyfodol. Byddai'r cyfle i wneud hynny'n braf ar hyn o bryd. Rwy'n gwybod bod Llywodraeth Cymru yn breuddwydio am arian dros ben ar hyn o bryd, ond ar ryw adeg yn y dyfodol, pan fydd arian dros ben ar gael, mae'n amlwg yn synhwyrol y dylai fod mecanwaith ar gyfer bancio arian dros ben o'r fath mewn modd y byddai Llywodraeth Cymru yn gwybod y gall ei ddefnyddio yn y dyfodol. Roedd mater llog yn un diddorol hefyd—nid yw'n rhywbeth yr oedd y pwyllgor wedi meddwl amdano'n wreiddiol, ond daeth i ni drwy dystiolaeth a gymerwyd gennym.

Oes, mae gennym y problemau arferol a pharhaus sy'n ymwneud â data. Gadeirydd, mae hyn wedi codi, rwy'n meddwl, ym mhob adroddiad pwyllgor rwyf wedi bod ynghlwm wrthynt dros yr wyth mlynedd diwethaf. Mae gwir angen data gwell yn awr, ac wrth i 2018 a 2019 nesu, a datganoli treth stamp a rhai o'r trethi eraill, mae'n mynd i fod yn fwy hanfodol ein bod yn cael y data pwysig hwnnw. Os na chawn y data, yna byddwn yn y tywyllwch i bob pwrpas o ran cynghori'r Llywodraeth. Yn wir, mae Llywodraeth Cymru yn mynd i fod yn y tywyllwch o ran y penderfyniadau y mae'n eu gwneud ac mae hynny, o bosibl, yn mynd i fod yn drychinebus o ran datganoli mwy o ymreolaeth gyllidol.

Yn olaf, Ddirprwy Lywydd, addasiadau i'r bloc grant. Ydy, mae'n hanfodol fod unrhyw addasiadau i'r grant bloc yn seiliedig ar ddata cadarn—dof yn ôl at y pwynt ynglŷn â data—a'u bod yn cyfateb i faint o refeniw treth a gawn. Nid yw mor anodd â hynny: rhaid i ni wneud yn siŵr fod y refeniw treth sy'n dod i mewn a'r rhagfynegiadau o'r refeniw treth hwnnw yn arwain at addasiad priodol i'r grant bloc, fel nad yw Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cymru ar eu colled yn y dyfodol.

Peter Black [Bywgraffiad Biography](#)

I think it's fair to say that this report is not going to make headlines and it's not the sexiest of subjects, but it's absolutely crucial, I think, in terms of the greater scrutiny and transparency of both the Welsh Government and its budget. I think it's also critical as we move towards greater powers, as we move towards taking on tax-raising powers as well, and start adjusting our budgets accordingly and actually set up a proper Welsh Treasury, that we do start to make sure that we get the budget processes right so that we can understand where the money is going, where it has come from and exactly what we're getting for that money, as we spend it. I think the public would expect nothing less of us.

I know when I first came to the Assembly in 1999, right at the beginning, we did needn't even have a finance committee. I think the value of the Finance Committee has been shown in reports like this and other reports that it has produced. It may have been, I think, an oversight in the original Government of Wales Act 1998 that a finance committee was not set up at that time, so that we could get the sort of scrutiny that we're getting now of the Welsh Government's budget, and also the co-operation that we're getting with the Welsh finance Minister in making sure that we get the budget aligned to what we're asking of her in terms of getting that greater transparency and accountability. I very much welcome the Minister's response to this report in which she has done her best, I think, to answer the committee's demands—or 'recommendations', as I prefer to call them, Minister—and to try to make sure that we do get that more transparent and accountable budget. I think it's to the Minister's credit that she has been prepared to work with the committee on this particular aspect in terms of getting that budget so that we can all work with this and get better outcomes from it.

I think there are some very important recommendations in here and all the previous speakers have, effectively, stolen all my thunder on these recommendations, but I will do my best to try to bring something new to the party, if you like. But, certainly, in relation to recommendations 2 and 3, the integrated approach in terms of indicators and budget headings, as Nick Ramsay has said, is crucial in making sure that we are getting the outcomes we want. But, more importantly, when the Government publishes policies saying, 'We want to achieve this', we need to make sure that they're spending the money in a way that will deliver the policy outcome. I think that's absolutely crucial, because when the Government says they want to enable people, they want to tackle poverty and they want to put in place spending that is going to prevent hardship, we need to make sure that that spending is actually doing what it says on the tin. I think that hasn't always been the case, and, certainly, still is not always the case in terms of the budget. If we can work towards doing that then I think we'll have a much better budget process and, certainly, we will have much better governance in Wales as well.

I think that's certainly true in terms of recommendation 3:

Rwy'n credu ei bod yn deg dweud nad yw'r adroddiad yn mynd i gyrraedd y penawdau ac nad dyma'r pwnc mwyaf deniadol, ond mae'n hollol hanfodol, rwy'n meddwl, o ran sicrhau mwy o graffu a mwy o dryloywder mewn perthynas â Llywodraeth Cymru a'i chyllideb. Rwy'n credu ei bod hefyd yn hanfodol, wrth i ni symud tuag at fwy o bwerau, wrth i ni symud tuag at feddiannu pwerau codi trethi yn ogystal, a dechrau addasu ein cyllidebau yn unol â hynny a sefydlu Trysorlys Cymreig go iawn, inni ddechrau gwneud yn siŵr ein bod yn cael y prosesau cyllidebol yn iawn fel y gallwn ddeall ble mae'r arian yn mynd, o ble y daeth a beth yn union rydym yn ei gael am yr arian hwnnw wrth inni ei wario. Rwy'n credu na fyddai'r cyhoedd yn disgwyl llai na hynny gennym.

Pan ddeuthum i'r Cynulliad yn gyntaf yn 1999, ar y cychwyn cyntaf, rwy'n gwybod nad oedd angen i ni gael pwyllgor cyllid hyd yn oed. Rwy'n meddwl bod gwerth y Pwyllgor Cyllid wedi cael ei ddangos mewn adroddiadau fel hwn ac adroddiadau eraill a gynhyrchwyd ganddo. Efallai mai amryfusedd yn y Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 wreiddiol oedd na sefydlwyd pwyllgor cyllid ar y pryd, er mwyn inni allu cael y math o graffu rydym yn ei gael yn awr ar gyllideb Llywodraeth Cymru, a hefyd y cydweithio a gawn gyda Gweinidog Cyllid Cymru i wneud yn siŵr fod y gyllideb yn cyd-fynd â'r hyn a ddisgwylwn ganddi o ran sicrhau mwy o dryloywder ac atebolrwydd. Rwy'n croesawu ymateb y Gweinidog i'r adroddiad hwn yn fawr iawn. Mae wedi gwneud ei gorau ynnddo, rwy'n credu, i ateb galwadau'r pwyllgor—neu'r 'argymhellion' fel sy'n well gennyf eu galw, Weinidog—a cheisio sicrhau ein bod yn cael cyllideb fwy tryloyw a mwy atebol o'r fath. Rwy'n credu bod y Gweinidog yn haeddu clod am ei pharodrwydd i weithio gyda'r pwyllgor ar yr agwedd benodol hon o ran sicrhau bod modd i bawb ohonom weithio gyda phroses y gyllideb a chael canlyniadau gwell ohoni.

Rwy'n meddwl bod yna rai argymhellion pwysig iawn yma ac mae'r holl siaradwyr blaenorol wedi dweud beth oedd gennyf i'w ddweud, i bob pwrpas, am yr argymhellion hyn, ond gwnaf fy ngorau i geisio cyflwyno rhywbeth newydd, fel petai. Ond yn sicr, mewn perthynas ag argymhellion 2 a 3, mae'r dull integredig o weithredu o ran dangosyddion a phenawdau'r gyllideb, fel y soniodd Nick Ramsay, yn hollbwysig er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn cael y canlyniadau rydym eu heisiau. Ond yn bwysicach, pan fydd y Llywodraeth yn cyhoeddi polisiau'n dweud, 'Rydym am gyflawni hyn', mae angen i ni wneud yn siŵr eu bod yn gwario'r arian mewn ffordd a fydd yn cyflawni canlyniad y polisi. Rwy'n credu bod hynny'n gwbl hanfodol, oherwydd pan fydd y Llywodraeth yn dweud eu bod yn awyddus i alluogi pobl, eu bod yn awyddus i fynd i'r afael â thlodi a'u bod yn awyddus i roi gwariant ar waith sy'n mynd i atal caledi, mae angen i ni wneud yn siŵr fod y gwariant yn gwneud yr hyn y mae'n ddweud ar y tun mewn gwirionedd. Rwy'n meddwl nad yw hynny wedi bod yn wir bob amser, ac yn sicr, nid yw'n wir bob amser o ran y gyllideb yn dal i fod. Os gallwn weithio tuag at wneud hynny, yna rwy'n meddwl y bydd gennym broses lawer gwell ar gyfer y gyllideb ac yn sicr, bydd gennym lywodraethiant lawer gwell yng Nghymru hefyd.

Rwy'n credu bod hynny'n sicr yn wir o ran argymhelliad 3:

'that the Welsh Government should consider further how key targeted output or delivery measures could be linked to budget allocations'.

Exactly the same argument applies in that regard as well.

Nick Ramsay referred to the whole of Government of Wales account, and he's right, and I think the Minister is right, in saying this is very complex. Nick is also right in saying that Scotland has actually achieved this, but I think this is crucial for transparency at the other end of the process. We need to scrutinise the budget in terms of what the Government is trying to achieve, but I think we also need to see what exactly the Government has spent, but not just in terms of the Government, but also in terms of all those other bodies it funds as well. It still rankles with a lot of us that £9 billion, I think, of the Welsh Government budget goes to health, and virtually forms one budget line, so it's almost impossible to actually get to the bottom of how the health boards are spending that. I think this whole-of-Government-of-Wales account will assist us in properly scrutinising the money and how that is done. So, certainly, I think that is something that we do need to work towards, and I hope the Minister is able to grapple with those complexities and come out with something at the end of it that we could all recognise as something that is going to be helpful to the committee and to every other Assembly Member here, in making sure that the Government is delivering on that particular requirement, if you like, for us all and the Welsh public.

Certainly, the economic data—absolutely crucial. If we don't know how we're doing economically, then it's not just a question of being able to scrutinise the Government's budget, but also of being able to scrutinise the Government's other objectives in terms of other Ministers as well.

There are a couple of other recommendations I just wanted to touch on. Recommendation 9 in relation to capital, those of us who have come from a local government background are used to being able to actually identify how capital expenditure proposals will be financed and also looking at borrowing other capital commitments. I think it's useful that Welsh Government follows suit in respect of that. In terms of interest, Mike Hedges made the point very well indeed that if we are paying interest to the UK Government, they should pay interest to us as well if they're holding on to our money. Thank you, Deputy Presiding Officer.

'y dylai Llywodraeth Cymru ystyried ymhellach sut y gellid cysylltu allbwn allweddol wedi'i dargeddu neu fesurau cyflawni â dyraniadau'r gyllideb'.

Mae'r un ddadl yn union yn berthnasol yn hynny o beth hefyd.

Cyfeiriodd Nick Ramsay at gyfrif Llywodraeth gyfan Cymru, ac mae'n iawn, ac rwy'n credu bod y Gweinidog yn iawn i ddweud bod hyn yn gymhleth iawn. Mae Nick hefyd yn iawn i ddweud fod yr Alban wedi cyflawni hyn mewn gwirionedd, ond rwy'n credu ei fod yn hanfodol ar gyfer tryloywder ar ben arall y broses. Mae angen i ni graffu ar y gyllideb o ran yr hyn y mae'r Llywodraeth yn ceisio'i gyflawni, ond rwy'n meddwl bod angen inni weld hefyd beth yn union y mae'r Llywodraeth wedi'i wario, ond nid yn unig o ran y Llywodraeth, ond o ran yr holl gyrff eraill y mae'n eu hariannu hefyd. Mae'n dal i ddigio llawer ohonom fod £9 biliwn, rwy'n meddwl, o gyllideb Llywodraeth Cymru yn mynd tuag at iechyd, a bron yn un llinell yn y gyllideb, felly mae hi bron yn amhosibl deall yn iawn sut y mae'r byrddau iechyd yn gwario hynny. Rwy'n credu y bydd cyfrif Llywodraeth gyfan Cymru yn ein cynorthwyo i graffu'n briodol ar yr arian a sut y mae hynny'n cael ei wneud. Felly, yn sicr, rwy'n meddwl ei fod yn fater y mae angen i ni weithio tuag ato, ac rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog yn gallu mynd i'r afael â'r cymhlethdodau hynny a chyflawni rhywbeth ar y diwedd y gallai pawb ohonom gydnabod ei fod yn mynd i fod yn ddefnyddiol i'r pwyllogor ac i bob Aelod Cynulliad arall yma, wrth sicrhau bod y Llywodraeth yn cyflawni ar y gofyniad penodol hwn, os mynnwch, er ein mwyn ni i gyd ac er mwyn y cyhoedd yng Nghymru.

Yn sicr, mae'r data economaidd yn gwbl hanfodol. Os nad ydym yn gwybod sut rydym yn ei wneud yn economaidd, yna nid mater o allu craffu ar gyllideb y Llywodraeth yn unig ydyw, ond o allu craffu'n ogystal ar amcanion eraill y Llywodraeth o ran y Gweinidogion eraill hefyd.

Mae cwpl o argymhellion eraill yr oeddwn am eu crybwyll. Argymhelliad 9 mewn perthynas â chyfalaf: mae'r rhai ohonom sydd wedi dod o gefndir llywodraeth leol wedi arfer gallu nodi mewn gwirionedd sut y bydd cynigion gwariant cyfalaf yn cael eu hariannu, a hefyd yn edrych ar fenthycia ar gyfer ymrwymadau cyfalaf eraill. Rwy'n credu ei bod yn ddefnyddiol fod Llywodraeth Cymru yn gwneud yr un peth mewn perthynas â hynny. O ran llog, gwnaeth Mike Hedges y pwynt yn dda iawn yn wir, os ydym yn talu llog i Lywodraeth y DU, dylent dalu llog i ni yn ogystal os ydynt yn dal eu gafael ar ein harian. Diolch, Ddirprwy Lywydd.

Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Fel rhywun sydd ddim yn eistedd ar y Pwyllgor Cyllid, a gaf i groesawu'r adroddiad yma yn fawr iawn? Mae e'n adroddiad cynhwysfawr iawn ac yn ymwneud ag agweddau o wariant sydd yn bwysig, nid yn unig i Aelodau'r Cynulliad, wrth inni geisio craffu ar y Llywodraeth, ond hefyd i'r cyhoedd yng Nghymru. Mae'n dda iawn gweld bod yna gyd-ddealltwriaeth rhwng yr aelodau yn drawsbleidiol ar y pwyllgor ac mae'n dda gweld hefyd fod y Gweinidog wedi ymateb yn gadarnhaol ac yn adeiladol i'r adroddiad yma.

As one who does not sit on the Finance Committee, may I welcome this report very warmly? It's a very comprehensive report and deals with aspects of expenditure that are important, not only for Assembly Members, as we attempt to scrutinise the Government, but also for the public in Wales. It's very good to see that there is an understanding between the members, in a cross-party fashion, on the committee and it is good to see too that the Minister has responded positively and constructively to this report.

A gaf i ganolbwyntio ar yr elfen o gasglu a chyhoeddi data economaidd, oherwydd rwy'n teimlo bod hwn wedi bod yn wendid yng nghyd-destun y Cynulliad a Llywodraeth Cymru dros y blynyddoedd? Rwy'n mawr obeithio y byddwn ni'n gweld, yn dilyn yr adroddiad yma, datblygiad yng nghyd-destun yr agwedd yma. Mae yna sefydliadau yn bodoli yn yr Iseldiroedd ac yn yr Alban sydd yn gwneud y gwaith yma o gyhoeddi data economaidd, felly fe ddylai hi fod yn berffaith bosibl inni wneud hyn yng Nghymru. Mae yna fawr angen am hynny o ran eglurder ac o ran tryloywder hefyd.

Could I focus on the element of the collection and publication of fiscal data, because I do think that this has been a weakness in the context of the Assembly and Welsh Government over the years? I very much hope that we will see, following the publication of this report, development in the context of this aspect. There are institutions in the Netherlands and Scotland that do this work of publishing economic data; therefore, it should be completely possible for us to be able to do this in Wales. There's a great need for that from the point of view of clarity and transparency too.

A gaf i gyfeirio hefyd at argymhelliad 6, sydd yn sôn am ddatblygu strategaeth rhagolygon economaidd? Unwaith eto, mae yna arfer da yn bodoli o ran hyn. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gwneud hyn, felly nid oes rheswm pam na all Llywodraeth Cymru wneud hyn hefyd.

Could I also refer to recommendation 6, which alludes to the development of a strategy on economic forecasts? Once again, there is good practice in existence. The United Kingdom Government does this, and so there is no reason why Welsh Government shouldn't also do this.

Yna, mae argymhelliad 8 sy'n galw am gyhoeddi gwariant a referniw cyhoeddus. Unwaith eto, yn yr Alban y mae hyn yn digwydd ond, am ryw reswm, nid ydym yn ei wneud e yng Nghymru. Fe fyddai'r math yma o ddatblygiadau o ran cyhoeddi data, o ran sicrhau bod dealltwriaeth glir o'r hyn sy'n digwydd gyda gwariant cyhoeddus yng Nghymru, yn eithriadol o bwysig rwy'n meddwl o ran sicrhau hyder y cyhoedd yn yr hyn sydd yn digwydd yng Nghymru a'u dealltwriaeth nhw o wariant cyhoeddus yng Nghymru. Ond fe fyddai fe hefyd wrth gwrs yn eithriadol o bwysig i ni fel Aelodau o'r Cynulliad wrth i ni geisio cyflawni ein gwaith craffu. Rwy'n credu hefyd y byddai'r math yma o wybodaeth sylfaenol yn ddefnyddiol iawn i Weinidogion hefyd, yn eu gwaith wrth geisio adolygu'r gwariant yma. Felly rwy'n croesawu yn fawr iawn yr adroddiad yma ac rwy'n mawr obeithio, o sylwi ar ymateb cychwynnol cadarnhaol y Gweinidog, y bydd yna weithredu ymarferol yn dilyn gan Lywodraeth Cymru.

Recommendation 8 calls for publishing spending and revenue data. Once again, this happens in Scotland, but for some reason we do not do it in Wales. These kinds of developments, in terms of the publication of data and ensuring that there is a clear understanding of how Welsh public expenditure works, would be really important, I think, from the point of view of securing the public's confidence in what happens in Wales, and their understanding of public expenditure in Wales. But, it would also be exceptionally important for us as Assembly Members in undertaking our scrutiny role. I also believe that this kind of fundamental information would be very useful to Ministers in their work of trying to review this expenditure. So, I very much welcome this report and I very much hope, in noting the initial positive response of the Minister, that practical action will follow from Welsh Government.

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Minister for Finance and Government Business, Jane Hutt.

Galwaf ar y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, Jane Hutt.

Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business

I would like to start by thanking the members of the Finance Committee for their second and concluding report on its inquiry into best practice budget processes. The Welsh Government welcomes the work of the committee and supports the motion. Throughout this inquiry, I'm grateful for the Chair's comments on the way in which we have engaged. There's been a high level of engagement and I do welcome the approach that the committee has taken. I am pleased that the recommendations in this report reflect our collaborative working. These recommendations are very important because they highlight some of the key issues that we need to address as we implement our increased fiscal powers under the Wales Act 2014. Continued co-operation between the Welsh Government, the committee and the Assembly Commission will be essential to ensure the successful delivery of a fit-for-purpose budgetary process for Wales, and one on which we can all agree.

The committee has recommended that we consider developing a two-part budgetary process. I'm keen to explore the feasibility of such a procedure and I look forward to working with the Assembly as this takes shape. The suggested model provided by the committee provides a useful starting point for discussion. We will need to carefully consider the time frame of the budget process, and particularly the impact that any lengthening of the process may have on our key stakeholders and delivery partners. Together, we will need to look at the capability and capacity of the Welsh Government and the Assembly Commission to effectively implement and operate a new system. The way in which we bring forward changes to the budget process is an important consideration and I'm pleased that the committee recognises the changing landscape of devolution in Wales, and that this should be taken into account when considering whether a legislative approach is the most appropriate. Peter Black made this point very clearly this afternoon in relation to the new landscape of devolution and the increased responsibilities. I thank him for that.

Of course, at this stage of devolution, I think it is prudent to take a non-statutory approach, and to consider revisions to the Standing Orders of the National Assembly for Wales and the budget protocol agreement between the Welsh Government and the Finance Committee to implement changes. It's our intention that the changes we make in the interim period will be consolidated within Welsh legislation in the future. We will consider the introduction of legislation, such as a financial framework Bill, incorporating both budgetary and accountability arrangements as we gain clarity on a future devolution settlement.

Hoffwn ddechrau drwy ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Cyllid am eu hail adroddiad, a'r un terfynol ar ei ymchwiliad i arferion gorau o ran prosesau'r gyllideb. Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu gwaith y pwyllgor ac yn cefnogi'r cynnig. Drwy gydol yr ymchwiliad hwn, rwy'n ddiolchgar am sylwadau'r Cadeirydd ar y ffordd yr ydym wedi ymgysylltu. Cafwyd lefel uchel o ymgysylltiad ac rwy'n croesawu dull y pwyllgor o weithredu. Rwy'n falch fod yr argymhellion yn yr adroddiad yn adlewyrchu'r cydweithrediad rhyngom. Mae'r argymhellion hyn yn bwysig iawn am eu bod yn tynnu sylw at rai o'r materion allweddol sydd angen inni roi sylw iddynt wrth i ni weithredu ein pwerau cyllidol cynyddol o dan Ddeddf Cymru 2014. Bydd cydweithrediad parhaus rhwng Llywodraeth Cymru, y pwyllgor a Chomisiwn y Cynulliad yn hanfodol er mwyn sicrhau bod proses gyllidebol sy'n addas i'r diben, ac un y gallwn i gyd gytuno arni, yn cael ei chyflwyno'n llwyddiannus ar gyfer Cymru.

Mae'r pwyllgor wedi argymhell ein bod yn ystyried datblygu proses ddwy ran ar gyfer y gyllideb. Rwy'n awyddus i archwilio dichonoldeb trefn o'r fath ac rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda'r Cynulliad wrth i hyn ddatblygu. Mae'r model a awgrymir gan y pwyllgor yn fan cychwyn defnyddiol ar gyfer trafodaeth. Bydd angen i ni ystyried amserlen proses y gyllideb yn ofalus, ac yn benodol yr effaith y gall ymestyn y broses ei chael ar ein rhanddeiliaid allweddol a'n partneriaid cyflawni. Gyda'n gilydd, bydd angen i ni edrych ar allu a chapasiti Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Cynulliad i weithredu system newydd yn effeithiol. Mae'r ffordd y cyflwynwn newidiadau i broses y gyllideb yn ystyriaeth bwysig ac rwy'n falch fod y pwyllgor yn cydnabod tirwedd gyfnewidiol datganoli yng Nghymru, ac y dylai hyn gael sylw wrth ystyried ai ymagwedd ddeddfwriaethol sydd fwyaf priodol. Gwnaeth Peter Black y pwynt yn glir iawn y prynhawn yma mewn perthynas â thirwedd newydd datganoli a'r cyfrifoldebau cynyddol. Diolch iddo am hynny.

Wrth gwrs, ar y cam hwn o ddatganoli, rwy'n credu ei bod yn ddoeth i ni fabwysiadu ymagwedd anstatudol, ac ystyried diwygiadau i Reolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r cytundeb protocol cyllidebol rhwng Llywodraeth Cymru a'r Pwyllgor Cyllid i weithredu newidiadau. Ein bwriad yw y bydd y newidiadau a wnawn yn y cyfnod interim yn cael eu cydgrynhoi mewn deddfwriaeth Gymreig yn y dyfodol. Byddwn yn ystyried cyflwyno deddfwriaeth, megis Bil fframwaith ariannol, gan ymgorffori trefniadau'r gyllideb ac atebolrwydd wrth i ni gael eglurder ynglŷn â setliad datganoli yn y dyfodol.

As we prepare for the future, I'm keen to ensure that our continued commitment to integrating information about outcomes, measures and allocations is well informed. The Chair of the Finance Committee has indicated that this is the most appropriate way forward and we, of course, agree with that in Government. It's been stressed by all speakers in this debate. I've said before that when we set a budget for an area of spend we should be clear about what that expenditure is expected to deliver. We are committed to making this more meaningful, as a Government, to demonstrate the impact of our policy and spend.

Next April, of course, the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 will come into force. For the Welsh Government and the devolved public sector, the Act provides a single framework of goals and indicators, which will influence the way that we plan, budget and report on performance within and outside Government. In this regard, I welcome the committee's recommendations and I look forward to working with you to build on the track record of improvement we have already delivered.

With increased fiscal powers and responsibility for devolved taxes and borrowing, our capability to forecast income from taxes and wider economic impacts of tax policy must also increase, and Rhodri Glyn Thomas drew attention to this in his contribution. We're actively considering what information will be needed to assess and analyse policy options, the taxes to be devolved that are coming forward, of course, and being devolved in 2018-19, and to produce forecasts of those taxes once they're devolved. The options for validating and scrutinising the tax forecasts, including the possible establishment of a fiscal commission for Wales, are being considered.

Turning to the committee's recommendations to improve the accounting arrangements, I have committed to addressing the issue of aligning the budget and accounts to the UK Treasury's budget boundary. The recommended production of a whole-of-Government-of-Wales account will need careful consideration and will require the co-operation of all parts of the public sector in Wales. We'll need to be clear on the purpose and potential audience for such an account, and consider whether there are more appropriate alternative, or potentially more cost-effective, methods of producing the information required. I hope that reassures Nick Ramsay of my good intentions.

Wrth i ni baratoi ar gyfer y dyfodol, rwy'n awyddus i sicrhau bod ein hymrwymiad parhaus i integreiddio gwybodaeth am ganlyniadau, mesurau a dyraniadau yn seiliedig ar wybodaeth ddigonol. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid wedi nodi mai dyma'r ffordd fwyaf priodol ymlaen ac rydym ni, wrth gwrs, yn cytuno â hynny yn y Llywodraeth. Mae'r holl siaradwyr wedi pwysleisio hynny yn y ddaid hon. Rwyf wedi dweud o'r blaen pan fyddwn yn gosod cyllideb ar gyfer maes gwariant y dylem fod yn glir ynglŷn â'r hyn y disgwylir i'r gwariant hwnnw ei gyflawni. Rydym wedi ymrwymo i wneud hyn yn fwy ystyrlon, fel Llywodraeth, i ddangos effaith ein polisi a'n gwariant.

Fis Ebrill nesaf, wrth gwrs, bydd Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn dod i rym. I Lywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus datganoledig, mae'r Ddeddf yn darparu un fframwaith o nodau a dangosyddion a fydd yn dylanwadu ar y ffordd rydym yn cynllunio, yn cyllidebu ac yn adrodd ar berfformiad oddi mewn a thu allan i'r Llywodraeth. Yn hyn o beth, rwy'n croesawu argymhellion y pwyllgor ac edrychaf ymlaen at weithio gyda chi i adeiladu ar yr hanes o welliant a gyflawnwyd gennym eisoes.

Gyda mwy o bwerau ariannol a chyfrifoldeb am drethi a benthyca wedi'u datganoli, rhaid i'n gallu i ragweld incwm o drethi ac effeithiau economaidd ehangach y polisi treth gynyddu hefyd, a thynnodd Rhodri Glyn Thomas sylw at hyn yn ei gyfraniad. Rydym yn mynd ati i ystyried pa wybodaeth y bydd ei hangen i asesu a dadansoddi opsiynau polisi, y trethi i'w datganoli sy'n cael eu cyflwyno, wrth gwrs, ac sy'n cael eu datganoli yn 2018-19, a chynhyrchu rhagolygon o'r trethi ar ôl iddynt gael eu datganoli. Mae'r opsiynau ar gyfer dilys a chraffu'r rhagolygon treth, gan gynnwys y posibilrwydd o sefydlu comisiwn ariannol i Gymru, yn cael eu hystyried.

Gan droi at argymhellion y pwyllgor i wella'r trefniadau cyfrifyddu, rwyf wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r mater o sicrhau bod y gyllideb a'r cyfrifon yn cyd-fynd â therfyn cyllideb Trysorlys y DU. Bydd angen ystyried yn ofalus yr argymhelliad i gynhyrchu cyfrif Llywodraeth gyfan Cymru a bydd angen cydweithrediad pob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Bydd angen i ni fod yn glir ynglŷn â diben a chynulleidfa bosibl cyfrif o'r fath, ac ystyried a oes dewis arall mwy priodol, neu a allai fod dulliau mwy cost-effeithiol o gynhyrchu'r wybodaeth sy'n ofynnol. Rwy'n gobeithio y bydd hynny'n rhoi sicrwydd i Nick Ramsay ynghylch fy mwriadau da.

I firmly believe that robust scrutiny of the Welsh Government's borrowing plans and long-term commitments is an essential element of the budgetary process, as Mike Hedges has said today. The levels, purpose and repayment requirements of any long-term borrowing entered into for capital investment should form part of the Government's spending plans and we will need to consider the detail of information that's appropriate to ensure effective scrutiny and transparency of the Welsh Government's budget. Of course, this is something that we have debated year on year in terms of improving on our presentation of the budget for scrutiny. The arrangements for agreeing the adjustment to the block grant and the operating arrangements for a cash reserve are being discussed with the UK Treasury, and I will ensure, wherever possible, that the committee is updated and informed of progress of any agreements with the UK Government regarding block grant adjustments. On the point of a cash reserve, I will be seeking a fair arrangement whereby cash held and short-term borrowing by the Welsh Government are treated equally.

I thank the committee, in conclusion, for their valuable work on this inquiry and look forward to our continued work.

Rwy'n credu'n gryf bod craffu cadarn ar gynlluniau benthycu Llywodraeth Cymru ac ymrwymadau hirdymor yn elfen hanfodol o broses y gyllideb, fel y mae Mike Hedges wedi dweud heddiw. Dylai lefelau, pwrpas a gofynion ad-dalu unrhyw fenthyciadau hirdymor a wneir ar gyfer buddsoddi cyfalaf fod yn rhan o gynlluniau gwariant y Llywodraeth a bydd angen i ni ystyried faint o fanylder sy'n briodol er mwyn sicrhau gwaith craffu a thryloywder effeithiol ar broses cyllideb Llywodraeth Cymru. Wrth gwrs, mae hyn yn rhywbeth rydym wedi'i drafod o flwyddyn i flwyddyn o ran gwella'r modd y cyflwynwn y gyllideb ar gyfer ei chraffu. Mae'r trefniadau ar gyfer cytuno ar yr addasiad i'r grant bloc a'r trefniadau gweithredu ar gyfer cronfa arian wrth gefn yn cael eu trafod gyda Thrysorlys y DU, a byddaf yn sicrhau, lle bynnag y bo modd, fod y pwyllgor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf ac yn cael gwybod am gynnydd unrhyw gytundebau gyda Llywodraeth y DU ynghylch addasiadau i'r grant bloc. O ran y pwynt ynglŷn â chronfa arian wrth gefn, byddaf yn ceisio trefniant teg lle y caiff arian a ddelir a benthycu tymor byr gan Lywodraeth Cymru eu trin yn gyfartal.

Diolch i'r pwyllgor, i gloi, am eu gwaith gwerthfawr ar yr ymchwiliad hwn ac edrychaf ymlaen at barhau ein gwaith.

15:32 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

And Jocelyn Davies to reply to the debate.

A Jocelyn Davies i ymateb i'r ddatl.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:32 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. I'd like to thank Mike Hedges for clarifying the need for early indications to outside organisations of their budgets for future years, and, of course, setting out for us the need for strong scrutiny by the Assembly of Government spending plans. I agree with Mike entirely that the Barnett consequentials on capital spend are too opaque at present. None of us, I think, like the mystery that surrounds that and something needs to be done about that. I must say that Nick Ramsay has settled in well to the committee now that he's joined us, taking over after Paul Davies, and we are grateful for his contribution. And I am pleased today that he agrees that, currently, our processes are too rushed for us to be confident that we are undertaking the best scrutiny possible. I'm also pleased that he supports the concept of being able to link spending with outcomes. And he is right, of course, that a whole-of-Wales account won't be easy, but it will be well worth pursuing. And, of course, as he mentioned, the collection of reliable data is vitally important.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Hoffwn ddiolch i Mike Hedges am egluro'r angen am flaenamcanion cynnar i sefydliadau allanol o'u cyllidebau ar gyfer y dyfodol, ac wrth gwrs, am amlinellu'r angen am graffu cryf gan y Cynulliad ar gynlluniau gwariant y Llywodraeth. Rwy'n cytuno'n llwyr â Mike fod symiau canlyniadol Barnett ar wariant cyfalaf yn rhy amwys ar hyn o bryd. Nid oes yr un ohonom, rwy'n credu, yn hoff o'r dirgelwch sydd ynglŷn â hynny ac mae angen gwneud rhywbeth am y peth. Rhaid i mi ddweud bod Nick Ramsay wedi setlo'n dda yn y pwyllgor ers iddo ymuno â ni, gan gymryd lle Paul Davies, ac rydym yn ddiolchgar am ei gyfraniad. Ac rwy'n falch heddiw ei fod yn cytuno bod ein prosesau, ar hyn o bryd, wedi'u rhuthro ormod i ni fod yn hyderus ein bod yn cyflawni'r gwaith craffu gorau posibl. Rwyf hefyd yn falch ei fod yn cefnogi'r syniad o allu cysylltu gwariant â chanlyniadau. Ac mae'n iawn, wrth gwrs, na fydd cyfrif Cymru gyfan yn hawdd, ond y bydd yn werth ei ddatblygu. Ac wrth gwrs, fel y crybwyllodd, mae casglu data dibynadwy yn hanfodol bwysig.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Peter Black: well, I think we'd all agree with Peter, or it's impossible to disagree with Peter, in his assessment that budget processes is not a sexy subject. I think I'd be a bit worried if he did find it sexy. [Laughter.] But it isn't, and it's not going to hit any headlines. But it is important, and he reminded us, of course, that, in 1999, when this institution was first created, there wasn't a Finance Committee at all. But, very quickly, there were calls for one. And, of course, with the development now of a Welsh Treasury function, it will become even more important. Peter also added his voice to the call for linking spending to outcome, and I don't think anybody disagrees with that either. It seems common sense. But it isn't an easy thing to achieve—not in a meaningful way, anyway. So, we need to be careful how we do that.

Rhodri Glyn Thomas: well, it's always pleasing when a non-committee member contributes to debates on our report. Now, Rhodri added his voice to the call for more Welsh economic data, and we do know, and he mentioned also, that other countries have been doing this, and we understand, again, that that's not an easy thing to achieve overnight. But we can learn by mistakes that others have made and the way that they have done things over many years, and I think that we'd all be really pleased to see at least if we made a start on it, because you have to start somewhere with this. But there would have to be some caveats attached to those data, and we'd have to be careful how we used them.

I thank the Minister for her contribution as well. The Minister is always open to our recommendations, and we understand that she will genuinely try to make them a reality. It's very encouraging, actually, to have recommendations taken seriously, and then, later on, see movement on them, and I know that she always does that if she can. And if she says 'no', she always has a good reason for saying 'no', so I'm delighted to hear her commitment today of working together with us on this issue.

So, just to close then, Deputy Presiding Officer, I'd like to thank everyone who's contributed to today's debate, and, of course, everyone who contributed to both parts of our inquiry, and a special thanks to Ian Summers, who assisted us with his expertise.

Fiscal devolution is a new chapter in the constitutional development of Wales, and it is apparent that all of us want to ensure that the new procedures result in the future financial arrangements for Wales being as effective, robust and transparent as we can possibly make them. Clearly, there's still a lot of work to be done in this area. The reformed budget processes that we put in place now will be processes for financial scrutiny for many years to come, and I'm pleased that, throughout this Assembly, the committee has worked closely with the Minister to ensure that those procedures are developed with mutual co-operation and collaborative working. I sincerely hope that this joint working continues, and that budget procedures are developed that are fit for purpose, meet the needs of the Assembly and meet the needs of the Government, and are transparent to the public.

Peter Black: wel, rwy'n meddwl ein bod i gyd yn cytuno â Peter, neu ei bod yn amhosibl anghytuno â Peter, yn ei asesiad nad yw prosesau'r gyllideb yn bwnc deniadol. Rwy'n meddwl y byddwn ychydig yn bryderus pe bai'n ei ystyried yn ddeniadol. [Chwerthin.] Ond nid yw'n ddeniadol, ac nid yw'n mynd i gyrraedd y penawdau. Ond mae'n bwysig, ac fe'n hatgoffodd, wrth gwrs, nad oedd Pwyllgor Cyllid yn bodoli o gwbl yn 1999 pan gafodd y sefydliad hwn ei greu yn gyntaf. Ond yn gyflym iawn, cafwyd galwadau am un. Ac wrth gwrs, gyda datblygiad swyddogaeth Trysorlys Cymru yn awr, bydd yn dod yn bwysicach fyth. Hefyd ychwanegodd Peter ei lais at yr alwad i gysylltu gwariant â chanlyniadau, ac nid wyf yn credu bod neb yn anghytuno â hynny ychwaith. Mae'n ymddangos fel synnwyr cyffredin. Ond nid yw'n beth hawdd i'w gyflawni, yn sicr, mewn ffordd ystyrlon. Felly, mae angen i ni fod yn ofalus sut y gwnawn hynny.

Rhodri Glyn Thomas: wel, mae'n braf bob amser pan fydd rhywun nad yw'n aelod o bwyllgor yn cyfrannu at ddadleuon ar ein hadroddiad. Nawr, ychwanegodd Rhodri ei lais at yr alwad am ddata economaidd mwy Cymreig, ac fe wyddom, a soniodd yntau am y peth hefyd, fod gwledydd eraill wedi bod yn gwneud hyn, ac rydym yn deall, unwaith eto, nad yw hynny'n beth hawdd i'w gyflawni dros nos. Ond gallwn ddysgu o gamgymeriadau a wnaed gan eraill a'r ffordd y maent wedi gwneud pethau dros flynyddoedd lawer, ac rwy'n meddwl y byddem i gyd yn falch iawn o weld cychwyn ar hyn fan lleiaf, gan fod rhaid dechrau yn rhywle gyda hyn. Ond byddai'n rhaid cael rhywfaint o gafeatau ynghlwm wrth y data, a byddai'n rhaid i ni fod yn ofalus sut y byddem yn ei ddefnyddio.

Diolch i'r Gweinidog am ei chyfraniad hefyd. Mae'r Gweinidog bob amser yn agored i'n hargymhellion, ac rydym yn deall y bydd yn mynd ati o ddirif i geisio'u gwireddu. Mae gweld argymhellion yn cael eu cymryd o ddirif yn galonogol iawn, a dweud y gwir, a'u gweld yn cael eu symud yn eu blaenau yn nes ymlaen, a gwn ei bod bob amser yn gwneud hynny os gall. Ac os yw'n dweud 'na', mae ganddi bob amser reswm da dros ddweud 'na', felly rwyf wrth fy modd yn clywed ei hymrwymiad heddiw i gydweithio gyda ni ar y mater hwn.

Felly, i gloi, Ddirprwy Lywydd, hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y ddadl heddiw, ac wrth gwrs, i bawb a gyfrannodd at ddwy ran ein hymchwiliad, a diolch arbennig i Ian Summers, a'n cynorthwyodd gyda'i arbenigedd.

Mae datganoli cyllidol yn bennod newydd yn natblygiad cyfansoddiadol Cymru, ac mae'n amlwg fod pob un ohonom yn awyddus i sicrhau bod y gweithdrefnau newydd yn arwain at wneud trefniadau ariannol Cymru yn y dyfodol mor effeithiol, cadarn a thryloyw ag y gallwn eu gwneud. Yn amlwg, mae llawer o waith i'w gwneud yn y maes o hyd. Bydd y prosesau cyllidebol diwygiedig rydym yn eu rhoi ar waith yn awr yn brosesau ar gyfer craffu ariannol am flynyddoedd lawer i ddod, ac rwy'n falch, drwy gydol y Cynulliad hwn, fod y pwyllgor wedi gweithio'n agos gyda'r Gweinidog i sicrhau bod y gweithdrefnau hyn yn cael eu datblygu drwy gydweithio a chydweithrediad. Rwy'n mawr obeithio y bydd y cydweithio hwn yn parhau, a bod gweithdrefnau cyllidebol yn cael eu datblygu sy'n addas at y diben, yn diwallu anghenion y Cynulliad, yn diwallu anghenion y Llywodraeth, ac yn dryloyw i'r cyhoedd.

The budget here is, as I said earlier, money that belongs to the public. It's been allocated by the Government on the public's behalf, and our procedures here must be designed to ensure that we are satisfied that the Government stands accountable for spending it. Thank you.

Mae'r gyllideb yma, fel y dywedais yn gynharach, yn arian sy'n perthyn i'r cyhoedd. Mae wedi cael ei dyrannu gan y Llywodraeth ar ran y cyhoedd, a rhaid llunio ein gweithdrefnau yma i sicrhau ein bod yn fodlon fod y Llywodraeth yn cael ei dwyn i gyfrif am ei gwario. Diolch yn fawr.

15:37

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to note the Finance Committee's report. Does any Member object? The motion is therefore agreed, in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw nodi adroddiad y Pwyllgor Cyllid. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, mae'r cynnig wedi'i dderbyn, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36

4. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Cefn Gwlad Cymru

Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 2 a 3 yn enw Aled Roberts, gwelliant 4 yn enw Jane Hutt, a gwelliant 5 yn enw Elin Jones. Os derbynir gwelliant 4, bydd gwelliant 5 yn cael ei ddad-ddethol.

4. Welsh Conservatives Debate: Rural Wales

The following amendments have been selected: amendments 1, 2 and 3 in the name of Aled Roberts, amendment 4 in the name of Jane Hutt, and amendment 5 in the name of Elin Jones. If amendment 4 is agreed, amendment 5 will be deselected.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:38

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Item 4 is the Welsh Conservatives Debate on rural Wales. I call on Russell George to move the motion.

Item 4 yw Dadl y Ceidwadwyr Cymreig ar gefn gwlad Cymru. Galwaf ar Russell George i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5747 Paul Davies

Motion NDM5747 Paul Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi pwysigrwydd cefn gwlad Cymru i economi Cymru;
2. Yn cydnabod yr heriau sy'n wynebu'r sector amaethyddol yng Nghymru;
3. Yn galw am roi mesurau sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Lleoliaeth 2011 ar waith yn llawn yng Nghymru fel y gall cymunedau wneud cais am asedau lleol, fel swyddfeydd post a thafarndai, sy'n wynebu'r bygythiad o gael eu cau;
4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu amserlen ar gyfer cyflwyno gweddill prosiect Cyflymu Cymru, sy'n effeithio ar fusnesau a thirgolion mewn cymunedau gwledig; a
5. Yn gresynu at gau banciau'r stryd fawr yng nghefn gwlad Cymru ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i hwyluso trafodaethau ar fodel bancio cymunedol i sicrhau bod gwasanaethau dros y cownter yn parhau i fod yn hyfyw yng nghefn gwlad Cymru.

1. Notes the importance of rural Wales to the Welsh economy;
2. Recognises the challenges facing the agricultural sector in Wales;
3. Calls for measures contained in the Localism Act 2011 to be fully enacted in Wales so that communities can bid for local assets such as post offices and pubs that are threatened with closure;
4. Calls on the Welsh Government to provide a timetable for the rollout of the remainder of the Superfast Cymru project, which is affecting businesses and residents in rural communities; and
5. Regrets the closure of high street banks in rural Wales and calls on the Welsh Government to facilitate discussions on a community banking model to ensure that over-the-counter services continue to be viable in rural Wales.

Cynigiwyd y cynnig.

Motion moved.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. I'm very pleased to introduce this Welsh Conservative debate on the rural economy, and move the motion in the name of Paul Davies.

I'm happy to indicate Welsh Conservative support for amendments 1, 2 and 3 in the name of Aled Roberts. However, with regards to amendment 2, while we are fully supportive of the principles, there does remain some concern that the so-called reinstatement of Young Farmers' Clubs funding, which was announced by the Deputy Minister earlier this year, is only transitional funding. So, we'd welcome the Government's assurance that YFC funding will be guaranteed for the long term.

With regard to amendment 4 in the name of Jane Hutt, and amendment 5 in the name of Elin Jones, I feel that both of these amendments dilute the motion, and we'll be opposing these amendments. Wales has only partially embraced community rights, and more can be done to provide communities with the same rights as enjoyed in other parts of the UK through the Localism Act.

During my contribution, I would like to focus my remarks on the importance of broadband to the rural economy, and community banking. The rural economy, like the whole of the Welsh economy for that matter, I think, is becoming increasingly dependent on digital connectivity as a way of ensuring that Wales is internationally competitive.

Now, the superfast broadband project is therefore a very welcome scheme, which is ambitious, and which hopes to deliver a minimum of 24 Mbps to 96 per cent of the Welsh population by spring 2016, and I welcome that ambition. However, I am fearful that rural areas of Wales will be left behind and that the digital divide between rural and urban areas of Wales will expand, leaving businesses in rural Wales at a competitive disadvantage compared to their urban counterparts.

Indeed, I'm also aware of some industry commentators who also believe that the Superfast Cymru project will fall short of its ambitious target. I understand that the independent broadband website, thinkbroadband, has recently concluded research that estimates that 170,000 or 10.4 per cent of properties in Wales will not get superfast broadband upon the completion of the project. I sincerely hope that's wrong.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n falch iawn o gyflwyno dadl y Ceidwadwyr Cymreig ar yr economi wledig, a chynnig y cynnig yn enw Paul Davies.

Rwy'n hapus i ddangos cefnogaeth y Ceidwadwyr Cymreig i welliannau 1, 2 a 3 yn enw Aled Roberts. Fodd bynnag, o ran gwelliant 2, er ein bod yn gwbl gefnogol i'r egwyddorion, mae peth pryder o hyd mai cyllid trosiannol yn unig yw'r hyn sy'n cael ei alw'n adfer cyllid y Clybiau Ffermwrwr Ifanc, a gyhoeddwyd gan y Dirprwy Weinidog yn gynharach eleni. Felly, byddem yn croesawu sicrwydd y Llywodraeth y bydd arian CFfl cael ei warantu ar gyfer y tymor hir.

O ran gwelliant 4 yn enw Jane Hutt, a gwelliant 5 yn enw Elin Jones, rwy'n teimlo bod y ddau welliant yn gwanhau'r cynnig, a byddwn yn gwrthwynebu'r gwelliannau hyn. Yn rhannol yn unig y mae Cymru wedi croesawu hawliau cymunedol, a gellir gwneud mwy i ddarparu'r un hawliau i gymunedau â'r hawliau a fwynheir mewn rhannau eraill o'r DU drwy'r Ddeddf Lleoliaeth.

Yn ystod fy nghyfraniad, hoffwn ganolbwyntio fy sylwadau ar bwysigrwydd band eang i'r economi wledig, a bancio cymunedol. Mae'r economi wledig, fel holl economi Cymru o ran hynny, rwy'n meddwl, yn dod yn fwyfwy dibynnol ar gysylltedd digidol fel ffordd o sicrhau bod Cymru yn gystadleuol yn rhyngwladol.

Nawr, mae'r prosiect band eang cyflym iawn, felly, yn gynllun i'w groesawu'n fawr. Mae'n uchelgeisiol, ac yn gobeithio darparu lleiafswm o 24 Mbps i 96 y cant o boblogaeth Cymru erbyn gwanwyn 2016, ac rwy'n croesawu'r uchelgais hwnnw. Fodd bynnag, rwy'n ofni y bydd ardaloedd gwledig Cymru yn cael eu gadael ar ôl ac y bydd y bwll digidol rhwng ardaloedd gwledig a threfol Cymru yn ehangu, gan roi busnesau yng nghefn gwlad Cymru dan anfantais gystadleuol o gymharu â'u cymheiriaid trefol.

Yn wir, rwy'n ymwybodol hefyd fod rhai sylwebyddion yn y diwydiant yn credu y bydd prosiect Cyflymu Cymru yn methu â chyrraedd ei darged uchelgeisiol. Deallaf fod y wefan band eang annibynnol, thinkbroadband, wedi cwblhau gwaith ymchwil yn ddiweddar sy'n amcangyfrif na fydd 170,000 neu 10.4 y cant o eiddo yng Nghymru yn cael band eang cyflym iawn ar ôl cwblhau'r prosiect. Rwy'n mawr obeithio fod hynny'n anghywir.

Therefore, I would ask: does the Welsh Government stand by its commitment that the Superfast Cymru project will meet its 96 per cent target by the spring of next year? Would the Deputy Minister accept the independent assessment of thinkbroadband? If the former, will you mandate BT to publish a detailed timetable for the remainder of the project to provide a greater degree of clarity to residents and businesses in rural areas that are yet to benefit from the broadband upgrade? If the latter, I would ask: would you publish a comprehensive list of these 170,000 premises in Wales that thinkbroadband say will miss out, many of which will undoubtedly be in Powys and other areas of Mid and West Wales so that they can make alternative arrangements, if necessary, through the Access Broadband Cymru scheme?

Furthermore, I do have some concerns regarding the Superfast Cymru infill project, which aims to address the areas of Wales that will not be covered by the main Superfast Cymru programme. In a letter from the Deputy Minister on the recent tender that has been published for phase 1 of the infill project, the Welsh Government confirmed that 2,500 business premises will benefit from support. Now, this is clearly a drop in the ocean compared to the 170,000 premises that thinkbroadband have identified, and I'm astonished that the Deputy Minister recently responded to a written question from me saying that not a single business in my constituency of Montgomeryshire is included in the 2,500 figure. I would be interested in hearing why this is the case. If there is an explanation to that, I would genuinely like to understand that.

The invitation to tender also specifies a contract length of some seven years, taking us up to 2022. Does this mean that people and businesses in rural constituencies such as mine will find themselves seven years behind the rest of Wales in terms of broadband connectivity? If this is the case, the impact on rural Wales will be significant. By 2022, we may be on the way to 5G mobile, not only 4G, so how does the Welsh Government intend to mitigate the effects of expanding the digital divide on the rural economy?

Secondly, in her letter, the Deputy Minister confirmed that residential premises will be covered by a separate infill project—by a separate process, if you like—the details for which are being finalised. That is how the Minister responded to me. Have these details been finalised yet and how many premises will be covered? If the Superfast Cymru project eventually falls short of the 96 per cent target, will the infill project receive additional Welsh Government funding to ensure that 100 per cent of premises are served?

Felly, hoffwn ofyn hyn: a yw Llywodraeth Cymru yn cadw at ei hymrwymiad y bydd prosiect Cyflymu Cymru yn cyrraedd ei tharged o 96 y cant erbyn gwanwyn y flwyddyn nesaf? A fyddai'r Dirprwy Weinidog yn derbyn asesiad annibynnol thinkbroadband? Os y cyntaf, a fyddwch yn ei gwneud yn ofynnol i BT gyhoeddi amserlen fanwl ar gyfer gweddill y prosiect i ddarparu mwy o eglurder i drigolion a busnesau mewn ardaloedd gwledig sydd eto i elwa o uwchraddio'r band eang? Os yr olaf, hoffwn ofyn hyn: a fyddwch yn cyhoeddi rhestr gynhwysfawr o'r 170,000 safle yng Nghymru y mae thinkbroadband yn dweud y byddant ar eu colled, gyda llawer ohonynt heb os ym Mhowys a rhannau eraill o Ganolbarth a Gorllewin Cymru, er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau eraill, os oes angen, drwy'r cynllun Allwedd Band Eang Cymru?

Ar ben hynny, mae gennyf rai pryderon ynghylch prosiect mewnlenwi Cyflymu Cymru, sy'n anelu at fynd i'r afael â'r ardaloedd yng Nghymru na fydd yn cael eu cynnwys ym mhrif raglen Cyflymu Cymru. Mewn llythyr gan y Dirprwy Weinidog ar y tendr diweddar a gyhoeddwyd ar gyfer cam 1 y prosiect mewnlenwi, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y bydd 2,500 o adeiladau busnes yn cael budd o gymorth. Nawr, mae'n amlwg mai diferyn o ddŵr yn y môr yw hyn o gymharu â'r 170,000 safle a nodwyd gan thinkbroadband, ac rwy'n synnu bod y Dirprwy Weinidog wedi ymateb yn ddiweddar i gwestiwn ysgrifenedig oddi wrthyf drwy ddweud nad oes un busnes yn fy etholaeth, sef Sir Drefaldwyn, wedi'i gynnwys yn y ffigur o 2,500. Byddai gennyf ddiddordeb mewn clywed pam fod hyn yn wir. Os oes eglurhad dros hynny, fe fyddwn o ddifrif yn hoffi ei ddeall.

Mae'r gwahoddiad i dendro hefyd yn nodi hyd contract o ryw saith mlynedd, gan fynd â ni hyd at 2022. A yw hyn yn golygu y bydd pobl a busnesau mewn etholaethau gwledig fel fy un i saith mlynedd ar ôl gweddill Cymru o ran cysylltedd band eang? Os yw hyn yn wir, bydd yr effaith ar gefn gwlad Cymru yn sylweddol. Erbyn 2022, efallai y byddwn ar y ffordd i wasanaeth symudol 5G, nid 4G yn unig, felly sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu lliniaru effeithiau gagendor digidol sy'n ehangu ar yr economi wledig?

Yn ail, yn ei llythyr, cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog y bydd safleoedd preswyl yn cael eu cynnwys mewn prosiect mewnlenwi ar wahân—drwy broses ar wahân, os mynnwch—ac mae ei fanylion yn cael eu cwblhau. Dyna oedd ymateb y Gweinidog i mi. A yw'r manylion hyn wedi'u cwblhau eto a sawl safle a gaiff ei gynnwys? Os yw prosiect Cyflymu Cymru yn dal i fethu â chyrraedd y targed o 96 y cant yn y pen draw, a fydd y prosiect mewnlenwi yn cael arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod 100 y cant o'r safleoedd yn cael eu gwasanaethu?

It is clear that there are significant issues that need to be ironed out and many questions answered when it comes to rural Wales's digital connectivity and its impact on the rural economy. This ongoing lack of digital connectivity in rural Wales means that essential services will not be able to be delivered through remote access alone—not yet in any case. A good case in point is the regrettable recent closure of several high-street banks. I use my own constituency as an example: banks have closed in Llanidloes, Montgomery and Llanfair Caereinion, and HSBC is soon to be closing in Machynlleth. The combination of these bank closures, and a reduction in opening hours in other cases, have the potential to devastate rural town centres and have a detrimental effect on residents and businesses in rural Wales who rely on over-the-counter banking services.

Small businesses engaged in retail activity, which make up a significant proportion of the rural economy, are clearly affected by the closure of local bank branches, not only because it means that they have to travel further to deposit cash and access over-the-counter services, but also because bank closures can significantly reduce high street footfall, leading to reduced retail turnover. Furthermore, third sector organisations, the elderly and disabled residents are also the most likely to be disadvantaged by high street bank closures. It's clear from these groups of people that online or mobile banking does not adequately replace permanent over-the-counter facilities.

Of course, I recognise the pressure high street banks are under, with developments in technology et cetera, but all the more reason, I think, to come together to explore new, innovative ways, or a new model, if you like, of community banking, which will then see banks sharing buildings and services to ensure that their customers in rural areas of Wales can continue to have them.

Now, earlier this year, I did write to the Minister for Communities and Tackling Poverty to ask her to facilitate discussions on a community banking model with the banks, the Post Office and regulators, such as the Financial Conduct Authority and Competition and Markets Authority. I appreciate that, in many cases, the Government would be resistant, perhaps, to interfere in what are commercial decisions for banks. However, I still feel that the Welsh Government has a role to play. It's in a position to act as a facilitator for these discussions on a community banking model to occur.

Now, I do commend our motion to the Assembly. I look forward to hearing other Members' contributions. I'm pleased that the Deputy Minister is sitting next to her colleague, the other Deputy Minister, because I know that a lot of my contribution has been on digital and broadband issues. I can see the two Deputy Ministers sharing notes with each other, and I'm grateful for that.

Mae'n amlwg fod yna faterion pwysig sydd angen eu datrys a llawer o gwestiynau i'w hateb mewn perthynas â chysylltedd digidol cefn gwlad Cymru a'i effaith ar yr economi wledig. Mae'r diffyg cysylltedd digidol parhaus yng nghefn gwlad Cymru yn golygu na fydd modd darparu gwasanaethau hanfodol drwy fynediad o bell yn unig—hyd yma beth bynnag. Un enghraifft dda o hyn yw'r penderfyniad anffodus i gau nifer o fanciau'r stryd fawr. Rwy'n defnyddio fy etholaeth fy hun fel enghraifft: mae banciau wedi cau yn Llanidloes, Trefaldwyn a Llanfair Caereinion, ac yn fuan, bydd HSBC yn cau ym Machynlleth. Mae perygl y bydd y cyfuniad o gau'r banciau hyn, a chyfyngu ar oriau agor mewn achosion eraill, yn dinistrio canol trefi gwledig ac yn cael effaith niweidiol ar drigolion a busnesau yng nghefn gwlad Cymru sy'n dibynnu ar wasanaethau bancio dros y cownter.

Mae busnesau bach manwerthu, sy'n ffurfio cyfran sylweddol o'r economi wledig, yn cael eu heffeithio'n amlwg gan gau canghennau o fanciau lleol, nid yn unig am ei fod yn golygu bod yn rhaid iddynt deithio ymhellach i fancio arian parod a chael gwasanaethau dros y cownter, ond hefyd oherwydd y gall cau banciau leihau nifer yr ymwelwyr â'r stryd fawr yn sylweddol, gan arwain at lai o drosiant manwerthu. Ar ben hynny hefyd, sefydliadau'r trydydd sector, yr henoed a phreswylwyr anabl yw'r rhai mwyaf tebygol o fod dan anfantaes oherwydd cau banciau'r stryd fawr. Mae'n amlwg nad yw bancio ar-lein neu symudol yn gwneud y tro yn lle cyfleusterau dros y cownter parhaol i'r grwpiau hyn o bobl.

Wrth gwrs, rwy'n cydnabod y pwysau ar fanciau'r stryd fawr, gyda datblygiadau mewn technoleg ac ati, ond mae hynny'n fwy o reswm byth, rwy'n credu, i ddod at ein gilydd i archwilio ffyrdd newydd, arloesol, neu fodel newydd, os mynnwch, ar gyfer bancio cymunedol, a fydd wedyn yn arwain at fanciau'n rhannu adeiladau a gwasanaethau i sicrhau y gall eu cwsmeriaid yn ardaloedd gwledig Cymru barhau i fanteisio ar y gwasanaethau hynny.

Nawr, yn gynharach eleni, ysgrifennais at y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi i ofyn iddi hwyluso trafodaethau ar fodel bancio cymunedol gyda'r banciau, y Swyddfa Bost a rheoleiddwyr, megis yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol a'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd. Rwy'n sylweddoli y byddai'r Llywodraeth, mewn sawl achos, yn amharod i ymyrryd, efallai, ym mhenderfyniadau masnachol banciau. Fodd bynnag, rwy'n dal i deimlo bod gan Lywodraeth Cymru rôl i'w chwarae. Mae mewn sefyllfa i weithredu fel hwylusydd er mwyn i drafodaethau o'r fath ar fodel bancio cymunedol allu digwydd.

Nawr, rwy'n cymeradwyo ein cynnig i'r Cynulliad. Edrychaf ymlaen at glywed cyfraniadau Aelodau eraill. Rwy'n falch fod y Dirprwy Weinidog yn eistedd wrth ymyl ei chyd-Aelod, y Dirprwy Weinidog arall, oherwydd gwn fod llawer o fy nghyfraniad wedi bod ar faterion digidol a band eang. Gallaf weld y ddwy yn rhannu nodiadau â'i gilydd, ac rwy'n ddiolchgar am hynny.

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have selected the five amendments to the motion. If amendment 4 is agreed, amendment 5 will be deselected. I call on William Powell to move amendments 1, 2 and 3, tabled in the name of Aled Roberts.

Rwyf wedi dethol y pum gwelliant i'r cynnig. Os derbynnir gwelliant 4, bydd gwelliant 5 yn cael ei ddad-ddethol. Galwaf ar William Powell i gynnig gwelliannau 1, 2 a 3, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

Gwelliant 1—Aled Roberts

Amendment 1—Aled Roberts

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Insert as new point 2 and renumber accordingly:

Yn croesawu'r cyhoeddiad yng Nghyllideb Llywodraeth y DU 2015 i ymestyn y cyfnod y gall ffermwyr hunangyflogedig nodi eu helw fel cyfartaledd i bum mlynedd o ddwy flynedd at ddibenion treth incwm, gan helpu dros 3,000 o ffermwyr unigol yng Nghymru i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Welcomes the announcement in the 2015 UK Government Budget to extend the period that self-employed farmers can average their profits for income tax purposes from 2 years to 5 years, helping over 3,000 individual farmers in Wales to plan for the future.

Gwelliant 2—Aled Roberts

Amendment 2—Aled Roberts

Cynnwys pwynt 3 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Insert as new point 3 and renumber accordingly:

Yn croesawu'r ffaith bod cyllid ar gyfer Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru wedi cael ei adfer ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda'r CFFI i sicrhau ateb cynaliadwy hir dymor.

Welcomes that funding for Welsh Young Farmers' Clubs has been reinstated and calls on the Welsh Government to work with the YFC to secure a long-term sustainable solution.

Gwelliant 3—Aled Roberts

Amendment 3—Aled Roberts

Cynnwys pwynt 3 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Insert as new point 3 and renumber accordingly:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i helpu ardaloedd gwledig i ffynnu drwy hyrwyddo ffermio cyfran a chynllunio olyniaeth.

Calls on the Welsh Government to help rural areas thrive by promoting share farming and succession planning.

Cynigiwyd gwelliannau 1, 2 a 3.

Amendments 1, 2 and 3 moved.

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd.

Thank you very much, Deputy Presiding Officer.

It's a great pleasure to be taking part in this important debate today, and I move amendments 1, 2 and 3 in the name of Aled Roberts, on behalf of the Welsh Liberal Democrat group.

Mae'n bleser mawr gennyf gymryd rhan yn y ddadl bwysig hon heddiw, a chynigiaf welliannau 1, 2 a 3 yn enw Aled Roberts, ar ran grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru.

The announcement in the 2015 UK Government budget to extend the period that self-employed farmers can average their profits for income tax purposes from two to five years, as outlined in our first amendment, will help over 3,000 individual farmers in Wales to plan for the future. With this change, if a farmer has a particularly good year, followed by several less favourable years, he or she will be able to average out the profits from the preceding five years and pay tax on the average. Farming can, as some of us know to our cost, be a very unforgiving industry and farmers are, by the very nature of farming, very much at the mercy of factors well beyond their control. By extending the period from two to five years, farmers will be able, more readily, to manage the volatility within the farming market and to focus their investment, without having to worry unduly about receiving sizeable income tax bills that were unexpected.

I now turn to our second amendment. Wales YFC plays, as we all know, a vital role in supporting the farming economy and, indeed, in developing the self-confidence of young people in our rural areas, and to have lost its core funding would have been devastating for an organisation that relies so heavily upon the volunteer network. The very nature of the young farmers' movement, and the integral part that it plays in the wider community, means that they could reach areas that statutory local authority schemes often could not, and that's why, in particular, Kirsty Williams, my party leader, and I continue to work tirelessly to seek a long-term solution. Transitional funding has been provided, as Russell George said, and we need to see this embedded and made safe for the future. This is a major priority for us.

Our third amendment today calls on the Welsh Government to help rural areas thrive by promoting share-farming and, indeed, succession planning within the industry. I've spoken in this Chamber on a number of occasions about the fact that more needs to be done in Wales to support and encourage young people to enter farming and have access to the land. Farming in Wales remains an almost exclusively inherited occupation. The average percentage of farmers under the age of 35 in the European Union is 6 per cent, while for the UK it is a mere 2.8 per cent. Therefore, it is clear that much more needs to be done to make the industry more accessible for the next generation and to improve succession planning. Also, the promotion of share-farming would assist greatly in this endeavour. Share-farming enables access to the land by those with an interest in a career in farming that would not otherwise have that opportunity. Although not widely implemented in Wales or the UK, there are many share-farming schemes operating across the European Union that provide excellent examples from which we can learn.

Furthermore, there is still more to be done to foster and promote farming and the wider agricultural sector as a career option, and this is echoed in many ways by the recommendations made by Professor Wynne Jones in his review of learning delivered by FE colleges, which was published earlier this year.

Mae'r cyhoeddiad yng nghyllideb 2015 Llywodraeth y DU i ymestyn y cyfnod y gall ffermwyr hunangyflogedig gyfartaleddu eu helw at ddibenion treth incwm o ddwy i bum mlynedd, fel yr amlinellir yn ein gwelliant cyntaf, yn helpu dros 3,000 o ffermwyr unigol yng Nghymru i gynllunio ar gyfer y dyfodol. Gyda'r newid hwn, os yw ffermwr yn cael blwyddyn arbennig o dda, a nifer o flynyddoedd llai ffafriol, bydd ef neu hi yn gallu cyfartaleddu'r elw o'r pum mlynedd flaenorol a thalu treth ar y cyfartaledd. Fel y mae rhai ohonom yn gwybod yn anffodol, gall ffermio fod yn ddiwydiant anafdeugar iawn ac mae ffermwyr, oherwydd natur ffermio, ar drugaredd ffactorau ymhell y tu hwnt i'w rheolaeth i raddau helaeth iawn. Drwy ymestyn y cyfnod o ddwy i bum mlynedd, bydd ffermwyr yn gallu rheoli'r anwadalwch yn y farchnad ffermio yn haws a chanolbwyntio eu buddsoddiad, heb orfod poeni'n ormodol ynglŷn â chael biliau treth incwm sylweddol yn annisgwyl.

Trof yn awr at ein hail welliant. Fel y gwyddom i gyd, mae CFFl Cymru yn chwarae rhan hanfodol yn cefnogi'r economi amaethyddol ac yn wir, yn datblygu hunanhyder pobl ifanc yn ein hardaloedd gwledig, a byddai colli ei arian craidd wedi bod yn drychinebus i sefydliad sy'n dibynnu mor drwm ar y rhwydwaith gwirfoddolwyr. Mae union natur mudiad y ffermwyr ifanc, a'r rhan annatod y mae'n ei chwarae yn y gymuned ehangach, yn golygu y gallent gyrraedd ardaloedd y tu hwnt i gyrraedd cynlluniau awdurdodau lleol statudol yn aml, a dyna pam, yn benodol, y mae Kirsty Williams, arweinydd fy mhlaidd, a minnau yn parhau i weithio'n ddiflino i ddod o hyd i ateb hirdymor. Darparwyd cyllid trosiannol, fel y dywedodd Russell George, ac mae angen inni sicrhau ei fod yn cael ei gadarnhau a'i wneud yn ddiogel ar gyfer y dyfodol. Mae hon yn flaenoriaeth bwysig i ni.

Mae ein trydydd gwelliant yn galw heddiw ar Lywodraeth Cymru i helpu ardaloedd gwledig i ffynnu drwy hyrwyddo ffermio cyfran ac yn wir, cynllunio olyniaeth o fewn y diwydiant. Rwyf wedi siarad yn y Siambr hon ar sawl achlysur am yr angen i wneud mwy yng Nghymru i gefnogi ac annog pobl ifanc i ddechrau ffermio a chael mynediad at y tir. Mae ffermio yng Nghymru yn parhau i fod yn alwedigaeth a etifeddir bron yn ddiethriad. Canran gyfartalog ffermwyr o dan 35 oed yn yr Undeb Ewropeaidd yw 6 y cant, ac yn y DU, 2.8 y cant yn unig yw'r ganran honno. Felly, mae'n amlwg fod angen gwneud llawer mwy i wneud y diwydiant yn fwy hygyrch ar gyfer y genhedlaeth nesaf ac i wella cynllunio olyniaeth. Hefyd, byddai hybu ffermio cyfran yn gymorth mawr yn yr ymdrech hon. Mae ffermio cyfran yn caniatáu mynediad at y tir ymhlith rhai sydd â diddordeb mewn dilyn gyrfa ym myd ffermio na fyddai fel arall yn cael y cyfle hwnnw. Er nad yw'n cael ei weithredu'n eang yng Nghymru na'r DU, mae llawer o gynlluniau ffermio cyfran sy'n gweithredu ar draws yr Undeb Ewropeaidd yn cynnig enghreifftiau gwych y gallwn ddisgu ohonynt.

Ar ben hynny, mae mwy eto i'w wneud i feithrin a hyrwyddo ffermio a'r sector amaethyddol ehangach fel opsiwn gyrfaol, a chaiff hyn ei adleisio mewn sawl ffordd gan yr argymhellion a wnaed gan yr Athro Wynne Jones yn ei adolygiad o'r addysg a ddarperir gan golegau Addysg Bellach, a gyhoeddwyd yn gynharach eleni.

We will be voting against amendments 4 and 5 today because we agree with the point that measures contained within the Localism Act 2011 should be fully enacted in Wales and should be enacted now. As my colleague Peter Black said in the Chamber just last week, the Localism Act was passed in 2011, yet Wales seems to have been very slow up to this point in taking forward that framework for promoting and protecting key community assets. The present threat that has been mentioned in this Chamber on more than one occasion to a much-loved public house in Crickhowell—and one that has already been lost in Glasbury ward in Radnorshire—is very much in our minds at this time.

The Welsh Liberal Democrat countryside charter includes plans to close the gap between urban and rural areas in terms of high-speed broadband and internet provision, to give rural firms the transport infrastructure that they need to grow and to compete in global markets, to boost rural tourism, and to prioritise rural housing. I conclude by emphasising that the Welsh Liberal Democrats are, in our very hearts, a party of the countryside. We believe that a comprehensive set of measures needs to be brought forward to actually safeguard the future of the Welsh rural economy.

Byddwn yn pleidleisio yn erbyn gwelliannau 4 a 5 heddiw oherwydd ein bod yn cytuno â'r pwynt y dylai mesurau sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Lleoliaeth 2011 gael eu deddfu'n llawn yng Nghymru a hynny ar unwaith. Fel y dywedodd fy nghyd-Aelod, Peter Black, yn y Siambr yr wythnos diwethaf, cafodd Deddf Lleoliaeth ei phasio yn 2011, ac eto ymddengys bod Cymru wedi bod yn araf iawn hyd yn hyn yn bwrw ymlaen â'r fframwaith ar gyfer hyrwyddo a diogelu asedau cymunedol allweddol. Mae'r bygythiad presennol a grybwyllwyd yn y Siambr hon ar fwy nag un achlysur i dafarn boblogaidd yng Nghrucywel—brwydr sydd eisoes wedi'i cholli yn ward y Clas-ar-Wy yn Sir Faesyfed—yn ein meddyliau ar hyn o bryd.

Mae siarter cefn gwlad Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cynnwys cynlluniau i gau'r bwch rhwng ardaloedd trefol a gwledig o ran band eang cyflym a darpariaeth rhyngwrwyd, i roi'r seilwaith trafniadaeth sydd eu hangen ar fusnesau gwledig i dyfu ac i gystadlu mewn marchnadoedd byd-eang, i roi hwb i dwristiaeth yng nghefn gwlad, ac i flaenoriaethu tai gwledig. Hoffwn gloi drwy bwysleisio bod Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, yn ein calonnau, yn blaid wledig. Credwn fod angen cyflwyno cyfres gynhwysfawr o fesurau i ddiogelu dyfodol economi wledig Cymru mewn gwirionedd.

15:52 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I call on the Deputy Minister for Farming and Food to move formally amendment 4, tabled in the name of Jane Hutt.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd i gynnig gwelliant 4, a gyflwynwyd yn enw Jane Hutt, yn ffurfiol.

Gwelliant 4—Jane Hutt

Amendment 4—Jane Hutt

Dileu pwynt 3 a rhoi'r canlynol yn ei le:

Delete point 3 and replace with:

Yn cydnabod yr angen i ddatblygu dull penodol i Gymru o ymdrin ag asedau cymunedol, sy'n adlewyrchu anghenion Cymru ac sy'n seiliedig ar ymgynghori eang yng Nghymru.

Recognises the need to develop a Welsh-specific approach to community assets that reflects Welsh needs and is based on wide consultation in Wales.

Cynigiwyd gwelliant 4.

Amendment 4 moved.

15:53 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd / The Deputy Minister for Farming and Food
Formally.

Yn ffurfiol.

15:53 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I call on Llyr Gruffydd to move amendment 5, tabled in the name of Elin Jones.

Galwaf ar Llyr Gruffydd i gynnig gwelliant 5, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

Gwelliant 5—Elin Jones

Amendment 5—Elin Jones

Ym mhwynt 3, dileu 'sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Lleoliaeth 2011 ar waith yn llawn yng Nghymru' a rhoi 'ar waith' yn ei le.

In point 3, delete 'contained in the Localism Act 2011 to be fully enacted in Wales' and replace with 'to be put in place'.

Cynigiwyd gwelliant 5.

Amendment 5 moved.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. A gaf i gynnig gwelliant 5 ar ran Plaid Cymru? Rwyf yn croesawu'r cynnig. Amaethyddiaeth, wrth gwrs, fel rydym i gyd yn ei gydnabod, yw asgwrn cefn yr economi wledig. Mae'n creu ac yn cynnal swyddi yn rhai o'n cymunedau a rhai o'n heconomiâu mwyaf ynysig ac ymylol yma yng Nghymru. Wrth gwrs, mae gan y fferm deuluol rôl ganolog i'w chwarae, nid yn unig fel cynheiliad economaidd ond hefyd mewn cyd-destun amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol—conglfeini datblygu cynaliadwy, wrth gwrs.

Ond mae'r heriau, fel mae'r cynnig yn ei awgrymu, yn sylweddol. Mae rhai ohonyn nhw, fel, wrth gwrs, y marchnadoedd anwadal, yn rhai lle efallai nad oes gennym ni fan hyn lawer o ddylanwad—neu ddim gymaint o ddylanwad a rheolaeth ag y dymunem ei gael drostyn nhw. Mae eraill, wrth gwrs, fel diwygio'r polisi amaeth cyffredinol, yn rhai lle gallwn ni fod yn fwy rhagweithiol, gan weithio o blaid buddiannau'r ffermydd teuluol hynny.

Mae'r amgylchiadau busnes yn rhai heriol i ffermwyr, wrth gwrs. Rydym yn deall fod busnesau, er enghraifft, angen sefydlogrwydd ac mae diwygio'r CAP wedi creu ansefydlogrwydd—yn enwedig, mae'n rhaid dweud, y modd y mae'r Llywodraeth yma wedi delio â'r diwygiad yna. Mae'r smonach, wrth gwrs, o safbwynt y cynllun taliadau sylfaenol yn dal i olygu nad yw ffermwyr Cymru yn gwybod beth fydd y drefn daliadau pan fydd yn dod nes ymlaen eleni, heb sôn, wrth gwrs, am faint y gallent ddisgwyl ei dderbyn. Mae 80 y cant o'n ffermydd ni, fel rydym yn gwybod, yn ddibynol ar y taliadau hynny i fod yn hyfyw fel busnesau. Felly, mae unrhyw fath o gynllunio busnes, fel ag y mae hi yn yr hinsawdd bresennol, mwy neu lai ar stop.

Fe wrthwynebodd Plaid Cymru hefyd, wrth gwrs, y cam o drosglwyddo'r 15 y cant yna o biler 1 i biler 2: dros £0.25 biliwn yn cael eu cymryd allan o bocedi ffermwyr Cymru—pres a fyddai yn mynd i siopau gwledig, i gontractwyr gwledig, i garejys gwledig, ac i swyddfeydd post, tafarndai lleol ac yn y blaen. Nawr mae'r pres yna wedi mynd i'r cynllun datblygu gwledig—rydym ni'n dal i aros am hwnnw hefyd, wrth gwrs—ac mae'n siŵr y bydd y cyrff sy'n delifro'r projectau hynny'n cymryd eu siâr o'r pot hwnnw. Mi fydd ymgynghorwyr lu, mae'n siŵr, yn cymryd eu siâr o'r pot hwnnw, a fydd y pres yna ddim yn treiddio yn ôl i'r economi wledig yn yr un ffordd ag y byddai wedi ei wneud petai cyfran helaethach ohono wedi aros ym mhiler 1.

Nawr, mae angen felly hyblygrwydd ar ein busnesau fferm ni yma yng Nghymru i ymateb i'r heriau sy'n eu hwynebu nhw, ac rydym ni'n awyddus i weld y Llywodraeth yn cyflymu'r broses o dorri tâp coch a lleihau biwrocratiaeth a gweithredu ar yr argymhellion gafodd eu rhoi gerbron flynyddoedd yn ôl, erbyn hyn, gan gychwyn, wrth gwrs, drwy gael gwared ar y rheol chwe diwrnod—y 'six-day standstill rule'.

Thank you, Deputy Presiding Officer. Can I move amendment 5 on behalf of Plaid Cymru? I welcome the motion. Agriculture, of course, as we all acknowledge, is the backbone of the rural economy. It creates and sustains jobs in some of our most isolated and peripheral communities and economies here in Wales. Of course, the family farm has a central role to play, not only as a provider of economic sustenance but also in an environmental, social and cultural context—they are the cornerstones of sustainable development, of course.

But the challenges, as the motion suggests, are significant. Some of them, of course, such as the unpredictable markets, are ones where we here perhaps do not have a lot of influence—or don't have as much influence and control as we would like to get over them. Others, of course, such as reform of the common agricultural policy, are ones where we could be more proactive, working in the interests of family farms.

The business environment is challenging for farmers, of course. We understand that businesses, for example, need stability and that CAP reform has created instability—especially, it must be said, the way in which this Government has dealt with that reform. The mess, of course, from the point of view of the basic payments scheme still means that Welsh farmers don't yet know what the payment system will be when it is introduced later this year, let alone, of course, how much they can expect to receive. Eighty per cent of our farms, as we know, are reliant on those payments to be viable as businesses. So, any kind of business planning, in the current climate, is more or less at a standstill.

Plaid Cymru also opposed, of course, the transfer of 15 per cent from pillar 1 to pillar 2: over £0.25 billion taken out of the pockets of Welsh farmers—money that would have gone to rural shops, rural contractors, rural garages, post offices, local pubs and so on. Now that money has been transferred to the rural development plan—we're still waiting for that too, of course—and I am sure that the delivery bodies for those projects will take their share of that pot. Consultants will also, no doubt, take their share of the pot, and that money won't permeate the rural economy in the same way as it would have done if a larger proportion had remained in pillar 1.

Now, we therefore need flexibility for our farm businesses in Wales to respond to the challenges facing them, and we are eager to see the Government hastening the process of reducing bureaucracy and red tape, acting on the recommendations that were made some years ago, starting, of course, by removing the six-day standstill rule.

Mae busnesau bach, yn gyffredinol ac yn ehangach na dim ond y maes amaeth, yn allweddol i'r economi wledig. Dyna pam y mae Plaid Cymru am eu cefnogi nhw drwy dorri baich treth fusnes i 83,000 o fusnesau ac, yn wir, ddileu taliadau treth fusnes i 70,000 o fusnesau—llawer o'r rheini, wrth gwrs, yn ddibynnol ar wneud busnes ar y we. Ac rydym ni, wrth gwrs, yn cytuno â'r pedwerydd pwynt yn y cynnig, sy'n galw am amserlen benodol, oherwydd ein bod ni'n gwybod bod y 4 y cant yna sydd ar ôl, ar y cyfan, yn mynd i fod yn rhai o'r ardaloedd mwyaf gwledig sydd gennym ni.

Ac o safbwynt banciau, mae yna bwynt pwysig fan hyn, oherwydd yr wyf i wedi bod yn ymwneud â nifer o ymgyrchoedd ar draws rhanbarth y gogledd i gynnal gwasanaethau bancio mewn cymunedau gwledig. Mi wnaeth HSBC, ychydig yn ôl, gau cangen yng Nghorwen, gan ddweud wrth ei gwsmeriaid, 'Peidiwch â phoeni, mae yna gangen yn Llangollen; nid yw hi ond ychydig filltiroedd i lawr y ffordd. Cewch chi fynd i fannu.' Wrth gwrs, rai misoedd wedyn, roedd yn cau cangen Llangollen, gyda'r gwasanaeth yn mynd ymhellach ac ymhellach i ffordd, a banc lleol y byd yn mynd yn fwy ac yn fwy pellennig.

Mae gwelliant Plaid Cymru fan hyn, wrth gwrs. Rwy'n cefnogi'r egwyddor i raddau helaeth, ond mae yna elfennau o Ddeddf Lleoliaeth 2011 efallai y byddwn i'n llai cyfforddus â nhw. Rwy'n rhannu'r rhwystredigaeth bod Llywodraeth Cymru wedi treulio gormod o amser yn pendroni ynglŷn â datblygu rhyw fath o ddynesiad Cymreig, ond rwy'n teimlo bod yn rhaid inni sicrhau nad ydym ni wastad yn slafaid yn dilyn yr hyn sydd yn digwydd dros y ffin.

I have to say, this motion is tinged with irony as well, because, let's not forget that it was actually a Tory Government that was hell-bent on reducing the EU budget that subsequently led to a reduction in the CAP budget, and we sort Tory, Labour and UKIP MEPs from Wales supporting that reduction, despite it being to the detriment of Welsh farmers, and it was left to Plaid Cymru to stand up for Welsh agriculture. Any effort to reduce CAP payments is a direct attack on Welsh farming, and the FUW at the time—

Small businesses, generally speaking and more broadly than the agriculture sector, are key to the rural economy. That is why Plaid Cymru wants to support them by reducing the burden of business rates for 83,000 businesses and, indeed, abolishing business rates for 70,000 businesses—many of which, of course, are reliant on doing business on the internet. And we agree, of course, with the fourth point in the motion, which calls for a specific timetable, because we know that the remaining 4 per cent, generally speaking, are going to be in our most rural areas.

And from the point of view of banks, there is an important point here, because I've been involved in a number of campaigns across the north Wales region to maintain banking services in rural communities. A little while ago, HSBC closed its branch in Corwen, telling its customers, 'Don't worry, there's a branch in Llangollen; it's just a few miles down the road. You can use that.' Of course, some months later, it closed the Llangollen branch too, and the service was going further and further away from those people, with the world's local bank becoming more and more remote.

Plaid Cymru's amendment comes in here, of course. I support the principle to a large extent, but there are elements of the Localism Act 2011 with which I would be less comfortable. I share the frustration that the Welsh Government has spent too much time considering developing some sort of Welsh approach, but I feel that we must ensure that we always slavishly follow what is happening over the border.

Mae'n rhaid i mi ddweud, mae'r cynnig hwn yn cael ei liwio gan eironi hefyd, oherwydd, gadewch i ni beidio ag anghofio mai'r Llywodraeth Doriaidd mewn gwirionedd a oedd yn benderfynol o leihau cyllideb yr UE a arweiniodd wedyn at leihad yng nghyllideb y PAC, a gwelsom ASEau Toriaidd, Llafur ac UKIP o Gymru yn cefnogi'r gostyngiad hwnnw, er ei fod er anfantais i ffermwyr Cymru, a gadawyd i Blaid Cymru sefyll dros amaethyddiaeth Cymru. Mae unrhyw ymdrech i leihau taliadau PAC yn ymosodiad uniongyrchol ar ffermio yng Nghymru, ac roedd Undeb Amaethwyr Cymru ar y pryd-

15:58 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:58 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I've only got one second left, I'm afraid.

Nid oes ond un eiliad ar ôl gennyf, yn anffodus.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The point is that I take this motion with a pinch of salt, because your actions speak louder than your words.

Y pwynt yw fy mod yn ystyried y cynnig hwn gyda phinsiad o halen, gan fod eich gweithredoedd yn dweud mwy na'ch geiriau.

With one third of our people in Wales living in a rural community, the importance of this economy to Wales simply cannot be overstated. With a strong reputation for agriculture, our farms are our heritage, and our Welsh farmers the custodians of our beautiful countryside. In Aberconwy, 18 per cent of all business enterprises operate within this sector, well above the British average of just 6 per cent, and it had a GVA contribution of £374 million in 2014, which had seen a 15 per cent increase from 2013. This is simply a heritage that we cannot afford to lose. But it must be valued and supported, not just by those who live and work there, or indeed by our visitors, but by our Government here in Wales.

Farmers have seen complete and utter chaos around the basic payment scheme and have been devastated by the common agricultural policy reform package. Welsh Government's agriculture policy has undoubtedly contributed to the shocking forecast of Welsh farmers' income: a 24 per cent decrease between 2013-14 and 2014-15. The devastation seen by the industry is exemplified by the fall in the number of our dairy cows in Wales over the last 10 years, by 44,932. And sector leaders, such as NFU Cymru's president, are clear: support by the Welsh Government, the banks and the supply chain is crucial to help us come through this difficult time. I would like to place on record today my thanks to a local farmer in Llanfairfechan, Gareth Wyn Jones, who, through his tv series 'The Hill Farm', and his book, has actually helped to highlight the problems and the issues facing our farmers in Wales.

With greater dependence on small businesses in rural areas than their urban counterparts, barriers to improved business and sustainability must be addressed. Broadband connectivity issues make them automatically disadvantaged. You know, where we can see urban areas expecting broadband speeds of 30 Mbps, we have rural communities—and I have many—with 2 Mbps. The Federation of Small Businesses Wales points out that broadband can no longer be a luxury for a business. It is now essential, and more must be done to allow universal access. Whilst a Welsh Government Access Broadband Cymru grant is available to those hampered by the lower speeds, chosen providers must be able to guarantee receipt of 24 Mbps or more. A real issue for my constituents as companies are often unable to offer this assurance. Time and time again constituents are now asking me, 'When will I receive superfast broadband?' Some actually now believe that the ones who already receive high speeds will just receive higher speeds. Many are now starting to feel that they will be excluded altogether. With this in mind, I urge the Welsh Government to provide a really informative timetable for the rollout of the remainder of the Superfast Cymru project. Now, Cardiff city council has announced 4G Wi-Fi for buses, schools and public buildings. That is a luxury that my constituents can only dream of, and rural Wales is being left behind. The Welsh Government must ensure the requirements of the most needy are met, too.

Gyda thraean o'n pobl yng Nghymru yn byw mewn cymuned wledig, yn syml iawn ni ellir gorbwysleisio pa mor bwysig yw'r economi hon i Gymru. Gydag enw da am amaethyddiaeth, ein ffermydd yw ein treftadaeth, a'n ffermwyr yng Nghymru yw ceidwaid ein cefn gwlad hardd. Yn Aberconwy, mae 18 y cant o'r holl fentrau busnes yn gweithredu yn y sector hwn, sy'n llawer uwch na'r cyfartaledd Prydeinig o 6 y cant yn unig, ac roedd y sector yn cyfrannu gwerth ychwanegol gros o £374 miliwn yn 2014, cynnydd o 15 y cant ers 2013. Yn syml iawn, dyma etifeddiaeth na allwn fforddio ei cholli. Ond mae'n rhaid ei gwerthfawrogi a'i chefnogi, nid yn unig gan y rhai sy'n byw ac yn gweithio yno, na'n wir gan ein hymwelwyr, ond gan ein Llywodraeth yma yng Nghymru.

Mae ffermwyr wedi gweld anhrefn llwyr y cynllun talu sylfaenol ac wedi cael eu llorio gan becyn diwygio'r polisi amaethyddol cyffredin. Yn ddi-os mae polisi amaeth Llywodraeth Cymru wedi cyfrannu at y rhagolwg brawychus o incwm ffermwyr Cymru: gostyngiad o 24 y cant rhwng 2013-14 a 2014-15. Mae'r difrod a welwyd gan y diwydiant yn cael ei amlygu gan y gostyngiad o 44,932 yn nifer ein gwartheg llaeth yng Nghymru dros y 10 mlynedd diwethaf. Ac mae arweinwyr y sector, megis llywydd NFU Cymru, yn glir: mae cymorth gan Lywodraeth Cymru, y banciau a'r gadwyn gyflenwi yn hanfodol i'n helpu i ddod drwy'r cyfnod anodd hwn. Hoffwn gofnodi fy niolch heddiw i ffermwr lleol yn Llanfairfechan, Gareth Wyn Jones, sydd wedi helpu, drwy ei gyfres deledu 'The Hill Farm', a'i lyfr, i dynnu sylw mewn gwirionedd at y problemau a'r materion sy'n wynebu ein ffermwyr yng Nghymru.

Gyda mwy o ddibyniaeth ar fusnesau bach mewn ardaloedd gwledig na'u cymheiriaid trefol, rhaid mynd i'r afael â rhwystrau i wella busnes a chynaliadwyedd. Mae materion cysylltedd band eang yn eu rhoi dan anfantais yn awtomatig. Wyddoch chi, lle y gwelwn ardaloedd trefol yn disgwyl cyflymder band eang o 30 Mbps, mae gennym gymunedau—ac mae gennyf lawer—gyda 2 Mbps. Mae Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru yn nodi na all band eang fod yn foethusrwydd i fusnesau bellach. Mae'n hanfodol erbyn hyn, a rhaid gwneud mwy i ganiatáu mynediad cyffredinol. Er bod grant Allwedd Band Eang Cymru Llywodraeth Cymru ar gael i rai sy'n cael eu llyffetheirio gan gyflymder is, mae'n rhaid i ddarparwyr a ddewisir allu gwarantu cyflymder o 24 Mbps neu fwy. Mae'n broblem go iawn i fy etholwyr gan fod cwmnïau'n aml yn methu cynnig sicrwydd o'r fath. Dro ar ôl tro bydd etholwyr yn gofyn i mi, 'Pryd y gallaf gael band eang cyflym iawn?' Mae rhai bellach yn credu mai'r hyn fydd yn digwydd yw y caiff y rhai sydd eisoes yn derbyn cysylltiad cyflym iawn gysylltiad cyflymach byth. Mae llawer yn awr yn dechrau teimlo y cânt eu heithrio'n gyfan gwbl. Gyda hyn mewn golwg, rwy'n annog Llywodraeth Cymru i ddarparu amserlen sy'n rhoi gwybodaeth go iawn ynglŷn â chyflwyno gweddill prosiect Cyflymu Cymru. Nawr, mae cyngor dinas Caerdydd wedi cyhoeddi Wi-Fi 4G ar gyfer bysiau, ysgolion ac adeiladau cyhoeddus. Dyna foethusrwydd na all fy etholwyr ond breuddwydio yn ei gylch, ac mae cefn gwlad Cymru yn cael ei adael ar ôl. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod gofynion y mwyaf anghenus yn cael eu hateb hefyd.

Integral to many a rural Welsh community, of course, is its pub. Sadly, in north Wales, a pub closes every nine days, and not only are these businesses places for the community to come together, but they also provide much needed employment. They are the heart and soul, usually, of a small, rural community. Last year, I was very proud to work with our leader and our group to launch our own campaign to support local pubs. We recommend cutting business rates and empowering communities to work and club together to secure their own future. A similar approach is required to address the reductions in post office branches and our small shops. Ninety-one per cent of Welsh people say that these play an important role in communities, especially in those more remote areas.

In England, under a Conservative-led UK Government, the right to bid has empowered communities to help save threatened local assets. No such power exists yet in Wales, and we have been consistently calling for this to happen. Along with our Westminster colleagues, Welsh Conservatives have developed policy to maximise the potential of our rural economy. Fuel duty freezing will cut costs for car owners, and we would deliver near-universal superfast broadband by the end of the next Parliament. Our non-domestic business rates reform would abolish rates for those with a rateable value of under £12,000 and taper relief for those up to £15,000, resulting in security for businesswomen and men to take on more staff.

The Welsh rural economy provides businesses that already contribute hugely to the Welsh economy, but Welsh Labour must start to take it seriously and do more to encourage growth and fulfil its potential.

16:03

William Graham [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The agriculture industry makes a huge contribution to the Welsh economy, including over £3 billion in gross value added, and provides one of the few opportunities for employment in many parts of rural Wales. A vibrant rural economy is vital for economic prosperity. Without it, there will not be rural communities, which are vital for strategic food production and land management. A well-managed countryside is an asset not just in terms of food security and public health, but also in terms of environmental services, such as managing the impact of climate change through management of water to prevent flooding and ensure a constant supply of agricultural water, domestic water and water for industrial use.

We must not forget what a diverse offering the Welsh countryside makes. It's not just about agriculture; it's a host to many successful small and medium-sized businesses, including our much-valued timber and woodland industry. It is critical that issues touched on in this motion are addressed, such as broadband, and better transport links, and it is important that they reflect the older profile of rural communities compared to urban communities. Some 12 per cent of the population in rural areas is aged over 64, as opposed to only 6 per cent in urban communities.

Rhan annatod o lawer cymuned wledig Gymreig, wrth gwrs, yw ei thafarn. Yn anffodus, yn y Gogledd, mae tafarn yn cau bob naw diwrnod, ac nid yn unig y mae'r busnesau hyn yn llefydd i'r gymuned ddod at ei gilydd, ond maent hefyd yn darparu cyflogaeth fawr ei angen. Maent yn galon ac enaid cymunedau bach gwledig fel arfer. Y llynedd, roeddwn yn falch iawn o weithio gyda'n harweinydd a'n grŵp ar lansio ein hymgyrch ein hunain i gefnogi tafarndai lleol. Rydym yn argymhell torri ardrethi busnes a grymuso cymunedau i weithio a dod at ei gilydd i sicrhau eu dyfodol eu hunain. Mae angen dull tebyg i fynd i'r afael â'r gostyngiad y nifer canghennau o swyddfeydd post a'n siopau bach. Mae 91 y cant o bobl Cymru yn dweud bod y rhain yn chwarae rhan bwysig mewn cymunedau, yn enwedig yn yr ardaloedd mwy anghysbell.

Yn Lloegr, o dan Lywodraeth y DU a arweinir gan y Ceidwadwyr, mae'r hawl i gyflwyno cais wedi grymuso cymunedau i helpu i achub asedau lleol sydd dan fygythiad. Ni cheir unrhyw bŵer o'r fath hyd yma yng Nghymru, ac rydym wedi bod yn galw yn gyson am hyn. Ynghyd â'n cydweithwyr yn San Steffan, mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi datblygu polisi i wneud y mwyaf o botensial ein heconomi wledig. Bydd rhewi'r dreth danwydd yn torri costau i berchnogion ceir, a byddem yn cyflwyno band eang cyflym iawn i bawb bron iawn erbyn diwedd y Senedd nesaf. Byddai ein cynlluniau i ddiwygio ardrethi busnes annomestig yn diddymu ardrethi i fusnesau â gwerth ardrethol hyd at £12,000 a rhyddhad graddol hyd at £15,000, gan ei gwneud yn ddiogel i bobl fusnes gyffogi rhagor o staff.

Mae economi wledig Cymru yn darparu busnesau sydd eisoes yn cyfrannu'n aruthrol at economi Cymru, ond mae'n rhaid i Lafur Cymru ddechrau bod o ddifrif yn eu cylch a gwneud mwy i annog twf a chyflawni eu potensial.

Mae'r diwydiant amaeth yn gwneud cyfraniad enfawr i economi Cymru, gan gynnwys dros £3 biliwn mewn gwerth ychwanegol gros, ac yn darparu un o'r ychydig fathau o gyfleoedd cyflogaeth mewn sawl rhan o'r Gymru wledig. Mae economi wledig fywiog yn hanfodol ar gyfer ffyniant economaidd. Heb hyn, ni cheir cymunedau gwledig, sy'n hanfodol ar gyfer cynhyrchiant bwyd strategol a rheoli tir. Mae cefn gwlad a reolir yn dda yn ased nid yn unig o ran diogelu'r cyflenwad bwyd ac iechyd y cyhoedd, ond hefyd o ran gwasanaethau amgylcheddol, megis rheoli effaith newid yn yr hinsawdd drwy reoli dŵr i atal llifogydd a sicrhau cyflenwad cyson o ddŵr amaethyddol, dŵr domestig a dŵr at ddefnydd diwydiannol.

Rhaid i ni beidio ag anghofio cymaint o amrywiaeth y mae cefn gwlad Cymru yn ei gynnig. Nid yw'n ymwneud ag amaethyddiaeth yn unig; mae'n gartref i lawer o fusnesau bach a chanolig llwyddiannus, gan gynnwys ein diwydiant coed a choetiroedd gwerthfawr. Mae'n hanfodol fod materion sy'n cael eu crybwyll yn y cynnig hwn yn cael sylw, er enghraifft y band eang a chysylltiadau trafniadaeth gwell, ac mae'n bwysig eu bod yn adlewyrchu proffil hŷn cymunedau gwledig o gymharu â chymunedau trefol. Mae tua 12 y cant o'r boblogaeth mewn ardaloedd gwledig dros 64 oed, yn hytrach na dim ond 6 y cant mewn cymunedau trefol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

It is doubly harmful that the Welsh Government is insisting on the use of electronic communications to such an extent when the service is simply not fit for purpose. For Wales to compete in the global market, high-speed broadband is essential. Much of rural Wales—as we already know, and was mentioned by my colleague, Russell George—still struggles with a dial up.

Members have been contacted by many constituents regarding the inclusion of tree canopies as part of the new basic payment system in Wales. The future design of the basic payment scheme is a contentious issue. Under previous schemes, farmers only had to demarcate the tree trunks as an eligible feature, but under the new payment system, the entire canopy of any trees will need to be discounted. This will account for a much bigger area and many farmers with wooded areas in their fields will either see a reduction in their basic payment or there are fears that large, mature trees will be felled unnecessarily, drastically changing our much-treasured landscape. We welcome consultation on this issue. It is essential that the Welsh Government engages and consults transparently and sufficiently with stakeholders on a new payment system, especially due to the time constraints now facing the Welsh Government.

NFU Cymru has consistently argued that any new arrangement has to be one that leads to the least disruption to farming businesses in Wales whilst keeping bureaucracy to a minimum. However, this has not transpired. The Welsh Government has already acknowledged that it will not be able to pay farmers the new payment in full in December 2015—something that could give rise to significant cash-flow implications. It is vital that the Welsh Government puts in place the measures needed to deliver significant part-payments early in the payment window, with balances paid as soon as possible afterwards.

Bureaucracy and red tape place additional burdens on our farmers. This year's form was extremely complex. With the introduction of a number of new elements and the extreme pressure that everyone is under to ensure submission of the form by 15 May deadline, this could well significantly increase the risk of unintentional errors. May I ask the Deputy Minister that she provides reassurance today, to the industry, that her department will take this into account when validating forms and provide an opportunity for corrections to be made without penalty?

Mae'n ddwywaith mor niweidiol fod Llywodraeth Cymru yn mynnu defnyddio dulliau cyfathrebu electronig i'r fath raddau pan nad yw'r gwasanaeth yn addas i'r diben. Er mwyn i Gymru gystadlu yn y farchnad fyd-eang, mae band eang cyflym yn hanfodol. Mae llawer o ardaloedd gwledig Cymru—fel y gwyddom eisoes, ac fe'i crybwyllwyd gan fy nghyd-Aelod, Russell George—yn dal i frwydro gyda band eang drwy ddeialu.

Mae llawer o etholwyr wedi cysylltu ag Aelodau ynglŷn â chynnwys canopiâu coed yn rhan o'r system daliadau sylfaenol newydd yng Nghymru. Mae cynllun y taliad sylfaenol yn y dyfodol yn fater dadleuol. Mewn cynlluniau blaenorol, nid oedd ond angen i ffermwyr ddarnodi'r boncyffion coed fel nodwedd gymwys, ond o dan y system daliadau newydd, bydd angen diystyru'r canopi cyfan o goed. Bydd hyn yn arwynebedd llawer mwy a bydd llawer o ffermwyr gyda mannau coediog yn eu caeau naill ai'n gweld gostyngiad yn eu taliad sylfaenol neu mae yna ofnau y bydd coed mawr, aeddfed yn cael eu cwmpo'n ddiangen, gan newid ein tirwedd werthfawr yn sylweddol. Rydym yn croesawu ymgynghoriad ar y mater. Mae'n hanfodol fod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu ac yn ymgynghori'n dryloyw ac yn ddigonol â rhanddeiliaid ar system daliadau newydd, yn enwedig oherwydd y cyfyngiadau amser sydd bellach yn wynebu Llywodraeth Cymru.

Mae NFU Cymru wedi dadlau'n gyson fod yn rhaid i unrhyw drefniant newydd fod yn un sy'n arwain at gyn lleied â phosibl o amharu ar fusnesau ffermio yng Nghymru gyda chyn lleied â phosibl o fiwrocratiaeth. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi digwydd. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cydnabod na fydd yn gallu talu'r taliad newydd yn llawn i ffermwyr ym mis Rhagfyr 2015—rhywbeth a allai arwain at oblygiadau sylweddol o ran llif arian. Mae'n hanfodol fod Llywodraeth Cymru yn sefydlu'r mesurau sydd eu hangen i ddarparu rhandaliadau sylweddol yn gynnar yn y cyfnod talu, a thalu'r gweddill cyn gynted â phosibl ar ôl hynny.

Mae biwrocratiaeth a mân reolau yn gosod beichiau ychwanegol ar ein ffermwyr. Roedd y ffurflen eleni yn hynod o gymhleth. Yn sgil cyflwyno nifer o elfennau newydd a'r pwysau eithafol ar bawb i sicrhau eu bod yn cyflwyno'r ffurflen erbyn y dyddiad cau ar 15 Mai, gallai hyn yn sicr gynyddu'r risg o gamgymeriadau anfwriadol yn sylweddol. A gaf fi ofyn i'r Dirprwy Weinidog roi sicrwydd i'r diwydiant heddiw y bydd ei hadran yn rhoi sylw i hyn wrth ddilysu ffurflenni a rhoi cyfle i gywiriadau gael eu gwneud heb gosb?

Business rates are another burden on our rural businesses. We've seen so many shops, pubs and post offices simply disappear. Non-domestic rates are a huge burden for rural businesses and the Welsh Conservatives believe that the current levels of small business rate relief available in Wales are simply inadequate. The rural economy has a greater dependency on small businesses than other areas. More should be done to encourage small business start ups in rural areas to grow and create jobs. The Welsh Government has to do more to convince the people of rural Wales that it is really listening and genuinely delivering. We desperately need a focus on improving broadband in areas where it is poor or where there is no broadband connection at all. The basic payment issue needs to be addressed and the Welsh Government needs to use all the financial levers at their disposal to deliver for the rural community.

Only by pursuing a low-tax agenda, reducing bureaucracy and creating certainty can the Welsh Government deliver a productive, profitable and progressive agriculture industry in Wales.

Baich arall ar ein busnesau gwledig yw ardrethi busnes. Rydym wedi gweld cymaint o siopau, tafarndai a swyddfeydd post yn diflannu. Mae ardrethi annomestig yn faich enfawr ar fusnesau gwledig ac yn syml iawn, mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn credu bod y lefelau cyfredol o ryddhad ardrethi i fusnesau bach sydd ar gael yng Nghymru yn annigonol. Mae'r economi wledig yn fwy dibynnol ar fusnesau bach nag ardaloedd eraill. Dylid gwneud mwy i annog pobl i sefydlu busnesau bach mewn ardaloedd gwledig er mwyn iddynt dyfu a chreu swyddi. Rhaid i Lywodraeth Cymru wneud mwy i argyhoeddi pobl cefn gwlad Cymru ei bod mewn gwirionedd yn gwrando ac yn cyflawni. Mae gwir angen ffocws ar wella band eang mewn ardaloedd lle mae'n wael neu lle nad oes cysylltiad band eang o gwbl. Mae angen mynd i'r afael â mater y taliad sylfaenol ac mae angen i Lywodraeth Cymru ddefnyddio pob ysgogiad ariannol sydd ar gael iddi i gyflawni dros y gymuned wledig.

Drwy ddilyn agenda treth isel, lleihau biwrocratiaeth a chreu sicrwydd yn unig y gall Llywodraeth Cymru sicrhau diwydiant amaethyddol cynhyrchiol, proffidiol a blaengar yng Nghymru.

16:08

Mohammad Asghar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm grateful for the opportunity to speak this afternoon in this debate on the rural economy. In my remarks I wish to highlight the threat to the rural community caused by the loss of vital assets and how localism can save such assets. The localism agenda is about real devolution. It is about empowering communities so that they have a bigger say in the issues that matter to them. Community rights have been a key principle of the coalition Government. Indeed, the coalition agreement of May 2010 states—the quote is:

'the time has come to disperse power more widely in Britain today'.

Powers so that people can defend themselves from the loss of facilities that form the hub of their communities. Public houses throughout Wales face closure. The Campaign for Real Ale has published figures showing that two pubs close in Wales every week. In urban areas, this usually entails taking your custom to another pub not too far away. In rural Wales, the loss of the village pub may result not only in a journey of some distance to enjoy a pint, but also a loss of central social interaction.

I welcome the fact that the UK Government cut beer duty in the last budget for the third time in a row and took another penny off a pint. They also cut duty on Scotch whisky and cider and froze the duty on wine. But, pubs need more help and we need to recognise the role they play in our economy and society.

Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i siarad y prynhawn yma yn y ddaid hon ar yr economi wledig. Yn fy sylwadau hoffwn dynnu sylw at y bygythiad i'r gymuned wledig a achosir gan golli asedau hanfodol a sut y gall lleoliaeth achub asedau o'r fath. Mae agenda lleoliaeth yn ymwneud â datganolio go iawn. Mae'n ymwneud â grymuso cymunedau er mwyn iddynt gael mwy o lais yn y materion sy'n bwysig iddynt hwy. Mae hawliau cymunedol wedi bod yn egwyddor allweddol i'r Llywodraeth glymblaid. Yn wir, mae cytundeb y glymblaid ym mis Mai 2010, yn datgan hyn:

'mae'r amser wedi dod i ledaenu grym yn ehangach ym Mhrydain heddiw'.

Grym i bobl allu amddiffyn eu hunain rhag colli cyfleusterau sy'n ganolbwynt eu cymunedau. Mae tafarndai ledled Cymru o dan fygythiad o gau. Mae'r Ymgyrch dros Gwrw Go iawn wedi cyhoeddi ffigurau sy'n dangos bod dwy dafarn yn cau yng Nghymru bob wythnos. Mewn ardaloedd trefol, mae hyn fel arfer yn golygu bod cwsmeriaid yn symud i dafarn arall heb fod yn rhy bell i ffwrdd. Yn y Gymru wledig, gall colli tafarn y pentref arwain nid yn unig at daith o gryn bellter i fwynhau peint, ond hefyd at golli rhyngweithio cymdeithasol canolog.

Croesawaf y ffaith fod Llywodraeth y DU wedi torri'r dreth ar gwrw yn y gyllideb ddiwethaf am y trydydd tro yn olynol ac wedi tynnu ceiniog arall oddi ar bris peint. Maent wedi torri'r dreth ar wisgi a seidr a rhewi'r dreth ar win. Ond mae angen mwy o help ar dafarndai ac mae angen inni gydnabod y rôl sydd ganddynt yn ein heconomi a'n cymdeithas.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Local post offices are also part of the lifeblood of a community. In Wales, figures show that the number of post offices dropped by nearly a third between 2001 and 2014. The lack of such services and difficulties experienced in accessing such services does not only affect the immediate users, it harms the sustainability and economic viability of an area. It is the most vulnerable, the elderly, the infirm and mothers with young children who suffer the most from these closures, who have to travel further and rely on infrequent public transport. Without sufficient transport links, people can also be isolated and lonely, and are often unable to take care of themselves.

The Localism Act 2011 set out a series of measures with the potential to achieve a substantial shift of power towards local people. It phased in six rights under the community rights agenda, one of which is the right to bid. The right to bid allows communities to put in an expression of interest on privately owned facilities that benefit the community. Every community is home to buildings or amenities that play a vital role in local life. These include community centres, libraries, swimming pools, village shops, markets and pubs. If the owner decides to sell the facility, the community is able to halt the process for six months in order to increase their chances of keeping the facility in community ownership.

Wales has only partially embraced community rights. I believe that the rights contained in the Localism Act should be fully expanded to Wales to enhance the existing programme. I call on the Welsh Government to consider this action to support the rural economy and to strengthen local communities to create the vibrant rural life we all wish to see.

Minister, there is one other area: sporting contests. We, in Wales, have a beautiful—the most attractive—land area for the world to come to and for the tourism industry to grow. Also, on the sporting side, we can improve canoeing, archery, shooting and horse riding. These are sporting events for which we can bring people from all over the world to south-east Wales to improve our economy. That would not only improve our economy, but also project an image of our country all over the globe. Also, there's no harm in having a sheep-shearing world competition somewhere in Wales, because we produce the largest number of sheep in this part of the world, and our meat is some of the best in the world and would promote our economy. Minister, this rural economy, our farmers, are not as rich as in some other parts of the world. I know some countries where farmers are ruling the countries, but here our farmers are sadly not getting the benefit, but actually they are putting into our society. Thank you.

Mae swyddfeydd post lleol hefyd yn rhan o enaid cymuned. Yng Nghymru, mae'r ffigurau'n dangos bod nifer y swyddfeydd post wedi gostwng bron i draean rhwng 2001 a 2014. Mae diffyg gwasanaethau o'r fath a'r anawsterau a brofir wrth eu defnyddio yn effeithio ar ddefnyddwyr uniongyrchol a hefyd yn niweidio cynaliadwyedd a hyfywedd economaidd ardal. Y bobl fwyaf agored i niwed, yr henoed, y methodig a mamau â phlant ifanc sy'n dioddef fwyaf o gau'r gwasanaethau hyn, dyma'r bobl sy'n gorfod teithio ymhellach ac sy'n dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus anfyfych. Heb ddigon o gysylltiadau trafnidiaeth hefyd, gall pobl ddioddef arwahanrwydd ac unigrwydd, ac yn aml, maent yn methu â gofalu amdanynt eu hunain.

Mae Deddf Lleoliaeth 2011 yn nodi cyfres o fesurau sydd â'r potensial i sicrhau bod grym sylweddol yn cael ei drosglwyddo i bobl leol. Fesul un, cyflwynodd chwech o hawliau o dan yr agenda hawliau cymunedol, ac un ohonynt yw'r hawl i gyflwyno cynnig. Mae'r hawl i gyflwyno cynnig yn caniatáu i gymunedau gyflwyno datganiadau o ddiddordeb mewn cyfleusterau sy'n eiddo preifat sydd o fudd i'r gymuned. Mae pob cymuned yn gartref i adeiladau neu gyfleusterau sy'n chwarae rhan hanfodol mewn bywyd lleol. Mae'r rhain yn cynnwys canolfannau cymunedol, llyfrgelloedd, pyllau nofio, siopau pentref, marchnadoedd a thafarndai. Os yw'r perchennog yn penderfynu gwerthu'r cyfleuster, gall y gymuned atal y broses am chwe mis er mwyn gwella eu gobeithion o gadw'r cyfleuster mewn perchnogaeth gymunedol.

Croeso rhannol y mae Cymru wedi'i roi i hawliau cymunedol. Credaf y dylai'r hawliau sydd wedi'u cynnwys yn y Ddeddf Lleoliaeth gael eu hehangu'n llawn i Gymru er mwyn gwella'r rhaglen bresennol. Rwy'n galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried y cam hwn i gefnogi'r economi wledig ac i gryfhau cymunedau lleol er mwyn creu'r bywyd gwledig bywiog rydym i gyd am ei weld.

Weinidog, mae yna un maes arall: cystadlaethau chwaraeon. Mae gennym ni, yng Nghymru, dir prydferth—y mwyaf deniadol—i'r byd ddod yma ac i'r diwydiant twristiaeth allu tyfu. Hefyd, ar yr ochr chwaraeon, gallwn wella canwio, saethyddiaeth, saethu a marchogaeth. Dyma ddiwyddiadau chwaraeon y gallwn ddod â phobl o bob cwr o'r byd iddynt, i dde-ddwyrain Cymru i wella ein heconomi. Byddai hynny nid yn unig yn gwella ein heconomi, ond byddai hefyd yn cyflwyno delwedd o'n gwlad ar draws y byd. Hefyd, nid oes niwed mewn cael cystadleuaeth gneifio defaid fyd-eang rywle yng Nghymru, gan ein bod yn cynhyrchu'r nifer fwyaf o ddefaid yn y rhan hon o'r byd, ac mae ein cig ymhlith y gorau yn y byd a byddai'n hyrwyddo ein heconomi. Weinidog, nid yw'r economi wledig hon, ein ffermwyr, mor gyfoethog â mewn rhai rhannau eraill o'r byd. Rwy'n gwybod am rai gwledydd lle mae ffermwyr yn rheoli'r gwledydd hynny, ond yma, yn anffodus, nid yw ein ffermwyr yn cael y manteision y maent yn eu rhoi i'n cymdeithas. Diolch yn fawr.

16:13

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Deputy Minister for Farming and Food, Rebecca Evans.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd, Rebecca Evans.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd / The Deputy Minister for Farming and Food

Thank you, Deputy Presiding Officer. The socioeconomic wellbeing of rural Wales is inextricably linked to the performance of the Welsh economy, which is, in turn, heavily influenced by the UK Government's policies and the state of the global economy. However, the Welsh Government is determined to use all of the levers at our disposal to support and strengthen the foundations that underpin the economic viability of rural Wales.

We want to ensure that our rural communities remain vibrant, are able to offer people an excellent quality of life, with access to employment and affordable housing, and with public services sustained by reliable and effective infrastructure. I'm therefore pleased with the package of opportunities that we've developed under the Wales rural development programme for 2014-20, and this includes the action to support young people into farming under progress on the joint opportunities platform, which relates to the share farming issues raised by William Powell during the debate.

Our seven-year programme, funded by the European Union and the Welsh Government, will provide almost £1 billion of funding to rural Wales. That's the biggest rural development plan that Wales has ever seen. That's one of the reasons why membership of the European Union is so important to Wales.

Our interventions will focus on activities that help to drive economic growth, support the sustainability of our rural communities and help to tackle poverty. The rural community can be a driver for green growth. It's a means of achieving economic renewal and wealth creation across the wider economy, based on the natural resource asset base. Furthermore, this Government's introduction of the Agricultural Sector (Wales) Act 2014, following the UK Government's decision to abolish the Agricultural Wages Board, is important. We want to build the foundation for a properly remunerated, resilient, professional and well-trained agricultural workforce in Wales. In addition, I am developing a new agriculture strategy in Wales that will help to deliver a modern and resilient agricultural industry for the future. I assure William Powell that young farmers will be important partners in that.

Llyr Gruffydd said that 80 per cent of farm businesses rely on basic payments to be viable. I think that should be of huge concern to all of us, farmers included. That's why pillar 2 is so important in terms of creating that resilient, strong industry for the future and why we can't stay still with what we're doing at the moment.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Mae lles economaidd-gymdeithasol y Gymru wledig wedi'i gysylltu'n annatod â pherfformiad economi Cymru, sy'n cael ei dylanwadu'n drwm gan bolisiau Llywodraeth y DU a chyflwr yr economi fyd-eang. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn benderfynol o ddefnyddio'r holl ddulliau sydd ar gael i ni i gefnogi a chryfhau'r sylfeini sy'n sail i hyfywedd economaidd cefn gwlad Cymru.

Rydym am sicrhau bod ein cymunedau gwledig yn parhau i ffynnu, yn gallu cynnig safon byw rhagorol i bobl, gyda mynediad at gyflogaeth a thai fforddiadwy, a gwasanaethau cyhoeddus wedi'u cynnal gan seilwaith cadarn, dibynadwy ac effeithiol. Felly, rwy'n falch o'r pecyn o gyfleoedd a ddatblygwyd gennym o dan raglen datblygu gwledig Cymru ar gyfer 2014-20, ac mae'n cynnwys camau sydd ar waith i gynorthwyo pobl ifanc i ddechrau ffermio ar y platform cyfleoedd ar y cyd, sy'n gysylltiedig â'r materion ffermio cyfran y soniodd William Powell amdanynt yn ystod y ddadl.

Bydd ein rhaglen saith mlynedd, a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru, yn darparu bron i £1 biliwn o gyllid i gefn gwlad Cymru. Dyna'r cynllun datblygu gwledig mwyaf a welodd Cymru erioed. Dyna un o'r rhesymau pam y mae bod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd mor bwysig i Gymru.

Bydd ein hymyriadau yn canolbwyntio ar weithgareddau sy'n helpu i ysgogi twf economaidd, yn cefnogi cynaliadwyedd ein cymunedau gwledig ac yn helpu i drechu tlodi. Gall y gymuned wledig fod yn ysgogiad i dwf gwyrd. Mae'n ffordd o gyflawni adferiad economaidd a chreu cyfoeth ar draws yr economi ehangach, yn seiliedig ar y sylfaen asedau adnoddau naturiol. Ar ben hynny, mae'r ffaith fod y Llywodraeth hon wedi cyflwyno Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014, yn dilyn penderfyniad Llywodraeth y DU i ddiddymu'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol, yn bwysig. Rydym am adeiladu'r sylfaen ar gyfer gweithlu amaethyddol gwydn, proffesiynol, wedi'i hyfforddi'n dda, gyda chyflogau priodol yng Nghymru. Yn ogystal, rwy'n datblygu strategaeth amaethyddol newydd yng Nghymru a fydd yn helpu i greu diwydiant amaethyddol modern a chadarn ar gyfer y dyfodol. Rwy'n sicrhau William Powell y bydd ffermwyr ifanc yn bartneriaid pwysig yn hynny.

Dywedodd Llyr Gruffydd bod 80 y cant o fusnesau fferm yn dibynnu ar daliadau sylfaenol i fod yn hyfyw. Rwy'n credu y dylai hynny fod o bryder mawr i bob un ohonom, yn cynnwys ffermwyr. Dyna pam y mae colofn 2 mor bwysig o ran creu diwydiant gwydn a chryf ar gyfer y dyfodol a pham na allwn aros yn llonydd gyda'r hyn rydym yn ei wneud ar hyn o bryd.

I'll be launching a document setting out the principles and key priorities for the strategy at the Wales farming conference I'm holding on 4 June. But, ahead of this, we've also developed a food tourism action plan, which we'll be launching tomorrow. Rural Wales possesses some of the world's best producers of food and drink. High-quality local ingredients, distinctive brands and interesting places to eat can be increasingly important to our visitors and our best hospitality businesses are already earning a reputation for excellence. One of the key actions will be to promote a Wales identity. The Food and Drink Wales identity is already widely acclaimed in both domestic and export markets, but work is under way to define the detail and the credentials that underpin that identity.

As Mohammad Asghar recognised, tourism is making an increasingly important contribution to the rural economy. Spending by tourists helps to support many rural businesses, including garages, post offices and shops, which simply wouldn't be viable if they had to rely solely on the residential population. So, looking forward, there's every reason to believe that rural areas would benefit fully from the forecast growth in this sector. Our tourism strategy and action plan already supports this by encouraging partnership approaches at local levels, ensuring that development is managed with an eye to long-term sustainability. The launch of the Year of Adventure in 2016, showcasing our fantastic landscapes and environment, will further bring economic benefits to rural Wales.

We'll also continue to support transport services, such as Bwcabus and TrawsCymru. Moreover, a number of transport policies will deliver benefits to rural Wales, including the planned Newtown bypass, Dyfi Bridge improvements and the new hourly bus service between Aberystwyth and Haverfordwest, which commenced in January.

On the Localism Act 2011, we oppose this part of the motion, but Mohammad Asghar will be pleased to note that we recognise that community assets can play an integral role for rural and other communities. This is why the Minister for Communities and Tackling Poverty issued a written statement on 25 March outlining our intention for a consultation in May to explore ways to protect community assets.

Byddaf yn lansio dogfen sy'n nodi'r egwyddorion a'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer y strategaeth yng nghynhadledd ffermio Cymru y byddaf yn ei chynnal ar 4 Mehefin. Ond cyn hynny, rydym hefyd wedi datblygu cynllun gweithredu ar gyfer twristiaeth bwyd y byddwn yn ei lansio yfory. Mae cefn gwlad Cymru yn meddu ar rai o gynhyrchwyr bwyd a diod gorau'r byd. Gall cynhwysion lleol o safon uchel, brandiau unigryw a llefydd diddorol i fwyta fod yn gynyddol bwysig i'n hymwelwyr ac mae ein busnesau lletygarwch gorau eisoes yn cael enw da am ragoriaeth. Un o'r camau allweddol fydd hyrwyddo hunaniaeth Cymru. Mae hunaniaeth Bwyd a Diod Cymru eisoes yn enwog mewn marchnadoedd domestig a marchnadoedd allforio, ond mae gwaith ar y gweill i ddiffinio'r manylion a'r cymwysterau sy'n sail i'r hunaniaeth honno.

Fel y cydnabu Mohammad Asghar, mae gan dwristiaeth gyfraniad cynyddol bwysig i'w gynniig i'r economi wledig. Mae gwariant twristiaid yn helpu i gefnogi llawer o fusnesau gwledig, gan gynnwys modurdaï, swyddfeydd post a siopau, na fyddent yn hyfyw pe bai'n rhaid iddynt ddibynnu ar y boblogaeth sy'n byw yno. Felly, gan edrych ymlaen, mae pob rheswm i gredu y byddai ardaloedd gwledig yn elwa'n llawn o'r twf a ragwelir yn y sector hwn. Mae ein strategaeth dwristiaeth a'n cynllun gweithredu eisoes yn cefnogi hyn drwy annog dulliau o weithio mewn partneriaeth ar lefel leol, gan sicrhau bod datblygiadau'n cael eu rheoli gyda golwg ar gynaliadwyedd hirdymor. Bydd lansio Blwyddyn Antur yn 2016, sy'n arddangos ein tirweddau a'n hamgylchedd gwych, yn dod â manteision economaidd pellach i gefn gwlad Cymru.

Byddwn hefyd yn parhau i gefnogi gwasanaethau trafniadaeth, megis Bwcabus a TrawsCymru. Ar ben hynny, bydd nifer o bolisiau trafniadaeth yn darparu buddion i gefn gwlad Cymru, gan gynnwys ffordd osgoi arfaethedig y Drenewydd, gwelliannau Pontarddyfi a gwasanaeth bws bob awr newydd rhwng Aberystwyth a Hwlfordd, a ddechreuodd ym mis Ionawr.

Ar Ddeddf Lleoliaeth 2011, rydym yn gwrthwynebu'r rhan hon o'r cynniig, ond bydd Mohammad Asghar yn falch o nodi ein bod yn cydnabod y gall asedau cymunedol chwarae rhan annatod o gymunedau gwledig a chymunedau eraill. Dyma pam y cyhoeddodd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi ddatganiad ysgrifenedig ar 25 Mawrth yn amlinellu ein bwriad i ymgynghori ym mis Mai er mwyn archwilio ffyrdd o ddiogelu asedau cymunedol.

16:18

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thanks for giving way, Deputy Minister. On that issue of the Localism Act, why is it then that you haven't adopted the spirit of all aspects of that community Act in a way that would really be beneficial to local services and assets in mid Wales and other parts of rural Wales?

Diolch am ildio, Ddirprwy Weinidog. Ar y Ddeddf Lleoliaeth, pam felly nad ydych wedi mabwysiadu ysbryd pob agwedd ar y Ddeddf gymunedol honno mewn ffordd a fyddai o fudd gwirioneddol i wasanaethau ac asedau lleol yn y canolbarth a rhannau eraill o gefn gwlad Cymru?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Rebecca Evans [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think perhaps you're overplaying the success of the Localism Act across the border in England, where we've seen the UK Parliament Communities and Local Government Committee undertake an inquiry. Their findings were published earlier this year and their findings were actually very mixed. I think that the Act has not done much to fully satisfy the vision that the key stakeholders, including community organisations, had for that Act. So, we think that we can do it our way in Wales and we think that we can do it better in Wales.

Rwy'n meddwl efallai eich bod yn gorbwysleisio llwyddiant y Ddeddf Lleoliaeth ar draws y ffin yn Lloegr, lle mae Pwyllgor Cymunedau a Llywodraeth Leol Senedd y DU yn cynnal ymchwiliad. Cyhoeddwyd eu canfyddiadau yn gynharach eleni ac mewn gwirionedd roedd eu canfyddiadau'n gymysg iawn. Rwy'n credu nad yw'r Ddeddf wedi gwneud llawer i lwyr fodloni'r weledigaeth a oedd gan y prif randdeiliaid, gan gynnwys sefydliadau cymunedol, ar gyfer y Ddeddf honno. Felly, credwn y gallwn ei wneud yn ein ffordd ein hunain yng Nghymru a chredwn y gallwn ei wneud yn well yng Nghymru.

We've already engaged stakeholders with that, including the Welsh Local Government Association, Wales Council for Voluntary Action, and the Campaign for Real Ale, and our consultation will consider the opportunity for us to develop an improved approach over the English model, more suited to our Welsh context.

Rydym eisoes wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid ynglŷn â hynny, gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, a'r Ymgyrch dros Gwrw Go Iawn, a bydd ein hymgyngoriad yn ystyried y cyfle inni ddatblygu dull gwell na model Lloegr, dull sy'n fwy addas i'n cyd-destun ni yng Nghymru.

We've also debated access to financial services in rural areas and Russell George recognised that the decision to maintain a branch is a commercial decision for the banks. Nonetheless, we are committed to maintaining access to mainstream financial services, particularly in relation to tackling the problem of financial and social exclusion in our most vulnerable communities. The creation of a development bank for Wales is focused on addressing the funding gap that exists for the Welsh-based small and medium-sized enterprises, and, while the final model for delivery is yet to be decided, the Minister for Economy, Science and Transport will consider the previous work that was carried out by Professor Colyn Gardner on community banking. Work is continuing at pace in this area and a further announcement will be made before the summer recess on the preferred model of delivery for the development bank.

Rydym hefyd wedi trafod mynediad at wasanaethau ariannol mewn ardaloedd gwledig ac roedd Russell George yn cydnabod bod y penderfyniad i gynnal cangen yn benderfyniad masnachol ar gyfer y banciau. Serch hynny, rydym wedi ymrwmo i gynnal mynediad at wasanaethau ariannol prif ffrwd, yn enwedig o ran mynd i'r afael â phroblem allgau ariannol a chymdeithasol yn ein cymunedau mwyaf agored i niwed. Mae creu banc datblygu i Gymru yn rhoi ffocws ar fynd i'r afael â'r bwlch cyllido sy'n bodoli ar gyfer mentrau bach a chanolig eu maint yng Nghymru, ac er bod y model terfynol a gyflwynir heb gael ei bennu eto, bydd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn ystyried y gwaith blaenorol a wnaed gan yr Athro Colyn Gardner ar fancio cymunedol. Mae gwaith yn parhau i fynd rhagddo'n gyflym yn y maes, a gwneir cyhoeddiad pellach cyn toriad yr haf ar y model a ffafir ar gyfer y banc datblygu.

16:19 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

16:19 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes.

Gwnaf.

16:19 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I appreciate that, Minister, and I welcome that as well, but, of course, that's very different to over-the-counter services. So, there is a difference between the two, and I think, very often, when this issue is brought up, that gets talked about but that is still an issue as well. I recognise that it's not specifically a Welsh Government responsibility, but you can facilitate discussions on that.

Rwy'n sylweddoli hynny, Weiniog, ac rwy'n croesawu hynny hefyd, ond wrth gwrs, mae hynny'n wahanol iawn i wasanaethau dros y cownter. Felly, mae gwahaniaeth rhwng y ddau, ac rwy'n meddwl, yn aml iawn, pan grybwyllir y mater hwn, siaredir am hynny ond mae hynny'n dal i fod yn broblem hefyd. Rwy'n cydnabod nad cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw hyn yn benodol, ond gallwch hwyluso trafodaethau ar hynny.

Rebecca Evans [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Welsh Government is keen where possible to help mitigate any adverse impacts of branch closures of banks, because we understand the issues that you've raised now and throughout your contribution to the debate on this specific point. That's one of the main reasons why the Welsh Government has provided support for local post offices throughout Wales: because of the range of banking services and financial services they can provide, as well as the social role that they play in their communities.

In April 2014, we also committed to funding almost £1.9 million to support credit unions over the next three years, and this funding's being used to enable credit unions to provide support to financially-excluded people who may not be able to access mainstream financial products.

Elsewhere, various projects are also being taken forward under our local growth zones, including in Powys with the Sirolli project in and around the Severn valley, and the economic regeneration action plan for Llandrindod Wells, where a town champion has been appointed. A model of the local growth zone has also been extended to the Teifi valley.

Last, but certainly not least, and certainly in terms of the contributions that we've had in our debate as well today, Superfast Cymru has provided access to around 375,000 premises so far. We anticipate, once the March deployment figures have been verified, that this will rise to over 420,000 properties. I was pleased to hear Russell George welcome our ambitious project, and I can confirm that the Deputy Minister will be making a further statement addressing many of the points that you raised in due course.

We've already seen the benefit of these services within the agriculture industry, as over 4,000 single application forms have already been submitted online to date. Applying online does cut out the chance of making those unintentional errors to which William Graham referred, so I'd welcome the efforts of all Members in terms of supporting Welsh Government in encouraging people to make their applications online this year.

A timetable for the future deployment of the Superfast Cymru project is already available in the 'Where and when' section of the Superfast Cymru website. So, Janet Finch-Saunders can point her constituents in that direction in terms of finding out when their area will benefit. This information is updated weekly to reflect changes in the development of the programme.

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i helpu i liniaru unrhyw effeithiau niweidiol yn sgil cau canghennau o fanciau lle y bo modd gan ein bod yn deall y problemau y sonioch amdanynt yn awr a thrwy gydol eich cyfraniad i'r ddadl ar y pwynt penodol hwn. Dyna un o'r prif resymau pam y mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cymorth i swyddfydd post lleol ledled Cymru: oherwydd yr ystod o wasanaethau bancio a gwasanaethau ariannol y gallant eu darparu, yn ogystal â'r rôl gymdeithasol y maent yn ei chwarae yn eu cymunedau.

Ym mis Ebrill 2014, ymrwymasom bron i £1.9 miliwn i gefnogi undebau credyd dros y tair blynedd nesaf, ac mae'r cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio i alluogi undebau credyd i ddarparu cymorth i bobl sydd wedi'u hallgáu'n ariannol nad ydynt yn gallu cael mynediad at gynnyrch ariannol prif ffrwd.

Mewn mannau eraill hefyd, mae gwahanol brosiectau yn cael eu datblygu o dan ein hardaloedd twf lleol, gan gynnwys ym Mhowys gyda phrosiect Sirolli yn nyffryn Hafren a'r cylch, a'r cynllun gweithredu adfywio economaidd ar gyfer Llandrindod, lle y penodwyd hyrwyddwr ar gyfer y dref. Mae model o'r ardal twf lleol wedi cael ei ymestyn hefyd i ddyffryn Teifi.

Yn olaf, ond yn sicr nid yn lleiaf, ac yn sicr o ran y cyfraniadau a gawsom yn ein dadl heddiw, mae Cyflymu Cymru wedi darparu mynediad i oddeutu 375,000 safle hyd yn hyn. Rydym yn rhagweld, pan fydd ffigurau mis Mawrth wedi cael eu gwirio, y bydd yn codi i dros 420,000 eiddo. Roeddwn yn falch o glywed Russell George yn croesawu ein prosiect uchelgeisiol, a gallaf gadarnhau y bydd y Dirprwy Weinidog yn gwneud datganiad pellach yn ymdrin â nifer o'r pwyntiau a godwyd gennyh yn y man.

Rydym eisoes wedi gweld budd y gwasanaethau hyn yn y diwydiant amaeth, gan fod dros 4,000 o ffurflenni'r cais sengl eisoes wedi cael eu cyflwyno ar-lein. Mae gwneud cais ar-lein yn cyfyngu ar y camgymeriadau anfwriadol y cyfeiriodd William Graham atynt, felly byddwn yn croesawu ymdrechion yr holl Aelodau i gynorthwyo Llywodraeth Cymru i annog pobl i wneud eu ceisiadau ar-lein eleni.

Mae amserlen ar gyfer cyflawni prosiect Cyflymu Cymru yn y dyfodol eisoes ar gael yn yr adran 'Pryd a ble' ar wefan Cyflymu Cymru. Felly, gall Janet Finch-Saunders gyfeirio i hetholwyr at yr adran honno i gael gwybod pryd y bydd eu hardal yn elwa. Mae'r wybodaeth yn cael ei diweddarau'n wythnosol i adlewyrchu newidiadau yn natblygiad y rhaglen.

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Draw your comments to a close, please.

Dewch â'ch sylwadau i ben, os gwelwch yn dda.

16:22	Rebecca Evans Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>So, in summing up, I'm supporting the majority of today's motion. We stand by our values of fairness and equality, which underpin our work in the rural communities of Wales, and we're taking action to deliver the things that will make a difference to rural communities now and in the future.</p>	<p>Felly, wrth grynhoi, rwy'n cefnogi'r rhan fwyaf o'r cynnig heddiw. Rydym yn sefyll dros ein gwerthoedd o degwch a chydaddoldeb, sy'n sail i'n gwaith yng nghymunedau gwledig Cymru, ac rydym yn rhoi camau ar waith i gyflawni'r pethau a fydd yn gwneud gwahaniaeth i gymunedau gwledig yn awr ac yn y dyfodol.</p>
16:22	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>And I call on Nick Ramsay to reply to the debate.</p>	<p>A galwaf ar Nick Ramsay i ymateb i'r ddatl.</p>
16:22	Nick Ramsay Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Thank you, Deputy Presiding Officer. No discussion on the Welsh economy can fail to include a recognition of the importance of rural Wales. Yes, we have significant urban areas in the south, the north and the north-east of Wales, but the bulk of Wales is rural. And often there is a feeling in rural parts of Wales that it is overlooked by the urban areas and by the Assembly, and by wider Government across the UK as well indeed.</p>	<p>Diolch, Ddirprwy Lywydd. Ni all unrhyw drafodaeth ar economi Cymru fethu â chydabod pwysigrwydd cefn gwlad Cymru. Oes, mae gennym ardaloedd trefol sylweddol yn y de, y gogledd a gogledd-ddwyrain Cymru, ond mae'r rhan fwyaf o Gymru yn wledig. Ac yn aml ceir teimlad mewn rhannau gwledig o Gymru eu bod yn cael eu hanwybyddu gan yr ardaloedd trefol a chan y Cynulliad, a chan y Llywodraeth ehangach ar draws y DU hefyd yn wir.</p>
	<p>When I brought forward a short debate on the Dark Sky Wales programme, in that short debate I mentioned that over 90 per cent of Wales is already in the dark skies category. Although for a separate discussion, I think that that does give an indication of the rurality of large parts of Wales.</p>	<p>Pan gyflwynais ddatl fer ar raglen Awyr Dywyll Cymru, yn y ddatl fer honno soniais fod dros 90 y cant o Gymru eisoes yn y categori awyr dywyll. Er bod honno'n drafodaeth arall, credaf ei fod yn arwydd o natur wledig rhannau helaeth o Gymru.</p>
	<p>In opening, Russ George mentioned the problems with YFC funding, and Russ called for the need for this funding to be safeguarded. The Minister spoke about additional funding going to the young farmers this year. I think our concern is that whilst a one-off payment is all well and good, it's not sustainable into the long term, and what those local clubs need is an indication that there will be at least some measure of future support for them to plan for the future. That would be a more sustainable solution.</p>	<p>Wrth agor, crybwyllodd Russ George y problemau gyda chyllid CFFI, a galwodd Russ am yr angen i ddiogelu'r cyllid hwn. Siaradodd y Gweinidog am gyllid ychwanegol sy'n mynd i ffermwyr ifanc eleni. Rwy'n meddwl mai ein pryder yw, er bod taliad untro yn berffaith iawn, nid yw'n gynaliadwy yn y tymor hir, a beth sydd ei angen ar y clybiau lleol hynny yw arwydd y bydd rhywfaint o gymorth fan lleiaf yn cael ei roi er mwyn iddynt gynllunio ar gyfer y dyfodol. Byddai hynny'n ateb mwy cynaliadwy.</p>
	<p>The Localism Act 2011 has been mentioned by a number of Assembly Members here today, not least myself in my intervention earlier. There's no doubt at all that that has provided a vehicle for communities across Wales to be supported. Many Members have mentioned post offices and pubs, all threatened with closure in many rural parts of Wales. I heard what the Minister said about the Localism Act 2011 possibly not fulfilling all of the needs of Wales, and there being a requirement and a possibility for this Assembly and this Welsh Government to do a different thing here in Wales. But what we would say on this side of the Chamber—and I'm sure other Assembly Members would as well—is that, if that is the case, then get on with doing it; let's see that Welsh solution. Because, if we're not going to see a tailor-made Welsh solution, then we'd be better off sticking with a home-grown UK solution. We are more than willing to see an alternative to the Localism Act 2011, but we need to see aspects of that being brought forward and we need the spirit of that Localism Act enacted here in Wales. So, that is a disappointment to us.</p>	<p>Mae Deddf Lleoliaeth 2011 wedi cael ei chrybwyll gan nifer o Aelodau'r Cynulliad yma heddiw, a gennyf innau'n bendant yn fy ymyriad yn gynharach. Nid oes unrhyw amheuaeth o gwbl ei bod wedi darparu cyfrwng ar gyfer cefnogi cymunedau ledled Cymru. Mae llawer o Aelodau wedi sôn am swyddfeydd post a thafarndai, sydd oll dan fgythiad o gau mewn llawer o rannau gwledig o Gymru. Clywais yr hyn a ddywedodd y Gweinidog, nad yw Deddf Lleoliaeth 2011 o bosibl yn diwallu holl anghenion Cymru, a bod angen i'r Cynulliad hwn a'r Llywodraeth hon wneud rhywbeth gwahanol yma yng Nghymru, a'i bod yn bosibl iddynt wneud hynny. Ond yr hyn y byddem yn ei ddweud ar yr ochr hon i'r Siambr—ac Aelodau eraill o'r Cynulliad hefyd, rwy'n siŵr—yw ewch ati i wneud hynny, os felly; gadewch i ni weld ateb o'r fath ar gyfer Cymru. Oherwydd, os nad ydym yn mynd i gael ateb wedi'i deilwra'n arbennig ar gyfer Cymru, yna byddem yn well ein byd yn cadw at ateb ar lefel y DU. Rydym yn fwy na pharod i weld dewis arall yn lle Deddf Lleoliaeth 2011, ond mae angen inni weld agweddau ar hynny'n cael eu cyflwyno ac mae angen inni weld ysbryd y Ddeddf Lleoliaeth yn cael ei roi mewn grym yng Nghymru. Felly, mae hynny'n siom i ni.</p>

Broadband has been mentioned by many Members here today, and I'm sure all of you have had constituent queries about broadband notspots. At certain points during this debate, I thought there was a big notspot on the Government frontbench, actually. I did feel a bit for the two Deputy Ministers who were left holding the fort there, but I appreciate that we are in election mode at the moment. There are clearly gaps in broadband provision that are needing to be plugged across Wales, and there are complex issues that need to be solved, but they do need to be solved, as Russ George said, in order to prevent the digital divide widening and, in many cases, widening further.

Just turning to some of the comments that have been made, Llyr Gruffydd emphasised the problems being faced by farmers. You, Llyr, are right to point out that the money that is lost to farmers in terms of the funding that they are able to access is not just lost to the farming community—it's lost to the wider rural community as well, because that money is going to be spent in local shops, it's going to be spent in local pubs, in local post offices, on local services. So, if you take that money out of farmers' pockets at the start, it's the rest of rural Wales that suffers, and what you then end up being involved in is a spiral of decline, where local people have less money to spend and local services decline and then there are fewer people being drawn into those areas and fewer younger people staying in those areas. I give way to Llyr Gruffydd.

Crybwyllodd llawer o'r Aelodau y band eang yma heddiw, ac rwy'n siŵr fod pob un ohonoch wedi cael ymholiadau gan etholwyr ynglŷn â manau gwan ar gyfer derbyn band eang. Ar rai adegau yn ystod y ddadl, credwn fod man gwan mawr ar fainc flaen y Llywodraeth, mewn gwirionedd. Roeddwn i'n teimlo dros y Dirprwy Weinidogion, ill dwy, a gafodd eu gadael i wyllo ar y mur, ond rwy'n derbyn ein bod mewn ysbryd etholiadol ar hyn o bryd. Mae'n amlwg fod yna fylchau yn y ddarpariaeth band eang sydd angen eu llenwi ledled Cymru, ac mae yna faterion cymhleth i'w datrys, ond mae angen iddynt gael eu datrys, fel y dywedodd Russ George, er mwyn atal y gagendor digidol rhag lledu ac mewn llawer o achosion, rhag lledu ymhellach.

I droi at rai o'r sylwadau a wnaed, pwysleisiodd Llyr Gruffydd y problemau sy'n wynebu ffermwyr. Llyr, rydych yn iawn i nodi nad y gymuned ffermio'n unig sydd ar eu colled pan fydd ffermwyr yn methu cael cyllid—mae'n arian a gollir o'r gymuned wledig ehangach hefyd, gan y bydd yr arian yn cael ei wario mewn siopau lleol, mae'n mynd i gael ei wario mewn tafarndai lleol, mewn swyddfeydd post lleol, ar wasanaethau lleol. Felly, os ewch ag arian o bocedi ffermwyr ar y dechrau, mae gweddill cefn gwlad Cymru yn dioddef, a'r hyn sydd gennych wedyn yw pwll tro o ddirywiad, lle y bydd gan bobl leol lai o arian i'w wario a bydd gwasanaethau lleol yn dirywio ac yna mae llai o bobl yn cael eu denu i'r ardaloedd hynny a llai o bobl ifanc yn aros yn yr ardaloedd hynny. Ildiaf i Llyr Gruffydd.

16:26

Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much. Would you therefore not agree that it is regrettable that the Westminster Government actually negotiated for less CAP money to come to Wales in the first place, and would you agree with the Farmers' Union of Wales, which described the outcome as an own goal and criticised the Tory Minister for succeeding in negotiating a net financial loss to Welsh farmers?

Diolch yn fawr iawn. A fydddech yn cytuno felly ei bod yn resyn fod Llywodraeth San Steffan mewn gwirionedd wedi negodi llai o arian PAC i ddod i Gymru yn y lle cyntaf, ac a fydddech yn cytuno ag Undeb Amaethwyr Cymru, a ddisgrifiodd y canlyniad fel gôl gartref a beirniadu'r Gweinidog Toriaidd am lwyddo i negodi colled ariannol net i ffermwyr Cymru?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:27

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would say that there have been ongoing problems with CAP and it has been in need of reform for some time, but that's not just been an issue for this UK coalition Government—it's been in many ways a more serious issue for previous Governments. But I also see, Llyr, that there are problems with agriculture in Wales that the Welsh Government here is not helping. We heard William Graham and other Assembly Members mention the issue of tree canopies, which, as AMs, we've been contacted about. Farmers are actually being encouraged now, under the new arrangements, to remove tree canopies, which in many cases they planted themselves to provide shelter to their own animals and to help the environment. They're being encouraged by the new funding arrangements to remove those tree canopies if they are going to access the funding that they need. So, that clearly hasn't gone right, so I don't think we can blame agricultural issues solely on the faults of the UK coalition Government. Let us not forget that agriculture was one of the first fields of Government—pardon the pun—that was devolved to this Welsh Assembly.

Byddwn yn dweud bod problemau cyson wedi bod gyda'r PAC ac mae angen ei ddiwygio ers peth amser, ond nid i Lywodraeth glymblaid y DU yn unig y bu honno'n broblem—mewn sawl ffordd, roedd yn fater mwy difrifol i Lywodraethau blaenorol. Ond rwyf hefyd yn gweld, Llyr, fod problemau gydag amaethyddiaeth yng Nghymru nad yw Llywodraeth Cymru yma yn helpu i'w datrys. Clywsom William Graham ac Aelodau Cynulliad eraill yn crybwyll mater canopiau coed, y cysylltwyd â ni yn ei gylich fel Aelodau Cynulliad. Mae ffermwyr yn cael eu hannog yn awr, o dan y trefniadau newydd, i gael gwared ar ganopiau coed, a blannwyd ganddynt hwy eu hunain mewn llawer o achosion er mwyn darparu lloches i'w hanifeiliaid ac i helpu'r amgylchedd. Maent yn cael eu hannog gan y trefniadau ariannu newydd i gael gwared ar y canopiau coed os ydynt yn mynd i gael yr arian sydd ei angen arnynt. Felly, mae'n amlwg nad yw hynny wedi mynd yn iawn, felly nid wyf yn meddwl y gallwn roi'r bai i gyd ar Lywodraeth glymblaid y DU am faterion amaethyddol. Gadewch i ni beidio ag anghofio mai amaethyddiaeth oedd un o'r meysydd Llywodraeth cyntaf—maddeuwch y gair mwys—i gael eu datganoli i Gynulliad Cymru.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Many Members have mentioned broadband. Only Mohammad Asghar actually mentioned the issue of transport links, which I found surprising, but, clearly, transport links, physical transport links, are necessary in rural Wales as well if we are to solve some of the issues that we are facing.

We've tabled this motion today because we believe that there does need to be an ongoing focus on the problems being faced by rural Wales. I know that we are not alone on these benches in thinking that. I know that other Members, from all parties indeed, share our concerns. So, accept the spirit that this debate has been tabled in; let us do what we can to provide more support for rural Wales. It is an enormously important part of the economy and one which we feel has been sadly neglected a little bit too long by this Chamber and by this Welsh Government.

Mae llawer o Aelodau wedi sôn am y band eang. Mohammad Asghar yn unig a grybwyllodd gysylltiadau trafnidiaeth mewn gwirionedd, ac roedd hynny'n syndod, ond yn amlwg, mae cysylltiadau trafnidiaeth, cysylltiadau trafnidiaeth ffisegol, yn angenrheidiol yn y Gymru wledig hefyd os ydym i ddatrys rhai o'r problemau sy'n ein hwynebu.

Rydym wedi cyflwyno'r cynnig hwn heddiw gan ein bod yn credu bod angen ffocws parhaus ar y problemau sy'n wynebu cefn gwlad Cymru. Rwy'n gwybod nad ydym ar ein pennau ein hunain ar y meinciau hyn yn meddwl hynny. Gwn fod Aelodau eraill, o bob plaid yn wir, yn rhannu ein pryderon. Felly, derbyniwch yr ysbryd y cyflwynwyd y ddad hon ynddo; gadewch i ni wneud yr hyn a allwn er mwyn rhoi mwy o gymorth i gefn gwlad Cymru. Mae'n rhan hynod o bwysig o'r economi ac yn un y teimlwn ei bod wedi cael ei hesgeuluso'n rhy hir, yn anffodus, gan y Siambur hon a chan Lywodraeth Cymru.

16:28

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? [Objection.] I will defer voting under this item until voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf y pleidleisio o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

5. Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Twf Swyddi Cymru

Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw Paul Davies, a gwelliant 2 yn enw Elin Jones.

5. Welsh Liberal Democrats Debate: Jobs Growth Wales

The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of Paul Davies, and amendment 2 in the name of Elin Jones.

16:29

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Eitem 5: dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru—Twf Swyddi Cymru. Galwaf ar Eluned Parrott i wneud y cynnig.

Item 5: Welsh Liberal Democrats debate—Jobs Growth Wales. I call Eluned Parrott to move the motion.

Cynnig NDM5746 Aled Roberts

Motion NDM5746 Aled Roberts

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi bod cynllun blaenllaw ac aneffeithiol Llywodraeth Cymru, Twf Swyddi Cymru, wedi'i gau yn sydyn, heb unrhyw beth i gymryd ei le.

1. Notes the sudden closure of the Welsh Government's flagship yet ineffective Jobs Growth Wales scheme, without any replacement.

2. Yn nodi bod adroddiad gwerthuso interim 2014 ar Twf Swyddi Cymru wedi canfod:

2. Notes that the 2014 interim evaluation report on Jobs Growth Wales found that:

a) y byddai 73 y cant o bobl ifanc wedi dod o hyd i gyflogaeth heb y cynllun;

a) 73% of young people would have found employment without the scheme;

b) bod methiannau sylweddol o ran targedu'r bobl ifanc hynny sydd angen help i ddod o hyd i waith fwyaf; ac

b) there were significant failures to target those young people most in need of help to find work; and

c) bod y rhai a oedd yn cymryd rhan yn y cynllun wedi'u cyfyngu i gyflogau isel, gan ennill dim ond 67 y cant o'r cyfartaledd ar gyfer eu grŵp oedran.

c) scheme participants were shown to be trapped on low wages, earning only 67% of the average for their age group.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ganolbwyntio cynlluniau cyflogaeth Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn y dyfodol ar wella lefelau sgiliau, cynyddu nifer y prentisiaethau a datblygu cyfleoedd hyfforddiant sy'n seiliedig ar waith, a fyddai'n cefnogi pobl ifanc sy'n fwyaf tebygol o wynebu diweithdra hirdymor a rhoi sgiliau a chyfleoedd iddynt a fydd yn helpu i adeiladu economi gryfach i'w galluogi i lwyddo mewn bywyd.

Cynigiwyd y cynnig.

16:29

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. I move the motion.

We've tabled this debate today to discuss the Welsh Government's Jobs Growth Wales scheme, which was quietly closed, as we know, on 31 March and to give us all an opportunity to discuss how future funding can be better focused to give people of all ages the skills and opportunities they need to get on in life. I think it's fair to say that it came as a surprise to many of us when Careers Wales posted on their website that no new job opportunities were available under Jobs Growth Wales. There was no warning about the closure, and, given that the Welsh Government has eulogised this flagship scheme at every opportunity, it seems astonishing that they allowed it to expire without first setting up a replacement. If it is indeed simply a matter of a scheme coming to a planned end at the planned time, surely there was plenty of notice that this funding stream would need to be renewed and, yet, we're told that a new scheme is still under construction and we don't know what that will look like yet. Why did the Welsh Government allow it to simply slip away? Why did they bury it at the beginning of the Easter recess at the start of a general election campaign if they're so proud of its achievements and want to shout them from the rooftops? Why have the Welsh Government not yet brought a statement to the Chamber on the closure of the programme and their plans for the future? I welcome the fact that a statement is planned, but this is some time after the event.

The truth is, of course, that, despite the laurel wreaths that the Welsh Government have thrown on it, the performance of Jobs Growth Wales has not been an unqualified success. It is far more nuanced than that, as the Welsh Government's own evaluation exercise confirmed. Despite there being a year of negotiation between the Welsh Government and its researchers, from the time at which the data were collected to the report's final publication, many significant issues and problems were raised in that evaluation report. For example, the report noted significant failings to target those young people most in need to help them find work. In fact, 73 per cent of those on Jobs Growth Wales placements would have found work anyway without the scheme.

Of particular concern to me, and should be of particular concern to a Welsh Labour Government that prides itself on wanting to raise living standards for the people of Wales, participants were found to be trapped in low wages, earning only 67% of the average for their age group whilst on the scheme, and, crucially, only 76 per cent of the average for their age group after they finished.

3. Calls on the Welsh Government to focus future European Social Fund employment schemes on improving skill levels, increasing the number of apprenticeships and developing work-based training opportunities, which would support young people most at risk of long-term unemployment and give them the skills and opportunities to help build a stronger economy to enable them to get on in life.

Motion moved.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Cynnigaf y cynnig.

Rydym wedi cyflwyno'r ddatl hon heddiw i drafod cynllun Llywodraeth Cymru, Twf Swyddi Cymru, a gafodd ei gau yn dawel, fel y gwyddom, ar 31 Mawrth, ac i roi pob cyfle inni drafod sut y gellir canolbwyntio cyllid yn well yn y dyfodol i roi i bobl o bob oed y sgiliau a'r cyfleoedd sydd eu hangen arnynt i gamu ymlaen mewn bywyd. Rwy'n credu ei bod yn deg dweud mai syndod i lawer ohonom oedd gweld y neges ar wefan Gyrfa Cymru yn dweud na fyddai unrhyw gyfleoedd gwaith newydd ar gael o dan Twf Swyddi Cymru. Ni roddwyd unrhyw rybudd am y cau, ac o gofio bod Llywodraeth Cymru wedi bachu ar bob cyfle i ganu clodydd y cynllun blaenllaw hwn, mae'n ymddangos yn rhyfeddol ei bod wedi caniatáu iddo ddod i ben heb unrhyw beth i gymryd ei le. Os yw'n wir mai mater syml yw hyn o gynllun yn dod i ben yn ôl y bwriad ar ddiwedd cyfnod o amser a gynlluniwyd, mae'n siŵr fod digon o rybudd wedi'i roi y byddai angen adnewyddu'r ffrwd ariannu. Eto i gyd, dywedwyd wrthym fod cynllun newydd yn dal i gael ei ddatblygu ac ni wyddom sut beth fydd hwnnw eto. Pam y gadawodd Llywodraeth Cymru iddo lithro o'i gafaal? Pam yr aethant ati i'w gladdu ar ddechrau toriad y Pasg ar ddechrau ymgyrch etholiad cyffredinol os ydynt mor falch o'i gyflawniadau ac eisiau eu gweiddi o bennau'r tai? Pam nad yw Llywodraeth Cymru wedi dod â datganiad i'r Siambwr eto ynghylch cau'r rhaglen a'u cynlluniau ar gyfer y dyfodol? Croesawaf y ffaith fod datganiad wedi'i gynllunio, ond mae hynny beth amser ar ôl y digwyddiad.

Er gwaethaf yr holl glod y mae Llywodraeth Cymru wedi'i arllwys arno, y gwir yw, wrth gwrs, nad yw perfformiad Twf Swyddi Cymru wedi bod yn llwyddiant diamod. Mae'n llawer mwy dyrus na hynny, fel y cadarnhaodd ymarfer gwerthuso Llywodraeth Cymru ei hun. Er bod blwyddyn o drafod wedi bod rhwng Llywodraeth Cymru a'i hymchwilyr, o'r amser y casglwyd y data i gyhoeddiad terfynol yr adroddiad, mae llawer o faterion a phroblemau sylweddol wedi'u crybwyll yn yr adroddiad gwerthuso. Er enghraifft, nododd yr adroddiad ddiffygion sylweddol o ran targedu'r bobl ifanc mwyaf anghenus i'w helpu i ddod o hyd i waith. Yn wir, byddai 73 y cant o'r rhai ar leoliadau gwaith Twf Swyddi Cymru wedi dod o hyd i waith beth bynnag, heb y cynllun.

Yr hyn sy'n peri pryder arbennig i mi, a dylai fod yn destun pryder arbennig i Lywodraeth Lafur Cymru sy'n ymfalchio ei bod eisiau codi safonau byw pobl Cymru, yw bod y cyfranogwyr wedi'u caethiwo ar gyflogau isel, yn ennill 67 y cant yn unig o'r cyfartaledd ar gyfer eu grŵp oedran tra'u bod ar y cynllun, ac yn hollbwysig, 76 y cant yn unig o'r cyfartaledd ar gyfer eu grŵp oedran ar ôl iddynt offen.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

There is some evidence, the report states, that participants felt underpaid in their temporary Jobs Growth Wales job, with over one quarter stating that they felt they would have been able to get a job with higher pay without Jobs Growth Wales.

Now, the Minister has claimed that the scheme has an 81 per cent success rate, but I think it depends on what your parameters for success really are. The most recent statistics released last week show that 25 per cent of those who've started a placement have dropped out. Amazingly, 46 people who finished a Jobs Growth Wales placement went back on to another one. Is that a success? How is that even possible, given the Welsh Government's concerns over double-funding with EU money that meant that work programme participants were not able to apply to Jobs Growth Wales? How can you apply to Jobs Growth Wales twice if you're not able to apply to other programmes? Also, a further 25 per cent of those who completed a six-month placement on the scheme went on to an apprenticeship, further education or training, including the Welsh Government-supported Young Recruits programme.

As the motion makes clear, the Welsh Liberal Democrats believe very strongly in the value of apprenticeships and work-based training, but why are these young people who are expected to be 'job-ready'—the phrase quoted so often in the history of Jobs Growth Wales—when they started the scheme, no longer job-ready when they finish? If these young people are no longer job-ready at the end of a placement, why are they still being included in this mystical 81 per cent success rate figure?

Now, it may well be that those young people wish to retrain and go into a different career from that for which they already had skills. That may be the case, but we don't know; we don't have evidence to suggest that that is the case and I wonder whether the Minister might answer what analysis has the Welsh Government done on the reasons that those young people are choosing to retrain, having been job-ready six months previously.

Then, there are also issues around the kind of opportunities created and the longevity of them. During our recent Enterprise and Business Committee inquiry on getting young people into work, we heard evidence of young people being let go at the end of their placement with the same job then being re-advertised on the Jobs Growth Wales website. If employers are re-advertising jobs to take advantage of the Jobs Growth Wales funding without having to make any financial commitment themselves, rather than keeping a young person on at the end of their schemes, does the Welsh Government class this as a new job within their figures? It's recycling the same job; it's lending a job to someone; not creating a job for someone.

Yn ôl yr adroddiad, mae rhywfaint o dystiolaeth fod y cyfranogwyr yn teimlo nad oeddent yn cael digon o gyflog yn eu swydd dros dro o dan Twf Swyddi Cymru, gyda thros eu chwarter yn dweud eu bod yn teimlo y byddent wedi gallu cael swydd ar gyflog uwch heb Twf Swyddi Cymru.

Nawr, mae'r Gweinidog wedi honni bod cyfradd llwyddiant y cynllun yn 81 y cant, ond rwy'n meddwl ei fod yn dibynnu ar sut yr ewch ati i fesur llwyddiant mewn gwirionedd. Mae'r ystadegau diweddaraf a ryddhawyd yr wythnos diwethaf yn dangos bod 25 y cant o'r rhai a ddechreuodd ar leoliad gwaith wedi rhoi'r gorau iddi. Yn rhyfeddol, aeth 46 o bobl a orffennodd leoliad gwaith Twf Swyddi Cymru yn ôl ar un arall. A yw hynny'n llwyddiant? Sut y mae hynny'n bosibl hyd yn oed, o ystyried pryderon Llywodraeth Cymru ynghylch dwbl-gyllido gydag arian yr UE a olygai nad oedd cyfranogwyr rhaglenni gwaith yn gallu ymgeisio am le gyda Twf Swyddi Cymru? Sut y gallwch ymgeisio am leoliad Twf Swyddi Cymru ddwywaith os nad ydych yn gallu ymgeisio am le ar raglenni eraill? Hefyd, aeth 25 y cant pellach o'r rhai a gwblhaodd leoliad gwaith chwe mis o hyd ar y cynllun ymlaen i brentisiaeth, addysg bellach neu hyfforddiant, gan gynnwys y rhaglen Recriwtiaid Ifanc a gefnogir gan Lywodraeth Cymru.

Fel y mae'r cynnig yn egluro, mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn credu'n gryf iawn yng ngwerth prentisiaethau a hyfforddiant yn y gweithle, ond pam nad yw'r bobl ifanc hyn y disgwylir iddynt fod yn 'barod at waith'—yr ymadrodd a gâi ei ddyfynnu'n aml yn hanes Twf Swyddi Cymru—ar ddechrau'r cynllun, yn barod at waith mwyach pan fyddant yn gorffen? Os nad yw'r bobl ifanc hyn bellach yn barod at waith ar ddiwedd lleoliad gwaith, pam y maent yn dal i gael eu cynnwys yn y ffigur cyfriniol o 81 y cant o gyfradd llwyddiant?

Nawr, mae'n ddigon posibl fod y bobl ifanc yn dymuno ailhyfforddi a dechrau ar yrfa wahanol i'r un y maent eisoes wedi cael sgiliau ar ei chyfer. Gallai hynny fod yn wir, ond nid ydym yn gwybod; nid oes gennym dystiolaeth i awgrymu bod hynny'n wir a thybed a allai'r Gweinidog ateb pa ddadansoddiad a wnaeth Llywodraeth Cymru o'r rhesymau pam y mae pobl ifanc yn dewis ailhyfforddi, ar ôl bod yn barod at waith chwe mis cyn hynny.

Wedyn, mae problemau hefyd o ran y math o gyfleoedd a gâi eu creu a'u hirhoeddedd. Yn ystod ymchwiliad ein Pwyllgor Menter a Busnes yn ddiweddar ar ddod o hyd i waith i bobl ifanc, clywsom dystiolaeth am bobl ifanc yn cael eu gadael i fynd ar ddiwedd eu lleoliad gwaith gyda'r un swydd yn cael ei hail-hysbysebu wedyn ar wefan Twf Swyddi Cymru. Os yw cyflogwyr yn ail-hysbysebu swyddi i fanteisio ar gyllid Twf Swyddi Cymru heb orfod ymrwymo unrhyw arian eu hunain, yn hytrach na chadw person ifanc ar ddiwedd eu cynlluniau, a yw Llywodraeth Cymru yn ei chyfrif fel swydd newydd yn eu ffigurau? Ailgylchu'r un swydd yw hyn; rhoi benthyg swydd i rywun; nid creu swydd i rywun.

Looking back at last week's statistics, of those who actually started a placement under Jobs Growth Wales, which is a fraction of the people who applied for one, less than 48 per cent have got a job. Almost 30 per cent are now either unemployed or have an unknown status and we know very little about what those unknown destinations are. This scheme has done absolutely nothing to help the most disengaged and disadvantaged young people in Wales, it has not targeted support at those most in need and it has actually entrenched low wages in our workforce.

Perhaps the most damning of all is the confirmation in the evaluation report that Jobs Growth Wales was set up in a rush—and I quote—as a political gimmick, and not to deliver, perhaps, real results. That is the finding in the report. So, it's hardly surprising, as I say, that people are sceptical about Ed Miliband suggesting that this is going to be a model for his own Government, when such significant concerns have been raised in the Welsh Government's own evaluation of this scheme in hand.

In terms of the future, Jobs Growth Wales, obviously, was designed against a backdrop of recession. In our view, even if, at that time, it was fit for purpose, it no longer is. Job creation schemes can have a useful role in recessions, but, in the long term, it's only by ensuring that our people have access to higher levels of skills training that we can build our economy for the future and make sure that every individual has the opportunity to build a career and build a better life for themselves. If we are to encourage investment into Wales and help boost the productivity of our own companies, I believe we should be using ESF funds in future to focus on improving skills levels, not only by boosting apprenticeships, but also by protecting lifelong learning, to help everyone have the chance to learn. There is plenty of evidence from economic institutions such as the International Monetary Fund, for example, and other forums that it is skills development that leads to long-term economic regeneration.

There is also plenty of evidence to suggest that, whilst Wales in the past has sold itself as a low-wage economy, as a location for inward investment, in the long term, those jobs are not sustainable. We should instead be selling ourselves as a good place to do business, not a cheap place to do business.

Turning now, just briefly, to one of the amendments, to Plaid Cymru's amendment, I wonder if I could ask for some clarity before I can indicate on how we wish to vote on this. You're calling for an equivalent scheme to be established. This, if it were a directly like-for-like equivalent, would contradict point 3 of our motion, which you haven't chosen to amend. I'm wondering if you could give me some more detail here. I think if it is the exact equivalent that you are looking for, it would be difficult for us to support the amendment today, as you will clearly see. [Interruption.] Yes, please help us.

Wrth edrych yn ôl ar ystadegau'r wythnos diwethaf, o'r rhai a ddechreuodd ar leoliad gwaith o dan Twf Swyddi Cymru, sef cyfran yn unig o'r bobl a ymgeisiodd am un, mae gan lai na 48 y cant ohonynt swydd. Mae bron i 30 y cant erbyn hyn naill ai'n ddi-waith neu nid yw eu statws yn hysbys ac ni wyddom fawr ddim ynglŷn â'r dynodiadau anhysbys hynny. Nid yw'r cynllun wedi gwneud dim o gwbl i helpu pobl ifanc sydd wedi ymddieithrio, y bobl ifanc mwyaf difreintiedig yng Nghymru, nid yw wedi targedu cymorth at y rhai sydd fwyaf o'i angen ac mewn gwirionedd mae wedi gwreiddio cyflogau isel yn ein gweithlu.

Efallai mai'r peth mwyaf damniol oll yw'r cadarnhad yn yr adroddiad gwerthuso bod Twf Swyddi Cymru wedi'i sefydlu ar frys—a dyfynnaf—fel gimig gwleidyddol, ac nid i sicrhau canlyniadau go iawn efallai. Dyna ganfyddiad yr adroddiad. Felly, nid yw'n syndod, fel y dywedais, fod pobl yn amheus ynglŷn ag awgrym Ed Miliband fod hwn yn mynd i fod yn fodel ar gyfer ei Lywodraeth ei hun, pan fo pryderon mor sylweddol wedi cael eu lleisio yng ngwerthusiad Llywodraeth Cymru ei hun o'r cynllun.

O ran y dyfodol, lluniwyd Twf Swyddi Cymru, mae'n amlwg, yng nghyd-destun dirwasgiad. Yn ein barn ni, hyd yn oed os oedd yn addas i'r diben ar yr adeg honno, nid yw hynny bellach yn wir. Gall fod rôl ddefnyddiol i gynlluniau creu swyddi mewn dirwasgiad, ond yn y tymor hir, drwy sicrhau bod ein pobl yn cael mynediad at lefelau uwch o hyfforddiant sgiliau yn unig y gallwn adeiladu ein heconomi ar gyfer y dyfodol a gwneud yn siŵr fod pob unigolyn yn cael cyfle i ddatblygu gyrfa ac adeiladu bywyd gwell iddynt eu hunain. Os ydym am ddenu buddsoddiad i Gymru a helpu i roi hwb i gynhyrchiant ein cwmnïau eu hunain, rwy'n credu y dylem ddefnyddio arian Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn y dyfodol i ganolbwyntio ar wella lefelau sgiliau, nid yn unig drwy hybu prentisiaethau, ond hefyd drwy ddiogelu dysgu gydol oes, er mwyn helpu pawb i gael cyfle i ddysgu. Mae digon o dystiolaeth o sefydliadau economaidd megis y Gronfa Ariannol Ryngwladol, er enghraifft, a fforymau eraill mai datblygu sgiliau sy'n arwain at adfywiad economaidd hirdymor.

Mae yna ddigon o dystiolaeth hefyd i awgrymu, er bod Cymru wedi gwerthu ei hun fel economi cyflog isel yn y gorrffennol, fel lleoliad ar gyfer mewnffuddsoddiad, mae yna ddigon o dystiolaeth hefyd i awgrymu nad yw'r swyddi hynny'n gynaliadwy yn y tymor hir. Yn hytrach, dylem werthu ein hunain fel lle da ar gyfer busnes, nid lle rhad ar gyfer busnes.

Gan droi yn awr am ychydig at un o'r gwelliannau, at welliant Plaid Cymru, tybed a gaf fi ofyn am rywfaint o eglurder cyn y gallaf nodi sut yr ydym yn dymuno pleidleisio ar hyn. Rydych chi'n galw am sefydlu cynllun cyfatebol. Pe bai'n gynllun sy'n cyfateb yn uniongyrchol, byddai'n gwrth-ddweud pwynt 3 ein cynnig, nad ydych wedi dewis ei ddiwygio. Tybed a allwch roi ychydig mwy o fanylion i mi yma. Rwy'n meddwl os ydych yn edrych am gynllun cwbl gyfatebol, byddai'n anodd i ni i gefnogi'r gwelliant heddiw, fel y gwelwch yn glir. [Torri ar draws.] Ie, os gwelwch yn dda a wnewch chi ein helpu.

16:36	<p>Simon Thomas Bywgraffiad Biography</p> <p>I thank the Member. I will explain my amendment when I come to speak, but we are not talking about a like-for-like replacement, I want to make it clear—equivalence in terms of a better impact, hopefully, but not a like-for-like replacement.</p>	<p>Diolch i'r Aelod. Byddaf yn egluro fy ngwelliant pan ddaw fy nhro i siarad, ond nid ydym yn sôn am gynllun tebyg am debyg i gymryd ei le, rwyf am wneud hynny'n glir—cyfatebol o ran effaith well, gobeithio, ond nid cyfnewid tebyg am debyg.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
16:37	<p>Eluned Parrott Bywgraffiad Biography</p> <p>I thank the Member for that clarification there. I think that we're able to support, in principle, the idea that a scheme should exist, but we would want to see any such replacement scheme for Jobs Growth Wales address the weaknesses that were identified in the evaluation report. I'd also like to see, as I say, the idea of skills training and giving those young people involved more in terms of CV-building when they come out of the other end. There are opportunities here, I think, to do more with the replacement for Jobs Growth Wales than we have done with the previous one. We must keep an open mind on these things, of course, and I hope that any such replacement for Jobs Growth Wales—due to be announced, I believe, very shortly—will address those concerns. But, as I say, it is in training, skills and opportunities through further education colleges I think the real opportunities are for developing our economy. I learned my own professional skills in a further education college; it set me on a path to the career I enjoy today. I value those things, and I think that those opportunities should still be available to people.</p>	<p>Diolch i'r Aelod am yr eglurhad. Rwy'n meddwl ein bod yn gallu cefnogi'r syniad, mewn egwyddor, y dylai cynllun fodoli, ond byddem eisiau gweld unrhyw gynllun o'r fath yn lle Twf Swyddi Cymru yn mynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd yn yr adroddiad gwerthuso. Hefyd, fel y dywedais, hoffwn weld y syniad o hyfforddiant sgiliau a rhoi cyfle i bobl ifanc ymwneud mwy o ran datblygu CV pan fyddant yn dod allan ar y pen arall. Mae cyfleoedd yma, rwy'n meddwl, i wneud mwy gyda chynllun i gymryd lle Twf Swyddi Cymru nag a wnaed â'r un blaenorol. Mae'n rhaid i ni gadw meddwl agored ar y pethau hyn, wrth gwrs, ac rwy'n gobeithio y bydd unrhyw gynllun a ddaw yn lle Twf Swyddi Cymru—sydd i fod i gael ei gyhoeddi cyn bo hir iawn, rwy'n credu—yn mynd i'r afael â'r pryderon hynny. Ond fel y dywedais, rwy'n meddwl mai drwy hyfforddiant, sgiliau a chyfleoedd drwy golegau addysg bellach y ceir cyfleoedd go iawn ar gyfer datblygu ein heconomi. Dysgais fy sgiliau proffesiynol fy hun mewn coleg addysg bellach; rhoddodd fi ar y llwybr tuag at yr yrfa rwy'n ei mwynhau heddiw. Rwy'n gwerthfawrogi'r pethau hynny, a chredaf y dylai'r cyfleoedd hynny barhau i fod ar gael i bobl.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
16:38	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Rwyf wedi dethol y ddau welliant i'r cynnig. Galwaf ar William Graham i gynnig gwelliant 1, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.</p> <p><i>Gwelliant 1—Paul Davies</i></p> <p><i>Cynnwys pwynt 1 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:</i></p> <p><i>1. Yn cydnabod bod economi Deyrnas Unedig gref:</i></p> <p><i>a) yn creu'r amodau ar gyfer twf o ran cyfleoedd swydd i'n pobl ifanc;</i></p> <p><i>b) yn herio ysgolion, sefydliadau addysg bellach ac uwch, llywodraethau a chyflogwyr i nodi a diwallu sgiliau sydd eu hangen yn y farchnad gyflogaeth sy'n tyfu; ac</i></p> <p><i>c) yn caniatáu i entrepreneuriaid ifanc fanteisio ar gyfleoedd sy'n deillio o dwf economaidd.</i></p> <p><i>Cynigiwyd gwelliant 1.</i></p>	<p>I have selected the two amendments to the motion. I call on William Graham to move amendment 1, tabled in the name of Paul Davies.</p> <p><i>Amendment 1—Paul Davies</i></p> <p><i>Add as new point 1 and renumber accordingly:</i></p> <p><i>1. Acknowledges that a strong UK economy:</i></p> <p><i>a) creates the conditions for growth in job opportunities for our young people;</i></p> <p><i>b) challenges schools, further and higher education institutions, governments and employers to identify and meet skills required in the growth employment market; and</i></p> <p><i>c) allows young entrepreneurs to seize the opportunities of economic growth.</i></p> <p><i>Amendment 1 moved.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
16:38	<p>William Graham Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you, Deputy Presiding Officer. May I move the amendment tabled by Paul Davies?</p>	<p>Diolch, Ddirprwy Lywydd. A gaf fi gynnig y gwelliant a gyflwynwyd gan Paul Davies?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

The economy is not a monthly succession of percentage points and indicators. The economy is the creation of employment opportunities, supporting companies to thrive and providing financial security for people throughout the whole of Wales. The economy is about the wage that working families are bringing home, reducing the levels of tax they pay and giving them more control over how they spend their income. We should understand that reducing taxes increases disposable income and increases the standard of people's lives. We need a strong economy to provide improvements to our education system. Without a strong economy, we have limited finance for improving our infrastructure. The revived United Kingdom economy is improving the life of every person in Wales, and economic growth delivers debt repayment.

Iceland chief Malcolm Walker, in a personal view, highlighted that Conservative policies were right for the country:

'We have seen a fantastic recovery and people have short memories about the state of the country five years ago.'

He also confirmed that Iceland paid all their taxes in full and the firm had never used zero-hours contracts.

Conservative policies were endorsed by the managing director of Wales's largest company, a company whose tax and employment policies Conservatives respect. Many business leaders in Wales believe that a turn away from the direction that Conservatives have pursued for the last five years could risk all that has been achieved in growth and job creation. The Conservative-led Government has revived the economy and been genuinely committed to making sure that Wales is open for business. Employment is up by 54,000 since 2010; unemployment down by 11,000; 22,400 new businesses created since 2010; over 1 million people in Wales have received a cut in their income tax; and more than 150,000 people have been taken out of income tax altogether.

Wales needs the Welsh Government to provide more effective collaboration with businesses to ensure that we educate our children with the academic and vocational skills that employers require. It is a feature of Jobs Growth Wales that I believe illustrates the skills gap. In July 2012, each applicant made an average of three applications and there were 985 job opportunities created and approved but not filled. In April 2015, each applicant made an average of 5.5 applications and there were 2,606 job opportunities created and approved but not filled. Will the Deputy Minister please confirm that the growing number of applications for each applicant and the growing number of job opportunities created and approved does not arise from a skills gap?

Nid dilynant misol o bwyntiau canran a dangosyddion yw'r economi. Yr economi yw'r broses o greu cyfleoedd cyflogaeth, cefnogi cwmnïau i ffynnu a darparu sicrwydd ariannol i bobl ledled Cymru gyfan. Mae'r economi'n ymwneud â'r cyflog a gaiff teuluoedd sy'n gweithio i fynd adref, lleihau lefelau'r dreth y maent yn ei thalu a rhoi mwy o reolaeth iddynt dros sut y maent yn gwario eu hincwm. Dylem ddeall bod lleihau trethi yn cynyddu incwm gwario ac yn cynyddu safon byw pobl. Mae arnom angen economi gref er mwyn sicrhau gwelliannau i'n system addysg. Heb economi gref, bydd ein cyllid yn gyfyngedig ar gyfer gwella ein seilwaith. Mae economi'r Deyrnas Unedig yn adfywio ac yn gwella bywyd pob person yng Nghymru, ac mae twf economaidd yn ad-dalu'r ddyled.

Amlygodd prif weithredwr Iceland, Malcolm Walker, ei farn personol fod polisiau'r Ceidwadwyr yn iawn ar gyfer y wlad:

'Rydym wedi gweld adfywiad gwych a buan iawn y mae pobl yn anghofio sut gyflwr oedd ar y wlad bum mlynedd yn ôl.'

Cadarnhaodd hefyd fod Iceland wedi talu eu holl drethi yn llawn ac nad yw'r cwmni erioed wedi defnyddio contractau dim oriau.

Cafodd polisiau'r Ceidwadwyr eu cymeradwyo gan reolwr gyfarwyddwr cwmni mwyaf Cymru, cwmni y mae ei bolisiau treth a chyflogaeth yn cael eu parchu gan y Ceidwadwyr. Mae llawer o arweinwyr busnes yng Nghymru yn credu y gallai newid y cyfeiriad y mae'r Ceidwadwyr wedi ei ddilyn dros y pum mlynedd diwethaf beryglu popeth a gyflawnwyd o ran twf a chreu swyddi. Mae'r Llywodraeth dan arweiniad y Ceidwadwyr wedi adfywio'r economi ac wedi ymrwymo o ddirif i wneud yn siŵr fod Cymru ar agor i fusnes. Mae cyflogaeth wedi cynyddu 54,000 ers 2010; mae lefelau diweithdra i lawr 11,000; crëwyd 22,400 o fusnesau newydd ers 2010; mae dros 1 filiwn o bobl Cymru wedi cael toriad yn eu treth incwm; ac mae mwy na 150,000 o bobl nad ydynt yn gorfod talu treth incwm o gwbl bellach.

Mae Cymru angen i Lywodraeth Cymru gydweithio'n fwy effeithiol gyda busnesau i sicrhau ein bod yn dysgu'r sgiliau academaidd a galwedigaethol sydd eu hangen ar gyflogwyr i'n plant. Dyma nodwedd o Twf Swyddi Cymru sy'n darlunio'r bwlch sgiliau yn fy marn i. Ym mis Gorffennaf 2012, cyflwynodd yr holl ymgeiswyr dri chais ar gyfartaledd a chafodd 985 o gyfleoedd gwaith eu creu a'u cymeradwyo ond ni chawsant eu llenwi. Ym mis Ebrill 2015, cyflwynodd yr holl ymgeiswyr 5.5 o geisiadau ar gyfartaledd a chafodd 2,606 o gyfleoedd gwaith eu creu a'u cymeradwyo ond ni chawsant eu llenwi. Os gwelwch yn dda, a wnaiff y Dirprwy Weinidog gadarnhau nad yw'r nifer cynyddol o geisiadau gan bob ymgeisydd a'r nifer cynyddol o gyfleoedd gwaith a gafodd eu creu a'u cymeradwyo yn deillio o fwllch sgiliau?

Conversely, the Conservatives today announced plans to create 50,000 new apprenticeships throughout the United Kingdom, training young people with a trade for life not just six-months' employment experience. It will also equip our young entrepreneurs with the opportunity to create their own businesses, taking advantage of emerging markets, supported by a revived United Kingdom economy. These new apprenticeships and initiatives will be funded by fines on those who tried to rig markets under the last Labour Government.

In terms of Jobs Growth Wales, the Welsh Government knew the timing of the cycle of European funding upon which Jobs Growth Wales depended, the timing of the commencement of the new cycle of the European funding, and the timing of their failure to secure continued finance from the European social fund should they fall within the election period, despite repeated assurances that the scheme would be extended to 2016. This additional funding and extended timescale was repeated on 19 February. Yet despite these commitments, just 12 months later, that programme collapsed when European funding ended. The Enterprise and Business Committee raised concerns about the funding of this programme with the Minister for Education and Skills at a meeting in October 2014. Aware of their commitments on funding and continuation into 2016, the Welsh Government sought to reduce the impact of this announcement with the accompanying text of the statistical release of March 2015.

Cuts in further education certainly undermine attempts to raise the level of aspiration in Wales. In south-east Wales alone, in Coleg Gwent, there is a possibility of 50,000 teaching hours being lost, and 69 full-time staff face possible redundancy. However, day by day more and more businesses are expressing their support for, and their fears of a change in, our current economic policy.

There are people we must not forget who still face significant challenges, but overall, people are seeing tangible evidence of an increasing standard of living. The amendment aims to secure continued economic revival and the benefits allowed for our public services and all the people in Wales.

Ar y llaw arall, heddiw cyhoeddodd y Ceidwadwyr gynlluniau i greu 50,000 o brentisiaethau newydd ledled y Deyrnas Unedig, i hyfforddi pobl ifanc mewn crefft am oes nid profiad gwaith am chwe mis yn unig. Bydd hefyd yn arfogi ein hentrepreneuriaid ifanc â chyfle i greu eu busnesau eu hunain, gan fanteisio ar farchnadoedd sy'n dod i'r amlwg, wedi'u cefnogi gan economi'r Deyrnas Unedig sy'n adfywio. Bydd y prentisiaethau a'r mentrau newydd yn cael eu hariannu gan ddirwyon ar y rhai a geisiodd rigio marchnadoedd o dan y Llywodraeth Lafur ddiwethaf.

O ran Twf Swyddi Cymru, roedd Llywodraeth Cymru yn gwybod beth oedd amseriad y cylch cyllid Ewropeaidd y dibynnai Twf Swyddi Cymru arno, amseriad dechrau'r cylch newydd o gyllid Ewropeaidd, ac amseriad eu methiant i sicrhau cyllid parhaus o gronfa gymdeithasol Ewrop pe baent yn digwydd yng nghyfnod yr etholiad, er gwaethaf sicrwydd dro ar ôl tro y byddai'r cynllun yn cael ei ymestyn hyd at 2016. Cafodd y cyllid ychwanegol a'r amserlen estynedig eu hailadrodd ar 19 Chwefror. Ond er gwaethaf yr ymrwymadau hyn, gwta 12 mis yn ddiweddarach, chwalodd y rhaglen pan ddaeth yr arian Ewropeaidd i ben. Mynegodd y Pwyllgor Menter a Busnes bryderon ynghylch cyllid y rhaglen wrth y Gweinidog Addysg a Sgiliau mewn cyfarfod ym mis Hydref 2014. A hithau'n ymwybodol o'i hymrwymadau i ariannu a pharhau hyd at 2016, ceisiodd Llywodraeth Cymru leihau effaith y cyhoeddiad drwy ei gyflwyno gyda thestun datganiad ystadegol mis Mawrth 2015.

Mae toriadau mewn addysg bellach yn sicr yn tansellio ymdrechion i godi lefel dyheadau yng Nghymru. Yn neddwyrain Cymru yn unig, yng Ngholeg Gwent, mae'n bosibl y collir 50,000 o oriau dysgu, ac mae 69 aelod o staff amser llawn yn wynebu diswyddiad posibl. Fodd bynnag, o un diwrnod i'r llall, mae mwy a mwy o fusnesau'n mynegi eu cefnogaeth i'n polisi economaidd presennol, a'u hofnau ynghylch unrhyw newid iddo.

Ni ddylem anghofio bod yna bobl sy'n dal i wynebu heriau sylweddol, ond ar y cyfan, mae pobl yn gweld tystiolaeth bendant fod safon byw yn gwella. Nod y gwelliant yw sicrhau adfywiad economaidd parhaus a'r manteision a ganiateir ar gyfer ein gwasanaethau cyhoeddus a holl bobl Cymru.

16:43

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar Simon Thomas i gynnig gwelliant 2, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

Gwelliant 2—Elin Jones

Dileu pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn nodi bod cynllun blaenllaw Llywodraeth Cymru, ef Twf Swyddi Cymru, wedi'i gau yn sydyn ac yn galw am adfer rhaglen sy'n cyfateb iddo yn gyflym.

Cynigiwyd gwelliant 2.

I call on Simon Thomas to move amendment 2, tabled in the name of Elin Jones.

Amendment 2—Elin Jones

Delete point 1 and replace with:

Notes the sudden closure of the Welsh Government's flagship Jobs Growth Wales scheme and calls for the swift reinstatement of an equivalent programme.

Amendment 2 moved.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Wrth gyflwyno'r gwelliant, rwyf am ddechrau drwy sicrhau'r Democratiaid Rhyddfrydol, sydd wedi dod â'r cynnig hynod amserol yma i'r Cynulliad heddiw, bod Plaid Cymru yn llwyr gyntuno â'r pwyntiau yn y cynnig, yn enwedig pwynt 3 ynglŷn â natur unrhyw fath o raglen a ddaw yn lle Twf Swyddi Cymru. Pwrpas ein gwelliant ni heddiw yw dau beth. Yn gyntaf oll, rwy'n meddwl ei fod yn anghywir i ddisgrifio'r cynllun fel un aneffeithlon yn llwyr. Rwy'n meddwl bod pwrpas i'r cynllun pan ddechreuwyd arno; roedd angen cynllun o'r fath, ac roedd yn hollol briodol i Lywodraeth Cymru gyflwyno'r cynllun. Lle mae fy meirniadaeth i o Lywodraeth Cymru yn dod—ac rwyf wedi bod yn gyson yn dweud hyn dros y flwyddyn ddiwethaf—yw nad yw wedi dysgu o'r gwerthusiad o'r cynllun, nac o'r gwersi rydych yn eu dysgu yn naturiol, fel petai, wrth weld y cynllun yn cael ei gynnal. Mae gwendidau'r cynllun eisoes wedi cael eu hamlinellu gan Eluned Parrott; ni wnaef eu hailadrodd i gyd. Ond, rwyf i hefyd yn rhannu'r farn ein bod ni wedi bod yn sybsideiddio swyddi a fyddai wedi cael eu creu beth bynnag, bod hynny'n ffordd o symud arian o'r pwrs cyhoeddus i gwmnïau preifat, mewn rhai achosion, nad oedd angen cefnogaeth o'r fath, a hefyd nad oes yna ddigon o gyswllt wedi bod rhwng yr hyn sy'n cael ei ddarparu gan Twf Swyddi Cymru a'r angen ehangach o fewn yr economi i ddatblygu sgiliau sylfaenol i'r rhai nad ydynt yn gallu cael swyddi o gwbl, a sgiliau uwch, yn enwedig drwy brentisiaethau, yn y sector galwedigaethol.

Wedi dweud hynny, mae'n rhaid imi roi ar gofnod hefyd fy mod i wedi cwrrd â sawl cyflogwr yng Nghymru dros yr wythnosau diwethaf, yn arbennig, gan ein bod ar y stryd yn canfasio, sydd wedi defnyddio cynllun Twf Swyddi Cymru ac wedi canfod budd yn y cynllun hwnnw. Felly, mae'n sicr gen i, a Phlaid Cymru, fod angen cynllun o'r fath, a dyna pam yr ydym wedi rhoi'r gwelliant gerbron. Ond nid yr un cynllun—nid yr un fath o gynllun—ond cynllun sydd wedi ei sianelu'n fwy clir ac yn fwy amlwg tuag at anghenion yr economi heddiw, nid anghenion yr economi bum mlynedd yn ôl. Dyna beth sy'n ffaledig, efallai, am y cynllun fel yr oedd.

Nawr, mae'r Llywodraeth wedi bod yn euog, rwy'n meddwl, o orliwio'r darlun ynglŷn â Thwf Swyddi Cymru. Yn arbennig, mae'r Prif Weinidog yn hoff iawn o sôn am y cynllun yma a phrentisiaethau yn yr un frawddeg. Nid yr un peth ydyn nhw o gwbl. Nid yw'r cynllun hwn yn darparu sgiliau. Mae'n darparu sgiliau drwy fod mewn swydd am chwe mis, wrth gwrs, ond nid yw'n rhan o'r agenda sgiliau yna yn llwyr. Dyna le mae eisiau gweld mwy o gydlyniant gan y Llywodraeth. Rwy'n credu ei fod yn ddadlennol, braidd, fod y Llywodraeth wedi datgan eu cynllun Ewropeaidd newydd ynglŷn â phrentisiaethau, gyda ffanffer fawr, gan adael i'r cynllun yma, sydd wedi cael ei ddisgrifio, fel yr ydym yn gwybod, fel 'flagship'—nid yn unig yn 'flagship' i Gymru, na 'flagship' i Brydain, ond 'flagship' ar gyfer gorllewin Ewrop—ynglŷn â chreu swyddi, a gadael i hynny wywo ddiwedd fis Mawrth, heb egluro pa fath o gynllun a oedd yn mynd i ddod yn ei le, a beth fyddai cynnwys y cynllun yna.

Thank you, Deputy Presiding Officer. In putting forward this amendment I want to start by reassuring the Liberal Democrats, who have brought forward this very timely motion to the Assembly today, that Plaid Cymru agrees entirely with the points in the motion, particularly point 3 about the nature of any kind of programme that replaces Jobs Growth Wales. The purpose of our amendment today is twofold. First of all, I think that it is incorrect to describe the scheme as completely ineffective. I think that there was a purpose for the scheme initially; we needed a scheme of this kind, and it was entirely appropriate for the Welsh Government to introduce it. Where my criticism of the Welsh Government comes in—and I have been consistent in saying this over the past year—is that they haven't learned from the evaluation that was made of the scheme, nor from the lessons that you just learn naturally, as it were, as the scheme is implemented. The weaknesses of the scheme have already been outlined by Eluned Parrott; I will not rehearse them all again. But I am also of the view that we have been subsidising jobs that would have been created anyway, that this is a way of shifting funding from the public purse, in some cases, to private companies that didn't need that kind of support, and that there has been insufficient linkage between what is provided by Jobs Growth Wales and the wider need within the economy to develop basic skills among those who don't have access to jobs at all and higher-level skills, especially through apprenticeships, in the vocational sector.

Having said that, I also have to place on the record that I have met with several employers in Wales over the past few weeks, in particular, as we are on the ground canvassing, who have made use of Jobs Growth Wales and have benefited from it. So, Plaid Cymru and I are of the opinion that we need a scheme of this kind, and that is why we put forward this amendment. But not exactly the same scheme—not the same sort of scheme—but a scheme rather that has been channelled more clearly towards the needs of today's economy, not the needs of the economy of five years ago. That is the failing, perhaps, in the scheme as it was.

Now, the Government has been guilty, I think, of overegging the pudding perhaps in terms of Jobs Growth Wales. In particular, the First Minister is fond of mentioning this scheme and apprenticeships in the same sentence. They are not the same thing at all. This scheme does not provide skills. It provides skills by being in employment for six months, of course, but it is not part of that skills agenda more widely. This is where we need to see more co-ordination by the Government. I think that it is rather telling that the Government have announced their new European scheme for apprenticeships, with great fanfare, whilst letting this scheme, which has been described, as we know, as a flagship—not just a flagship for Wales or Britain, but a flagship for western Europe—in terms of job creation, and letting the scheme wither at the end of March, without explaining what sort of scheme will replace it, and what the contents of that scheme will be.

Nawr, rwy'n gweld rhywbeth yn y ffaith bod cyllideb y Llywodraeth ei hunan tuag at y cynllun yma wedi ei thorri o chwarter—o £12.5 miliwn i £9.3 miliwn—o'r llynedd i'r flwyddyn ariannol hon. Roedd hynny wedi cael ei wneud heb y ffanffer arferol, a hynny'n sicr, yn fy marn i, a oedd yn gyfrifol am yr oedi sydd gyda ni yn y cynllun, achos pan fydd y cynllun newydd yn cael ei lansio ac yn aildechrau, yn sydyn iawn, wrth gwrs, bydd y cynllun, mewn naw mis, ond yn gwario y toriad hwnnw o £12 miliwn i £9 miliwn. Wel, dyna un flwyddyn wedi ei gwneud, ond beth sy'n digwydd ar gyfer y dyfodol? Dyna le nid ydym wedi cael yr eglurhad gan y Llywodraeth. Mae'n siomedig i mi nad ydym wedi derbyn datganiad o'r fath yma.

Nawr, bydd unrhyw gynllun newydd yn gorfod dysgu o'r gwerthusiad, ond nid jest o'r gwerthusiad o Dwf Swyddi Cymru, ond o'r gwaith ehangach sydd yn digwydd yng Nghymru hefyd, yn enwedig o ran codi sgiliau uwch ac o ran gweithio mewn ardaloedd megis Cymunedau yn Gyntaf, ac yn enwedig yr angen dybryd sydd yng Nghymru i godi sgiliau sylfaenol ymysg rhai o'n pobl ifanc ni, a hefyd y bobl dros 50 sydd wedi, nawr, eu cau allan o'r sector addysg bellach gan y toriadau sydd yn digwydd yn y sector hwnnw. Felly, mae'r cynllun yma, beth bynnag fydd y cynllun newydd, yn gorfod cario tipyn o faich, fe ddywedwn i.

Wedi dweud hynny, rydym yn edrych ymlaen at weld y cynllun o'r newydd, a dyna bwrpas ein gwelliant ni. Rwy'n mawr obeithio y bydd y Dirprwy Weinidog heddiw yn gallu rhoi mwy o fanylion, ac yn gallu dweud yn bendant pryd fydd y cynllun yn dechrau, beth fydd ei bwrpas a beth fydd ei arian.

I see something in the fact that the Government's own budget for this scheme has been cut by a quarter—from £12.5 million to £9.3 million—from last year to this financial year. This was done without the usual fanfare, and that certainly, in my opinion, was responsible for the delay in the scheme, because when the new scheme will be launched and restarted, all of a sudden, of course, the scheme, in nine months' time, will only be spending that cut of £12 million to £9 million. Well, that is one year done, but what happens in the future? That is where we haven't had that explanation from the Government. It's disappointing that we haven't received a statement on that here.

Now, any new scheme will have to learn from the evaluation, but not just from the evaluation of Jobs Growth Wales, but from the wider work that is happening in Wales also, especially in terms of increasing higher skills and working in areas such as Communities First areas, and especially the desperate need in Wales to increase basic skills among some of our young people, and also people over 50 who have now been excluded from the further education sector by the cuts in that particular sector. Therefore, whatever the shape of the new scheme, it will have to bear a great burden, I would say.

Having said that, we are looking forward to seeing the new scheme, and that is the purpose of our amendment. I greatly hope that the Deputy Minister today will be able to give additional details, and be able to say for certain when the new scheme will start, what its purpose will be and what its funding source will be.

16:48

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yn hytrach na sôn am y gwerthusiad, fel mae'r siaradwyr cynt wedi'i wneud, rwyf am ofyn i'r Llywodraeth, a'r Dirprwy Weinidog yn benodol, i edrych, hwyrach, at ffyrdd y gallwn ni wella'r cynllun gwreiddiol, achos, fel y dywedodd Simon Thomas, mae nifer o gyflogwyr, yn ystod y ddwy flynedd olaf yma, wedi sôn am rai o fanteision y cynllun yma, er fy mod i hefyd yn rhannu rhai o bryderon Eluned Parrott. Rwy'n meddwl bod yna beryg ein bod ni, hwyrach, yn symud i'r un llwybr â beth maen nhw wedi'i wneud yn Lloegr yn y gorffennol.

Rather than discussing the evaluation, as previous speakers have done, I want to ask the Government, and the Deputy Minister specifically, to look, perhaps, at ways in which we can improve the original scheme, because, as Simon Thomas said, a number of employers, over the past two years, have mentioned some of the benefits accruing from the programme, although I do also share some of the concerns of Eluned Parrott. I think that there is a risk that we may be moving down the same path as they have done in England in the past.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Rwy'n meddwl bod angen inni edrych ar ofynion y bobl hŷn. Rwy'n teimlo, hwyrach, fod rhai o'r polisiau ar hyn o bryd, lle mae'r Llywodraeth yn gorfod canolbwyntio ar y rhai hynny rhwng 16 ac 19 oed, yn anghofio am ofynion y rhai hynny sydd dros 50. Roedd adroddiad diweddar gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, er enghraifft, yn dangos bod yna dair gwaith mwy o bobl dros 50 heb waith, neu ddim mewn hyfforddiant, na'r rhai o dan 25. Os ydym yn edrych ar y rhai hynny o dan 19 oed, a'u cymharu nhw efo'r rhai hynny dros 50 oed, mae'r ffigwr yn 10 gwaith y ffigwr i rai ifainc. Ar hyn o bryd, mae'n rhaid inni hefyd ystyried bod dros 9,000 o bobl rhwng 60 a 64 oed yn hawlio lwfans chwilio am waith yng Nghymru, a bod 39 y cant o'r rheini wedi bod heb waith am dros flwyddyn. Felly, rwyf yn gofyn i'r Dirprwy Weinidog, wrth iddi ddatgan yn union raglen a bwriadau'r Llywodraeth wrth symud ymlaen, i ymateb i'r cwestiwn yma ynglŷn â phobl hŷn. Mi roeddwn i'n trafod efo Airbus, er enghraifft. Maen nhw wedi bod yn datgan eu diolch i Lywodraeth Cymru yn y gorffennol am y ffaith nad yw prentisiaethau o Gymru yn yr un sefyllfa â phrentisiaethau yn Lloegr, am nad oes y symudiad yma i jest edrych ar ôl pobl ifainc.

Mae'r gostyngiad o £29 miliwn yng nghyllideb addysg bellach yn mynd i gyfyngu ymhellach ar y ddarpariaeth ar gyfer pobl hŷn o ran hyfforddiant. Er enghraifft, mae Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru wedi amcangyfrif ei bod hi'n debygol y bydd yna 17,000 yn llai o brentisiaethau yng Nghymru i'r rhai hynny sydd dros 25 oed yn y cyfnod sy'n ein wynebu ni. Rwyf yn croesawu'r datganiad yr wythnos diwethaf fod yna fuddsoddiad o £144 miliwn mewn prentisiaethau. Ond, mae'n rhaid inni hefyd sicrhau bod y rhaglen yna yn ymateb i ofynion pobl hŷn. Rwyf yn siŵr bod y Dirprwy Weinidog yn cofio, yr wythnos diwethaf, yn ystod y ddadl ar addysg bellach, ein bod ni wedi galw am raglenni penodol ar gyfer y rhai hynny dros 50 oed sydd ddim mewn gwaith na hyfforddiant.

Er mwyn tanlinellu'r gofynion yma o ran pobl hŷn, mae'n rhaid imi ddweud bod Plaid Cymru y llynedd wedi datgan bod 40 y cant o ddynion di-waith yng Nghymru allan o waith ar ôl blwyddyn, a bod y ffigwr hwnnw ar gyfer pobl iau dim ond yn 18 y cant. Mae Plaid Cymru eu hunain wedi dweud bod angen inni barhau efo cynllun sydd ddim yn rhoi unrhyw fath o rwystr i'r rhai hynny o achos eu hoedran. Felly, rwy'n gofyn i'r Gweinidog, yn ddiffuant iawn, i sicrhau—. Rwy'n siŵr eich bod chi'n cyfaddef bod cronfa gymdeithasol Ewrop yn dweud bod yn rhaid inni fynd i'r afael efo tlodi, a bod yn rhaid inni fynd i'r afael efo'r ffaith bod bod yn rhan o'r farchnad lafur yn ffordd o wella sgiliau ac yn ffordd o gael pobl allan o dlodi. Wrth wneud hynny, mae'n rhaid inni gael rhaglenni penodol ar gyfer y rhai dros 50 oed os ydym yn mynd i sicrhau nad ydym yn y sefyllfa yma lle, hwyrach, rydym jest yn ymateb i anghenion pobl ifainc. Rwy'n awyddus iawn ein bod ni'n gwneud hynny, ond hefyd ein bod ni'n edrych ar y rhai hynny dros 50 oed sydd, hwyrach, wedi bod yn ddi-waith ac sy'n wynebu sefyllfa o unigrwydd a phroblemau iechyd meddwl o achos hynny yn y dyfodol.

I think that we need to look at the requirements of older people too. I think that some of the policies at present, whereby the Government has to concentrate on those between 16 and 19 years of age, do forget about the needs of those over 50. A recent report by the Commissioner for Older People in Wales, for example, demonstrated that there are three times as many people over 50 who were not in work or training than was the case for those under 25. If we look at those under the age of 19, and compare them with that group over 50, the figure is 10 times as high as it is for the younger cohort. At present, we also have to bear in mind that over 9,000 people between the ages of 60 and 64 are claiming jobseeker's allowance in Wales, and 39 per cent of those have been unemployed for over a year. Therefore, I ask the Deputy Minister, as she explains the Government's programme and intentions in moving forward, to respond to this question on older people. I was discussing this with Airbus, for example. They have expressed their thanks to the Welsh Government in the past for the fact that apprenticeships from Wales were not in the same position as apprenticeships in England, and that there had not been this move to just look at younger people.

The reduction of £29 million in the further education budget is going to further restrict the provision for older people in terms of training. For example, the National Training Federation Wales has estimated that it is likely that there will be 17,000 fewer apprenticeships in Wales for those over 25 years of age in the ensuing period. I welcome last week's statement on an investment of £144 million in apprenticeships. However, we must also ensure that that programme responds to the needs of older people. I am sure that the Deputy Minister will recall that, during last week's debate on further education, we called for specific programmes for those people over 50 years of age who are not in work or training.

In order to highlight the needs of older people, I have to say that Plaid Cymru last year stated that 40 per cent of unemployed men in Wales lost their jobs after a year, and that the figure for young people was only 18 per cent. Plaid Cymru themselves have said that we need to continue with a programme that doesn't place barriers in front of those people simply because of their age. So, I would ask the Minister, very sincerely, to ensure—. I am sure that you would recognise that the European social fund states that we do have to tackle poverty and the fact that being part of the labour market is a means of improving and enhancing skills and a means of taking people out of poverty. In doing so, we have to have specific programmes in place for people over 50 years of age if we are to ensure that we don't find ourselves in a position where we are only responding to the needs of younger people. I am very eager for us to do that, of course, but we must also take into account the needs of those people over 50 years of age who, perhaps, may have been unemployed and are now facing a situation of isolation and mental health problems as a result of that in future.

I think the criticisms that have been aimed at Jobs Growth Wales to date are pretty shy of the mark. I feel as if I've been reading a different evaluation to Simon Thomas and Eluned Parrott. The objectives of Jobs Growth Wales are clear and simple to articulate. This has made raising awareness of the programme among stakeholders—young people and employers—easy, which is likely to have contributed to the high levels of demand the programme has experienced from both target groups. So, it has clear objectives and has been extremely popular, and it has also got a lot of young people into work, as well as enabling businesses to expand sooner than they otherwise would have. So, I think that is a hell of an achievement. I do not understand all the sort of sniping on the side lines about low wages. This is an apprenticeship. It's bound to have a low wage. There's training attached to it, and therefore it's right that it does not attract a large wage.

We have to have a fundamental shift in our economy away from services—something that the Conservative-Lib Dem Government has patently, absolutely failed to do—built on personal debt. We have to move towards an economy that is based much more around making things—manufacturing—that we can then sell to the rest of the world. And to do that, we need the workforce with the skills that industry requires. Jobs Growth Wales and its successor have been, and, I hope, will continue to be, important tools for ensuring that young people in Wales have the precise technical skills for the twenty-first century.

Now, the early leavers evaluation does have some important recommendations for improvement, and I'm sure the Welsh Government will have taken them on board, and we'll hear later whether that is the case. But things like mentors needing to have face-to-face meetings with the apprentices and half-hearted attempts to contact by phone absolutely won't do, as well as checks on potential employers—are they financially viable and, therefore, do they have the potential to expand and, indeed, to comply with the contract with the young person? I know that I've written to the Deputy Minister about a particular case where that simply didn't happen, and I'm sure that will get rectified.

Rwy'n meddwl bod y feirniadaeth a anelwyd at Twf Swyddi Cymru hyd yma yn bell o'r marc. Rwy'n teimlo fel pe bawn i wedi bod yn darllen gwerthusiad gwahanol i Simon Thomas ac Eluned Parrott. Mae amcanion Twf Swyddi Cymru yn glir ac yn syml. Mae hyn wedi gwneud codi ymwybyddiaeth o'r rhaglen ymysg rhanddeiliaid—pobl ifanc a chyflogwyr—yn hawdd, sy'n debygol o fod wedi cyfrannu at y lefelau uchel o alw a fu am y rhaglen o blith y ddau grŵp targed. Felly, mae ganddo amcanion clir ac mae wedi bod yn hynod o boblogaidd, ac mae hefyd wedi sicrhau gwaith i lawer o bobl ifanc, yn ogystal â galluogi busnesau i ehangu'n gynt nag y byddent wedi'i wneud fel arall. Felly, credaf fod hynny'n andros o gyflawniad. Nid wyf yn deall yr holl feirniadu ar y cyrion ynglŷn â chyflogau isel. Prentisiaeth yw hon. Mae'r cyflogau'n mynd i fod yn isel. Mae hyfforddiant ynghlwm wrtho, ac felly mae'n iawn nad yw'n denu cyflog mawr.

Mae'n rhaid i ni gael symudiad sylfaenol yn ein heconomi i ffrwd oddi wrth wasanaethau wedi'u hadeiladu ar ddyled bersonol—rhywbeth y mae Llywodraeth y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn amlwg wedi methu ei wneud yn gyfan gwbl. Mae'n rhaid i ni symud tuag at economi sy'n seiliedig i raddau llawer mwy ar wneud pethau—gweithgynhyrchu—y gallwn eu gwerthu wedyn i weddill y byd. Ac i wneud hynny, mae angen gweithlu gyda'r sgiliau sydd eu hangen ar y diwydiant. Mae Twf Swyddi Cymru a'i olynydd wedi bod, ac rwy'n gobeithio, yn mynd i barhau i fod, yn arfau pwysig ar gyfer sicrhau bod gan bobl ifanc Cymru sgiliau technegol manwl ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.

Nawr, mae'r gwerthusiad o ymadawyr cynnar yn cynnwys rhai argymhellion pwysig ar gyfer gwella, ac rwy'n siŵr y bydd Llywodraeth Cymru wedi eu nodi, a chawn glywed yn nes ymlaen a yw hynny'n wir. Ond nid yw pethau fel yr angen i fentoriaid gael cyfarfodydd wyneb yn wyneb â'r prentisiaid ac ymdrechion gwangalon i gysylltu dros y ffôn yn gwneud y tro o gwbl, yn ogystal ag archwiliadau a gynhelir ar gyflogwyr posibl—a ydynt yn hyfyw'n ariannol ac felly, a oes potensial ganddynt i ehangu ac, yn wir, i gydymffurfio â'r contract gyda'r person ifanc? Gwn fy mod wedi ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog ynglŷn ag achos penodol lle na ddigwyddodd hynny, ac rwy'n siŵr y caiff y mater ei unioni.

When I attended the European policy forum on jobs and growth last Thursday, I don't recall seeing Eluned Parrott there. We had some really good case studies on the highs and lows of how Jobs Growth Wales had worked and where it hadn't quite worked as well as it should have done. One was a start-up company called Surviva Wear, which was started by a cyclist, who was injured, with an excellent idea of developing lightweight survival jackets for sports enthusiasts, not just survival blankets. Now, he didn't have the managerial skills to know that he needed to pay attention to the apprentices that he recruited, to ensure that they had the interest in the type of business that he was trying to develop. The second example was from a recruitment agency based in the centre of Cardiff, with an engineering spin-off in Swansea. Robert Lloyd Griffiths introduced them to Jobs Growth Wales, as he recognised their potential. So, they took on four apprentices in 2012, four in 2013, and four in 2014—12 apprentices, five still with the company, which, incidentally, has won the award for the most profitable company in the UK, and the other seven all have successful careers elsewhere. So, a great success story. They interviewed all the potential applicants to ensure they'd got the right skills and attitude needed, tailored their training to fit their needs, and knew exactly what they were doing. And a third company, which I think we should pay attention to for future reference, is IQE in St Mellons, which is developing compound semiconductor excellence across south Wales, hopefully with the benefit of Horizon 2020 funding, so that Wales becomes one of the four or five centres of excellence across Europe in this very, very important technology.

We have to emphasise the fact that the key to digging Wales out of being eligible for convergence funding is to increase productivity, and therefore we must have the high-tech jobs that will enable us to have those high-tech productive jobs that will benefit the whole of the country.

Pan fynychais y fforwm polisi Ewropeaidd ar swyddi a thwf ddydd lau diwethaf, nid wyf yn cofio gweld Eluned Parrott yno. Cawsom rai astudiaethau achos gwirioneddol dda ar uchafbwyntiau ac isafbwyntiau'r modd y mae Twf Swyddi Cymru wedi gweithio a lle nad oedd wedi gweithio cystal ag y dylai. Un ohonynt oedd cwmni newydd o'r enw Surviva Wear, a ddechreuwyd gan feiciwr a gafodd anaf, ac a gafodd y syniad gwyh o ddatblygu siacedi goroesi ysgafn ar gyfer pobl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon, nid blancedi goroesi yn unig. Nawr, nid oedd ganddo'r sgiliau rheoli i wybod bod angen iddo roi sylw i'r prentisiaid a recriwtiai er mwyn sicrhau bod ganddynt ddi-ddordeb yn y math o fusnes y ceisiai ei ddatblygu. Roedd yr ail enghraifft yn sôn am asiantaeth recriwtio yng nghanol Caerdydd, gyda chwmni peirianeg cysylltiedig wedi'i leoli yn Abertawe. Cyflwynodd Robert Lloyd Griffiths hwy i Twf Swyddi Cymru, ar ôl iddo sylwi ar eu potensial. Felly, cyflogodd y cwmni bedwar prentis yn 2012, pedwar yn 2013, a phedwar yn 2014—12 prentis, a phump ohonynt yn dal gyda'r cwmni, sydd, gyda llaw, wedi ennill y wobr am y cwmni mwyaf proffidiol yn y DU, ac mae'r saith arall i gyd yn dilyn gyrfa lwyddiannus mewn mannau eraill. Felly, roedd hynny'n llwyddiant mawr. Aethant ati i gyfsweld yr holl ymgeiswyr i sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r agwedd gywir a theilwra eu hyfforddiant i gyd-fynd â'u hanghenion, a gwyddent yn union beth oeddent yn ei wneud. A thrydydd cwmni, y credaf y dylem roi sylw iddo at y dyfodol, yw IQE yn Llaneirwg, sy'n datblygu rhagoriaeth ym maes lled-ddargludyddion cyfansawdd ar draws de Cymru, gan fanteisio ar gyllid Horizon 2020 gobethio, fel bod Cymru yn dod yn un o'r pedair neu bum canolfan ragoriaeth ar draws Ewrop yn y dechnoleg eithriadol o bwysig hon.

Mae'n rhaid i ni bwysleisio'r ffaith mai'r allwedd i gloddio Cymru allan o fod yn gymwys i gael cyllid cydgyfeirio yw cynyddu cynhyrchiant, ac felly mae'n rhaid i ni gael y swyddi uwch-dechnoleg a fydd yn ein galluogi i gael y swyddi uwch-dechnoleg cynhyrchiol a fydd o fudd i'r wlad gyfan.

- | | | | |
|-------|--|---|--|
| 16:58 | Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography
William Powell. | William Powell. | Senedd.tv
Fideo Video |
| 16:58 | Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography
So, the Welsh workplace has an important role to play in this regard. | Felly, mae gan y gweithle yng Nghymru ran bwysig i'w chwarae yn hyn o beth. | Senedd.tv
Fideo Video |
| 16:58 | Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography
Okay. Thanks for the encore. William Powell. | Iawn. Diolch am yr encôr. William Powell. | Senedd.tv
Fideo Video |

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Our motion today is based on the Liberal Democrats' fundamental belief that young people should have an equal choice between vocational and academic study options for their further and higher education. Focusing future European social fund schemes on improving skill levels, increasing the number of apprenticeships and developing work-based training opportunities will help to give vocational studies that parity that is so essential, and ensure that young people have the opportunity to get the skills and experience that they need and that our economy needs.

We are proud of our own record in Government: with over 2 million new apprenticeships in England over the last five years, we have seen more people start an apprenticeship in this Parliament than has ever been the case before. We have increased the apprenticeship minimum wage by 20 per cent, which is the largest ever increase that's been seen. We've given businesses a tax cut worth £2,000 for employing a young apprentice, which will help over 22,000 apprentices in Wales. And, in our current manifesto, the Liberal Democrats have committed to ensuring that this policy continues for the duration of the next Parliament.

Welsh Lib Dems help to secure protection against planned cuts to apprenticeships by the Welsh Government in the 2015-16 budget, with funding for around 5,000 new apprenticeships over the coming two years. We welcome the recent announcement on funding for apprenticeships in west Wales and the Valleys, but we hope that this announcement during the election period is not mere political opportunism, but that the Welsh Government has given careful consideration to how to improve the provision of apprenticeships across Wales. I also hope that the Welsh Government has given due consideration to the recommendations brought forward by the Welsh Liberal Democrats in our report on widening access to apprenticeships, including trialling a UCAS-style single application process to improve the parity of approach between career routes and also creating a single information, application and support system so as to streamline information provision and to increase the number of people who apply for apprenticeships in Wales. We must also improve the information that's provided to employers. It was disappointing to hear the UK Commission for Employment and Skills give evidence recently to the Enterprise and Business Committee that:

'Only 15 per cent of Welsh employers currently offer apprenticeships',

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Mae ein cynnig heddiw yn seiliedig ar gred sylfaenol y Democratiaid Rhyddfrydol y dylai pobl ifanc gael dewis cyfartal rhwng opsiynau astudio galwedigaethol ac academiaidd ar gyfer eu haddysg bellach a'u haddysg uwch. Bydd canolbwyntio cynlluniau cronfa gymdeithasol Ewrop yn y dyfodol ar wella lefelau sgiliau, cynyddu nifer y prentisiaethau a datblygu cyfleoedd hyfforddiant seiliedig ar waith yn helpu i sicrhau'r cydraddoldeb sydd mor hanfodol i astudiaethau galwedigaethol, a sicrhau bod pobl ifanc yn cael cyfle i feithrin y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen arnynt ac sydd eu hangen ar ein heconomi.

Rydym yn falch o'n record ein hunain yn y Llywodraeth: gyda thros 2 filiwn o brentisiaethau newydd yn Lloegr dros y pum mlynedd diwethaf, rydym wedi gweld mwy o bobl yn dechrau prentisiaeth yn ystod y Senedd hon nag erioed o'r blaen. Rydym wedi codi isafswm cyflog prentisiaeth 20 y cant, sef y cynnydd mwyaf a welwyd erioed. Rydym wedi sicrhau toriad yn y dreth i fusnesau sy'n werth £2,000 am gyflogi prentis ifanc, a fydd yn helpu dros 22,000 o brentisiaid yng Nghymru. Ac yn ein manifestio cyfredol, mae'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi ymrwymo i sicrhau bod y polisi hwn yn parhau drwy gydol y Senedd nesaf.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn helpu i sicrhau diogelwch rhag toriadau arfaethedig i brentisiaethau gan Lywodraeth Cymru yng nghyllideb 2015-16, gyda chyllid ar gyfer tua 5,000 o brentisiaethau newydd dros y ddwy flynedd nesaf. Rydym yn croesawu'r cyhoeddiad diweddar ynghylch cyllid ar gyfer prentisiaethau yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, ond rydym yn gobeithio nad bachu ar gyfle gwleidyddol yn unig yw'r cyhoeddiad hwn yn ystod cyfnod yr etholiad, ond bod Llywodraeth Cymru wedi ystyried yn ofalus sut i wella'r ddarpariaeth o brentisiaethau ar draws Cymru. Rwyf hefyd yn gobeithio bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi ystyriaeth briodol i'r argymhellion a gyflwynwyd gan Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn ein hadroddiad ar ehangu mynediad i brentisiaethau, gan gynnwys treialu proses ymgeisio sengl, tebyg i broses UCAS, ar gyfer gwella cydraddoldeb o ran ymagwedd tuag at lwybrau gyrfaol a chreu un system wybodaeth, ymgeisio a chymorth er mwyn symleiddio'r modd y caiff gwybodaeth ei rhoi ac i gynyddu nifer y bobl sy'n gwneud cais am brentisiaethau yng Nghymru. Hefyd, rhaid i ni wella'r wybodaeth sy'n cael ei darparu i gyflogwyr. Siom oedd clywed Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau yn rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor Menter a Busnes yn ddiweddar mai:

'Dim ond 15 y cant o gyflogwyr Cymru ar hyn o bryd sy'n cynnig prentisiaethau',

and that one reason for this may be the sheer complexity in accessing such schemes. Bringing clarity to employers in their busy lives by simplifying skills funding models would be a welcome step forward, and we hope that the Welsh Government has given due consideration to this in its most recent applications to the European social fund.

Furthermore, we must consider the need to expand apprenticeships into new sectors such as low-carbon technologies, with the opportunities for green growth. The decline in the numbers of young people entering industries such as construction and manufacturing has led to a concern that, as experienced workers retire over the coming five to 10 years, these industries may well experience a severe skills deficit. The Construction Skills Network report for Wales suggests that, during the coming four years, there will be an average growth rate of 5.8 per cent, which will require an expansion in skills to meet such ambitious and innovative projects as the Swansea bay tidal lagoon. The independent review on further education in supporting farm businesses in Wales, led by Professor Wynne Jones, to which I referred earlier, also highlights that the uptake of apprenticeships in the farming sector has not been as positive as in other sectors. It recommends that we adopt a more collaborative push amongst colleges, industry and learners so as to promote apprenticeships in this sector, particularly if we are to attract new entrants who are not from a traditional farming background. Finally, a like-for-like Jobs Growth Wales scheme is not—is absolutely clearly not—the way forward. The nature of our labour market is changing, and we need to ensure that programmes aimed at assisting young people to get back into work give greater focus to improving skills and training to put vocational education on a par—and this is critical—with academic qualifications, and, finally, to develop the strong workforce that we need in Wales to secure our economic future.

ac efallai mai un rheswm am hyn yw'r cymhlethdod pur o ran cael mynediad i gynlluniau o'r fath. Byddai eglurder i gyflogwyr yn eu bywydau prysur drwy symleiddio modelau ariannu sgiliau yn gam ymlaen i'w groesawu, ac rydym yn gobeithio bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi ystyriaeth briodol i hyn yn ei cheisiadau diweddaraf i gronfa gymdeithasol Ewrop. Ar ben hynny, mae'n rhaid i ni ystyried yr angen i ehangu prentisiaethau i sectorau newydd fel technolegau carbon-isel, gyda'r cyfleoedd ar gyfer twf gwyrdd. Mae'r gostyngiad yn nifer y bobl ifanc sy'n cychwyn mewn diwydiannau fel adeiladu a gweithgynhyrchu wedi arwain at bryder y gallai'r diwydiannau hyn yn hawdd wynebu diffyg sgiliau difrifol, wrth i weithwyr profiadol ymddeol dros y pump i 10 mlynedd nesaf. Mae adroddiad Rhwydwaith Sgiliau Adeiladu Cymru yn awgrymu y bydd cyfradd twf cyfartalog o 5.8 y cant yn ystod y pedair blynedd nesaf, a fydd yn galw am ehangu sgiliau i gyflawni prosiectau uchelgeisiol ac arloesol fel y morlyn llanw ym mae Abertawe. Hefyd, mae'r adolygiad annibynnol o addysg bellach i gefnogi busnesau fferm yng Nghymru, dan arweiniad yr Athro Wynne Jones, y cyfeiriais ato'n gynharach, yn amlygu nad yw nifer y prentisiaethau yn y sector ffermio wedi bod mor bositif â mewn sectorau eraill. Mae'n argymhell ein bod yn mabwysiadu ymgyrch fwy cydweithredol ymysg colegau, diwydiant a dysgwyr er mwyn hyrwyddo prentisiaethau yn y sector, yn enwedig os ydym i ddenu ymgeiswyr newydd nad ydynt yn dod o gefndir ffermio traddodiadol. Yn olaf, nid cynllun Twf Swyddi Cymru tebyg am debyg yw'r ffordd ymlaen ar unrhyw gyfrif, mae hynny'n eglur. Mae natur ein marchnad lafur yn newid, ac mae angen inni sicrhau bod rhaglenni sy'n anelu at gynorthwyo pobl ifanc yn ôl i waith yn rhoi mwy o ffocws ar wella sgiliau a hyfforddiant er mwyn sicrhau bod addysg alwedigaethol yn gyfartal—ac mae hyn yn allweddol—â chymwysterau academiaidd, ac yn olaf, mae angen i ni ddatblygu'r gweithlu cryf sydd ei angen arnom yng Nghymru er mwyn diogelu ein dyfodol economaidd.

17:03

Jeff Cuthbert [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm very grateful for the opportunity to speak in this important debate today. I introduced Jobs Growth Wales when I was Deputy Minister for Skills, and I firmly believe that, despite the negativity shown by some members of the opposition this afternoon, it has been an outstanding success. Jobs Growth Wales was a 2011 Welsh Labour manifesto commitment that then formed a key part of our programme for government, on which we are delivering in Wales. It's an innovative package, deliberately put together, in part, to replace Labour's successful Future Jobs fund, which was so misguidedly scrapped by the UK coalition Government in 2010, with nothing put in its place.

Rwy'n ddiolchgar iawn am y cyfle i siarad yn y ddatl bwysig hon heddiw. Cyflwynais fenter Twf Swyddi Cymru pan oeddwn yn Ddirprwy Weinidog Sgiliau, ac rwy'n credu'n gryf, er gwaethaf yr agwedd negyddol a ddangoswyd gan rai aelodau o'r gwrthbleidiau y prynhawn yma, ei fod wedi bod yn llwyddiant ysgubol. Un o ymrwymadau manifesto Llafur Cymru 2011 oedd Twf Swyddi Cymru a daeth yn rhan allweddol wedyn o'n rhaglen lywodraethu sy'n cael ei chyflawni gennym yng Nghymru. Mae'n becyn arloesol, wedi'i roi at ei gilydd yn fwriadol, yn rhannol i gymryd lle cronfa Swyddi'r Dyfodol, cynllun llwyddiannus gan Lafur a gafodd ei ddileu mor gyfeiliornus gan Lywodraeth glymblaid y DU yn 2010, heb i ddim gael ei osod yn ei le.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Deputy Llywydd, since its launch in 2012, Jobs Growth Wales has helped just under 15,000 young people aged between 16 and 24 to find work. Over 1,200 of these have been in the Caerphilly county borough alone, and many of the young people benefitting have been my constituents or employers based in my constituency who have benefitted from the scheme. During my time as the Deputy Minister, and as a constituency AM, I have lost count of the number of times that I have met a young person or an employer who has only had good things to say about Jobs Growth Wales. Indeed, I suspect the underlying reason that the Welsh Liberal Democrats have tabled this debate today is because they don't like the fact that a Welsh Government scheme to tackle youth unemployment and help businesses grow has exceeded its targets and been so successful.

Now, as I have just said, the overarching aim of Jobs Growth Wales was to help tackle the scourge of youth unemployment and to make a crucial intervention in the labour market, one in which job-ready young people, as it was always designed for, who lack that crucial bit of work experience and often feel unfairly marginalised—. And the Future Jobs fund had made a good start on this. Indeed, a report for the Department for Work and Pensions, published in 2012, said that the UK taxpayer had been a net beneficiary of the scheme because it produced and increased tax take from young people being in work. Jobs Growth Wales has sought to make improvements and build on this for young people in Wales.

Tackling youth unemployment is not its only aim. It is also about improving the workplace skills of young people and giving them crucial work experience, which many find the barrier to employment. It is also about helping businesses to grow. If I could say to William Graham—if your amendment was a stand-alone motion, I would have had no difficulty in voting for it. But, of course, that is not the case.

I, too, have read the interim evaluation report that was published for the Welsh Government and which was referred to in the Welsh Lib Dems' motion today. It was a helpful and constructive report in the main, which made many important points. It did, indeed, raise a number of areas of concern, which I have every confidence that the Welsh Government will address when the successor scheme is rolled out. However, there were a great number of caveats attached to the interim report's conclusions and indeed many positive points made by the report that the Welsh Liberal Democrats unfortunately have today conveniently ignored. On balance, the scheme has been much more of a success.

Ddirprwy Lywydd, ers ei lansio yn 2012, mae Twf Swyddi Cymru wedi helpu ychydig o dan 15,000 o bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed i gael gwaith. Roedd dros 1,200 o'r rhain ym mwrdeistref sirol Caerffili, ac roedd llawer o'r bobl ifanc a elwodd o'r cynllun yn etholwyr neu'n gyflogwyr yn fy etholaeth. Yn ystod fy nghyfnod fel y Dirprwy Weinidog, ac fel AC dros fy etholaeth, rwyf wedi colli cyfrif ar y nifer o weithiau rwyf wedi cyfarfod â pherson ifanc neu gyflogwr â dim ond pethau da ganddynt i'w dweud am Twf Swyddi Cymru. Yn wir, rwy'n amau mai'r gwir reswm pam y cyflwynodd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru y ddatl hon heddiw yw oherwydd nad ydynt yn hoffi'r ffaith fod cynllun Llywodraeth Cymru sy'n mynd i'r afael â diweithdra ymhlith pobl ifanc ac yn helpu busnesau i dyfu wedi rhagori ar ei dargedau ac wedi profi'r fath lwyddiant.

Nawr, fel rwyf newydd ei ddweud, nod trosfwaol Twf Swyddi Cymru oedd mynd i'r afael â phla diweithdra ymhlith pobl ifanc ac i sicrhau ymyriad hollbwysig yn y farchnad lafur, un y gallai pobl ifanc parod at waith, fel y cynlluniwyd iddo fod bob amser, sy'n brin o'r tamaid bach hanfodol hwnnw o brofiad gwaith ac sy'n aml yn teimlo eu bod wedi'u hymleiddio'n annheg—. Ac roedd cronfa Swyddi'r Dyfodol wedi dechrau'n dda ar y gwaith. Yn wir, dywedodd adroddiad gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, a gyhoeddwyd yn 2012, fod trethdalwyr y DU wedi gwneud elw net ar y cynllun gan ei fod wedi cynhyrchu a chynyddu swm y dreth drwy sicrhau gwaith i bobl ifanc. Mae Twf Swyddi Cymru wedi ceisio gwneud gwelliannau ac adeiladu ar hyn ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru.

Nid mynd i'r afael â diweithdra ymysg pobl ifanc yw ei unig nod. Mae hefyd yn ymwneud â gwella sgiliau pobl ifanc yn y gweithle a rhoi profiad gwaith hanfodol iddynt, sy'n cael ei weld gan lawer yn rhwystr i gyflogaeth. Mae hefyd yn ymwneud â helpu busnesau i dyfu. Pe gallwn ddweud wrth William Graham—pe bai eich gwelliant yn gynnig ar ei ben ei hun, ni fyddwn wedi cael unrhyw anhawster i bleidleisio drosto. Ond wrth gwrs, nid yw hynny'n wir.

Rwyf innau hefyd wedi darllen yr adroddiad gwerthuso interim a gyhoeddwyd ar gyfer Llywodraeth Cymru ac y cyfeiriwyd ato yng nghynnig Democratiaid Rhyddfrydol Cymru heddiw. Roedd yn adroddiad defnyddiol ac adeiladol ar y cyfan, a gwnaeth lawer o bwyntiau pwysig. Yn wir, crybwyllai nifer o feysydd a oedd yn peri pryder, ac rwy'n ffyddiog y bydd Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â hwy pan fydd y cynllun olynol yn cael ei gyflwyno. Fodd bynnag, roedd nifer fawr o gafeatau ynghlwm wrth gasgliadau'r adroddiad interim, ac yn wir gwnaed llawer o bwyntiau cadarnhaol yn yr adroddiad a anwybyddwyd yn gyfleus iawn gan y Democratiaid Rhyddfrydol heddiw, gwaetha'r modd. At ei gilydd, mae'r cynllun wedi bod yn llawer mwy o lwyddiant.

So, to conclude, Deputy Llywydd, I reiterate my support for Jobs Growth Wales and I look forward to welcoming the successor scheme that will be introduced by the Welsh Government. And, of course, a new scheme will take account of things that have been learnt from the old scheme and any changed circumstances in terms of the Welsh economy and its needs. The scheme has not been scrapped, as some misleading media reports have suggested. The European funding element of the scheme did come to its natural conclusion, and that was always anticipated. I know that plans were put in place to ensure that an equivalent successor scheme would be up and running as soon as possible following this and that there would be no question at all of current scheme participants being affected in any way.

Jobs Growth Wales has been an outstanding success and highlights the importance of European Union membership to Wales. To describe it as 'ineffective', as the motion does, is a blithe and lazy insult to all the young people and employers who have benefitted from this innovative scheme.

Felly, i gloi, Ddirprwy Lywydd, hoffwn ailadrodd fy nghefnogaeth i Twf Swyddi Cymru ac rwy'n edrych ymlaen at groesawu'r cynllun olynol a fydd yn cael ei gyflwyno gan Lywodraeth Cymru. Ac wrth gwrs, bydd cynllun newydd yn rhoi sylw i wersi a ddysgwyd o'r hen gynllun ac unrhyw amgylchiadau sydd wedi newid o ran economi Cymru a'i hanghenion. Nid yw'r cynllun wedi ei ddiddymu, fel y mae rhai adroddiadau camarweiniol yn y cyfryngau wedi awgrymu. Mae elfen gyllid Ewropeaidd y cynllun yn dod i ben yn naturiol, a dyna oedd y disgwyl bob amser. Gwn fod cynlluniau wedi eu rhoi ar waith i sicrhau y byddai cynllun olynol cyfatebol yn weithredol cyn gynted ag y bo modd yn dilyn hyn ac na fyddai cyfranogwyr presennol y cynllun yn cael eu heffeithio mewn unrhyw ffordd o gwbl.

Mae Twf Swyddi Cymru wedi bod yn llwyddiant ysgubol ac mae'n tynnu sylw at bwysigrwydd aelodaeth Cymru o'r Undeb Ewropeaidd. Mae ei ddisgrifio fel cynllun 'aneffeithiol', fel y mae'r cynnig yn ei wneud, yn sarhad difeddwl a diog ar yr holl bobl ifanc a chyflogwyr sydd wedi elwa o'r cynllun arloesol hwn.

17:08 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg, Julie James.

I call on the Deputy Minister for Skills and Technology, Julie James.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:08 **Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg / The Deputy Minister for Skills and Technology

Thank you, Deputy Presiding Officer. I welcome the opportunity to speak about Jobs Growth Wales in the Chamber today as I always welcome the opportunity to speak about Jobs Growth Wales because, let there be no mistake, it is now and always has been one of the most successful jobs growth programmes that we've delivered here in Wales, that's been delivered in Britain, and has been delivered right across Europe.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Croesawaf y cyfle i siarad am Twf Swyddi Cymru yn y Siambr heddiw gan fy mod bob amser yn croesawu'r cyfle i siarad am Twf Swyddi Cymru, oherwydd, na foed unrhyw gamgymeriad, y mae yn awr ac y mae bob amser wedi bod yn un o'r rhaglenni twf swyddi mwyaf llwyddiannus a gyflwynwyd gennym yma yng Nghymru, a gyflwynwyd ym Mhrydain, ac a gyflwynwyd ledled Ewrop.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I have to say that I read the motion from the Liberal Democrats today with some amusement. The expression 'flogging a dead horse' did come to mind. I think it's worth reiterating that the scheme is simply closed to new applicants because it has come to the end of its European funding envelope. We are working on a successor scheme. Clearly, the successor scheme will not be a like-for-like replacement. The scheme was born of its age, in a recession, where we were in deep difficulty, where the coalition Government—I reiterate my previous remarks from last week—a heartless Government determined to grind people into poverty, had no respect whatsoever for the numbers of young people whose hopes, dreams and futures were going to be removed by such things as the removal of the Future Jobs programme. This programme stepped into that breach.

Mae'n rhaid i mi ddweud fy mod wedi darllen y cynnig gan y Democratiaid Rhyddfrydol heddiw gyda pheth difyrrwch. Mae'r ymadrodd 'fflangellu ceffyl marw' yn dod i'r meddwl. Rwy'n credu ei bod yn werth ailadrodd y ffaith fod y cynllun wedi cael ei gau i ymgeiswyr newydd yn syml am ei fod wedi dod i ddiwedd ei gyfnod cyllido Ewropeaidd. Rydym yn gweithio ar gynllun olynol. Yn amlwg, ni fydd y cynllun olynol yn gynllun tebyg am debyg i gymryd ei le. Cafodd y cynllun ei eni yn ei gyfnod, mewn dirwasgiad, pan oeddem mewn trafferthion mawr, pan oedd y Llywodraeth glymblaid—rwy'n ailadrodd fy sylwadau yr wythnos diwethaf—Llywodraeth heb galon a oedd yn benderfynol o wthio pobl i mewn i dlodi, heb unrhyw barch o gwbl i'r niferoedd o bobl ifanc y byddai eu gobeithion, eu breuddwydion a'u dyfodol yn cael eu dileu drwy bethau fel cael gwared ar y rhaglen Swyddi'r Dyfodol. Camodd y rhaglen hon i'r adwy honno.

17:09 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm grateful to the Deputy Minister. The one thing I don't understand about her explanation of events so far is why it wasn't possible for the Government, which had the evaluation over a year ago, and knew that the funding was going to come to an end seven years ago, to simply seamlessly move from one programme to another.

Rwy'n ddiolchgar i'r Dirprwy Weinidog. Yr un peth nad wyf yn ei ddeall am ei hesboniad o'r digwyddiadau hyd yn hyn yw pam nad oedd yn bosibl i'r Llywodraeth symud yn syml a di-dor o un rhaglen i'r llall gan ei bod wedi cynnal gwerthusiad dros flwyddyn yn ôl, ac yn gwybod bod yr arian yn mynd i ddod i ben saith mlynedd yn ôl.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Julie James [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'll come on to that. I take the point, and I will come on to that.

I cannot emphasise enough the crucial role that Jobs Growth Wales has played in supporting those young people to gain employment. Youth unemployment has been the scourge of Europe. It has been the scourge of Britain, and has been the scourge of Wales in times past, and we were just not prepared to stand by and let that continue unabated.

I'm afraid that the submission from the Liberal Democrats in opening the debate displays a serious and fundamental lack of understanding about the ways that European funding works, which is a bit worrying. I'm obliged to say that William Powell, I thought, had a real cheek in giving a party-political broadcast and then saying that the recent welcome announcements about apprenticeships might fall into that category. I'm simply not prepared to put up with that, really.

I just want to reiterate that this programme is very much open for business. The First Minister has confirmed the position, and we are completely committed to continuing a successor scheme that is fit for purpose and that continues to develop our young people today.

A couple of very serious points were also made, and some of them were couched as questions, so I'll try and cover some of those. Of course some people go on to apprenticeships from this scheme. This scheme is an entry-grade job scheme. People are not trapped on low wages, because it only lasts for six months. So, if you think six months is a trap—

Dof at hynny. Rwy'n derbyn y pwynt, a byddaf yn dod at hynny.

Ni allaf bwysleisio digon y rhan hanfodol y mae Twf Swyddi Cymru wedi ei chwarae yn cefnogi pobl ifanc i gael gwaith. Mae diweithdra ymysg pobl ifanc wedi bod yn bla ar Ewrop. Mae wedi bod yn bla ar Brydain, ac mae wedi bod yn bla ar Gymru yn y gorffennol, ac nid oeddem yn barod i sefyll o'r neilltu a gadael i hynny barhau heb ei herio.

Rwy'n ofni bod y cyflwyniad gan y Democratiaid Rhyddfrydol wrth agor y ddaid yn dangos diffyg dealltwriaeth difrifol a sylfaenol ynglŷn â'r ffordd y mae cyllid Ewropeaidd yn gweithio, sy'n peri peth pryder. Rwy'n teimlo rheidrydd i ddweud bod William Powell, rwy'n meddwl, ag wyneb i roi darllediad gwleidyddol i ni a dweud wedyn y gallai'r cyhoeddiadau diweddar sydd i'w croesawu am brentisiaethau ddisgyn i'r categori hwnnw. Yn syml iawn, nid wyf yn barod i oddef hynny, mewn gwirionedd.

Rwyf am ailadrodd bod y rhaglen hon yn bendant iawn ar agor i fusnes. Mae'r Prif Weinidog wedi cadarnhau'r sefyllfa, ac rydym yn gwbl ymrwymedig i barhau â chynllun olynol sy'n addas at y diben ac sy'n parhau i ddatblygu ein pobl ifanc heddiw.

Hefyd, cafodd cwpl o bwyntiau difrifol iawn eu gwneud, ac mae rhai ohonynt wedi'u geirio ar ffurf cwestiynau, felly fe geisiaf ymdrin â rhai o'r rheini. Wrth gwrs mae rhai pobl yn symud ymlaen i brentisiaethau o'r cynllun hwn. Cynllun swyddi gradd mynediad yw'r cynllun hwn. Nid yw pobl yn cael eu caethiwo ar gyflogau isel, gan nad yw ond yn para am chwe mis. Felly, os ydych yn meddwl bod chwe mis yn gaethiwed—

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will the Deputy Minister give way?

A wnaiff y Dirprwy Weinidog ildio?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Julie James [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will.

Gwnaf.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. The evaluation report suggested that the young people who had completed a placement, when they came out the other side were still trapped on a low wage, at only 76 per cent of the average for those of their age group. Is that not entrenching low wages?

Diolch yn fawr. Awgrymodd yr adroddiad gwerthuso fod y bobl ifanc a oedd wedi cwblhau lleoliad ac wedi dod allan yr ochr arall yn dal yn gaeth ar gyflog isel, sef 76 y cant yn unig o'r cyfartaledd ar gyfer eu grŵp oedran. Onid gwreiddio cyflogau isel yw hynny?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Julie James [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

No, I don't think it is, because what they're doing is taking an average across the whole range of people under 24 and then comparing it to a six-month placement. It's an interim evaluation. It said a lot of other good things; unfortunately I don't have time to reiterate them all today, or the Deputy Presiding Officer will be telling me off for going over my time, as he often does.

Na, nid wyf yn credu hynny, oherwydd yr hyn y maent yn ei wneud yw cymryd cyfartaledd ar draws yr ystod gyfan o bobl o dan 24 oed a'i gymharu â lleoliad gwaith chwe mis. Gwerthusiad interim yw hwn. Roedd yn dweud llawer o bethau da eraill; yn anffodus, nid oes gennyf amser i'w hailadrodd i gyd heddiw, neu bydd y Dirprwy Lywydd yn fy ngheryddu am fynd dros fy amser, fel y mae'n aml yn ei wneud.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

I want to highlight also that a number of Members made really positive remarks. I thought that Jeff Cuthbert's spirited defence today was well worth listening to. He's right to be proud of introducing this scheme, he's right to be proud of the scheme, and he's right to emphasise its real impact in his constituency and right across Wales.

Jenny Rathbone highlighted some excellent examples of employers and young people who've had a really good time on this scheme. Everywhere I go in Wales, right across every constituency and region that Members here today represent, I meet with employers who are falling over themselves to tell me what a great scheme this is, with young people who are delighted to have been part of the scheme, who tell me repeatedly that their lives have been fundamentally changed for the better because of it, and I am totally proud to be associated with that scheme and its growth. So, I am absolutely not putting up with any idea that this scheme has not been worth it. It's just not so.

The point I want to make about the continuing programme, though, is that the economic situation is changing. The funding envelope for ESF is also changing. The criteria against which the programmes are developed have changed quite radically. So, the answer to why we can't just have a transitional scheme that carries on is because it needs to be redesigned. Yes, of course we knew when the funding envelope would change, but we didn't know the detailed criteria of what that change would be. The programme is very much open for business. Three hundred or so joined it in March, 300 or so joined it in February; they will continue to be funded right through to September. So, the envelope continues. In the meantime, we work up against the new ESF criteria the scheme that is fit for now. I'm very proud to be doing that and I make no bones about the fact that we've done it that way. It isn't a secret. We haven't announced it because it's not a big deal; it isn't any kind of story. It's just business as usual, and I think people really need to understand that that is how the funding schemes work.

This scheme was designed to prevent long-term unemployment by helping young people secure a job that would lead to sustainable employment for them in their chosen career. Of course they make multiple applications, because many young people actually still don't quite know what they want to do. They know the area, but they don't quite know what they want to do. Also, of course, they want to maximise their opportunity of getting onto the scheme, so of course they make multiple applications. Any one of us here would advise a young person to do that. Happily, we have many employers who want to offer them those opportunities.

Rwyf am bwysleisio hefyd fod nifer o Aelodau wedi gwneud sylwadau cadarnhaol iawn. Roeddwn i'n meddwl bod amddiffyniad ysbrydoledig Jeff Cuthbert heddiw yn werth ei glywed. Mae'n iawn i fod yn falch ei fod wedi cyflwyno'r cynllun hwn, mae'n iawn i fod yn falch o'r cynllun, ac mae'n iawn i bwysleisio ei effaith wirioneddol yn ei etholaeth ac ar draws Cymru.

Amlygodd Jenny Rathbone rai enghreifftiau gwych o gyflogwyr a phobl ifanc sydd wedi cael amser da iawn ar y cynllun hwn. Ym mhob man rwy'n mynd yng Nghymru, ar draws pob etholaeth a rhanbarth y mae'r Aelodau yma heddiw yn eu cynrychioli, byddaf yn cwrrd â chyflogwyr sy'n baglu dros ei gilydd i ddweud wrthyf pa mor wych yw'r cynllun hwn, gyda phobl ifanc wrth eu bodd yn cael bod yn rhan o'r cynllun, ac sy'n dweud wrthyf dro ar ôl tro fod eu bywydau wedi cael eu newid yn sylfaenol er gwell o'i herwydd, ac rwy'n falch dros ben o fod yn gysylltiedig â'r cynllun a'i dwf. Felly, yn bendant nid wyf yn mynd i oddef unrhyw syniad nad yw'r cynllun hwn wedi bod yn werth chweil. Yn syml iawn, nid yw hynny'n wir.

Y pwynt rwyf am ei wneud ynglŷn â'r rhaglen barhaus, fodd bynnag, yw bod y sefyllfa economaidd yn newid. Mae'r amlen ariannu ar gyfer Cronfa Gymdeithasol Ewrop hefyd yn newid. Mae'r meini prawf ar gyfer datblygu'r rhaglenni wedi newid yn eithaf radical. Felly, yr ateb i'r cwestiwn pam na allwn gael cynllun trosiannol sy'n parhau yw bod angen ei ailgynllunio. Wrth gwrs ein bod yn gwybod pa bryd y byddai'r amlen ariannu yn newid, ond nid oeddem yn gwybod beth fyddai'r meini prawf manwl o ran y newid hwnnw. Mae'r rhaglen yn bendant ar agor i fusnes. Ymunodd 300 neu fwy â hi ym mis Mawrth, ymunodd 300 neu fwy â hi ym mis Chwefror; byddant yn parhau i gael eu hariannu hyd at fis Medi. Felly, mae'r amlen yn parhau. Yn y cyfamser, rydym yn gweithio yn ôl meini prawf ESF newydd y cynllun sy'n addas am y tro. Rwy'n falch iawn o wneud hynny ac nid wyf yn cuddio'r ffaith mai felly rydym wedi ei wneud. Nid yw'n gyfrinach. Nid ydym wedi ei gyhoeddi am nad yw'n fater o bwys; nid yw'n stori o fath yn y byd. Busnes fel arfer yw hyn, ac rwy'n credu bod gwir angen i bobl ddeall mai dyna sut y mae'r cynlluniau ariannu yn gweithio.

Mae'r cynllun hwn wedi'i lunio i atal diweithdra hirdymor drwy helpu pobl ifanc i gael swydd a fyddai'n arwain at gyflogaeth gynaliadwy iddynt mewn gyrfa o'u dewis. Wrth gwrs, byddant yn gwneud ceisiadau lluosog, gan fod llawer o bobl ifanc mewn gwirionedd nad ydynt yn gwybod yn iawn beth y maent am ei wneud. Maent yn gwybod yn fras, ond nid ydynt yn gwybod yn union beth y maent am ei wneud. Hefyd, wrth gwrs, maent yn awyddus i wneud y gorau o'u cyfle i gael eu derbyn ar y cynllun, felly maent yn gwneud ceisiadau lluosog wrth gwrs. Byddai unrhyw un ohonom yma yn cyngori person ifanc i wneud hynny. Yn ffodus, mae gennym lawer o gyflogwyr sydd am gynnig y cyfleoedd hynny iddynt.

So, yes, we sometimes have openings in Jobs Growth Wales that are not immediately filled. That's the other point that I want to make here today, because this scheme is about just getting your first foot onto that ladder. So, I am delighted when those people go on to apprenticeships, because apprenticeships, of course, are at all levels and they're about training on the job. So, of course that's a positive progression. The idea that it isn't is just a nonsense. So, many of the young people I've met have had, for the first time in their lives, the opportunity to work somewhere, to understand what that looks like, to assist the business in real terms to grow and understand—

Felly, oes, weithiau mae gennym gyfleoedd yn Twf Swyddi Cymru nad ydynt yn cael eu llenwi ar unwaith. Dyna'r pwynt arall rwyf am ei wneud yma heddiw, oherwydd mae'r cynllun hwn yn ymwneud â chael eich troed gyntaf ar yr ysgol. Felly, rwyf wrth fy modd pan fydd y bobl hynny yn mynd ymlaen i brentisiaethau, oherwydd mae prentisiaethau i'w cael ar bob lefel, wrth gwrs, ac maent yn ymwneud â hyfforddiant seiliedig ar waith. Felly, wrth gwrs mae hwnnw'n ddilyniant cadarnhaol. Mae'r syniad nad yw yn nonsens. Felly, mae llawer o'r bobl ifanc y cyfarfûm â hwy wedi cael cyfle, am y tro cyntaf yn eu bywydau, i weithio yn rhywle, i ddeall sut beth yw hynny, i gynorthwyo'r busnes mewn termau real i dyfu ac i ddeall—

17:15 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Do you also agree with me that there seems to be a lack of understanding of the role of apprenticeships, which have, of course, an employed status? So, any young person going on to an apprenticeship is, in effect, an employee.

A ydych hefyd yn cytuno ei bod yn ymddangos bod yna ddiffyg dealltwriaeth o rôl prentisiaethau, sydd â statws cyflogedig wrth gwrs? Felly, bydd unrhyw berson ifanc sy'n mynd ymlaen i brentisiaeth, i bob pwrpas, yn gyflogedig.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:15 **Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Absolutely; that's a point very well made.

Yn hollol; dyna bwynt da iawn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

So, many of them have moved on to better job opportunities, as I was saying. Their participation demonstrates the vital role the programme plays for them and their ability to develop that rewarding career. Many Members here today have talked about the need to have skills growth in high-tech areas and so on, and, of course, people continue to need training on the job for those sorts of careers. But, Jobs Growth Wales is not there to fulfil that. It's there to fulfil the step on the first rung for a large number of these young people. That's what it's there for. That's what it's done. That's why it's successful. That's why we're proud of it.

Felly, mae llawer ohonynt wedi symud ymlaen at well cyfleoedd gwaith, fel roeddwn yn ei ddweud. Mae eu cyfranogiad yn dangos y rôl hanfodol y mae'r rhaglen yn ei chwarae iddynt hwy a'u gallu i ddatblygu gyrfa gwerth chweil o'r fath. Mae llawer o Aelodau yma heddiw wedi sôn am yr angen i gael twf sgiliau mewn meysydd uwch-dechnoleg ac yn y blaen, ac wrth gwrs, mae pobl yn parhau i fod angen hyfforddiant seiliedig ar waith ar gyfer y mathau hynny o yrfaoedd. Ond nid yw Twf Swyddi Cymru yno i gyflawni hynny. Mae yno i gyflawni'r cam ar ris cyntaf yr ysgol i nifer fawr o'r bobl ifanc hyn. Dyna pam y mae'n bodoli. Dyna beth y mae wedi ei wneud. Dyna pam ei fod yn llwyddiannus. Dyna pam rydym yn falch ohono.

Turning to Aled Roberts's views on older workers, which he also raised in last week's debate, I don't have the time here to answer many of your questions, Aled. I understand where you're coming from and, of course, I share your concerns, but as I said last week—it takes reiterating one more time—most of our programmes are for all ages; only some of them are targeted at particular cohorts. This programme is unashamedly targeted at young people because not having a job at the beginning of your career actually affects your life chances for all the rest of your life, and we know that.

Gan droi at sylwadau Aled Roberts ynglŷn â gweithwyr hŷn, a godwyd ganddo hefyd yn y ddaidl yr wythnos diwethaf, nid oes gennyf amser yma i ateb llawer o'ch cwestiynau, Aled. Rwy'n deall beth rydych yn ei ddweud ac rwy'n rhannu eich pryderon, wrth gwrs, ond fel y dywedais yr wythnos diwethaf—mae angen ei ailadrodd unwaith eto—mae'r rhan fwyaf o'n rhaglenni ar gyfer pob oedran; rhai ohonynt yn unig sy'n cael eu targedu at garfannau penodol. Mae'r rhaglen hon wedi'i thargedu'n ddedifaf at bobl ifanc gan fod peidio â chael swydd ar ddechrau eich gyrfa yn effeithio ar eich cyfleoedd bywyd dros weddill eich oes i gyd mewn gwirionedd, fe wyddom hynny.

It's often said, and Eluned Parrott drew attention to it, that many of these young people would have got a job anyway. What the interim evaluation didn't tell you is how long it would've taken them to get that job and what kind of job it would've been. We know that, for every week of unemployment, a young person loses confidence and, actually, earning power for the rest of their lives. So, again, I make no bones about the fact that I am proud that this scheme is there.

Mae wedi ei ddweud yn aml, a thynnodd Eluned Parrott sylw at yr honiad y byddai llawer o'r bobl ifanc hyn wedi cael swydd beth bynnag. Yr hyn na ddywedodd y gwerthusiad interim wrthyh yw pa mor hir y byddai wedi ei gymryd iddynt gael y swydd honno a pha fath o swydd fyddai hi. Am bob wythnos y bydd yn ddi-waith, gwyddom fod person ifanc yn colli hyder ac mewn gwirionedd, yn colli gallu i ennill am weddill ei oes. Felly, unwaith eto, nid wyf am guddio'r ffaith fy mod yn falch fod y cynllun yn bodoli.

17:17 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Conclude now.

Gorffennwch yn awr.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:17	Julie James Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>So, in conclusion, this scheme is alive and well and kicking. We are working hard on its suitable successor. I want to reiterate its success and I want to be grateful to the employers and young people who have been such a marvellous part of making it the success it is today. Thank you.</p>	<p>Felly, i gloi, mae'r cynllun hwn yn fyw ac yn iach ac yn llawn egni. Rydym yn gweithio'n galed ar olynydd addas iddo. Rwyf am ailadrodd ei lwyddiant ac rwyf am ddiolch i'r cyflogwyr a'r bobl ifanc sydd wedi bod yn rhan mor wych o'i wneud yn gymaint o lwyddiant ag y mae heddiw. Diolch yn fawr.</p>
17:17	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Galwaf ar Peter Black i ymateb i'r ddadl.</p>	<p>I call Peter Black to respond to the debate.</p>
17:17	Peter Black Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Thank you, Deputy Presiding Officer. The Welsh Liberal Democrats tabled this motion today to highlight our belief that, in order to achieve sustainable prosperity, we need to invest in a strong skills base and a diverse workforce. Certainly, when Eluned Parrott outlined the opening statement on this and questioned why a new scheme is not yet in place to replace Jobs Growth Wales, and why we haven't had a statement on it, she certainly also underlined that particular point.</p>	<p>Diolch, Ddirprwy Lywydd. Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi cyflwyno'r cynnig hwn heddiw i dynnu sylw at ein cred fod angen i ni fuddsoddi mewn sylfaen sgiliau gref a gweithlu amrywiol er mwyn cyflawni ffyniant cynaliadwy. Yn sicr, pan amlinellodd Eluned Parrott y datganiad agoriadol ar hyn a holi pam nad oes cynllun newydd ar waith eto i gymryd lle Twf Swyddi Cymru, a pham nad ydym wedi cael datganiad yn ei glych, yn sicr fe danlinellodd hithau hefyd y pwynt penodol hwnnw.</p>
	<p>Jobs Growth Wales is not an unqualified success. As Eluned said, it is much more nuanced than that. I think that she outlined a number of the statistics to underline that point. Twenty five per cent of those who started a placement have dropped out, 46 per cent of those who completed a placement went on to another placement and 25 per cent of those who completed a six-month placement on the scheme went into an apprenticeship, further education or training. Eluned cited evidence of young people being let go at the end of their placement with the job being re-advertised through Jobs Growth Wales. So, clearly, I think there are serious question marks about some of the way that the scheme is being operated, or was operated until it ceased operating a few weeks ago.</p>	<p>Nid yw Twf Swyddi Cymru yn llwyddiant diamod. Fel y dywedodd Eluned, mae'n llawer mwy dyrys na hynny. Rwy'n meddwl ei bod wedi amlinellu nifer o ystadegau i danlinellu'r pwynt hwnnw. Mae 25 y cant o'r rhai a ddechreuodd ar leoliad gwaith wedi rhoi'r gorau iddi, aeth 46 y cant o'r rhai a gwblhaodd leoliad gwaith ymlaen i leoliad arall ac aeth 25 y cant o'r rhai a gwblhaodd leoliad gwaith chwe mis ar y cynllun ymlaen i brentisiaeth, addysg bellach neu hyfforddiant. Nododd Eluned dystiolaeth fod pobl ifanc yn cael eu gadael i fynd ar ddiwedd eu lleoliad gyda'r gwaith yn cael ei ail-hysbysebu drwy Twf Swyddi Cymru. Felly, yn amlwg, rwy'n meddwl bod cwestiynau difrifol i'w gofyn ynglŷn â sut y mae'r cynllun yn cael ei weithredu, neu sut y câi ei weithredu hyd nes iddo roi'r gorau i weithredu ychydig wythnosau yn ôl.</p>
	<p>William Graham outlined the record of the UK Government in getting the economy back on track, while Simon Thomas said there was a purpose to the scheme, but the Welsh Government did not learn from their own evaluation. He too is concerned that we've been subsidising posts needlessly and that there is insufficient linkage with the need to develop skills. Simon said that a new scheme needs to be channelled more clearly to the needs of today's economy. This scheme does provide skills but it is not part of the skills agenda more widely. I think, in light of what Simon has outlined, we're happy to support the Plaid Cymru amendment.</p>	<p>Amlinellodd William Graham record Llywodraeth y DU ar gael yr economi yn ôl ar y trywydd iawn, a dywedodd Simon Thomas, fod pwrpas i'r cynllun, ond nad oedd Llywodraeth Cymru yn dysgu gwersi o'u gwerthusiad eu hunain. Mae yntau hefyd yn bryderus ein bod wedi bod yn rhoi cymhorthdal tuag at swyddi yn ddiangen ac nad oes digon o gysylltiad â'r angen i ddatblygu sgiliau. Dywedodd Simon fod angen sianelu cynllun newydd yn gliriach yn ôl anghenion yr economi heddiw. Mae'r cynllun yn darparu sgiliau, ond nid yw'n rhan o'r agenda sgiliau ehangach. Yng ngoleuni'r hyn a amlinellodd Simon, rwy'n credu ein bod yn hapus i gefnogi gwelliant Plaid Cymru.</p>
	<p>Aled Roberts highlighted the needs of those over 50. He called on the Welsh Government to focus European social fund employment schemes on improving skill levels, increasing the needs of apprenticeships and developing work-based training opportunities, while Jenny Rathbone had obviously been reading a different evaluation report to everybody else. William Powell called for apprenticeships to be expanded into new sectors such as low carbon technologies. He said that a like-for-like jobs growth scheme is not the way forward.</p>	<p>Amlygodd Aled Roberts anghenion pobl dros 50 oed. Galwodd ar Lywodraeth Cymru i ganolbwyntio cynlluniau cyflogaeth cronfa gymdeithasol Ewrop ar wella lefelau sgiliau, cynyddu anghenion prentisiaethau a datblygu cyfleoedd hyfforddiant seiliedig ar waith, ac roedd hi'n amlwg fod Jenny Rathbone wedi bod yn darllen adroddiad gwerthuso gwahanol i bawb arall. Galwodd William Powell am ehangu prentisiaethau i gynnwys sectorau newydd fel technolegau carbon isel. Dywedodd nad cynllun twf swyddi tebyg am debyg yw'r ffordd ymlaen.</p>

Jeff Cuthbert—and this was the defence, I think, partly, of the Government—started off by saying that he introduced Jobs Growth Wales and that it was a manifesto commitment, which absolutely it was, Jeff. Jeff said that it replaced the Future Jobs fund which was scrapped by the UK Government, but I think I have to depart in terms of our interpretation here, Jeff, because the Future Jobs fund was replaced. It wasn't working in the first place, and it was replaced by investment in 2 million new apprenticeships in England and the UK, with the possibility, with real training, of a real job at the end. And contrary to what Jeff was saying, we are not raising this motion because we're jealous of the success of Jobs Growth Wales; we are concerned at its failures, and we want to see a better scheme replace it. Jeff said that a new scheme will learn from the problems identified with the old scheme, but didn't say why there's such a hiatus between the two of them.

Dechreuodd Jeff Cuthbert—a dyma amddiffyniad y Llywodraeth yn rhannol, rwy'n meddwl—drwy ddweud mai ef a gyflwynodd Twf Swyddi Cymru a'i fod yn ymrwymiad maniffesto, a oedd yn hollol wir, Jeff. Dywedodd Jeff ei fod wedi cymryd lle cronfa Swyddi'r Dyfodol a gafodd ei dileu gan Lywodraeth y DU, ond rwy'n meddwl bod yn rhaid i mi anghytuno o ran ein dehongliad yma, Jeff, oherwydd cafwyd rhywbeth i gymryd lle cronfa Swyddi'r Dyfodol. Nid oedd yn gweithio yn y lle cyntaf, a chafwyd buddsoddiad mewn 2 filiwn o brentisiaethau newydd yn Lloegr a'r DU i gymryd ei le, gyda'r posibilrwydd, gyda hyfforddiant go iawn, o swydd go iawn ar y diwedd. Ac yn groes i'r hyn a ddywedodd Jeff, nid ydym yn cyflwyno'r cynnig hwn oherwydd ein bod yn genfigennus o lwyddiant Twf Swyddi Cymru; rydym yn pryderu ynglŷn â'i fethiannau, ac rydym am weld cynllun gwell yn cymryd ei le. Dywedodd Jeff y bydd cynllun newydd yn dysgu gwersi o'r problemau a nodwyd gyda'r hen gynllun, ond nid oedd yn dweud pam y mae cymaint o fwch rhyngddynt.

17:20 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Would you like to contrast the success figures of Jobs Growth Wales with the UK Government's Youth Contract, for example? Perhaps you could mention the gap that existed between the ending of the Future Jobs fund and any replacement UK scheme.

A hoffech gyferbynnu ffigurau llwyddiant Twf Swyddi Cymru â Chontract Ieuentid Llywodraeth y DU, er enghraifft? Efallai y gallech grybwyll y bwch a fodolai rhwng diwedd cronfa Swyddi'r Dyfodol ac unrhyw gynllun newydd yn y DU.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:21 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, of course, that scheme deals with different groups of people, Jeff; you can't have a like-for-like comparison. What I would say is that, while the UK Government is investing in 2 million apprenticeships, here we've stopped investing in those over 19 in terms of part-time education and skills, and we've actually reduced the amount of money in apprenticeships. In fact, we've only got an extra 5,000 apprenticeships because of the Welsh Liberal Democrat intervention as part of the budget negotiations.

Wel, wrth gwrs, mae'r cynllun hwnnw'n ymwneud â gwahanol grwpiau o bobl, Jeff; ni allwch gael cymhariaeth debyg am debyg. Er bod Llywodraeth y DU yn buddsoddi mewn 2 filiwn o brentisiaethau, yr hyn a ddywedwn yw ein bod ni yma wedi rhoi'r gorau i fuddsoddi yn y rhai dros 19 o ran addysg ran-amser a sgiliau, ac mewn gwirionedd rydym wedi lleihau faint o arian sy'n mynd at brentisiaethau. Yn wir, yr unig reswm y mae gennym 5,000 o brentisiaethau ychwanegol yw oherwydd ymyrraeth Democratiaid Rhyddfrydol Cymru fel rhan o'r trafodaethau ar y gyllideb.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:21 **Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I wouldn't normally do this, but I will say we have not stopped investing; we have cut the programme. And I think to say we've stopped investing is taking it too far.

Ni fyddwn fel arfer yn gwneud hyn, ond rwy'n mynd i ddweud nad ydym wedi rhoi'r gorau i fuddsoddi; rydym wedi torri'r rhaglen. Ac rwy'n meddwl bod dweud ein bod wedi rhoi'r gorau i fuddsoddi yn mynd â phethau'n rhy bell.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:21 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think a 50 per cent cut in part-time education is quite a big cut, Deputy Minister.

Rwy'n credu bod toriad o 50 y cant mewn addysg ran-amser yn doriad eithaf mawr, Ddirprwy Weinidog.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

In listening to the Deputy Minister's responses, the best I can say in summing up her response is that she's in denial. She seemed to think that a valid criticism made of Jobs Growth Wales was amusing. It is not—it is very serious. And worryingly, the Deputy Minister seemed happy to defend what is clearly a flawed scheme by its own evaluation, even though the Deputy Minister admits that Jobs Growth Wales needs to be redesigned. The Deputy Minister said that it's not a story, but clearly it is a story, and it's a story because everyone is interested in what is going to replace Jobs Growth Wales, and why we have not got that replacement. Okay, I understand about the European funding, but why do we not have a statement on what that replacement is going to look like, which I think is absolutely key?

Yes, the scheme is about getting the first foot on the ladder, as the Deputy Minister said, and the Deputy Minister said that she's delighted that young people go on to an apprenticeship. But, you do not explain, Deputy Minister, why 46 per cent went on to another Jobs Growth Wales scheme. That isn't getting a foot onto the ladder—that is actually going back to where you started in the first place.

In conclusion, Deputy Presiding Officer, it is disappointing that, while the economy across the UK has been recovering, Wales continues to lag behind with an unemployment rate higher than the UK average. Many employers are concerned about the low skill level of workers, which can affect productivity and be a source of competitive disadvantage. Basic skills attainment is 1 per cent lower in Wales than across the UK. Higher skills attainment is 3 per cent lower than across the UK. Wales is the least competitive economy in the UK. We are lagging behind our competitors and cannot afford to be left behind. That is why it is essential that funding for employment and skills is properly focused, and it is why our motion calls for Welsh Government to invest future European funding on skills, apprenticeships and work-based training. Let us learn from what has gone wrong with Jobs Growth Wales, and let us make sure that any future scheme learns those lessons and actually deals with this issue properly. Thank you.

Wrth wrando ar ymatebion y Dirprwy Weinidog, y gorau y gallaf ei ddweud wrth grynhoi ei hymateb yw ei bod hi'n gwadu'r amlwg. Mae'n ymddangos ei bod yn meddwl bod beirniadaeth ddilys o Twf Swyddi Cymru yn ddoniol. Nid yw hynny'n wir—mae'n fater difrifol iawn. A'r hyn sy'n peri pryder yw ei bod yn ymddangos bod y Dirprwy Weinidog yn hapus i amddiffyn yr hyn sy'n amlwg yn gynllun diffygiol yn ôl ei werthusiad ei hun, er bod y Dirprwy Weinidog yn cyfaddef bod angen ailgynllunio Twf Swyddi Cymru. Dywedodd y Dirprwy Weinidog nad yw'n stori, ond mae'n amlwg ei bod yn stori, ac mae'n stori am fod pawb â diddordeb yn yr hyn sy'n mynd i ddod yn lle Twf Swyddi Cymru, a pham nad ydym wedi cael beth bynnag sy'n dod yn ei le. Iawn, rwy'n deall y pwynt am arian Ewropeaidd, ond pam na chawsom ddatganiad am yr hyn a ddaw yn ei le, sy'n hollol allweddol yn fy marn i?

Ydy, mae'r cynllun yn ymwneud â chael y droed gyntaf ar yr ysgol, fel y dywedodd y Dirprwy Weinidog, a dywedodd y Dirprwy Weinidog ei bod yn falch iawn fod pobl ifanc yn mynd ymlaen i brentisiaeth. Ond nid ydych yn esbonio, Ddirprwy Weinidog, pam yr aeth 46 y cant ymlaen i gynllun arall Twf Swyddi Cymru. Nid cael troed ar yr ysgol yw hynny—mynd yn ôl i ble y dechreuoch chi gyntaf yw hynny mewn gwirionedd.

I gloi, Ddirprwy Lywydd, er bod yr economi ar draws y DU wedi bod yn gwella, mae'n siom fod Cymru yn dal i lusgo ar ôl gyda chyfradd ddiweithdra uwch na chyfarfaledd y DU. Mae llawer o gyflogwyr yn pryderu am lefel isel sgiliau gweithwyr, sy'n gallu effeithio ar gynhyrchiant a bod yn ffynhonnell i anfantais gystadleuol. Mae cyrhaeddiad mewn medrau sylfaenol 1 y cant yn is yng Nghymru nag ar draws y DU. Mae cyrhaeddiad mewn medrau uwch 3 y cant yn is nag ar draws y DU. Cymru yw'r economi leiaf cystadleuol yn y DU. Rydym ar ei hôl hi o gymharu â'n cystadleuwyr ac ni allwn fforddio cael ein gadael ar ôl. Dyna pam ei bod yn hanfodol inni ganolbwyntio cyllid yn iawn ar gyflogaeth a sgiliau, a dyna pam y mae ein cynnig yn galw ar Lywodraeth Cymru i fuddsoddi cyllid Ewropeaidd yn y dyfodol ar sgiliau, prentisiaethau a hyfforddiant seiliedig ar waith. Gadewch i ni ddysgu o'r hyn sydd wedi mynd o'i le gyda Twf Swyddi Cymru, a gadewch i ni sicrhau bod unrhyw gynllun yn y dyfodol yn dysgu'r gwersi hynny ac yn mynd i'r afael â'r mater hwn yn briodol. Diolch yn fawr.

17:23

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y cwestiwn yw: a ddylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio? A oes unrhyw wrthwynebiad? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf y bleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? [Objection.] I will defer voting under this item until voting time.

Voting deferred until voting time.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

17:24

6. Cyfnod Pleidleisio

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Voting time now follows. Before I conduct the first vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not, so we'll vote first on the Welsh Conservatives debate.

6. Voting Time

Mae amser pleidleisio yn dilyn yn awr. Cyn i mi gynnal y bleidlais gyntaf, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nac oes, felly byddwn yn pleidleisio yn gyntaf ar ddatl y Ceidwadwyr Cymreig.

Y [Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

I call for a vote on the motion tabled in the name of Paul Davies. If the proposal is not agreed, we will vote on the amendments tabled to the motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 9. There voted against 32. Therefore, the motion without amendment is not agreed, and we will now vote on the amendments.

Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Os na fydd y cynnig yn cael ei dderbyn, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 9 o blaid. Pleidleisiodd 32 yn erbyn. Felly, nid yw'r cynnig heb ei ddiwygio yn cael ei dderbyn, a byddwn yn awr yn pleidleisio ar y gwelliannau.

Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 9, Yn erbyn 32, Ymatal 0.

Motion not agreed: For 9, Against 32, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5747.](#)

[Result of the vote on motion NDM5747.](#)

17:24

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call for a vote on amendment 1 tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 41. There were no votes against. Therefore, amendment 1 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 1 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 41 o blaid. Nid oedd unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Felly, caiff gwelliant 1 ei dderbyn.

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 41, Yn erbyn 0, Ymatal 0.

Amendment agreed: For 41, Against 0, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5747.](#)

[Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5747.](#)

17:24

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call for a vote on amendment 2, tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 40. There were no votes against. Therefore amendment 2 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 2, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 40 o blaid. Nid oedd unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Felly caiff gwelliant 2 ei dderbyn.

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 40, Yn erbyn 0, Ymatal 0.

Amendment agreed: For 40, Against 0, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnig NDM5747.](#)

[Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5747.](#)

17:25

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call for a vote on amendment 3, tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 41. There were no votes against. Therefore amendment 3 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 3, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 41 o blaid. Nid oedd unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Felly caiff gwelliant 3 ei dderbyn.

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 41, Yn erbyn 0, Ymatal 0.

Amendment agreed: For 41, Against 0, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnig NDM5747.](#)

[Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5747.](#)

17:25

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

If amendment 4 is agreed, amendment 5 will be deselected. I call for a vote on amendment 4, tabled in the name of Jane Hutt. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 21. There voted against 20. Therefore amendment 4 is agreed and I deselect amendment 5.

Os derbynir gwelliant 4, bydd gwelliant 5 yn cael ei ddad-ddethol. Galwaf am bleidlais ar welliant 4, a gyflwynwyd yn enw Jane Hutt. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 21 o blaid. Pleidleisiodd 20 yn erbyn. Felly caiff gwelliant 4 ei dderbyn, ac rwy'n dad-ddethol gwelliant 5.

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 21, Yn erbyn 20, Ymatal 0.

Amendment agreed: For 21, Against 20, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnig NDM5747.](#)

[Result of the vote on amendment 4 to motion NDM5747.](#)

Cafodd gwelliant 5 ei ddad-ddethol.

Amendment 5 deselected.

Cynnig NDM5747 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5747 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi pwysigrwydd cefn gwlad Cymru i economi Cymru;
2. Yn croesawu'r cyhoeddiad yng Nghyllideb Llywodraeth y DU 2015 i ymestyn y cyfnod y gall ffermwyr hunangyflogedig nodi eu helw fel cyfartaledd i bum mlynedd o ddwy flynedd at ddibenion treth incwm, gan helpu dros 3,000 o ffermwyr unigol yng Nghymru i gynllunio ar gyfer y dyfodol;
3. Yn cydnabod yr heriau sy'n wynebu'r sector amaethyddol yng Nghymru;
4. Yn croesawu'r ffaith bod cyllid ar gyfer Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru wedi cael ei adfer ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda'r CFFl i sicrhau ateb cynaliadwy hir dymor;
5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i helpu ardaloedd gwledig i ffynnu drwy hyrwyddo ffermio cyfran a chynllunio olyniaeth;
6. Yn cydnabod yr angen i ddatblygu dull penodol i Gymru o ymdrin ag asedau cymunedol, sy'n adlewyrchu anghenion Cymru ac sy'n seiliedig ar ymgynghori eang yng Nghymru;
7. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu amserlen ar gyfer cyflwyno gweddill prosiect Cyflymu Cymru, sy'n effeithio ar fusnesau a thirgolygon mewn cymunedau gwledig; ac
8. Yn gresynu at gau banciau'r stryd fawr yng nghefn gwlad Cymru ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i hwyluso trafodaethau ar fodol bancio cymunedol i sicrhau bod gwasanaethau dros y cownter yn parhau i fod yn hyfyw yng nghefn gwlad Cymru.

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Notes the importance of rural Wales to the Welsh economy;
2. Welcomes the announcement in the 2015 UK Government Budget to extend the period that self-employed farmers can average their profits for income tax purposes from 2 years to 5 years, helping over 3,000 individual farmers in Wales to plan for the future;
3. Recognises the challenges facing the agricultural sector in Wales;
4. Welcomes that funding for Welsh Young Farmers' Clubs has been reinstated and calls on the Welsh Government to work with the YFC to secure a long-term sustainable solution;
5. Calls on the Welsh Government to help rural areas thrive by promoting share farming and succession planning;
6. Recognises the need to develop a Welsh-specific approach to community assets that reflects Welsh needs and is based on wide consultation in Wales;
7. Calls on the Welsh Government to provide a timetable for the rollout of the remainder of the Superfast Cymru project, which is affecting businesses and residents in rural communities; and
8. Regrets the closure of high street banks in rural Wales and calls on the Welsh Government to facilitate discussions on a community banking model to ensure that over-the-counter services continue to be viable in rural Wales.

17:26

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I now call for a vote on the motion as amended. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 41. There were no votes against. Therefore, the motion as amended is agreed.

Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd: O blaid 41, Yn erbyn 0, Ymatal 0.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5747 fel y'i diwygiwyd.](#)

Galwaf yn awr am bleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 41 o blaid. Nid oedd unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Felly, caiff y cynnig fel y'i diwygiwyd ei dderbyn.

Motion as amended agreed: For 41, Against 0, Abstain 0.

[Result of the vote on motion NDM5747 as amended.](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:26

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We now move to the Welsh Liberal Democrats debate, and I call for a vote on the motion tabled in the name of Aled Roberts. If the proposal is not agreed, we will vote on the amendments tabled to the motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour four. There voted against 37. Therefore, the motion without amendment is not agreed and we will now vote on the amendments.

Symudwn yn awr at ddadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, a galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Os na fydd y cynnig yn cael ei dderbyn, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 4 o blaid. Pleidleisiodd 37 yn erbyn. Felly, nid yw'r cynnig heb ei ddiwygio yn cael ei dderbyn, a byddwn yn awr yn pleidleisio ar y gwelliannau.

Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 4, Yn erbyn 37, Ymatal 0.

Motion not agreed: For 4, Against 37, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5746.](#)

[Result of the vote on motion NDM5746.](#)

17:26

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call for a vote on amendment 1, tabled in the name of Paul Davies. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 35. There were seven votes against. Therefore, amendment 1 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 1, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 35 o blaid. Pleidleisiodd 7 yn erbyn. Felly, caiff gwelliant 1 ei dderbyn.

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 35, Yn erbyn 7, Ymatal 0.

Amendment agreed: For 35, Against 7, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5746.](#)

[Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5746.](#)

17:26

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call for a vote on amendment 2, tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 11. There voted against 21. There were nine abstentions. Therefore, amendment 2 is not agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 2, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 11 o blaid. Pleidleisiodd 21 yn erbyn. Roedd 9 yn ymatal. Felly, nid yw gwelliant 2 wedi cael ei dderbyn.

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 11, Yn erbyn 21, Ymatal 9.

Amendment not agreed: For 11, Against 21, Abstain 9.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnig NDM5746.](#)

[Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5746.](#)

Cynnig NDM5746 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5746 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn cydnabod bod economi Deyrnas Unedig gref:

1. Acknowledges that a strong UK economy:

a) yn creu'r amodau ar gyfer twf o ran cyfleoedd swydd i'n pobl ifanc;

a) creates the conditions for growth in job opportunities for our young people;

b) yn herio ysgolion, sefydliadau addysg bellach ac uwch, llywodraethau a chyflogwyr i nodi a diwallu sgiliau sydd eu hangen yn y farchnad gyflogaeth sy'n tyfu; ac

b) challenges schools, further and higher education institutions, governments and employers to identify and meet skills required in the growth employment market; and

c) yn caniatáu i entrepreneuriaid ifanc fanteisio ar gyfleoedd sy'n deillio o dwf economaidd.

c) allows young entrepreneurs to seize the opportunities of economic growth.

2. Yn nodi bod cynllun blaenllaw ac aneffeithiol Llywodraeth Cymru, Twf Swyddi Cymru, wedi'i gau yn sydyn, heb unrhyw beth i gymryd ei le.

2. Notes the sudden closure of the Welsh Government's flagship yet ineffective Jobs Growth Wales scheme, without any replacement.

3. Yn nodi bod adroddiad gwerthuso interim 2014 ar Twf Swyddi Cymru wedi canfod:

3. Notes that the 2014 interim evaluation report on Jobs Growth Wales found that:

a) y byddai 73 y cant o bobl ifanc wedi dod o hyd i gyflogaeth heb y cynllun;

b) bod methiannau sylweddol o ran targedu'r bobl ifanc hynny sydd angen help i ddod o hyd i waith fwyaf, ac

c) bod y rhai a oedd yn cymryd rhan yn y cynllun wedi'u cyfyngu i gyflogau isel, gan ennill dim ond 67 y cant o'r cyfartaledd ar gyfer eu grŵp oedran.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ganolbwyntio cynlluniau cyflogaeth Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn y dyfodol ar wella lefelau sgiliau, cynyddu nifer y prentisiaethau a datblygu cyfleoedd hyfforddiant sy'n seiliedig ar waith, a fyddai'n cefnogi pobl ifanc sy'n fwyaf tebygol o wynebu diweithdra hirdymor a rhoi sgiliau a chyfleoedd iddynt a fydd yn helpu i adeiladu economi gryfach i'w galluogi i lwyddo mewn bywyd.

a) 73% of young people would have found employment without the scheme;

b) there were significant failures to target those young people most in need of help to find work; and

c) scheme participants were shown to be trapped on low wages, earning only 67% of the average for their age group.

4. Calls on the Welsh Government to focus future European Social Fund employment schemes on improving skill levels, increasing the number of apprenticeships and developing work-based training opportunities, which would support young people most at risk of long-term unemployment and give them the skills and opportunities to help build a stronger economy to enable them to get on in life.

17:27

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I now call for a vote on the motion as amended. Open the vote. Close vote. There voted in favour 13. There voted against 28. Therefore, the motion as amended is not agreed.

Galwaf yn awr am bleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 13 o blaid. Pleidleisiodd 28 yn erbyn. Felly, nid yw'r cynnig wedi'i ddiwygio yn cael ei dderbyn.

Gwrthodwyd cynnig NDM5746 fel y'i diwygiwyd: O blaid 13, Yn erbyn 28, Ymatal 0.

Motion NDM5746 as amended not agreed: For 13, Against 28, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5746 fel y'i diwygiwyd.](#)

[Result of the vote on motion NDM5746 as amended.](#)

17:27

7. Dadl Fer

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

Item 7 is postponed.

That closes today's proceedings. Thank you.

Daeth y cyfarfod i ben am 17:27.

7. Short Debate

Mae eitem 7 wedi ei gohirio.

Dyna ddiwedd ein trafodion am heddiw. Diolch yn fawr.

The meeting ended at 17:27.

Y Senedd.tv
[Fideo Video](#)